# Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru: Adroddiadau Blynyddol 2024-25

## Cynnwys


**Adroddiad Asesu Blynyddol 2024-25 Blaenau Gwent** ........ 12

Crynodeb gweithredol ........ 12

Nodyn i adroddiad 2024-25 ........ 12

Perfformiad yn erbyn y safonau ........ 13

- Hawliau Craidd ........ 13
- Dangosyddion ansawdd gyda thargedau ........ 13
- Mesurau effaith ........ 14
- Dangosyddion ansawdd a meincnodau ........ 15

Dadansoddiad o berfformiad ........ 16

- Bodloni anghenion cwsmeriaid (DA 1-2, 4-5) ........ 16
- Mynediad a defnydd (DA 6-8) ........ 17
- Arbenigedd a chapasiti (DA 13-14 ac 16) ........ 17

Y cyd-destun strategol ........ 18

Cyfeiriad at y dyfodol ........ 19

Casgliad ........ 20

**Adroddiad Asesu Blynyddol 2024-25 Pen-y-bont ar Ogwr (Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol Awen)** ........ 21

Crynodeb gweithredol ........ 21

Nodyn i adroddiad 2024-25 ........ 22

Perfformiad yn erbyn y safonau ........ 22

- Hawliau Craidd ........ 22
- Dangosyddion ansawdd gyda thargedau ........ 22
- Mesurau effaith ........ 23
- Dangosyddion ansawdd a meincnodau ........ 24

Dadansoddiad o berfformiad ........ 25

- Bodloni anghenion cwsmeriaid (DA 1-2, 4-5) ........ 25
- Mynediad a defnydd (DA 6-8) ........ 26
- Arbenigedd a chapasiti (DA 13-14 ac 16) ........ 26

Y cyd-destun strategol ..... 27
Cyfeiriad at y dyfodol ..... 28
Casgliad ..... 28
**Adroddiad Asesu Blynyddol 2024-25 Caerffili** ..... 29
Crynodeb gweithredol ..... 29
Nodyn i adroddiad 2024-25 ..... 29
Perfformiad yn erbyn y safonau ..... 30
Hawliau Craidd ..... 30
Dangosyddion ansawdd gyda thargedau ..... 30
Mesurau effaith ..... 31
Dangosyddion ansawdd a meincnodau ..... 32
Dadansoddiad o berfformiad ..... 33
Bodloni anghenion cwsmeriaid (DA 1-2, 4-5) ..... 33
Mynediad a defnydd (DA 6-8) ..... 34
Arbenigedd a chapasiti (DA 13-14 ac 16) ..... 35
Y cyd-destun strategol ..... 35
Cyfeiriad at y dyfodol ..... 36
Casgliad ..... 37
**Adroddiad Asesu Blynyddol 2024-25 Caerdydd** ..... 38
Crynodeb gweithredol ..... 38
Nodyn i adroddiad 2024-25 ..... 38
Perfformiad yn erbyn y safonau ..... 39
Hawliau Craidd ..... 39
Dangosyddion ansawdd gyda thargedau ..... 39
Mesurau effaith ..... 40
Dangosyddion ansawdd a meincnodau ..... 41
Dadansoddiad o berfformiad ..... 42
Bodloni anghenion cwsmeriaid (DA 1-2, 4-5) ..... 42
Mynediad a defnydd (DA 6-8) ..... 42
Arbenigedd a chapasiti (DA 13-14 ac 16) ..... 43
Y cyd-destun strategol ..... 44
Cyfeiriad at y dyfodol ..... 44
Casgliad ..... 45

**Adroddiad Asesu Blynyddol 2024-25 Sir Gaerfyrddin** ........ 46
Crynodeb gweithredol ........ 46
Nodyn i adroddiad 2024-25 ........ 46
Perfformiad yn erbyn y safonau ........ 47
Hawliau Craidd ........ 47
Dangosyddion ansawdd gyda thargedau ........ 47
Mesurau effaith ........ 48
Dangosyddion ansawdd a meincnodau ........ 49
Dadansoddiad o berfformiad ........ 50
Bodloni anghenion cwsmeriaid (DA 1-2, 4-5) ........ 50
Mynediad a defnydd (DA 6-8) ........ 50
Arbenigedd a chapasiti (DA 13-14 ac 16) ........ 51
Y cyd-destun strategol ........ 51
Cyfeiriad at y dyfodol ........ 52
Casgliad ........ 53
**Adroddiad Asesu Blynyddol 2024-25 Ceredigion** ........ 54
Crynodeb gweithredol ........ 54
Nodyn i adroddiad 2024-25 ........ 54
Perfformiad yn erbyn y safonau ........ 55
Hawliau Craidd ........ 55
Dangosyddion ansawdd gyda thargedau ........ 55
Mesurau effaith ........ 56
Dangosyddion ansawdd a meincnodau ........ 57
Dadansoddiad o berfformiad ........ 58
Bodloni anghenion cwsmeriaid (DA 1-2, 4-5) ........ 58
Mynediad a defnydd (DA 6-8) ........ 58
Arbenigedd a chapasiti (DA 13-14 ac 16) ........ 59
Y cyd-destun strategol ........ 59
Cyfeiriad at y dyfodol ........ 60
Casgliad ........ 60
**Adroddiad Asesu Blynyddol 2024-25 Conwy** ........ 62
Crynodeb gweithredol ........ 62
Nodyn i adroddiad 2024-25 ........ 62

Perfformiad yn erbyn y safonau ........ 63
Hawliau Craidd ........ 63
Dangosyddion ansawdd gyda thargedau ........ 63
Mesurau effaith ........ 64
Dangosyddion ansawdd a meincnodau ........ 65
Dadansoddiad o berfformiad ........ 66
Bodloni anghenion cwsmeriaid (DA 1-2, 4-5) ........ 66
Mynediad a defnydd (DA 6-8) ........ 66
Arbenigedd a chapasiti (DA 13-14 ac 16) ........ 67
Y cyd-destun strategol ........ 67
Cyfeiriad at y dyfodol ........ 68
Casgliad ........ 69
**Adroddiad Asesu Blynyddol 2024-25 Sir Ddinbych** ........ 70
Crynodeb gweithredol ........ 70
Nodyn i adroddiad 2024-25 ........ 71
Perfformiad yn erbyn y safonau ........ 71
Hawliau Craidd ........ 71
Dangosyddion ansawdd gyda thargedau ........ 73
Mesurau effaith ........ 74
Dangosyddion ansawdd a meincnodau ........ 75
Dadansoddiad o berfformiad ........ 76
Bodloni anghenion cwsmeriaid (DA 1-2, 4-5) ........ 76
Mynediad a defnydd (DA 6-8) ........ 77
Arbenigedd a chapasiti (DA 13-14 ac 16) ........ 77
Y cyd-destun strategol ........ 78
Cyfeiriad at y dyfodol ........ 79
Casgliad ........ 79
**Adroddiad Asesu Blynyddol 2024-25 Sir y Fflint** ........ 80
Crynodeb gweithredol ........ 80
Nodyn i adroddiad 2024-25 ........ 80
Perfformiad yn erbyn y safonau ........ 81
Hawliau Craidd ........ 81
Dangosyddion ansawdd gyda thargedau ........ 81

Mesurau effaith ... 82
Dangosyddion ansawdd a meincnodau ... 83
Dadansoddiad o berfformiad ... 84
Bodloni anghenion cwsmeriaid (DA 1-2, 4-5) ... 84
Mynediad a defnydd (DA 6-8) ... 84
Arbenigedd a chapasiti (DA 13-14 ac 16) ... 85
Y cyd-destun strategol ... 85
Cyfeiriad at y dyfodol ... 86
Casgliad ... 86
**Adroddiad Asesu Blynyddol 2024-25 Gwynedd** ... 87
Crynodeb gweithredol ... 87
Nodyn i adroddiad 2024-25 ... 87
Perfformiad yn erbyn y safonau ... 88
Hawliau Craidd ... 88
Dangosyddion ansawdd gyda thargedau ... 88
Mesurau effaith ... 89
Dangosyddion ansawdd a meincnodau ... 90
Dadansoddiad o berfformiad ... 91
Bodloni anghenion cwsmeriaid (DA 1-2, 4-5) ... 91
Mynediad a defnydd (DA 6-8) ... 91
Arbenigedd a chapasiti (DA 13-14 ac 16) ... 92
Y cyd-destun strategol ... 92
Cyfeiriad at y dyfodol ... 93
Casgliad ... 94
**Adroddiad Asesu Blynyddol 2024-25 Ynys Môn** ... 95
Crynodeb gweithredol ... 95
Nodyn i adroddiad 2024-25 ... 95
Perfformiad yn erbyn y safonau ... 96
Hawliau Craidd ... 96
Dangosyddion ansawdd gyda thargedau ... 97
Mesurau effaith ... 97
Dangosyddion ansawdd a meincnodau ... 98
Dadansoddiad o berfformiad ... 99

Bodloni anghenion cwsmeriaid (DA 1-2, 4-5) ... 99
Mynediad a defnydd (DA 6-8) ... 100
Arbenigedd a chapasiti (DA 13-14 ac 16) ... 100
Y cyd-destun strategol ... 101
Cyfeiriad at y dyfodol ... 101
Casgliad ... 102
**Adroddiad Asesu Blynyddol 2024-25 Merthyr Tudful** ... 103
Crynodeb gweithredol ... 103
Nodyn i adroddiad 2024-25 ... 104
Perfformiad yn erbyn y safonau ... 104
Hawliau Craidd ... 104
Dangosyddion ansawdd gyda thargedau ... 107
Mesurau effaith ... 107
Dangosyddion ansawdd a meincnodau ... 108
Dadansoddiad o berfformiad ... 109
Bodloni anghenion cwsmeriaid (DA 1-2, 4-5) ... 109
Mynediad a defnydd (DA 6-8) ... 110
Arbenigedd a chapasiti (DA 13-14 ac 16) ... 111
Y cyd-destun strategol ... 111
Cyfeiriad at y dyfodol ... 112
Casgliad ... 113
**Adroddiad Asesu Blynyddol 2024-25 Sir Fynwy** ... 114
Crynodeb gweithredol ... 114
Nodyn i adroddiad 2024-25 ... 115
Perfformiad yn erbyn y safonau ... 115
Hawliau Craidd ... 115
Dangosyddion ansawdd gyda thargedau ... 116
Mesurau effaith ... 116
Dangosyddion ansawdd a meincnodau ... 117
Dadansoddiad o berfformiad ... 118
Bodloni anghenion cwsmeriaid (DA 1-2, 4-5) ... 118
Mynediad a defnydd (DA 6-8) ... 119
Arbenigedd a chapasiti (DA 13-14 ac 16) ... 119

Y cyd-destun strategol ... 120
Cyfeiriad at y dyfodol ... 120
Casgliad ... 121
**Adroddiad Asesu Blynyddol 2024-25 Castell-nedd Port Talbot** ... 122
Crynodeb gweithredol ... 122
Nodyn i adroddiad 2024-25 ... 122
Perfformiad yn erbyn y safonau ... 123
Hawliau Craidd ... 123
Dangosyddion ansawdd gyda thargedau ... 123
Mesurau effaith ... 124
Dangosyddion ansawdd a meincnodau ... 125
Dadansoddiad o berfformiad ... 126
Bodloni anghenion cwsmeriaid (DA 1-2, 4-5) ... 126
Mynediad a defnydd (DA 6-8) ... 126
Arbenigedd a chapasiti (DA 13-14 ac 16) ... 127
Y cyd-destun strategol ... 127
Cyfeiriad at y dyfodol ... 128
Casgliad ... 128
**Adroddiad Asesu Blynyddol 2024-25 Casnewydd** ... 129
Crynodeb gweithredol ... 129
Nodyn i adroddiad 2024-25 ... 130
Perfformiad yn erbyn y safonau ... 130
Hawliau Craidd ... 130
Dangosyddion ansawdd gyda thargedau ... 132
Mesurau effaith ... 133
Dangosyddion ansawdd a meincnodau ... 134
Dadansoddiad o berfformiad ... 135
Bodloni anghenion cwsmeriaid (DA 1-2, 4-5) ... 135
Mynediad a defnydd (DA 6-8) ... 136
Arbenigedd a chapasiti (DA 13-14 ac 16) ... 136
Y cyd-destun strategol ... 137
Cyfeiriad at y dyfodol ... 138
Casgliad ... 138

**Adroddiad Asesu Blynyddol 2024-25 Sir Benfro** .... 140
Crynodeb gweithredol .... 140
Nodyn i adroddiad 2024-25 .... 140
Perfformiad yn erbyn y safonau .... 141
Hawliau Craidd .... 141
Dangosyddion ansawdd gyda thargedau .... 141
Mesurau effaith .... 142
Dangosyddion ansawdd a meincnodau .... 143
Dadansoddiad o berfformiad .... 144
Bodloni anghenion cwsmeriaid (DA 1-2, 4-5) .... 144
Mynediad a defnydd (DA 6-8) .... 145
Arbenigedd a chapasiti (DA 13-14 ac 16) .... 145
Y cyd-destun strategol .... 146
Cyfeiriad at y dyfodol .... 147
Casgliad .... 147
**Adroddiad Asesu Blynyddol 2024-25 Powys** .... 148
Crynodeb gweithredol .... 148
Nodyn i adroddiad 2024-25 .... 148
Perfformiad yn erbyn y safonau .... 149
Hawliau Craidd .... 149
Dangosyddion ansawdd gyda thargedau .... 149
Mesurau effaith .... 150
Dangosyddion ansawdd a meincnodau .... 151
Dadansoddiad o berfformiad .... 152
Bodloni anghenion cwsmeriaid (DA 1-2, 4-5) .... 152
Mynediad a defnydd (DA 6-8) .... 153
Arbenigedd a chapasiti (DA 13-14 ac 16) .... 153
Y cyd-destun strategol .... 154
Cyfeiriad at y dyfodol .... 155
Casgliad .... 155
**Adroddiad Asesu Blynyddol 2024-25 Rhondda Cynon Taf** .... 156
Crynodeb gweithredol .... 156
Nodyn i adroddiad 2024-25 .... 156

Perfformiad yn erbyn y safonau ........ 157
Hawliau Craidd ........ 157
Dangosyddion ansawdd gyda thargedau ........ 157
Mesurau effaith ........ 158
Dangosyddion ansawdd a meincnodau ........ 159
Dadansoddiad o berfformiad ........ 160
Bodloni anghenion cwsmeriaid (DA 1-2, 4-5) ........ 160
Mynediad a defnydd (DA 6-8) ........ 161
Arbenigedd a chapasiti (DA 13-14 ac 16) ........ 161
Y cyd-destun strategol ........ 162
Cyfeiriad at y dyfodol ........ 163
Casgliad ........ 163
**Adroddiad Asesu Blynyddol 2024-25 Abertawe** ........ 164
Crynodeb gweithredol ........ 164
Nodyn i adroddiad 2024-25 ........ 164
Perfformiad yn erbyn y safonau ........ 165
Hawliau Craidd ........ 165
Dangosyddion ansawdd gyda thargedau ........ 165
Mesurau effaith ........ 166
Dangosyddion ansawdd a meincnodau ........ 167
Dadansoddiad o berfformiad ........ 168
Bodloni anghenion cwsmeriaid (DA 1-2, 4-5) ........ 168
Mynediad a defnydd (DA 6-8) ........ 169
Arbenigedd a chapasiti (DA 13-14 ac 16) ........ 169
Y cyd-destun strategol ........ 169
Cyfeiriad at y dyfodol ........ 170
Casgliad ........ 171
**Adroddiad Asesu Blynyddol 2024-25 Torfaen** ........ 172
Crynodeb gweithredol ........ 172
Nodyn i adroddiad 2024-25 ........ 173
Perfformiad yn erbyn y safonau ........ 173
Hawliau Craidd ........ 173
Dangosyddion ansawdd gyda thargedau ........ 175

Mesurau effaith ... 176
Dangosyddion ansawdd a meincnodau ... 177
Dadansoddiad o berfformiad ... 178
Bodloni anghenion cwsmeriaid (DA 1-2, 4-5) ... 178
Mynediad a defnydd (DA 6-8) ... 179
Arbenigedd a chapasiti (DA 13-14 ac 16) ... 179
Y cyd-destun strategol ... 180
Cyfeiriad at y dyfodol ... 181
Casgliad ... 181
**Adroddiad Asesu Blynyddol 2024-25 Bro Morgannwg** ... 183
Crynodeb gweithredol ... 183
Nodyn i adroddiad 2024-25 ... 184
Perfformiad yn erbyn y safonau ... 184
Hawliau Craidd ... 184
Dangosyddion ansawdd gyda thargedau ... 185
Mesurau effaith ... 185
Dangosyddion ansawdd a meincnodau ... 186
Dadansoddiad o berfformiad ... 187
Bodloni anghenion cwsmeriaid (DA 1-2, 4-5) ... 187
Mynediad a defnydd (DA 6-8) ... 188
Arbenigedd a chapasiti (DA 13-14 ac 16) ... 188
Y cyd-destun strategol ... 189
Cyfeiriad at y dyfodol ... 190
Casgliad ... 190
**Adroddiad Asesu Blynyddol 2024-25 Wrecsam** ... 192
Crynodeb gweithredol ... 192
Nodyn i adroddiad 2024-25 ... 193
Perfformiad yn erbyn y safonau ... 193
Hawliau Craidd ... 193
Dangosyddion ansawdd gyda thargedau ... 195
Mesurau effaith ... 196
Dangosyddion ansawdd a meincnodau ... 197
Dadansoddiad o berfformiad ... 198

Bodloni anghenion cwsmeriaid (DA 1-2, 4-5) ..... 198
Mynediad a defnydd (DA 6-8) ..... 198
Arbenigedd a chapasiti (DA 13-14 ac 16) ..... 199
Y cyd-destun strategol ..... 199
Cyfeiriad at y dyfodol ..... 200
Casgliad ..... 200

# Adroddiad Asesu Blynyddol 2024-25 Blaenau Gwent

Mae'r adroddiad hwn wedi'i baratoi ar sail gwybodaeth a ddarparwyd gan ffurflen flynyddol Blaenau Gwent, datganiadau effaith ac adroddiad naratif a gyflwynwyd i Is-adran Diwylliant Llywodraeth Cymru.

## Crynodeb gweithredol

Mae Blaenau Gwent yn bodloni pob un o'r 13 Hawl Graidd yn llawn. O'r 5 dangosydd ansawdd lle mae targedau, mae Blaenau Gwent yn cyflawni 4 yn llawn ac 1 yn rhannol.

Mae Gwasanaeth Llyfrgell Blaenau Gwent yn perfformio'n dda iawn. Mae'n bodloni pob un o'r Hawliau Craidd ac yn perfformio oddeutu'r canolrif ar gyfer y rhan fwyaf o fesuriadau cymharu DA. Mae'n galonogol bod y gwasanaeth llyfrgell yn cael ei werthfawrogi yn yr awdurdod a bod gwariant refeniw am bob pen o'r boblogaeth yn cynyddu i helpu i ddarparu gwell gwasanaeth i'r gymuned leol. Er bod Blaenau Gwent yn cael trafferth bodloni targedau DA o ran staffio, mae'r cynnydd yng nghyfanswm oriau staff ac oriau agor eleni i'w croesawu. Mae'r nifer sy'n mynychu digwyddiadau'n parhau i fod yn gryfder i'r gwasanaeth hwn, yn arbennig trwy waith Swyddogion Allgyrraedd sydd wedi helpu i ymestyn ystod y gweithgareddau ac ymgysylltu â chymunedau a oedd yn gwneud defnydd cyfyngedig o'r llyfrgell yn flaenorol. Mae'r gostyngiad parhaus ym maes ymweliadau rhithwir yn rhywbeth y gallai'r llyfrgell ddymuno ymchwilio iddo ymhellach er mwyn sicrhau bod anghenion cwsmeriaid yn cael eu bodloni mewn ffyrdd eraill (e.e. trwy gyfryngau cymdeithasol) am nad oes defnydd helaeth o'r wefan o gymharu â gwasanaethau eraill.

- Mae'r gwasanaeth yn perfformio'n dda mewn perthynas â Gwneud gwahaniaeth, yn arbennig o ran canran yr oedolion sydd o'r farn bod y llyfrgell wedi gwneud gwahaniaeth i'w bywydau (DA1).
- Mae Blaenau Gwent yn chwartel uchaf awdurdodau llyfrgell Cymru am oriau agor am bob pen o'r boblogaeth; mae cyfanswm yr oriau agor wedi cynyddu 8% o gymharu â 2023-24 (DA16).
- Mae'r nifer sy'n mynychu digwyddiadau wedi cynyddu 26% o gymharu â 2023-24 a 92% aruthrol o gymharu â 2022-23 (DA6).

## Nodyn i adroddiad 2024-25

Yn ystod 2024-25, symudodd awdurdodau lleol yng Nghymru i Blatfform Llyfrgell Ddigidol newydd ar gyfer Cymru gyfan. Perwyd rhywfaint o darfu i weithrediad

gwasanaethau llyfrgell yn ystod y broses symud, gan gynnwys mewn perthynas â chaffael stoc newydd, sef gwaith y bu'n rhaid ei atal am gyfnod wrth i wasanaethau unigol symud i'r system newydd. Mae rhywfaint o fân wahaniaethau hefyd yn ffurfwedd y platfform newydd, sy'n golygu nad yw data defnyddwyr yn ystod 2024-25 yn gwbl gyson. Felly, nid yw'r adroddiadau ar gyfer 2024-25 yn cynnwys y data a nodir isod ar gyfer Dangosyddion Ansawdd 4, 8, 9 a 10.

DA 4 Cymorth ar gyfer iechyd a lles
c) nifer y benthyciadau o gyfres Darllen yn Well Cymru

DA 8 Defnydd o'r llyfrgell
c) cyfanswm y benthycwyr gweithredol wedi'i rannu â maint y boblogaeth drigolion, a'i luosi â 1,000
d) cyfanswm aelodau'r llyfrgell
e) cyfanswm y llyfrau a fenthycwyd (oedolion a phlant ar wahân)
f) cyfanswm yr eitemau clyweledol a fenthycwyd

DA 9 Deunydd darllen cyfoes a phriodol
a) cyfradd gaffael isaf
b) % a wariwyd ar adnoddau i blant

DA 10 Adnoddau yn y Gymraeg
a) isafswm gwariant o 4%
b) benthyciadau yn y Gymraeg am bob pen o'r boblogaeth

Caiff yr holl ddata ei adrodd a'i asesu ar gyfer 2025-26 (sef blwyddyn gyntaf Fframwaith 7), a chaiff y data hwn ei ddefnyddio i osod y meincnod ar gyfer y blynyddoedd sy'n weddill yn y fframwaith.

# Perfformiad yn erbyn y safonau

Mae'r fframwaith safonau'n cynnwys Hawliau Craidd, dangosyddion ansawdd gyda thargedau, dangosyddion ansawdd gyda meincnodau a mesurau effaith.

## Hawliau Craidd

Adroddodd Blaenau Gwent ei fod wedi bodloni pob un o'r 13 Hawl Graidd yn llawn trwy hunanasesu. Ar sail y sylwebaeth fanwl a chynorthwyol a ddarparwyd, mae'r asesydd annibynnol yn cytuno gyda'r hunanasesiad.

## Dangosyddion ansawdd gyda thargedau

Mae 12 dangosydd ansawdd (DA), y mae gan 5 ohonynt dargedau cyfansoddol. O'r rhain, mae Blaenau Gwent yn cyflawni 4 yn llawn ac 1 yn rhannol.

DA 4 (a) Cymorth ar gyfer iechyd a lles, **bodlonwyd yn llawn ▲**
i) Cynllun Darllen yn Well, **bodlonwyd**
ii) Casgliad dynodedig iechyd a lles, **bodlonwyd**

iii) Gwybodaeth am ffyrdd iachach o fyw ac ymddygiad iach, **bodlonwyd**
iv) Cyfeirio at wasanaethau iechyd a lles, **bodlonwyd**

DA 6 Mae'r holl fannau gwasanaeth sefydlog yn cynnig digwyddiadau/gweithgareddau i ddefnyddwyr â gofynion arbennig, **bodlonwyd yn llawn ▲**

DA 7 Lleoliad mannau gwasanaeth, **bodlonwyd yn llawn ▲**

DA 13 Lefelau staffio a chymwysterau, **bodlonwyd yn rhannol■**
i) Staff am bob pen o'r boblogaeth, **ni fodlonwyd**
ii) Staff cymwysedig am bob pen o'r boblogaeth, **ni fodlonwyd**
iii) Cymwysterau/hyfforddiant pennaeth y gwasanaeth, **bodlonwyd**
iv) Canran DPP, **bodlonwyd**

DA 16 Oriau agor am bob pen o'r boblogaeth, **bodlonwyd yn llawn ▲**

## Mesurau effaith

Mae'r fframwaith yn cynnwys tri dangosydd gyda'r nod o asesu effaith defnyddio llyfrgelloedd ar fywydau pobl. Nid oes targedau i'r dangosyddion hyn, ac mae disgwyl i awdurdodau gynnal arolygon defnyddwyr ar gyfer DA1 ar un achlysur yn ystod y cyfnod o 2022-23 i 2024-25. Cynhaliodd Blaenau Gwent arolwg oedolion ym mis Mawrth 2023 ac arolwg plant ym mis Chwefror 2023. Mae'r ffigyrau crynodol (isaf, canolrifol ac uchaf) wedi'u seilio ar ddata gan bob awdurdod lleol a ddarparodd ddata yn ffurflenni 2022-23, 2023-24 a 2024-25. Mae'r safleoedd yn adlewyrchu nifer yr ymatebwyr, lle mai 1 yw'r awdurdod sy'n sgorio uchaf.

| Dangosydd perfformiad | | Safle | Isaf | Canolrifol | Uchaf |
|---|---|---|---|---|---|
| DA 1 Gwneud gwahaniaeth | | | | | |
| b) % y bobl ifanc sydd o'r farn bod y llyfrgell yn eu helpu i ddysgu a chael gwybod pethau: | 94% | =8/19 | 68% | 94% | 99% |
| e) % yr oedolion sydd o'r farn bod y llyfrgell wedi gwneud gwahaniaeth i'w bywydau: | 96% | 1/20 | 31% | 86.5% | 96% |
| DA 5 b) % y mynychwyr sesiynau hyfforddiant a ddywedodd fod yr hyfforddiant wedi'u helpu i gyflawni eu diben trwy fynychu: | 99% | =6/18 | 75% | 98.5% | 100% |

Gofynnir hefyd i awdurdodau ddarparu datganiad effaith yn disgrifio'r effaith mae'r gwasanaeth llyfrgell wedi'i chael ar unigolyn neu ar grŵp o unigolion yn ystod y flwyddyn. Darparodd Blaenau Gwent ddatganiad effaith a gyfeiriodd at y Clwb Cymraeg wythnosol yn Llyfrgell Abertyleri. Trwy'r Clwb Cymraeg, mae'r llyfrgell nid yn unig yn cefnogi nod Llywodraeth Cymru o gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg, ond mae hefyd yn meithrin cyfeillgarwch, yn trechu unigrwydd ac yn atgyfnerthu cysylltiadau cymunedol yn Abertyleri.

Mae'r clwb wedi dod yn lle croesawgar i ddysgwyr a siaradwyr o bob oedran, gan wneud gwahaniaeth go iawn i fywydau pobl. Dan arweiniad cynorthwyydd llyfrgell sy'n rhugl yn y Gymraeg, mae'r sesiynau anffurfiol, cyfeillgar yn cynnig sgwrs, cymorth ac anogaeth, gyda chyfranogwyr yn cyfarfod i feithrin eu sgiliau a'u hyder gyda'i gilydd. Disgrifiodd cynorthwyydd llyfrgell y clwb trwy ddweud, *"Mae'n bleser cefnogi dysgwyr a'u helpu i fagu hyder... bob wythnos rydyn ni'n ceisio adennill ein mamiaith."*

I un famgu, roedd ymuno â'r clwb yn golygu gallu helpu ei hwyrion gyda'u gwaith ysgol yn y Gymraeg. Mae hi bellach yn benthyg llyfrau plant yn Gymraeg bob wythnos ac yn mwynhau darllen gyda'i hwyrion, *"Maen nhw'n browd ohonof i!"* Disgrifiodd cyfranogydd arall sut roedd y sesiynau hamddenol, wyneb yn wyneb yn ei helpu i wneud ffrindiau, goresgyn anawsterau gyda dosbarthiadau ar-lein a gwneud cynnydd yn ei dysgu diolch i adnoddau gan gynnwys y teitlau sydd ar gael ar BorrowBox.

Mae effaith y clwb yn ymestyn y tu hwnt i sgiliau iaith. Dywedodd gofalwr sy'n mynychu'r sesiynau, *"Mae bod yn ofalwr yn gallu bod yn ynysig... mae'r clwb yn rhoi lle imi ymlacio, dysgu, a thynnu fy meddwl oddi ar fy mhryderon."* Adroddodd eraill eu bod yn teimlo'u bod yn cael eu cynnwys a'u cefnogi, gydag un cyfranogydd yn dweud bod y sesiynau'n helpu i leihau gorbryder a meithrin sgiliau cymdeithasol. Mae cyfranogwyr yn gwerthfawrogi hygyrchedd, hyblygrwydd a'r ymdeimlad o gymuned yn y llyfrgell. Nododd un sy'n mynychu, *"Mae'n wych gallu siarad Cymraeg yn Abertyleri... mae'n deimlad grymusol, gwybod fy mod i'n dysgu mwy bob wythnos."*

## Dangosyddion ansawdd a meincnodau

Nid oes targedau i'r dangosyddion sy'n weddill ond maent yn caniatáu i wasanaethau fonitro eu perfformiad dros amser. Mae'r tabl canlynol yn crynhoi safle Blaenau Gwent ar gyfer 2024-25. Mae'r safleoedd yn adlewyrchu nifer yr ymatebwyr, lle mai 1 yw'r awdurdod sy'n sgorio uchaf. Caiff dangosyddion 'am bob pen o’r boblogaeth' eu cyfrifo fesul 1,000 o'r boblogaeth oni nodir fel arall.

| Dangosydd perfformiad | | Safle | Isaf | Canolrifol | Uchaf |
|---|---|---|---|---|---|
| DA 1 Gwneud gwahaniaeth | | | | | |
| a) % yr oedolion sydd o'r farn bod defnyddio'r llyfrgell wedi'u helpu i ddatblygu sgiliau newydd | 70% | =10/20 | 17% | 70% | 90% |
| c) iechyd a lles | 44% | 19/20 | 1% | 63% | 90% |
| d) pleserus, diogel a chynhwysol | 100% | =1/20 | 93% | 97% | 100% |
| DA 2 Bodlonrwydd cwsmeriaid | | | | | |
| a) dewis 'da iawn' neu 'dda' o lyfrau | 90% | =11/20 | 84% | 90.5% | 97% |
| b) gofal cwsmeriaid 'da iawn' neu 'dda' | 99% | =2/20 | 92% | 98% | 100% |
| c) cyfleusterau TG 'da iawn' neu 'dda' | 85% | =10/20 | 60% | 85% | 99% |
| d) 'da iawn' neu 'dda' yn gyffredinol | 97% | =12/20 | 85% | 98% | 100% |
| e) sgôr allan o ddeg ymysg defnyddwyr 16 oed ac iau | 9.0 | 15/18 | 8.0 | 9.4 | 9.7 |
| DA 5 Cymorth i ddefnyddwyr | | | | | |
| a) nifer yn mynychu am bob pen o’r boblogaeth | 10 | 14/21 | 1 | 28 | 214 |
| c) cymorth anffurfiol am bob pen o’r boblogaeth | 136 | 11/20 | 15 | 150 | 608 |
| DA 6 Nifer yn mynychu digwyddiadau am bob pen o’r boblogaeth | 307 | 8/22 | 14 | 224.5 | 764 |
| DA 8 Defnydd o’r llyfrgell | | | | | |
| b) ymweliadau rhithwir am bob pen o’r boblogaeth | 126 | 20/21 | 5 | 766 | 6,035 |
| DA 13 Lefelau staffio a chymwysterau[1] | | | | | |
| (v) a) cyfanswm y gwirfoddolwyr | 10 | Dd/B | 0 | 23 | 442 |
| b) oriau gwirfoddolwyr | 990 | Dd/B | 0 | 883 | 22,706 |
| DA 14 Gwariant gweithredol | | | | | |
| a) cyfanswm gwariant am bob pen o’r boblogaeth | £12,646 | 11/21 | £5,978 | £12,646 | £26,209 |
| b) % ar staff | 76% | =5/21 | 48% | 67% | 80% |
| % ar adnoddau gwybodaeth | 8% | =13/21 | 4% | 9% | 19% |
| % ar gyfarpar ac adeiladau | 2% | =11/21 | 0% | 2% | 29% |
| % ar gostau gweithredol eraill | 14% | 12/21 | 1% | 15% | 38% |

# Dadansoddiad o berfformiad

Mae modd rhannu'r Hawliau Craidd a'r dangosyddion ansawdd yn dri phrif faes. Mae'r adran hon o'r adroddiad yn amlinellu perfformiad o dan y meysydd hyn.

## Bodloni anghenion cwsmeriaid (DA 1-2, 4-5)

Mae Blaenau Gwent yn perfformio'n dda mewn perthynas â Gwneud gwahaniaeth (DA1) a Bodlonrwydd cwsmeriaid (DA2) fel ei gilydd; mae'n agos i'r canolrif neu'n uwch na'r canolrif ar gyfer y mwyafrif o fesurau, ac eithrio iechyd a lles. Mae'r gwasanaeth yn perfformio'n arbennig o gryf mewn perthynas â chanran yr oedolion sydd o'r farn bod y llyfrgell wedi gwneud gwahaniaeth i'w bywydau (DA1), a Blaenau Gwent yw'r awdurdod yn y safle uchaf yn genedlaethol am y mesur hwn. Yn ogystal, mae yn chwartel uchaf awdurdodau llyfrgell Cymru am ofal cwsmeriaid (DA2).

[1] *Nid oes safleoedd wedi'u cynnwys ar gyfer gwirfoddolwyr am fod goblygiadau niferoedd gwirfoddolwyr yn aneglur.*

Mae'r gwasanaeth yn bodloni'r targed ym maes Cymorth ar gyfer iechyd a lles (DA4) yn llawn, ac mae wedi ymestyn ei ddarpariaeth grwpiau darllen i gynnwys grŵp ar gyfer oedolion ifanc, yn ogystal â grŵp ar-lein a dau Grŵp Darllen Allgymorth mewn lleoliadau cymunedol.

Er bod y nifer sy'n mynychu gweithgareddau hyfforddiant ffurfiol am bob pen o'r boblogaeth wedi cynyddu oddeutu 15% o gymharu â 2023-24, mae Blaenau Gwent yn parhau i fod yn is na'r canolrif ar gyfer y mesur hwn. Fodd bynnag, mae'r gwasanaeth yn perfformio'n dda am ganran y mynychwyr sy'n teimlo'u bod wedi cyflawni eu diben trwy fynychu. Mae'r nifer sy'n mynychu cymorth anffurfiol wedi cynyddu ychydig (3%) o gymharu â 2023-24, ond mae'n is na'r canolrif (DA5).

## Mynediad a defnydd (DA 6-8)

Mae Blaenau Gwent yn parhau i wella'i berfformiad mewn perthynas â'r nifer sy'n mynychu digwyddiadau, sydd wedi cynyddu 26% o gymharu â 2023-24, a 92% aruthrol o gymharu â 2022-23. Mae'r gwasanaeth yn nodi bod dau Swyddog Allgymorth wedi'u cyllido gan SPF wedi chwarae rôl hanfodol yn y cynnydd hwn, gydag ystod eang o weithgareddau gan gynnwys yoga yn Gymraeg i fabanod; ysgrifennu creadigol; clybiau codio; Paned a Chwmni; clwb Lego; celf ar gyfer iechyd meddwl; labordai gwyddoniaeth; clybiau gwaith; grŵp plygu llyfrau; grwpiau Cymraeg; *'Men, Music and Minds'*; gweithgareddau codi sbwriel; digwyddiadau awduron; a grwpiau cymdeithasol ar gyfer pobl â nam ar eu golwg.

Mae ymweliadau rhithwir yn chwartel isaf awdurdodau llyfrgell Cymru ac mae’r niferoedd wedi parhau i gwympo, gan ostwng 19% o gymharu â 2023-24 (DA8). Fodd bynnag, mae Blaenau Gwent yn adrodd bod y defnydd o gyfryngau cymdeithasol wedi cynyddu 47%, gydag ymgysylltiad ar Instagram yn arbennig o gryf. Mae e-fenthyciadau yn cynyddu, ac wedi codi 23% o gymharu â 2023-24, a 58% o gymharu â 2022-23. Fodd bynnag, mae Blaenau Gwent yn parhau i fod yn y chwartel isaf yn genedlaethol am y mesur hwn.

## Arbenigedd a chapasiti (DA 13-14 ac 16)

Fel oedd yn wir yn 2023-24, mae Blaenau Gwent yn bodloni'r elfennau canran DPP a chymwysterau pennaeth y gwasanaeth yn y lefelau Staffio a'r dangosydd cymwysterau, ond nid yw'n bodloni'r targedau o ran cyfanswm staff na staff cymwysedig am bob pen o'r boblogaeth. Er bod y gwasanaeth yn is na chanolrif awdurdodau llyfrgell Cymru am gyfanswm staff a staff cymwysedig am bob pen o'r boblogaeth, mae cynnydd wedi bod yn y niferoedd staffio o gymharu â'r flwyddyn flaenorol am fod cynorthwyydd llyfrgell ychwanegol wedi'i benodi i Lyfrgell Abertyleri. Yn ogystal â staff sydd wedi'u cynnwys yng nghyfrifiad SLICC, mae dwy swydd allgyrraedd llyfrgelloedd wedi'u cyllido gan SPF, sef Swyddog Allgáu Digidol sy'n rhan o'r gwasanaeth llyfrgell a staff Addysg Gymunedol mewn adeiladau ar y cyd sy'n darparu dyletswyddau derbynfa a chymorth gweinyddol. Mae cynnydd wedi bod yn nifer yr oriau a dreuliwyd ar hyfforddiant a datblygiad staff eleni oherwydd

hyfforddiant LMS ac oriau datblygiad proffesiynol i dri aelod o staff sy'n gweithio tuag at Siarteriaeth CILIP.

Mae Blaenau Gwent ar y canolrif ar gyfer gwariant refeniw am bob pen o'r boblogaeth ac mae'r ffigur hwn wedi cynyddu 10% o gymharu â 2023-24 a 25% o gymharu â 2022-23 (DA14). Mae'r ganran a neilltuwyd i staffio yn uwch na'r canolrif cenedlaethol. Yn dilyn cynnydd yn 2023-24, mae'r gyllideb lyfrau heb ei newid yn 2024-25 ac mae Blaenau Gwent yn is na'r canolrif ar gyfer y gyllideb lyfrau am bob pen o'r boblogaeth.

Ailagorodd Llyfrgell Abertyleri ym mis Hydref 2024, yn dilyn cais llwyddiannus am gyllid Grant Cyfalaf Trawsnewid gan Lywodraeth Cymru. Mae Blaenau Gwent yn chwartel uchaf awdurdodau llyfrgell Cymru am oriau agor am bob pen o'r boblogaeth ac mae cyfanswm yr oriau agor wedi cynyddu 8% o gymharu â 2023-24 (DA16).

## Y cyd-destun strategol

Yn rhan o'r ffurflen, mae gofyn i awdurdodau adrodd ar y ffordd mae'r gwasanaeth llyfrgelloedd yn cyfrannu at flaenoriaethau a nodau strategol ehangach Llywodraeth Cymru. Darparodd Blaenau Gwent grynodeb manwl o'r ffordd mae'r gwasanaeth yn parhau i gyfrannu at saith nod llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a'r ffordd mae'r nodau hyn yn darparu gweledigaeth sy'n cysylltu â phrif themâu'r gwasanaeth llyfrgell. Ymhlith yr enghreifftiau a ddarparwyd yn erbyn pob nod mae'r canlynol:

- **Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang** e.e. ymestyn y cynllun 'Llyfrgelloedd yn erbyn Sbwriel' sy'n cynnwys ysgolion lleol a chyflwyno cynllun 'Codwyr Sbwriel Ifanc' sy'n cynnwys grwpiau blynyddoedd cynnar; cynnal Wythnos Llyfrgelloedd Gwyrdd; dosbarthu hadau am ddim trwy Lyfrgelloedd Llysiau Bach; datblygu sesiynau Amser stori â thema natur; ac ymestyn Llyfrgelloedd Chwaraeon, benthyciadau gwisgoedd a lansio cynllun benthyg iwcalilis i gefnogi'r economi gylchol.
- **Cymru lewyrchus** e.e. adleoli Llyfrgell Abertyleri i Gapel y Drindod - sef lleoliad sydd wedi'i adnewyddu yng nghanol y dref i hybu'r niferoedd sy'n croesi'r trothwy, gan gefnogi busnesau lleol a chydleoli gydag Addysg i Oedolion; cyflwyno digwyddiadau wedi'u cyllido ar y cyd â'r Adran Adfywio, gan gynnwys Gweithdai Gwyddoniaeth a Llwybrau Angenfilod; a darparu sgiliau digidol a chymorth chwilio am waith wedi'u teilwra mewn partneriaeth ag Addysg Oedolion yn y Gymuned.
- **Cymru gydnerth** e.e. cefnogi pobl sy'n dioddef oherwydd llifogydd gyda gwasanaethau partneriaid ar y safle; codi ymwybyddiaeth yn ystod Wythnos Credyd Pensiwn; sesiynau crefft i oedolion gyda'r nod o hybu sgiliau rhifedd; a gweithio gyda phartneriaid fel Cyngor ar Bopeth, Pobl a sefydliadau iechyd i ddarparu cymorth wedi'i dargedu mewn llyfrgelloedd.
- **Cymru iachach** e.e. gweithio gyda'r adran Datblygu Chwaraeon i ymestyn sesiynau Geiriau Gwinglyd sy'n cyfuno ymarfer corff â llythrennedd; darparu

mannau diogel a chroesawgar i helpu i oresgyn ynysigrwydd; hyrwyddo ymgyrchoedd iechyd fel Wythnos Iechyd Dynion; dosbarthu deunyddiau hunangymorth 'Melo'; ymestyn sesiynau cyd-ganu dementia-gyfeillgar; a lansio cynllun 'Llyfrgelloedd am Oes' gyda'r gwasanaethau brys i addysgu plant am iechyd a diogelwch.

- **Cymru fwy cyfartal** e.e. sesiynau un i un gyda'r Swyddog Cynhwysiant Digidol; bod yn hyb cynhwysiant digidol dynodedig yn y Cynllun Banc Data Cenedlaethol; hyrwyddo Oriau Tawel; dynodi digwyddiadau fel Diwrnod Windrush, Diwrnod Coffáu'r Holocost a mis Balchder/Pride; ac ymestyn gwasanaethau cludo i'r cartref ar gyfer cwsmeriaid agored i niwed ac â nam ar eu golwg.
- **Cymru o gymunedau cydlynus** e.e. allgyrraedd mewn cartrefi gofal, canolfannau ieuenctid a grwpiau cymunedol; cynnal ystod eang o weithgareddau darllen, crefft, technoleg a lles; a chynnal syrjeris heddlu, a sesiynau cyngor Aelodau Seneddol ac Aelodau o'r Senedd.
- **Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu** e.e. ymestyn sesiynau blasu'r Clwb Cymraeg; Yoga i Fabanod yn y Gymraeg ac amser Rhigwm i Fabanod yn y Gymraeg; dathlu Diwrnod Shwmae Su'mae, Dydd Santes Dwynwen a Dydd Gŵyl Dewi gyda gweithgareddau â thema; a chynnal sgyrsiau hanes lleol a gweithdai chwedlau o Gymru.

## Cyfeiriad at y dyfodol

Gan adrodd ar gyfeiriad yr awdurdod a'i gynlluniau ar gyfer y gwasanaeth llyfrgell yn ystod y flwyddyn sydd i ddod, mae Blaenau Gwent yn nodi datblygiadau sefydliadol sylweddol gydag Ymddiriedolaeth Hamdden Aneurin yn dilyn ailstrwythuro diweddar a chreu tîm arwain newydd gyda Chyfarwyddwr dros dro newydd a fydd yn gyfrifol am y gwasanaeth llyfrgell o fis Ebrill 2025 ymlaen. Mae strategaeth llyfrgelloedd newydd, sy'n cyd-fynd â strategaeth Ymddiriedolaeth Hamdden Aneurin sy'n esblygu, yn cael ei datblygu, ochr yn ochr â mentrau i wella cyfathrebu , perfformiad a chynllunio dilyniant ymysg staff, gan gynnwys cymorth parhaus i dri ymgeisydd am Siarteriaeth. Disgwylir y bydd Blaenoriaethau newydd Llywodraeth Cymru ar gyfer Diwylliant a Fframwaith 7 Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru yn cyd-lywio gweledigaeth y gwasanaeth llyfrgell ar gyfer 2025-26. Bydd ffocws cadarn ar hyfforddi staff i ddarparu cefnogaeth ar gyfer lles unigolion a chyfrannu at flaenoriaethau lleol a chenedlaethol.

Mae Ymddiriedolaeth Hamdden Aneurin hefyd yn gweithio'n agos â'r awdurdod lleol ar y contract ar gyfer gwasanaethau llyfrgell yn y dyfodol, gydag adolygiad annibynnol ar y gweill ym mis Medi 2025. Mae'r gwasanaeth yn adrodd bod cynghorwyr yn ei werthfawrogi'n fawr iawn, gydag adborth cadarnhaol gan yr asesiad SLICC diweddar yn atgyfnerthu ei bwysigrwydd. Er gwaethaf pwysau ariannol parhaus, caiff y gyllideb lyfrgelloedd ei chynnal yn 2025-26, heb gynllun i ostwng cronfeydd llyfrau na staffio. Yn ogystal, mae'r Ymddiriedolaeth yn disgwyl am ganlyniad cais am gyllid 'Trailblazers', a allai atgyfnerthu rôl y llyfrgell ymhellach o

ran gwella lefelau anweithgarwch cymdeithasol ac economaidd. Gan adeiladu ar adleoli Llyfrgell Abertyleri'n llwyddiannus, mae'r gwasanaeth yn adrodd bod cynlluniau ar y gweill i archwilio prosiect moderneiddio tebyg ar gyfer Llyfrgell Tredegar mewn partneriaeth â'r awdurdod lleol.

## Casgliad

Mae Gwasanaeth Llyfrgell Blaenau Gwent yn perfformio'n dda. Mae'n bodloni pob un o'r Hawliau Craidd ac yn perfformio oddeutu'r canolrif ar gyfer y rhan fwyaf o fesuriadau cymharu DA. Mae'n galonogol bod y gwasanaeth llyfrgell yn cael ei werthfawrogi yn yr awdurdod a bod gwariant refeniw am bob pen o'r boblogaeth yn cynyddu i helpu i ddarparu gwell gwasanaeth i'r gymuned leol. Er bod Blaenau Gwent yn cael trafferth bodloni targedau DA o ran staffio, mae'r cynnydd yng nghyfanswm oriau staff ac oriau agor eleni i'w croesawu. Mae'r nifer sy'n mynychu digwyddiadau'n parhau i fod yn gryfder i'r gwasanaeth hwn, yn arbennig trwy waith Swyddogion Allgyrraedd sydd wedi helpu i ymestyn ystod y gweithgareddau ac ymgysylltu â chymunedau a oedd yn gwneud defnydd cyfyngedig o'r llyfrgell yn flaenorol. Mae'r gostyngiad parhaus ym maes ymweliadau rhithwir yn rhywbeth y gallai'r llyfrgell ddymuno ymchwilio iddo ymhellach er mwyn sicrhau bod anghenion cwsmeriaid yn cael eu bodloni mewn ffyrdd eraill (e.e. trwy gyfryngau cymdeithasol) am nad oes defnydd helaeth o'r wefan o gymharu â gwasanaethau eraill.

# Adroddiad Asesu Blynyddol 2024-25 Pen-y-bont ar Ogwr (Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol Awen)

Caiff gwasanaeth llyfrgell Pen-y-bont ar Ogwr ei ddarparu gan Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol Awen. Mae'r adroddiad hwn wedi'i baratoi ar sail gwybodaeth a ddarparwyd gan ffurflen flynyddol Pen-y-bont ar Ogwr, datganiadau effaith ac adroddiad naratif a gyflwynwyd i Is-adran Diwylliant Llywodraeth Cymru.

## Crynodeb gweithredol

Mae Pen-y-bont ar Ogwr yn bodloni pob un o'r 13 Hawl Graidd yn llawn. O'r 5 dangosydd ansawdd lle mae targedau, mae Pen-y-bont ar Ogwr yn cyflawni 4 yn llawn ac 1 yn rhannol.

Mae Gwasanaeth Llyfrgell Pen-y-bont ar Ogwr yn perfformio'n dda iawn. Mae gweithgareddau, digwyddiadau a darpariaethau hyfforddiant ffurfiol yn gryfderau pwysig i'r gwasanaeth. Mae Pen-y-bont ar Ogwr yn parhau i ymestyn ei ystod o weithgareddau, ac mae ffigurau mynychu yn cynyddu'n nodedig. Nodwedd gadarnhaol arall yw'r ffaith bod y gwasanaeth yn bodloni'r targed ar gyfer staff cymwysedig am bob pen o'r boblogaeth a'i fod yn cynllunio at y dyfodol trwy gefnogi staff i ennill Siarteriaeth CILIP. Mae Pen-y-bont ar Ogwr yn perfformio'n dda mewn adborth gan blant a phobl ifanc, ac am fodlonrwydd cwsmeriaid. Fel sy'n wir mewn llawer o wasanaethau, mae Pen-y-bont ar Ogwr yn wynebu pwysau ariannol, fel sy'n amlwg eleni yn y gostyngiad yn y gyllideb lyfrau a adroddwyd. Fodd bynnag, am mai ychydig iawn o wybodaeth sydd ar gael hyd yma ar y Strategaeth Llyfrgelloedd a'r Strategaeth Gwasanaethau Diwylliannol newydd, mae'n anodd cynnig sylw am yr effaith bosibl ar y gwasanaeth yn y dyfodol.

- Mae Pen-y-bont ar Ogwr yn y chwartel uchaf yn genedlaethol am y nifer sy'n mynychu hyfforddiant ffurfiol am bob pen o'r boblogaeth, ac mae'r nifer sy'n mynychu wedi cynyddu mwy na phedair gwaith drosodd o gymharu â 2023-24 (DA5).
- Pen-y-bont ar Ogwr sydd yn y safle uchaf yn genedlaethol am fodlonrwydd cwsmeriaid gyda chyfleusterau TG (DA2).
- Pen-y-bont ar Ogwr sydd â'r nifer uchaf am bob pen o'r boblogaeth yn genedlaethol am y nifer sy'n mynychu digwyddiadau, ac mae'r nifer sy'n mynychu wedi cynyddu 24% o gymharu â 2023-24 a 38% o gymharu â 2022-23 (DA6).

# Nodyn i adroddiad 2024-25

Yn ystod 2024-25, symudodd awdurdodau lleol yng Nghymru i Blatfform Llyfrgell Ddigidol newydd ar gyfer Cymru gyfan. Perwyd rhywfaint o darfu i weithrediad gwasanaethau llyfrgell yn ystod y broses symud, gan gynnwys mewn perthynas â chaffael stoc newydd, sef gwaith y bu'n rhaid ei atal am gyfnod wrth i wasanaethau unigol symud i'r system newydd. Mae rhywfaint o fân wahaniaethau hefyd yn ffurfwedd y platfform newydd, sy'n golygu nad yw data defnyddwyr yn ystod 2024-25 yn gwbl gyson. Felly, nid yw'r adroddiadau ar gyfer 2024-25 yn cynnwys y data a nodir isod ar gyfer Dangosyddion Ansawdd 4, 8, 9 a 10.

DA 4 Cymorth ar gyfer iechyd a lles
- c) nifer y benthyciadau o gyfres Darllen yn Well Cymru

DA 8 Defnydd o'r llyfrgell
- c) cyfanswm y benthycwyr gweithredol wedi'i rannu â maint y boblogaeth drigolion, a'i luosi â 1,000
- d) cyfanswm aelodau'r llyfrgell
- e) cyfanswm y llyfrau a fenthycwyd (oedolion a phlant ar wahân)
- f) cyfanswm yr eitemau clyweledol a fenthycwyd

DA 9 Deunydd darllen cyfoes a phriodol
- a) cyfradd gaffael isaf
- b) % a wariwyd ar adnoddau i blant

DA 10 Adnoddau yn y Gymraeg
- a) isafswm gwariant o 4%
- b) benthyciadau yn y Gymraeg am bob pen o'r boblogaeth

Caiff yr holl ddata ei adrodd a'i asesu ar gyfer 2025-26 (sef blwyddyn gyntaf Fframwaith 7), a chaiff y data hwn ei ddefnyddio i osod y meincnod ar gyfer y blynyddoedd sy'n weddill yn y fframwaith.

# Perfformiad yn erbyn y safonau

Mae'r fframwaith safonau'n cynnwys Hawliau Craidd, dangosyddion ansawdd gyda thargedau, dangosyddion ansawdd gyda meincnodau a mesurau effaith.

## Hawliau Craidd

Adroddodd Pen-y-bont ar Ogwr ei fod wedi bodloni pob un o'r 13 Hawl Graidd yn llawn trwy hunanasesu. Ar sail y sylwebaeth fanwl a defnyddiol a ddarparwyd, mae'r asesydd annibynnol yn cytuno gyda'r hunanasesiad.

## Dangosyddion ansawdd gyda thargedau

Mae 12 dangosydd ansawdd (DA), y mae gan 5 ohonynt dargedau cyfansoddol. O'r rhain, mae Pen-y-bont ar Ogwr yn cyflawni 4 yn llawn ac 1 yn rhannol.

DA 4 (a) Cymorth ar gyfer iechyd a lles, **bodlonwyd yn llawn ▲**
i) Cynllun Darllen yn Well, **bodlonwyd**
ii) Casgliad dynodedig iechyd a lles, **bodlonwyd**
iii) Gwybodaeth am ffyrdd iachach o fyw ac ymddygiad iach, **bodlonwyd**
iv) Cyfeirio at wasanaethau iechyd a lles, **bodlonwyd**

DA 6 Mae'r holl fannau gwasanaeth sefydlog yn cynnig digwyddiadau/ gweithgareddau i ddefnyddwyr â gofynion arbennig, **bodlonwyd yn llawn ▲**

DA 7 Lleoliad mannau gwasanaeth, **bodlonwyd yn llawn ▲**

DA 13 Lefelau staffio a chymwysterau, **bodlonwyd yn rhannol ■**
i) Staff am bob pen o'r boblogaeth, **ni fodlonwyd**
ii) Staff cymwysedig am bob pen o'r boblogaeth, **bodlonwyd**
iii) Cymwysterau/hyfforddiant pennaeth y gwasanaeth, **bodlonwyd**
iv) Canran DPP, **bodlonwyd**

DA 16 Oriau agor am bob pen o’r boblogaeth, **bodlonwyd yn llawn ▲**

## Mesurau effaith

Mae'r fframwaith yn cynnwys tri dangosydd gyda'r nod o asesu effaith defnyddio llyfrgelloedd ar fywydau pobl. Nid oes targedau i'r dangosyddion hyn, ac mae disgwyl i awdurdodau gynnal arolygon defnyddwyr ar gyfer DA1 ar un achlysur yn ystod y cyfnod o 2022-23 i 2024-25. Cynhaliodd Pen-y-bont ar Ogwr arolwg oedolion ym mis Hydref 2023/gwanwyn 2025 ac arolwg plant ym mis Ionawr 2025. Mae'r ffigyrau crynodol (isaf, canolrifol ac uchaf) wedi'u seilio ar ddata gan bob awdurdod a ddarparodd ddata yn ffurflenni 2022-23, 2023-24 a 2024-25. Mae'r safleoedd yn adlewyrchu nifer yr ymatebwyr, lle mai 1 yw'r awdurdod sy'n sgorio uchaf.

| Dangosydd perfformiad | | Safle | Isaf | Canolrifol | Uchaf |
|---|---|---|---|---|---|
| DA 1 Gwneud gwahaniaeth | | | | | |
| b) % y bobl ifanc sydd o'r farn bod y llyfrgell yn eu helpu i ddysgu a chael gwybod pethau: | 98% | =2/19 | 68% | 94% | 99% |
| e) % yr oedolion sydd o'r farn bod y llyfrgell wedi gwneud gwahaniaeth i'w bywydau: | 83% | =14/20 | 31% | 86.5% | 96% |
| DA 5 b) % y mynychwyr sesiynau hyfforddiant a ddywedodd fod yr hyfforddiant wedi'u helpu i gyflawni eu diben trwy fynychu: | 100% | =1/18 | 75% | 98.5% | 100% |

Gofynnir hefyd i awdurdodau ddarparu datganiad effaith yn disgrifio'r effaith mae'r gwasanaeth llyfrgell wedi'i chael ar unigolyn neu ar grŵp o unigolion yn ystod y flwyddyn. Darparodd Pen-y-bont ar Ogwr ddatganiad effaith a oedd yn canolbwyntio ar y Clwb Pokémon i blant, pobl ifanc a theuluoedd yn Llyfrgell Pen-y-bont ar Ogwr.

Trwy ddarparu lle, adnoddau, ac anogaeth, mae Llyfrgell Pen-y-bont ar Ogwr wedi helpu meithrin amgylchedd diogel a deniadol lle gall plant a phobl ifanc ffynnu'n gymdeithasol ac yn emosiynol, gan amlygu rôl hanfodol y llyfrgell fel hwb cymunedol sy'n grymuso unigolion o bob oedran a dangos sut mae'r gwasanaeth yn ymateb i anghenion lleol ac yn gweithio gyda'r gymuned.

Pan gaeodd lleoliad blaenorol y clwb yn sydyn, camodd staff y llyfrgell i mewn i gynnig lle croesawgar a diogel bob prynhawn dydd Sadwrn. Ers adleoli i'r llyfrgell, mae'r clwb wedi tyfu o chwech yn mynychu i oddeutu deg ar hugain o aelodau rheolaidd mewn cyfnod o flwyddyn.

Mae rhieni'n adrodd bod y clwb wedi darparu lle hanfodol i blant sy'n wynebu heriau cymdeithasol, gan gynnwys llawer ohonynt sy'n awtistig neu sy'n cael gorbryder. Rhannodd un rhiant, *"Mae wedi bod yn anhygoel gwylio plant a gafodd drafferth siarad i ddechrau sydd bellach yn hyderus i gerdded i mewn yn gwenu ac yn rhyngweithio heb anogaeth."* Mae cefnogaeth y llyfrgell wedi galluogi pobl ifanc i adeiladu hyder, datblygu sgiliau datrys problemau a sgiliau cymdeithasol, a gwneud ffrindiau newydd mewn amgylchedd gofalgar.

Mae natur gynhwysol y clwb - sy'n croesawu aelodau rhwng tair a chwe deg oed, wedi creu cymuned unigryw rhwng y cenedlaethau. Mae teuluoedd yn gwerthfawrogi awyrgylch cyfforddus y llyfrgell, lle gall rhieni ymlacio gyda llyfrau, diodydd poeth, neu gyfrifiaduron tra bod eu plant yn ymgymryd â gweithgareddau sy'n annog rhyngweithio wyneb yn wyneb. Mynegodd rhiant werthfawrogi twymgalon, *"Rydyn ni i gyd yn teimlo mor ffodus bod pawb yn Llyfrgell Pen-y-bont ar Ogwr mor gefnogol a charedig... ni fyddai'n bosibl heb Lyfrgell Pen-y-bont ar Ogwr."*

## Dangosyddion ansawdd a meincnodau

Nid oes targedau i'r dangosyddion sy'n weddill, ond maent yn caniatáu i wasanaethau fonitro eu perfformiad dros amser. Mae'r tabl canlynol yn crynhoi safle Pen-y-bont ar Ogwr ar gyfer 2024-25. Mae'r safleoedd yn adlewyrchu nifer yr ymatebwyr, lle mai 1 yw'r awdurdod sy'n sgorio uchaf. Caiff dangosyddion 'am bob pen o’r boblogaeth' eu cyfrifo fesul 1,000 o'r boblogaeth oni nodir fel arall.

| Dangosydd perfformiad | | Safle | Isaf | Canolrifol | Uchaf |
|---|---|---|---|---|---|
| DA 1 Gwneud gwahaniaeth | | | | | |
| a) % yr oedolion sydd o'r farn bod defnyddio'r llyfrgell wedi'u helpu i ddatblygu sgiliau newydd | 64% | =15/20 | 17% | 70% | 90% |
| c) iechyd a lles | 48% | 16/20 | 1% | 63% | 90% |
| d) pleserus, diogel a chynhwysol | 97% | =9/20 | 93% | 97% | 100% |
| DA 2 Bodlonrwydd cwsmeriaid | | | | | |
| a) dewis 'da iawn' neu 'dda' o lyfrau | 91% | =9/20 | 84% | 90.5% | 97% |
| b) gofal cwsmeriaid 'da iawn' neu 'dda' | 98% | =10/20 | 92% | 98% | 100% |
| c) cyfleusterau TG 'da iawn' neu 'dda' | 99% | 1/20 | 60% | 85% | 99% |
| d) 'da iawn' neu 'dda' yn gyffredinol | 99% | =2/20 | 85% | 98% | 100% |
| e) sgôr allan o ddeg ymysg defnyddwyr 16 oed ac iau | 9.5 | =5/18 | 8.0 | 9.4 | 9.7 |
| DA 5 Cymorth i ddefnyddwyr | | | | | |
| a) nifer yn mynychu am bob pen o’r boblogaeth | 81 | 3/21 | 1 | 28 | 214 |
| c) cymorth anffurfiol am bob pen o’r boblogaeth | 65 | 14/20 | 15 | 150 | 608 |
| DA 6 Nifer yn mynychu digwyddiadau am bob pen o’r boblogaeth | 764 | 1/22 | 14 | 224.5 | 764 |
| DA 8 Defnydd o’r llyfrgell | | | | | |
| b) ymweliadau rhithwir am bob pen o’r boblogaeth | 766 | 11/21 | 5 | 766 | 6,035 |
| DA 13 Lefelau staffio a chymwysterau[2] | | | | | |
| (v) a) cyfanswm y gwirfoddolwyr | 52 | Dd/B | 0 | 23 | 442 |
| b) oriau gwirfoddolwyr | 1,850 | Dd/B | 0 | 883 | 22,706 |
| DA 14 Gwariant gweithredol | | | | | |
| a) cyfanswm gwariant am bob pen o’r boblogaeth | £10,415 | 16/21 | £5,978 | £12,646 | £26,209 |
| b) % ar staff | 77% | =3/21 | 48% | 67% | 80% |
| % ar adnoddau gwybodaeth | 8% | =13/21 | 4% | 9% | 19% |
| % ar gyfarpar ac adeiladau | 2% | =11/21 | 0% | 2% | 29% |
| % ar gostau gweithredol eraill | 13% | 13/21 | 1% | 15% | 38% |

# Dadansoddiad o berfformiad

Mae modd rhannu'r Hawliau Craidd a'r dangosyddion ansawdd yn dri phrif faes. Mae'r adran hon o'r adroddiad yn amlinellu perfformiad o dan y meysydd hyn.

## Bodloni anghenion cwsmeriaid (DA 1-2, 4-5)

Nawr bod canlyniadau ar gael o bob rhan o gyfnod Estyniad Fframwaith 6, mae'n amlwg bod Pen-y-bont ar Ogwr yn perfformio'n gadarn mewn perthynas â phobl ifanc, am ei fod yn uwch na'r canolrif am ymatebion cadarnhaol i arolygon ymysg y grŵp cwsmeriaid hwn (DA1 a DA2). Mewn perthynas â Gwneud gwahaniaeth (DA1), mae'r gwasanaeth yn is na'r canolrif ar gyfer rhai o'r mesur oedolion. Fodd bynnag, ym maes Bodlonrwydd cwsmeriaid (DA2), mae ar y canolrif neu oddeutu'r canolrif

[2] *Nid oes safleoedd wedi'u cynnwys ar gyfer gwirfoddolwyr am fod goblygiadau niferoedd gwirfoddolwyr yn aneglur.*

am bob mesur, ac mae'n sgorio'n arbennig o uchel am gyfleusterau TG, a dyma'r gwasanaeth sydd yn y safle uchaf yn genedlaethol am y mesur hwn.

Mae Pen-y-bont ar Ogwr wedi cynyddu nifer y gweithgareddau sy'n cefnogi iechyd a lles eleni, gan gynnwys hel atgofion, gwaith gyda gofalwyr, hybiau dementia a Mental Health Matters. Mae'r gwasanaeth yn bodloni'r targed ym maes Cymorth ar gyfer iechyd a lles (DA4) yn llawn.

Mae'r gwasanaeth yn y chwartel uchaf yn genedlaethol am y nifer sy'n mynychu hyfforddiant ffurfiol am bob pen o'r boblogaeth (DA5). Adroddir bod niferoedd wedi codi mwy na phedair gwaith drosodd o gymharu â 2023-24, am fod Pen-y-bont ar Ogwr wedi gweithio gyda phartneriaid a thrwy'r Cynorthwyydd Llyfrgell Allgymorth a gyllidwyd trwy'r Gronfa Ffyniant Gyffredin i drefnu gweithdai a sesiynau eraill. Dywedodd 100% o fynychwyr eu bod wedi cyflawni eu diben trwy fynychu (n=191). Mae cymorth anffurfiol yn is na'r canolrif cenedlaethol, er bod y nifer sy'n mynychu wedi cynyddu 14% o gymharu â 2023-24.

## Mynediad a defnydd (DA 6-8)

Pen-y-bont ar Ogwr sydd â'r nifer uchaf am bob pen o'r boblogaeth yn mynychu digwyddiadau yn genedlaethol, ac mae'r nifer sy'n mynychu wedi cynyddu 24% o gymharu â 2023-24, a 38% o gymharu â 2022-23 (DA6). Ymhlith yr enghreifftiau o'r mathau o ddigwyddiadau sy'n cael eu cynnig mae digwyddiadau awduron a darlunwyr, sesiynau dawns, sgyrsiau hanes, crefftio, ysgrifennu creadigol, grwpiau dementia, clybiau barddoniaeth, clybiau ffilm a gweithgareddau Gŵyl Llenyddiaeth Plant Pen-y-bont ar Ogwr.

Mae Pen-y-bont ar Ogwr ar y canolrif cenedlaethol am ymweliadau rhithwir am bob pen o'r boblogaeth, ac mae nifer yr ymweliadau a gofnodwyd wedi cynyddu 4% o gymharu â 2023-24 (DA8). Er bod Pen-y-bont ar Ogwr yn parhau i fod yn is na'r canolrif am e-fenthyciadau am bob pen o'r boblogaeth, mae benthyciadau digidol yn cynyddu'n gyflym, ac maen nhw 46% yn uwch nag yn 2023-24 ac yn fwy na dwbl ffigur 2022-23.

## Arbenigedd a chapasiti (DA 13-14 ac 16)

Mewn perthynas â lefelau staffio a chymwysterau, mae Pen-y-bont ar Ogwr yn bodloni'r targedau ar gyfer staff cymwysedig am bob pen o'r boblogaeth, cymwysterau pennaeth y gwasanaeth a chanran DPP (DA13). Er yr adroddwyd bod nifer y staff cymwysedig wedi gostwng 0.8 CALI, mae 4 aelod o staff wedi dechrau'r broses Siarteriaeth CILIP yn ystod 2024-25[3], a ddylai gael effaith ar niferoedd staff cymwysedig yn y blynyddoedd i ddod. Cynyddodd cyfanswm staffio 0.9 CALI yn 2024-25, am fod y gwasanaeth wedi defnyddio cyllid y Gronfa Ffyniant Gyffredin i greu swydd allgyrraedd ychwanegol dros dro a chyllid ar gyfer gwaith hel atgofion i gynnig oriau rhan-amser i staff ddarparu sesiynau hel atgofion mewn cartrefi nyrsio a

[3]Caiff 3 ymgeisydd eu cefnogi gan Lywodraeth Cymru

grwpiau cymunedol. Fodd bynnag, er bod Pen-y-bont ar Ogwr yn uwch na'r canolrif cenedlaethol ar gyfer cyfanswm staff am bob pen o'r boblogaeth, nid yw'n bodloni'r targed hwn o hyd.

Mae'r gwasanaeth yn is na'r canolrif ar gyfer gwariant refeniw am bob pen o'r boblogaeth, ac mae'r ffigur hwn bron yr un peth â'r hyn a gofnodwyd yn 2023-24 (DA14). Mae canran y gwariant a ddyrannwyd i staffio yn y chwartel uchaf yn genedlaethol. Fodd bynnag, mae'r cwymp a ragwelwyd yn y gronfa lyfrau a adroddwyd yn ffurflen 2023-24 yn amlwg eleni am fod y gyllideb lyfrau wedi gostwng 31%, ac mae Pen-y-bont ar Ogwr yn y chwartel isaf yn genedlaethol am y gyllideb lyfrau am bob pen o'r boblogaeth. Hyd yn oed o gymryd y tarfu posibl oherwydd cyflwyno'r LMS newydd i ystyriaeth, mae'r lefel hon o ostyngiad i'r gronfa lyfrau yn bryder difrifol.

Mae Pen-y-bont ar Ogwr yn chwartel uchaf awdurdodau llyfrgell Cymru am Oriau agor am bob pen o'r boblogaeth, ac mae'n bodloni'r targed ar gyfer y mesur hwn (DA16). At ei gilydd, mae oriau agor wedi gostwng ychydig (2%) o gymharu â 2023-24. Gostyngodd Llyfrgell Sarn ei horiau agor o fis Gorffennaf 2024, ac adleolodd Llyfrgelloedd Maesteg a'r Llynfi ym mis Hydref 2024, gyda'u gwasanaethau'n cael eu symud i Neuadd y Dref, Maesteg. Am eu bod bellach yn yr un lleoliad, mae'r oriau sydd wedi'u hadrodd ganddynt wedi'u rhannu, yn hytrach na chael eu cyfrif ar wahân.

## Y cyd-destun strategol

Yn rhan o'r ffurflen, mae gofyn i awdurdodau adrodd ar y ffordd mae'r gwasanaeth llyfrgelloedd yn cyfrannu at flaenoriaethau a nodau strategol ehangach Llywodraeth Cymru. Amlinellodd Pen-y-bont ar Ogwr (Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol Awen) sut mae eu Hamcanion Effaith Gymdeithasol yn alinio â strategaethau Llywodraeth Cymru. Ymhlith eu hamcanion Effaith Gymdeithasol, mae:

- Creu gwell gobeithion mewn bywyd trwy ymgysylltu â mwy o bobl, gwella llythrennedd a llythrennedd digidol, cefnogi darllen er pleser, hyrwyddo annibyniaeth a lleihau ynysigrwydd cymdeithasol.
- Creu profiadau cofiadwy a chadarnhaol trwy gynnig mannau cymunedol sy'n bodloni anghenion amrywiol; darparu hyblygrwydd; ac sy'n groesawgar, diogel ac yn gallu cynnal amrywiaeth o weithgareddau.
- Cefnogi adfywio cymdeithasol a gwella lles trwy wella mynediad i wybodaeth iechyd, lleihau ynysigrwydd cymdeithasol a gwella lles cyfranogwyr.
- Cynyddu sgiliau bywyd a chyfleoedd trwy hyfforddiant ffurfiol ac anffurfiol, gan gael effaith gadarnhaol ar lythrennedd a llythrennedd gwybodaeth.
- Lleihau'r defnydd o ynni a lleihau effaith amgylcheddol y gwasanaeth llyfrgell.

Mae Gwasanaethau Llyfrgell Pen-y-bont ar Ogwr yn amlygu sut mae'r blaenoriaethau hyn yn cefnogi ystod o bolisïau Llywodraeth Cymru. Ymhlith yr enghreifftiau penodol roedd cefnogi Mis Hanes Pobl Ddu gyda gweithgareddau a

stoc gynhwysol; cynnwys staff mewn mentrau fel Panel Casgliadau Llyfrgell Gwrth-hiliol CILIP (Cymru Wrth-hiliol); a sicrhau bod cynrychiolaeth LHDTCRhA+ mewn digwyddiadau a chasgliadau (Cynllun Gweithredu LHDTC+ Cymru)

## Cyfeiriad at y dyfodol

Gan adrodd ar gyfeiriad yr awdurdod at y dyfodol, a'i gynlluniau ar gyfer y gwasanaeth llyfrgell dros y flwyddyn sydd i ddod, mae Pen-y-bont ar Ogwr yn nodi bod pwysau ariannol sylweddol sy'n wynebu'r cyngor wedi arwain at adolygiad o amrywiol wasanaethau er mwyn adnabod arbedion posibl a gwella effeithlonrwydd gweithredol. Yn y cyd-destun hwn, mae'r Cyngor, gan weithio gydag Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol Awen, yn datblygu Strategaeth Gwasanaethau Diwylliannol a fydd yn mabwysiadu ymagwedd wedi'i seilio ar dystiolaeth lle mae'r gymuned yn y canol.

Er nad oes unrhyw gynigion nac amserlenni wedi'u cadarnhau ar hyn o bryd, bydd y gwasanaeth llyfrgell yn parhau yn unol â'i gynllun i ddatblygu Strategaeth Llyfrgell newydd i rychwantu 2026-29. Bydd y strategaeth hon yn alinio gyda Blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer Diwylliant, Fframwaith 7 Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru a Strategaeth 2025-30 Awen ei hun. Bydd hefyd yn ymgorffori argymhellion yn sgil yr Ymgynghoriad Llyfrgelloedd sydd ar y gweill ac yn adlewyrchu canlyniadau'r Strategaeth Gwasanaethau Diwylliannol ehangach. Mae'r adroddiad yn adrodd bod yr amserlen ar gyfer strategaeth 2026-29 yn dibynnu ar amseru Strategaeth Gwasanaethau Diwylliannol yr awdurdod lleol. Mae Pen-y-bont ar Ogwr y parhau'n ymrwymedig i ddatblygu staff, gyda'r nod o greu tîm cydnerth, medrus a blaengar sy'n barod i fodloni anghenion esblygol ei gymunedau.

## Casgliad

Mae Gwasanaeth Llyfrgell Pen-y-bont ar Ogwr yn perfformio'n dda. Mae gweithgareddau, digwyddiadau a darpariaethau hyfforddiant ffurfiol yn gryfderau pwysig i'r gwasanaeth. Mae Pen-y-bont ar Ogwr yn parhau i ymestyn ei ystod o weithgareddau, ac mae ffigurau mynychu yn cynyddu'n nodedig. Nodwedd gadarnhaol arall yw'r ffaith bod y gwasanaeth yn bodloni'r targed ar gyfer staff cymwysedig am bob pen o'r boblogaeth a'i fod yn cynllunio at y dyfodol trwy gefnogi staff i ennill Siarteriaeth CILIP. Mae Pen-y-bont ar Ogwr yn perfformio'n dda mewn adborth gan blant a phobl ifanc, ac am fodlonrwydd cwsmeriaid. Fel sy'n wir mewn llawer o wasanaethau, mae Pen-y-bont ar Ogwr yn wynebu pwysau ariannol, fel sy'n amlwg eleni yn y gostyngiad yn y gyllideb lyfrau a adroddwyd. Fodd bynnag, am mai ychydig iawn o wybodaeth sydd ar gael hyd yma ar y Strategaeth Llyfrgelloedd a'r Strategaeth Gwasanaethau Diwylliannol newydd, mae'n anodd cynnig sylw manwl am yr effaith bosibl ar y gwasanaeth yn y dyfodol.

# Adroddiad Asesu Blynyddol 2024-25 Caerffili

Mae'r adroddiad hwn wedi'i baratoi ar sail gwybodaeth a ddarparwyd gan ffurflen flynyddol Caerffili, datganiadau effaith ac adroddiad naratif a gyflwynwyd i Is-adran Diwylliant Llywodraeth Cymru.

## Crynodeb gweithredol

Mae Caerffili yn bodloni pob un o'r 13 Hawl Graidd yn llawn. O'r 5 dangosydd ansawdd lle mae targedau, mae Caerffili yn cyflawni 4 yn llawn ac 1 yn rhannol.

Mae Gwasanaeth Llyfrgell Caerffili yn parhau i berfformio'n dda mewn llawer o feysydd. Mae'r gwasanaeth yn cynnig ystod eang o weithgareddau sy'n cael eu mynychu'n dda, gan gynnwys cymorth i gwsmeriaid â gofynion arbennig. Mae staffio wedi bod yn gymharol sefydlog eleni, gyda'r gwasanaeth yn cefnogi hyfforddiant staff, gan gynnwys Siarteriaeth CILIP. Er nad oes amheuaeth bod heriau o ran mannau gwasanaeth â staff unigol, fel y nodwyd mewn adroddiadau blaenorol, mae'r ansicrwydd ynghylch lefel y ddarpariaeth yng Nghaerffili yn y dyfodol yn amlwg yn bryder. Yn naturiol, ffocws pwysig i'r gwasanaeth llyfrgell yn 2025-26 fydd sicrhau bod yr awdurdod yn parhau i gyflwyno darpariaeth safonol i bob cwsmer trwy ddulliau allgyrraedd cymunedol a dulliau eraill. Yn yr amgylchiadau hyn, mae'n hanfodol bod y gwasanaeth yn monitro effaith newidiadau ar fodlonrwydd cwsmeriaid, niferoedd sy'n mynychu, benthyciadau a mesuriadau eraill SLICC.

- Mae'r nifer sy'n mynychu hyfforddiant ffurfiol wedi cynyddu 51% o gymharu â 2023-24 (DA5).
- Mae Caerffili'n parhau i fod yn chwartel uchaf awdurdodau llyfrgell Cymru ar gyfer y nifer sy'n mynychu digwyddiadau am bob pen o'r boblogaeth; mae'r nifer sy'n mynychu wedi cynyddu 35% o gymharu â 2023-24 a 93% o gymharu â 2022-23 (DA6).
- Mae nifer yr e-fenthyciadau wedi cynyddu 66% o gymharu â 2023-24 ac wedi mwy na dyblu o gymharu â 2022-23 (DA9).

## Nodyn i adroddiad 2024-25

Yn ystod 2024-25, symudodd awdurdodau lleol yng Nghymru i Blatfform Llyfrgell Ddigidol newydd ar gyfer Cymru gyfan. Perwyd rhywfaint o darfu i weithrediad gwasanaethau llyfrgell yn ystod y broses symud, gan gynnwys mewn perthynas â chaffael stoc newydd, sef gwaith y bu'n rhaid ei atal am gyfnod wrth i wasanaethau unigol symud i'r system newydd. Mae rhywfaint o fân wahaniaethau hefyd yn ffurfwedd y platfform newydd, sy'n golygu nad yw data defnyddwyr yn ystod 2024-25

yn gwbl gyson. Felly, nid yw'r adroddiadau ar gyfer 2024-25 yn cynnwys y data a nodir isod ar gyfer Dangosyddion Ansawdd 4, 8, 9 a 10.

DA 4 Cymorth ar gyfer iechyd a lles
c) nifer y benthyciadau o gyfres Darllen yn Well Cymru

DA 8 Defnydd o'r llyfrgell
c) cyfanswm y benthycwyr gweithredol wedi'i rannu â maint y boblogaeth drigolion, a'i luosi â 1,000
d) cyfanswm aelodau'r llyfrgell
e) cyfanswm y llyfrau a fenthycwyd (oedolion a phlant ar wahân)
f) cyfanswm yr eitemau clyweledol a fenthycwyd

DA 9 Deunydd darllen cyfoes a phriodol
a) cyfradd gaffael isaf
b) % a wariwyd ar adnoddau i blant

DA 10 Adnoddau yn y Gymraeg
a) isafswm gwariant o 4%
b) benthyciadau yn y Gymraeg am bob pen o'r boblogaeth

Caiff yr holl ddata ei adrodd a'i asesu ar gyfer 2025-26 (sef blwyddyn gyntaf Fframwaith 7), a chaiff y data hwn ei ddefnyddio i osod y meincnod ar gyfer y blynyddoedd sy'n weddill yn y fframwaith.

# Perfformiad yn erbyn y safonau

Mae'r fframwaith safonau'n cynnwys Hawliau Craidd, dangosyddion ansawdd gyda thargedau, dangosyddion ansawdd gyda meincnodau a mesurau effaith.

## Hawliau Craidd

Adroddodd Caerffili ei fod wedi bodloni pob un o'r 13 Hawl Graidd yn llawn trwy hunanasesu. Ar sail y sylwebaeth fanwl a chynorthwyol a ddarparwyd, mae'r asesydd annibynnol yn cytuno gyda'r hunanasesiad.

## Dangosyddion ansawdd gyda thargedau

Mae 12 dangosydd ansawdd (DA), y mae gan 5 ohonynt dargedau cyfansoddol. O'r rhain, mae Caerffili yn cyflawni 4 yn llawn ac 1 yn rhannol.

DA 4 (a) Cymorth ar gyfer iechyd a lles, **bodlonwyd yn llawn ▲**
i) Cynllun Darllen yn Well, **bodlonwyd**
ii) Casgliad dynodedig iechyd a lles, **bodlonwyd**
iii) Gwybodaeth am ffyrdd iachach o fyw ac ymddygiad iach, **bodlonwyd**
iv) Cyfeirio at wasanaethau iechyd a lles, **bodlonwyd**

DA 6 Mae'r holl fannau gwasanaeth sefydlog yn cynnig

digwyddiadau/gweithgareddau i ddefnyddwyr âgofynion arbennig, **bodlonwyd yn llawn ▲**

DA 7 Lleoliad mannau gwasanaeth, **bodlonwyd yn llawn ▲**

DA 13 Lefelau staffio a chymwysterau, **bodlonwyd yn rhannol ■**
i) Staff am bob pen o'r boblogaeth, **ni fodlonwyd**
ii) Staff cymwysedig am bob pen o'r boblogaeth, **ni fodlonwyd**
iii) Cymwysterau/hyfforddiant pennaeth y gwasanaeth, **bodlonwyd**
iv) Canran DPP, **bodlonwyd**

DA 16 Oriau agor am bob pen o'r boblogaeth, **bodlonwyd yn llawn ▲**

## Mesurau effaith

Mae'r fframwaith yn cynnwys tri dangosydd gyda'r nod o asesu effaith defnyddio llyfrgelloedd ar fywydau pobl. Nid oes targedau i'r dangosyddion hyn, ac mae disgwyl i awdurdodau gynnal arolygon defnyddwyr ar gyfer DA1 ar un achlysur yn ystod y cyfnod o 2022-23 i 2024-25. Cynhaliodd Caerffili arolwg oedolion ym mis Tachwedd/Rhagfyr 2023 ac arolwg plant ym mis Tachwedd 2022. Fodd bynnag, ni ofynnwyd rhai o'r cwestiynau gofynnol ar gyfer y SLICC fel cwestiynau unigol, ond cawsant eu cynnwys mewn cyfres o opsiynau posibl. Mae hyn yn golygu ei bod yn anodd tynnu cymariaethau rhwng yr ymatebion a dderbyniwyd gan gwsmeriaid llyfrgell yng Nghaerffili ac ymatebion a gafwyd o fannau eraill. Mae'r ffigyrau crynodol (isaf, canolrifol ac uchaf) wedi'u seilio ar ddata gan bob awdurdod lleol a ddarparodd ddata yn ffurflenni 2022-23, 2023-24 a 2024-25. Mae'r safleoedd yn adlewyrchu nifer yr ymatebwyr, lle mai 1 yw'r awdurdod sy'n sgorio uchaf.

| Dangosydd perfformiad | | Safle | Isaf | Canolrifol | Uchaf |
|---|---|---|---|---|---|
| DA 1 Gwneud gwahaniaeth | | | | | |
| b) % y bobl ifanc sydd o'r farn bod y llyfrgell yn eu helpu i ddysgu a chael gwybod pethau: | 89%[4] | 15/19 | 68% | 94% | 99% |
| e) % yr oedolion sydd o'r farn bod y llyfrgell wedi gwneud gwahaniaeth i'w bywydau: | 31% | 20/20 | 31% | 86.5% | 96% |
| DA 5 b) % y mynychwyr sesiynau hyfforddiant a ddywedodd fod yr hyfforddiant wedi'u helpu i gyflawni eu diben trwy fynychu: | 99% | =6/18 | 75% | 98.5% | 100% |

Gofynnir hefyd i awdurdodau ddarparu datganiad effaith yn disgrifio'r effaith mae'r gwasanaeth llyfrgell wedi'i chael ar unigolyn neu ar grŵp o unigolion yn ystod y flwyddyn. Darparodd Caerffili ddatganiad effaith a amlygodd y rôl werthfawr mae'r llyfrgell wedi'i chwarae o ran cefnogi'r gymuned leol o Wcráin. Mae Llyfrgell Caerffili wedi darparu gofod a chymorth mewn amgylchedd diogel, cynhwysol, cyfeillgar a

[4] *Adroddwyd ffigur o 58%, ond cynigiwyd opsiynau 'llawer' ac 'ychydig' i ymatebwyr, felly mae'r ymatebion ar gyfer y ddau opsiwn wedi'u cyfuno yn y tabl cymharu.*

chroesawgar i Grŵp Cymunedol Wcreinaidd yn cynnwys pobl a adleolwyd oherwydd rhyfel. Dechreuodd cymorth y llyfrgell gyda chlwb siarad Saesneg a dyfodd yn fuan yn grŵp cymunedol Wcreinaidd yn cyfarfod yn wythnosol ers 2023. Mae’r aelodau wedi datblygu sgiliau iaith, magu hyder a chael gwybodaeth bwysig am dai, cyflogaeth a chymorth iechyd meddwl. Mae'r llyfrgell wedi cynnal digwyddiadau diwylliannol, sesiynau celf a gweithdai, gan greu cyfleoedd i Wcreiniaid rannu eu traddodiadau tra'n dysgu am ddiwylliant Cymru. Fel y rhannodd aelodau, *"Gyda'n gilydd, rydyn ni wedi chwerthin, crio, rhannu storïau, gwneud ffrindiau, a darganfod darnau o'n hunain eto."*

Yn ogystal â darparu cymorth ymarferol i oedolion, fel gwersi theori dysgu gyrru am ddim, mae'r llyfrgell wedi rhoi lle i blant chwarae, dysgu a mynegi eu hunain trwy gelf, gan helpu teuluoedd i fwrw gwreiddiau yn eu cymuned newydd. Mynegodd un aelod werthfawrogiad diffuant, *"Mae'r hyn a ddechreuodd fel cynnig syml o ofod wedi troi'n rhywbeth llawer mwy: lle i ymadfer, cysylltu a gobeithio."* Diolch i ofal a thrugaredd y llyfrgell, mae'r Grŵp Cymunedol Wcreinaidd wedi creu bondiau cadarn; wedi teimlo'u bod yn weledol ac yn derbyn cymorth; ac wedi cymryd camau pwysig tuag at integreiddio. Myfyriodd un aelod, *"Daeth y llyfrgell yn bont rhwng ein gorffennol a'n dyfodol... byd rydym yn perthyn iddo eto."*

## Dangosyddion ansawdd a meincnodau

Nid oes targedau i'r dangosyddion sy'n weddill, ond maent yn caniatáu i wasanaethau fonitro eu perfformiad dros amser. Mae'r tabl canlynol yn crynhoi safle Caerffili ar gyfer 2024-25. Mae'r safleoedd yn adlewyrchu nifer yr ymatebwyr, lle mai 1 yw'r awdurdod sy'n sgorio uchaf. Caiff dangosyddion 'am bob pen o’r boblogaeth' eu cyfrifo fesul 1,000 o'r boblogaeth oni nodir fel arall.

| Dangosydd perfformiad | | Safle | Isaf | Canolrifol | Uchaf |
|---|---|---|---|---|---|
| DA 1 Gwneud gwahaniaeth | | | | | |
| a) % yr oedolion sydd o'r farn bod defnyddio'r llyfrgell wedi'u helpu i ddatblygu sgiliau newydd | 17% | 20/20 | 17% | 70% | 90% |
| c) iechyd a lles | 1% | 20/20 | 1% | 63% | 90% |
| d) pleserus, diogel a chynhwysol | 99% | =4/20 | 93% | 97% | 100% |
| DA 2 Bodlonrwydd cwsmeriaid | | | | | |
| a) dewis 'da iawn' neu 'dda' o lyfrau | 95% | 3/20 | 84% | 90.5% | 97% |
| b) gofal cwsmeriaid 'da iawn' neu 'dda' | 99% | =2/20 | 92% | 98% | 100% |
| c) cyfleusterau TG 'da iawn' neu 'dda' | 88% | 7/20 | 60% | 85% | 99% |
| d) 'da iawn' neu 'dda' yn gyffredinol | 98% | =7/20 | 85% | 98% | 100% |
| e) sgôr allan o ddeg ymysg defnyddwyr 16 oed ac iau | 9.5 | =5/18 | 8.0 | 9.4 | 9.7 |
| DA 5 Cymorth i ddefnyddwyr | | | | | |
| a) nifer yn mynychu am bob pen o’r boblogaeth | 17 | 14/21 | 1 | 28 | 214 |
| c) cymorth anffurfiol am bob pen o’r boblogaeth | 50 | 18/20 | 15 | 150 | 608 |
| DA 6 Nifer yn mynychu digwyddiadau am bob pen o’r boblogaeth | 527 | 3/22 | 14 | 224.5 | 764 |
| DA 8 Defnydd o’r llyfrgell | | | | | |
| b) ymweliadau rhithwir am bob pen o’r boblogaeth | 642 | 13/21 | 5 | 766 | 6,035 |
| DA 13 Lefelau staffio a chymwysterau[5] | | | | | |
| (v) a) cyfanswm y gwirfoddolwyr | Dd/B | Dd/B | 0 | 23 | 442 |
| b) oriau gwirfoddolwyr | 164 | Dd/B | 0 | 883 | 22,706 |
| DA 14 Gwariant gweithredol | | | | | |
| a) cyfanswm gwariant am bob pen o’r boblogaeth | £17,552 | 4/21 | £5,978 | £12,646 | £26,209 |
| b) % ar staff | 58% | =17/21 | 48% | 67% | 80% |
| % ar adnoddau gwybodaeth | 7% | 17/21 | 4% | 9% | 19% |
| % ar gyfarpar ac adeiladau | 29% | 1/21 | 0% | 2% | 29% |
| % ar gostau gweithredol eraill | 5% | 19/21 | 1% | 15% | 38% |

# Dadansoddiad o berfformiad

Mae modd rhannu'r Hawliau Craidd a'r dangosyddion ansawdd yn dri phrif faes. Mae'r adran hon o'r adroddiad yn amlinellu perfformiad o dan y meysydd hyn.

## Bodloni anghenion cwsmeriaid (DA 1-2, 4-5)

Nawr bod canlyniadau ar gael o bob rhan o gyfnod Estyniad Fframwaith 6, mae'n amlwg bod Caerffili'n perfformio'n dda ym meysydd Bodlonrwydd cwsmeriaid (DA2), ac mae'n uwch na'r canolrif ar gyfer pob mesur. Fodd bynnag, mae ymatebion arolwg ar gyfer Gwneud gwahaniaeth (DA1) yn fwy cymysg. Fel yr esboniwyd yn adroddiad 2023-24, mae'n debyg bod hyn, o leiaf yn rhannol, yn ganlyniad i'r ffordd y gofynnwyd cwestiynau yn arolwg Caerffili, sy'n ei gwneud yn anodd tynnu

[5] *Nid oes safleoedd wedi'u cynnwys ar gyfer gwirfoddolwyr am fod goblygiadau niferoedd gwirfoddolwyr yn aneglur.*

cymariaethau rhwng yr ymatebion hyn ac ymatebion a adroddwyd gan awdurdodau llyfrgell eraill.

Mae Caerffili yn bodloni'r targed ym maes Cymorth ar gyfer iechyd a lles (DA4) yn llawn. Ymhlith y cymorth a'r gwasanaethau lles sydd ar gael mae sesiynau Cyfarfod, Cyfarch a Chyfeirio gyda Swyddogion Cyswllt Teuluoedd Pwylaidd ac Wcreinaidd CBSC a grwpiau cymorth i Wcreiniaid; Gofodau Cynnes a Chroesawgar, gan ganiatáu i staff llyfrgell gyfeirio'n weithredol at y tîm Gofalu am Gaerffili; ac ystod o nwyddau a gynigir ar ran sefydliadau partner (e.e. bagiau cadi gwyrdd a chewynnau amldro).

Mae Caerffili'n is na'r canolrif ar gyfer y nifer sy'n mynychu hyfforddiant/cymorth ffurfiol ac anffurfiol (DA5); Fodd bynnag, mae'r nifer sy'n mynychu hyfforddiant ffurfiol wedi cynyddu 51% o gymharu â 2023-24 ac mae'r gwasanaeth yn perfformio'n gadarn am ganran y mynychwyr a ddywedodd eu bod wedi cyflawni eu diben trwy fynychu. Ymhlith yr hyfforddiant a gynigir mae sgiliau digidol, sgiliau rhifedd a llythrennedd oedolion/Saesneg i Siaradwyr Ieithoedd Eraill (ESOL). Mae'r ffigurau am gymorth anffurfiol wedi cynyddu 3% o gymharu â 2023-24 a nodir, am fod 11 o'r 18 man gwasanaeth yn lleoliadau staff unigol, fod y cynnig o gymorth TG dwys yn aml yn anodd.

## Mynediad a defnydd (DA 6-8)

Mae Caerffili'n parhau i fod yn chwartel uchaf awdurdodau llyfrgell Cymru am y nifer sy'n mynychu digwyddiadau am bob pen o'r boblogaeth (DA6). Mae'r nifer sy'n mynychu wedi cynyddu 35% o gymharu â 2023-24, a 93% o gymharu â 2022-23. Ymhlith y digwyddiadau mae cyfranogiad mewn digwyddiad Balchder/Pride Caerffili; Cymdeithas Sefydliadau Gwirfoddol Gwent (GAVO); Dewch i Siarad â'ch Babi; crefftau a storïau'r ardd; digwyddiad cerddoriaeth gyda 'The Blessed Crow'; Diwrnod Creu Cerddoriaeth (sesiynau gyda'r nod o godi hyder a sgiliau bywyd); digwyddiad Ghostbusters (celf a gweithgareddau i bob oedran); sesiynau rhagarweiniol cyfeillgar i bobl ag awtistiaeth; a sesiynau synhwyraidd.

Mae Caerffili yn parhau i fodloni'r targed ym maes Lleoliad mannau gwasanaeth (DA7). Mae'r awdurdod wedi cynnal pob un o'i 18 llyfrgell sefydlog yn ystod y cyfnod adrodd hwn. Fodd bynnag, bwriedir cau 10 llyfrgell yn ardal bwrdeistref Caerffili ar 31 Awst 2025, sef: Aberbargod, Abercarn, Abertridwr, Bedwas, Deri, Llanbradach, Machen, Nelson, Oakdale, a Phengam. Mae'r gwasanaeth yn cyflawni gwaith i asesu Trosglwyddiadau Asedau Cymunedol a chynnig Gwasanaeth Llyfrgell Allgyrraedd Cymunedol mewn lleoliadau cymunedol i liniaru'r camau cau. Yn ogystal, mae'r gwasanaeth 'LibraryLink' yn mynd trwy adolygiad i ryddhau lleoedd i drigolion cymwys a allai gael eu heffeithio gan y camau cau.

Er bod ymweliadau rhithwir am bob pen o'r boblogaeth yn parhau i fod yn is na'r canolrif, mae'r ffigur hwn wedi cynyddu 37% o gymharu â 2023-24 (DA8). Mae'r gwasanaeth yn awgrymu y gallai'r cynnydd fod oherwydd ystod o ffactorau gan

gynnwys y symud i PressReader a chael mynediad i ddigwyddiadau llyfrgell ar wefan Dewis Cymru. Yn ogystal, gall trigolion ymuno â'r llyfrgell bellach i gael mynediad ar-lein yn unig, ac os ydynt yn dymuno cael mynediad llawn, gallant ymweld â'u llyfrgell leol i uwchraddio'u cyfrif. Mae nifer yr e-fenthyciadau wedi cynyddu 66% o gymharu â 2023-24 ac wedi mwy na dyblu o gymharu â 2022-23. Fodd bynnag, mae Caerffili'n is na'r canolrif cenedlaethol ar gyfer y mesur hwn.

### Arbenigedd a chapasiti (DA 13-14 ac 16)

Mewn perthynas â lefelau staffio a chymwysterau, er nad yw Caerffili'n bodloni'r targedau am gyfanswm staff a staff cymwysedig am bob pen o'r boblogaeth, mae'n uwch na'r canolrif ar gyfer y ddau fesur (DA13). Fodd bynnag, bu’n rhaid i’r gwasanaeth gau safleoedd ag un aelod o staff ar 8 achlysur oherwydd pwysau staffio. Mae'r ffigur cyfanswm staff yn ddigyfnewid ers y flwyddyn flaenorol, tra bod nifer y staff cymwysedig wedi gostwng 0.1 CALI oherwydd ymddeoliad. Mae Llyfrgellydd Cymunedol ran o'r ffordd trwy gymhwyster gradd Meistr, ac mae 1 aelod o staff yn ymgymryd â Siarteriaeth CILIP ar hyn o bryd, gyda chymorth Llywodraeth Cymru. Mae'r ganran DPP wedi cynyddu o gymharu â 2023-24, ac mae Caerffili'n parhau i fodloni'r targed hwn.

Ar sail ffigurau amcangyfrifedig gan Dîm Cyllid CBSC, mae Caerffili'n parhau i fod yn y chwartel uchaf yn genedlaethol am wariant refeniw am bob pen o'r boblogaeth, ac mae gwariant gweithredol wedi cynyddu 10% o gymharu â 2023-24 (DA14). Fodd bynnag, mae'r gyllideb lyfrau wedi gostwng 8%. Er y gallai cyflwyno'r LMS fod wedi effeithio ar hyn, mae'n bryder ar ben y gostyngiad o 15% a adroddwyd y llynedd. Y gwasanaeth sydd â'r gyfran uchaf o wariant ar gyfarpar ac adeiladau yn genedlaethol, yn rhannol oherwydd ad-daliad NNDR (Ardreth Annomestig Genedlaethol - Trethi Busnes).

Nid yw oriau agor wedi newid ers 2023-24 (DA16). Mae Caerffili'n parhau i fod yn chwartel uchaf awdurdodau llyfrgell Cymru am oriau agor am bob pen o'r boblogaeth, ac mae’n bodloni'r targed ar gyfer y mesur hwn. Wedi iddi orfod cau yn sgil Storm Eunice ym mis Ebrill 2022, ailagorodd Llyfrgell Deri ym mis Awst 2024. Yn ogystal, ailagorodd Llyfrgell Pengam ddechrau mis Ebrill 2025 wedi buddsoddiad gan gynllun Dechrau'n Deg CBSC a Llywodraeth Cymru i greu cyd-lyfrgell gyhoeddus ac adeilad Meithrin Dechrau'n Deg.

## Y cyd-destun strategol

Yn rhan o'r ffurflen, mae gofyn i awdurdodau adrodd ar y ffordd mae'r gwasanaeth llyfrgelloedd yn cyfrannu at flaenoriaethau a nodau strategol ehangach Llywodraeth Cymru. Darparodd Caerffili wybodaeth fapio gynhwysfawr ynghylch y ffordd mae'r gwasanaeth yn cefnogi Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a blaenoriaethau strategol eraill Llywodraeth Cymru. Ymhlith yr enghreifftiau o'r cyfraniadau yn erbyn yr Amcanion Llesiant mae'r canlynol:

- **Galluogi Ein Plant i Lwyddo mewn Addysg** e.e. Dechrau Da, sesiynau'r Blynyddoedd Cynnar, Clybiau Codio, Clybiau Gwaith Cartref, Cymhorthion Darllen, grwpiau darllen; cynllun gwirfoddoli i bobl ifanc 15-17 oed i gefnogi Her Ddarllen yr Haf a'r Cynllun Ymgysylltu ag Ysgolion i wella darllen, gwybodaeth a sgiliau dysgu disgyblion, wedi'u halinio â'r Cwricwlwm i Gymru.
- **Galluogi Ein Trigolion i Ffynnu** e.e. gweithgareddau fel y 'Golden Oldies', Clybiau Codio ar gyfer Oedolion a Gweu a Sgwrs; Mannau Cynnes a Chroesawgar gyda lluniaeth am ddim, cardiau SIM a phecynnau cynnes; cymorth digidol am ddim mewn partneriaeth â Barclays; a phrosiectau â ffocws ar gyflogaeth fel Pontydd i Waith a Chymunedau am Waith.
- **Galluogi Ein Cymunedau i Ffynnu** e.e. cynlluniau fel Darllen yn Well a'r Lab Empathi; cynnyrch mislif am ddim trwy'r Cynllun Urddas Mislif; darparu gofod ar gyfer sefydliadau iechyd fel y GIG a MIND; a sesiynau adsefydlu ar gyfer trigolion o Wcráin a Gwlad Pwyl.
- **Galluogi Ein Heconomi i Dyfu** e.e. gofod ar gyfer darparwyr cyngor busnes; cyfleusterau hyfforddi a chyfarfod o'r radd flaenaf yn Hyb Llyfrgell Rhymni; argraffu a sganio fforddiadwy; cymorth i ymgeiswyr i Gynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE; a gweithredu fel tenantiaid angor mewn canol trefi i gefnogi lles economaidd lleol.
- **Galluogi Ein Hamgylchedd i fod yn Wyrddach** e.e. cyfranogi yn y fenter Books4U; ailgylchu siacedi plastig ar lyfrau; cardiau aelodau wedi'u creu gyda phlastig wedi'i ailgylchu; gwefru cerbydau trydan yn Hyb Llyfrgell Rhymni; ailgylchu llyfrau a derfynwyd; a rhoi dodrefn ofer i sefydliadau cymunedol.

## Cyfeiriad at y dyfodol

Gan adrodd ar gyfeiriad yr awdurdod at y dyfodol a'i gynlluniau ar gyfer y gwasanaeth llyfrgell dros y flwyddyn sydd i ddod, mae Caerffili wedi gosod llwybr clir gyda'r Cabinet yn cymeradwyo ei Weledigaeth Strategol Llyfrgelloedd Cyhoeddus newydd ar gyfer 2025-28 ym mis Mai 2025. Mae'r strategaeth hon yn ailddatgan ymrwymiad y cyngor i ddarparu gwasanaeth llyfrgell cynaliadwy, cynhwysol ac ysbrydolgar sy'n cefnogi dysgu gydol oes ac yn meithrin cysylltiadau cymunedol. Mae trosglwyddo i fodel Hwb wrth galon y weledigaeth, gan sicrhau y gall trigolion gael mynediad at adnoddau llyfrgell a gwasanaethau cymorth ehangach mewn lleoliadau allweddol yng nghanol trefi ar draws y fwrdeistref sirol. Mae'r strategaeth yn amlinellu pedwar amcan allweddol: gwella a datblygu’r gwasanaethau llyfrgelloedd a’r arlwy sydd ar gael; helpu trigolion i gael mynediad at wybodaeth, cyngor a chymorth mewn lleoliad Hwb; rhoi anghenion y gymuned wrth galon Hybiau canol trefi, er mwyn annog rhagor o wytnwch i unigolion trwy gymorth a chyfeirio; a rhesymoli nifer yr adeiladau i wneud y mwyaf o adnoddau a gwella’r cynnig cyffredinol. Ymhlith y cynlluniau ar gyfer 2025-26 mae dadgomisiynu 10 safle llyfrgell; paratoi a darparu prosiectau allgyrraedd cymunedol; a gweithio gyda sefydliadau i fynd ar drywydd Trosglwyddiadau Asedau Cymunedol i weithredu gwasanaethau llyfrgell annibynnol yn y safleoedd yr effeithiwyd arnynt. Bydd y

gwasanaeth hefyd yn canolbwyntio ar baratoi a staffio'r llyfrgelloedd Hwb newydd; datblygu Cynllun Gwella Gwasanaeth Llyfrgelloedd newydd ar gyfer 2026-29; a chynnal ei ymrwymiad i ddarpariaeth safonol.

## Casgliad

Mae Gwasanaeth Llyfrgell Caerffili yn parhau i berfformio'n dda mewn llawer o feysydd. Fel mewn blynyddoedd blaenorol, mae'n amlwg bod staff yn falch o'r gwasanaeth y maent yn ei gynnig ac wedi cymryd amser a gofal mawr yn darparu gwybodaeth fanwl yn y ffurflen SLICC. Mae'r gwasanaeth yn cynnig ystod eang o weithgareddau sy'n cael eu mynychu'n dda, gan gynnwys cymorth i gwsmeriaid â gofynion arbennig. Mae staffio wedi bod yn gymharol sefydlog eleni, gyda'r gwasanaeth yn cefnogi hyfforddiant staff, gan gynnwys Siarteriaeth CILIP. Er nad oes amheuaeth bod heriau o ran mannau gwasanaeth â staff unigol, fel y nodwyd mewn adroddiadau blaenorol, mae’r ansicrwydd ynghylch lefel y ddarpariaeth yng Nghaerffili yn y dyfodol yn amlwg yn bryder. Yn naturiol, ffocws pwysig i'r gwasanaeth llyfrgell yn 2025-26 fydd sicrhau bod yr awdurdod yn parhau i gyflwyno darpariaeth safonol i bob cwsmer trwy ddulliau allgyrraedd cymunedol a dulliau eraill. Yn yr amgylchiadau hyn, mae'n hanfodol bod y gwasanaeth yn monitro effaith newidiadau ar fodlonrwydd cwsmeriaid, niferoedd sy'n mynychu, benthyciadau a mesuriadau eraill SLICC.

# Adroddiad Asesu Blynyddol 2024-25 Caerdydd

Mae'r adroddiad hwn wedi'i baratoi ar sail gwybodaeth a ddarparwyd gan ffurflen flynyddol Caerdydd, datganiadau effaith ac adroddiad naratif a gyflwynwyd i Is-adran Diwylliant Llywodraeth Cymru.

## Crynodeb gweithredol

Mae Caerdydd yn bodloni pob un o'r 13 Hawl Graidd yn llawn. O'r 5 dangosydd ansawdd lle mae targedau, mae Caerdydd yn cyflawni 4 yn llawn ac 1 yn rhannol.

Mae Caerdydd yn parhau i berfformio'n dda ac i gynnig gwasanaeth o ansawdd uchel i'w chwsmeriaid, fel y tystiolaethir gan sgorau bodlonrwydd cwsmeriaid. Mae cymorth i ddefnyddwyr, hyfforddiant a'r nifer sy'n mynychu digwyddiadau'n parhau i fod yn gryfder allweddol i'r gwasanaeth, ac mae'n amlwg bod staff yn ymdrechu i sicrhau bod y rhain yn gynhwysol i gwsmeriaid ag ystod eang o anghenion a diddordebau. Mae'n gadarnhaol bod nifer yr e-fenthyciadau wedi adfer yn sgil y gostyngiad a adroddwyd yn 2023-24. Fodd bynnag, mae'r gostyngiad yng nghanran y cwsmeriaid sy'n dyfarnu bod y stoc lyfrau a'r cyfleusterau TG yn dda neu'n dda iawn yn rhywbeth y bydd y gwasanaeth am ei fonitro, yn arbennig yng ngoleuni'r gostyngiad yn y gyllideb lyfrau a adroddwyd eleni. Mae'r gostyngiad i niferoedd staffio yng Nghaerdydd eleni'n bryder, yn arbennig o ystyried nifer isel y staff cymwysedig yn yr awdurdod a'r cynnydd cyflym yn y defnydd o wirfoddolwyr. I Gaerdydd barhau i gynnig gwasanaeth o ansawdd uchel i'w chwsmeriaid, mae'n hanfodol ei bod yn buddsoddi mewn staff gwybodus a chymwysedig.

- Caerdydd sydd â'r cyfraddau uchaf am bob pen o'r boblogaeth mewn hyfforddiant ffurfiol i ddefnyddwyr yn genedlaethol, ac mae'r nifer sy'n mynychu wedi cynyddu 6% o gymharu â 2023-24 (DA5).
- Mae Caerdydd yn chwartel uchaf awdurdodau llyfrgell Cymru am y nifer sy'n mynychu digwyddiadau am bob pen o'r boblogaeth, ac mae cyfanswm y mynychwyr wedi cynyddu 10% o gymharu â 2023-24, a 98% o gymharu â 2022-23 (DA6).
- Caerdydd yw'r gwasanaeth yn y safle uchaf yn genedlaethol am e-fenthyciadau am bob pen o'r boblogaeth (DA9).

## Nodyn i adroddiad 2024-25

Yn ystod 2024-25, symudodd awdurdodau lleol yng Nghymru i Blatfform Llyfrgell Ddigidol newydd ar gyfer Cymru gyfan. Perwyd rhywfaint o darfu i weithrediad

gwasanaethau llyfrgell yn ystod y broses symud, gan gynnwys mewn perthynas â chaffael stoc newydd, sef gwaith y bu'n rhaid ei atal am gyfnod wrth i wasanaethau unigol symud i'r system newydd. Mae rhywfaint o fân wahaniaethau hefyd yn ffurfwedd y platfform newydd, sy'n golygu nad yw data defnyddwyr yn ystod 2024-25 yn gwbl gyson. Felly, nid yw'r adroddiadau ar gyfer 2024-25 yn cynnwys y data a nodir isod ar gyfer Dangosyddion Ansawdd 4, 8, 9 a 10.

DA 4 Cymorth ar gyfer iechyd a lles
c) nifer y benthyciadau o gyfres Darllen yn Well Cymru

DA 8 Defnydd o'r llyfrgell
c) cyfanswm y benthycwyr gweithredol wedi'i rannu â maint y boblogaeth drigolion, a'i luosi â 1,000
d) cyfanswm aelodau'r llyfrgell
e) cyfanswm y llyfrau a fenthycwyd (oedolion a phlant ar wahân)
f) cyfanswm yr eitemau clyweledol a fenthycwyd

DA 9 Deunydd darllen cyfoes a phriodol
a) cyfradd gaffael isaf
b) % a wariwyd ar adnoddau i blant

DA 10 Adnoddau yn y Gymraeg
a) isafswm gwariant o 4%
b) benthyciadau yn y Gymraeg am bob pen o'r boblogaeth

Caiff yr holl ddata ei adrodd a'i asesu ar gyfer 2025-26 (sef blwyddyn gyntaf Fframwaith 7), a chaiff y data hwn ei ddefnyddio i osod y meincnod ar gyfer y blynyddoedd sy'n weddill yn y fframwaith.

## Perfformiad yn erbyn y safonau

Mae'r fframwaith safonau'n cynnwys Hawliau Craidd, dangosyddion ansawdd gyda thargedau, dangosyddion ansawdd gyda meincnodau a mesurau effaith.

### Hawliau Craidd

Adroddodd Caerdydd ei bod wedi bodloni pob un o'r 13 Hawl Graidd yn llawn trwy hunanasesu. Ar sail y sylwebaeth gynorthwyol a ddarparwyd, mae'r asesydd annibynnol yn cytuno gyda'r hunanasesiad.

### Dangosyddion ansawdd gyda thargedau

Mae 12 dangosydd ansawdd (DA), y mae gan 5 ohonynt dargedau cyfansoddol. O'r rhain, mae Caerdydd yn cyflawni 4 yn llawn ac 1 yn rhannol.

DA 4 (a) Cymorth ar gyfer iechyd a lles, **bodlonwyd yn llawn ▲**
i) Cynllun Darllen yn Well, **bodlonwyd**
ii) Casgliad dynodedig iechyd a lles, **bodlonwyd**

iii) Gwybodaeth am ffyrdd iachach o fyw ac ymddygiad iach, **bodlonwyd**
iv) Cyfeirio at wasanaethau iechyd a lles, **bodlonwyd**

DA 6 Mae'r holl fannau gwasanaeth sefydlog yn cynnig digwyddiadau/gweithgareddau i ddefnyddwyr â gofynion arbennig, **bodlonwyd yn llawn ▲**

DA 7 Lleoliad mannau gwasanaeth, **bodlonwyd yn llawn ▲**

DA 13 Lefelau staffio a chymwysterau, **bodlonwyd yn rhannol ■**
i) Staff am bob pen o'r boblogaeth, **ni fodlonwyd**
ii) Staff cymwysedig am bob pen o'r boblogaeth, **ni fodlonwyd**
iii) Cymwysterau/hyfforddiant pennaeth y gwasanaeth, **bodlonwyd**
iv) Canran DPP, **bodlonwyd**

DA 16 Oriau agor am bob pen o’r boblogaeth, **bodlonwyd yn llawn ▲**

## Mesurau effaith

Mae'r fframwaith yn cynnwys tri dangosydd gyda'r nod o asesu effaith defnyddio llyfrgelloedd ar fywydau pobl. Nid oes targedau i'r dangosyddion hyn, ac mae disgwyl i awdurdodau gynnal arolygon defnyddwyr ar gyfer DA1 ar un achlysur yn ystod y cyfnod o 2022-23 i 2024-25. Cynhaliodd Caerdydd arolwg oedolion ac arolwg plant ym mis Tachwedd 2024. Mae'r ffigyrau crynodol (isaf, canolrifol ac uchaf) wedi'u seilio ar ddata gan bob awdurdod a ddarparodd ddata yn ffurflenni 2022-23, 2023-24 a 2024-25. Mae'r safleoedd yn adlewyrchu nifer yr ymatebwyr, lle mai 1 yw'r awdurdod sy'n sgorio uchaf.

| Dangosydd perfformiad | | Safle | Isaf | Canolrifol | Uchaf |
|---|---|---|---|---|---|
| DA 1 Gwneud gwahaniaeth | | | | | |
| b) % y bobl ifanc sydd o'r farn bod y llyfrgell yn eu helpu i ddysgu a chael gwybod pethau: | 94% | =8/19 | 68% | 94% | 99% |
| e) % yr oedolion sydd o'r farn bod y llyfrgell wedi gwneud gwahaniaeth i'w bywydau: | 86% | =11/20 | 31% | 86.5% | 96% |
| DA 5 b) % y mynychwyr sesiynau hyfforddiant a ddywedodd fod yr hyfforddiant wedi'u helpu i gyflawni eu diben trwy fynychu: | 100% | =1/18 | 75% | 98.5% | 100% |

Gofynnir hefyd i awdurdodau ddarparu datganiad effaith yn disgrifio'r effaith mae'r gwasanaeth llyfrgell wedi'i chael ar unigolyn neu ar grŵp o unigolion yn ystod y flwyddyn. Darparodd Caerdydd ddatganiad effaith a ddisgrifiodd grŵp cadw'n heini sydd wedi'i sefydlu yn Hyb Llaneirwg. Pan gaeodd lleoliad gwreiddiol y grŵp, gweithiodd gwirfoddolwr lleol â Swyddog Cynhwysiant y llyfrgell i adleoli Hyb Llaneirwg, gan greu rhaglen ymarfer corff gynhwysol wedi'i theilwra at oedolion hŷn a phobl o allu amrywiol.

Gyda chymorth marchnata a chyfarpar wedi'u darparu, mae'r grŵp wedi tyfu'n ddosbarth wythnosol ffyniannus sy'n denu hyd at 35 o gyfranogwyr, gan gynnwys unigolion sy'n byw gyda chyflyrau iechyd hirdymor fel clefyd Parkinson. I lawer, mae mynychu'r grŵp wedi dod yn beth hanfodol i gynnal iechyd corfforol a lles cymdeithasol. Yn ogystal â hwyluso ymarfer corff, mae'r sesiynau'n cyfrannu at feithrin cyfeillgarwch, magu hyder a lleihau unigrwydd. Trwy ddarparu gofod croesawgar ar gyfer y grŵp cadw'n heini, mae Hyb Llaneirwg yn dangos sut mae Llyfrgelloedd a Hybiau Caerdydd yn cefnogi mentrau dan arweiniad y gymuned sy'n gwella iechyd, yn dwysáu cysylltiadau cymdeithasol ac yn grymuso trigolion i fyw bywydau mwy gweithgar ac ymgysylltiedig.

## Dangosyddion ansawdd a meincnodau

Nid oes targedau i'r dangosyddion sy'n weddill, ond maent yn caniatáu i wasanaethau fonitro eu perfformiad dros amser. Mae'r tabl canlynol yn crynhoi safle Caerdydd ar gyfer 2024-25. Mae'r safleoedd yn adlewyrchu nifer yr ymatebwyr, lle mai 1 yw'r awdurdod sy'n sgorio uchaf. Caiff dangosyddion 'am bob pen o'r boblogaeth' eu cyfrifo fesul 1,000 o'r boblogaeth oni nodir fel arall.

| **Dangosydd perfformiad** | | **Safle** | **Isaf** | **Canolrifol** | **Uchaf** |
|---|---|---|---|---|---|
| DA 1 Gwneud gwahaniaeth | | | | | |
| a) % yr oedolion sydd o'r farn bod defnyddio'r llyfrgell wedi'u helpu i ddatblygu sgiliau newydd | 79% | =5/20 | 17% | 70% | 90% |
| c) iechyd a lles | 84% | =2/20 | 1% | 63% | 90% |
| d) pleserus, diogel a chynhwysol | 96% | 15/20 | 93% | 97% | 100% |
| DA 2 Bodlonrwydd cwsmeriaid | | | | | |
| a) dewis 'da iawn' neu 'dda' o lyfrau | 89% | =13/20 | 84% | 90.5% | 97% |
| b) gofal cwsmeriaid 'da iawn' neu 'dda' | 97% | =14/20 | 92% | 98% | 100% |
| c) cyfleusterau TG 'da iawn' neu 'dda' | 85% | =10/20 | 60% | 85% | 99% |
| d) 'da iawn' neu 'dda' yn gyffredinol | 94% | 17/20 | 85% | 98% | 100% |
| e) sgôr allan o ddeg ymysg defnyddwyr 16 oed ac iau | 9.2 | =12/18 | 8.0 | 9.4 | 9.7 |
| DA 5 Cymorth i ddefnyddwyr | | | | | |
| a) nifer yn mynychu am bob pen o'r boblogaeth | 214 | 1/21 | 1 | 28 | 214 |
| c) cymorth anffurfiol am bob pen o'r boblogaeth | 264 | 3/20 | 15 | 150 | 608 |
| DA 6 Nifer yn mynychu digwyddiadau am bob pen o'r boblogaeth | 502 | 4/22 | 14 | 224.5 | 764 |
| DA 8 Defnydd o'r llyfrgell | | | | | |
| b) ymweliadau rhithwir am bob pen o'r boblogaeth | 6,035 | 1/21 | 5 | 766 | 6,035 |
| DA 13 Lefelau staffio a chymwysterau[6] | | | | | |

[6] *Nid oes safleoedd wedi'u cynnwys ar gyfer gwirfoddolwyr am fod goblygiadau niferoedd gwirfoddolwyr yn aneglur.*

| Dangosydd perfformiad | | Safle | Isaf | Canolrifol | Uchaf |
|---|---|---|---|---|---|
| (v) a) cyfanswm y gwirfoddolwyr | 442 | Dd/B | 0 | 23 | 442 |
| b) oriau gwirfoddolwyr | 20,509 | Dd/B | 0 | 883 | 22,706 |
| DA 14 Gwariant gweithredol | | | | | |
| a) cyfanswm gwariant am bob pen o'r boblogaeth | £26,209 | 1/21 | £5,978 | £12,646 | £26,209 |
| b) % ar staff | 65% | 12/21 | 48% | 67% | 80% |
| % ar adnoddau gwybodaeth | 4% | 21/21 | 4% | 9% | 19% |
| % ar gyfarpar ac adeiladau | 28% | 2/21 | 0% | 2% | 29% |
| % ar gostau gweithredol eraill | 3% | 20/21 | 1% | 15% | 38% |

# Dadansoddiad o berfformiad

Mae modd rhannu'r Hawliau Craidd a'r dangosyddion ansawdd yn dri phrif faes. Mae'r adran hon o'r adroddiad yn amlinellu perfformiad o dan y meysydd hyn.

## Bodloni anghenion cwsmeriaid (DA 1-2, 4-5)

Yn gyffredinol, mae Caerdydd yn perfformio'n dda mewn perthynas â Gwneud gwahaniaeth (DA1), gyda'r rhan fwyaf o'r canlyniadau o arolwg mis Tachwedd 2024 yn gweld cynnydd bach o gymharu â'r arolwg blaenorol. Fodd bynnag, er bod cyfraddau Bodlonrwydd cwsmeriaid (DA2) yn uchel, yn 85% neu'n uwch ar gyfer pob mesur, mae'r gostyngiad yng nghanran y cwsmeriaid sy'n dyfarnu bod y stoc lyfrau a'r cyfleusterau TG yn dda neu'n dda iawn yn haeddu ymchwilio pellach, ac mae'r gwasanaeth yn nodi y caiff y tueddiadau cwsmeriaid o ran adnoddau llyfrau eu monitro'n weithredol.

Mae Caerdydd yn bodloni'r targed ym maes Cymorth ar gyfer iechyd a lles (DA4) yn llawn. Mae'r gwasanaeth llyfrgell yn chwarae rôl weithredol mewn mentrau fel profion cymunedol am heintiau a drosglwyddir yn rhywiol; cynllun benthyca peiriannau monitro pwysau gwaed; gwaith o amgylch atal dementia; a chefnogi rhaglenni brechu a sgrinio.

Y gwasanaeth sydd â'r cyfraddau uchaf am bob pen o'r boblogaeth mewn gweithgareddau hyfforddiant ffurfiol i ddefnyddwyr yn genedlaethol ac mae'r nifer sy'n mynychu wedi cynyddu 6% o gymharu â 2023-24 (DA5). Dywedodd 100% o fynychwyr eu bod wedi cyflawni eu diben trwy fynychu. Mae'r gwasanaeth yn chwartel uchaf awdurdodau llyfrgell Cymru am gymorth anffurfiol am bob pen o'r boblogaeth, ac mae'r nifer sy'n mynychu wedi cynyddu 20% o gymharu â 2023-24.

## Mynediad a defnydd (DA 6-8)

Mae Caerdydd yn chwartel uchaf yr awdurdodau llyfrgell am y nifer sy'n mynychu digwyddiadau am bob pen o'r boblogaeth, ac mae cyfanswm y mynychwyr wedi cynyddu 10% o gymharu â 2023-24, a 98% o gymharu â 2022-23 (DA6). Ymhlith y digwyddiadau eleni mae hel atgofion chwaraeon, clybiau cymdeithasol digidol, grwpiau sgyrsio, boreau coffi Balch, tai chi, badminton, tenis bwrdd, grwpiau

cerdded, gwyddbwyll, caffis dementia, grwpiau i ofalwyr di-dâl, digwyddiadau costau byw, digwyddiadau llenyddol, grwpiau Cyfeillion a Chymdogion, Clwb Eco, grwpiau garddio, amser stori yn Gymraeg, grŵp cymorth cymheiriaid HIV, digwyddiadau hanes lleol, a grwpiau canu.

Caerdydd yw'r gwasanaeth yn y safle uchaf yn genedlaethol am e-fenthyciadau am bob pen o'r boblogaeth. Mae e-fenthyciadau wedi cynyddu 17% o gymharu â 2023-24, felly er gwaethaf y gostyngiad yn yr e-fenthyciadau y llynedd, mae'r ffigur bellach 2% yn uwch na'r hyn a adroddwyd yn 2022-23. Yn ogystal, er bod nifer yr ymweliadau rhithwir â gwefan Caerdydd wedi gostwng 21% o gymharu â 2023-24, Caerdydd sydd â chyfradd uchaf yr ymweliadau rhithwir (DA8) yn genedlaethol o hyd.

## Arbenigedd a chapasiti (DA 13-14 ac 16)

Mae'r ffigur ym maes cyfanswm staff wedi gostwng 8 CALl o gymharu â 2022-23, sy'n golygu, er mai Caerdydd yw'r gwasanaeth yn y safle uchaf yn genedlaethol, nad yw bellach yn bodloni'r targed ar gyfer y mesur hwn (DA13). Mae cyfanswm y staff (CALl) wedi gostwng 20% ers 2022-23. Nid yw'r gwasanaeth yn bodloni'r targed ychwaith am staff cymwysedig am bob pen o'r boblogaeth, a dyma'r awdurdod yn y safle isaf yn genedlaethol am y mesur hwn; mae nifer y staff cymwysedig yn ddigyfnewid ers 2023-24. Mae'r proffil staff yng Nghaerdydd yn anomaledd yn genedlaethol; ar draws Cymru yn ei chyfanrwydd, mae un o bob 6.3 staff (CALl) yn gymwysedig, ond yng Nghaerdydd, dim ond un aelod o staff mewn 36.0 (CALl) sy'n gymwysedig. Mae gan Gaerdydd raglen wirfoddoli helaeth, gyda gwirfoddolwyr yn ymwneud â thasgau fel darparu sesiynau amser Stori a Rhigwm mewn ieithoedd cymunedol; cefnogi darparu mannau cynnes; a chefnogi rhaglenni gweithgareddau. Eleni, mae nifer y gwirfoddolwyr wedi bron dyblu, ac mae oriau gwirfoddolwyr wedi cynyddu mwy na thair gwaith drosodd, ar adeg pan fo niferoedd staff wedi gostwng. Mae oriau gwirfoddolwyr yn gyfwerth â dros 12 CALl at ei gilydd. O ystyried y cynnydd cyflym yn lefel cyfranogiad gwirfoddolwyr yng Nghaerdydd ar yr un pryd â gostyngiad mewn staff cyflogedig, mae'n arbennig o bwysig sicrhau bod gwirfoddolwyr yn cael eu defnyddio'n unol ag arweiniad CILIP.

Caerdydd sydd â'r ffigur gwariant refeniw uchaf am bob pen o'r boblogaeth (DA14), ac mae hyn wedi cynyddu 6% o gymharu â 2023-24. Fodd bynnag, mae'r gyllideb lyfrau wedi gostwng 14% dros yr un cyfnod, er ei bod yn parhau i fod oddeutu’r canolrif cenedlaethol. Yng ngoleuni gostyngiadau staffio, nid yw'n syndod bod cyfran y gyllideb a ddyrannwyd i staffio wedi gostwng eleni. Mae cyfran y gyllideb a ddyrannwyd i gyfarpar ac adeiladau wedi cynyddu, gan gynnwys adnewyddu Hyb Partneriaeth Tredelerch; atgyweiriadau i waith carreg Llyfrgell Cangen a Threftadaeth Cathays; a'r prosiect Hybiau sy'n Deall Niwrowahaniaeth; ac adnewyddu drysau Hyb y Llyfrgell Ganolog.

Er bod Caerdydd yn parhau i fodloni'r targed ar gyfer Oriau agor (DA16) a'i bod oddeutu'r canolrif ar gyfer y mesur hwn, gwelwyd ychydig o ostyngiad (2%) mewn

oriau agor eleni yn Hyb y Llyfrgell Ganolog, Llyfrgell Pen-y-lan, Llyfrgell Treganna, Llyfrgell Dreftadaeth Cathays, a Hybiau'r Eglwys Newydd, Rhiwbeina a Rhydypennau.

## Y cyd-destun strategol

Yn rhan o'r ffurflen, mae gofyn i awdurdodau adrodd ar y ffordd mae'r gwasanaeth llyfrgelloedd yn cyfrannu at flaenoriaethau a nodau strategol ehangach Llywodraeth Cymru. Rhoddodd Caerdydd fanylion am ei chyfraniad at ystod o strategaethau cenedlaethol. Ymhlith yr enghreifftiau o'r ffordd mae Caerdydd yn cefnogi'r amcanion llesiant a amlinellir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, mae:

- **Diogelu, ailadeiladu a datblygu ein gwasanaethau ar gyfer ein pobl sy'n agored i niwed** e.e. Corneli Cynhalwyr i ddarparu gwybodaeth ac arweiniad; caffis dementia; gofodau tawel i'r synhwyrau ac adnoddau ar gyfer unigolion niwrowahanol; mannau cynnes yn ystod y gaeaf; mynediad at wasanaethau cyngor arian; a helpu trigolion i ddatblygu sgiliau digidol ar gyfer defnyddio'r rhyngrwyd yn ddiogel i wella lles, cyfleoedd gwaith a dysgu gydol oes.
- **Dathlu amrywiaeth a gweithredu i ddileu anghydraddoldeb o bob math** e.e. creu amgylcheddau sy'n gynhwysol i bobl LHDTCRh+; cymryd rhan yng Ngŵyl Pride Cymru; cynnal Boreau Coffi Balch mewn partneriaeth â Pride Cymru; dathliadau diwylliannol blynyddol; ac amser stori amlieithog gyda gwirfoddolwyr.
- **Bwrw ymlaen tuag at filiwn o siaradwyr Cymraeg, a galluogi twristiaeth, chwaraeon a'r celfyddydau i ffynnu** e.e. ymestyn casgliadau iaith Gymraeg; cefnogi grwpiau darllen Cymraeg, sesiynau stori a grwpiau sgwrsio; a gweithio gyda Menter Caerdydd i ddosbarthu gweithgareddau cyfrwng Cymraeg.
- **Gwneud ein dinasoedd, ein trefi a'n pentrefi'n lleoedd gwell byth i fyw a gweithio** e.e. creu gofodau cynhwysol a hygyrch sy'n ateb gofynion y gymuned; ymestyn digwyddiadau dan arweiniad gwirfoddolwyr i wella lles cymdeithasol oedolion hŷn; hyrwyddo darllen, chwarae a digwyddiadau amrywiol i blant a phobl ifanc; a chydweithredu gyda thimau iechyd y cyhoedd ar fentrau fel benthyca peiriannau monitro pwysau gwaed, casglu profion heintiau a drosglwyddir yn rhywiol ac ymgyrchoedd iechyd.

## Cyfeiriad at y dyfodol

Gan adrodd ar gyfeiriad yr awdurdod at y dyfodol a'i gynlluniau ar gyfer y gwasanaeth llyfrgell dros y flwyddyn sydd i ddod, bydd Caerdydd yn canolbwyntio ar gyflawni'r Strategaeth Hybiau a Llyfrgelloedd newydd ar gyfer 2024-29, a ddatblygwyd trwy ymgynghori â chwsmeriaid i adnabod blaenoriaethau ar gyfer gwasanaeth at y dyfodol. Wedi'i harwain gan y weledigaeth gyffredinol o 'Ddarparu gwasanaethau a chymorth o ansawdd uchel i ddiwallu anghenion penodol pob cymuned', mae'r strategaeth wedi'i strwythuro o amgylch deng nod allweddol.

Ymhlith y rhain mae ysbrydoli cariad at ddarllen a diwylliant trwy ddarparu casgliadau llyfrau amrywiol; darparu gwybodaeth a chyngor dibynadwy yn unol â safonau ansawdd cenedlaethol; a chynnig cymorth costau byw i bobl y mae pwysau economaidd yn effeithio arnynt fwyaf. Bydd Caerdydd hefyd yn gweithio i wella cynhwysiant digidol trwy esblygu ei gwasanaethau digidol; cefnogi cyflogaeth a sgiliau trwy fentora a hyfforddiant; a grymuso plant a phobl ifanc trwy ymgysylltu â nhw i lunio casgliadau a gweithgareddau. Mae'r strategaeth yn ymrwymo i hyrwyddo iechyd a lles trwy fentrau fel Darllen yn Well a phrofion iechyd yn y gymuned; cynnig cyfleoedd gwirfoddoli i ddatblygu sgiliau a chysylltiadau cymunedol; a darparu gofodau cynhwysol sy'n ateb anghenion amrywiol Caerdydd. Yn olaf, bydd y gwasanaeth yn blaenoriaethu allgymorth ac yn mynd ar drywydd cyfleoedd i ymestyn ei ddarpariaeth er mwyn sicrhau bod cymunedau bregus neu gymunedau nad ydynt wedi'u gwasanaethu'n ddigonol yn elwa ar wasanaethau Hybiau.

## Casgliad

Mae Caerdydd yn parhau i berfformio'n dda ac i gynnig gwasanaeth o ansawdd uchel i'w chwsmeriaid, fel y tystiolaethir gan sgorau bodlonrwydd cwsmeriaid. Mae cymorth i ddefnyddwyr, hyfforddiant a'r nifer sy'n mynychu digwyddiadau'n parhau i fod yn gryfder allweddol i'r gwasanaeth, ac mae'n amlwg bod staff yn ymdrechu i sicrhau bod y rhain yn gynhwysol i gwsmeriaid ag ystod eang o anghenion a diddordebau. Mae'n gadarnhaol bod nifer yr e-fenthyciadau wedi adfer yn sgil y gostyngiad a adroddwyd yn 2023-24. Fodd bynnag, mae'r gostyngiad yng nghanran y cwsmeriaid sy'n dyfarnu bod y stoc lyfrau a'r cyfleusterau TG yn dda neu'n dda iawn yn rhywbeth y bydd y gwasanaeth am ei fonitro, yn arbennig yng ngoleuni'r gostyngiad yn y gyllideb lyfrau a adroddwyd eleni. Mae'r gostyngiad i niferoedd staffio yng Nghaerdydd eleni'n bryder, yn arbennig o ystyried nifer isel y staff cymwysedig yn yr awdurdod a'r cynnydd cyflym yn y defnydd o wirfoddolwyr. I Gaerdydd barhau i gynnig gwasanaeth o ansawdd uchel i'w chwsmeriaid, mae'n hanfodol ei bod yn buddsoddi mewn staff gwybodus a chymwysedig.

# Adroddiad Asesu Blynyddol 2024-25 Sir Gaerfyrddin

Mae'r adroddiad hwn wedi'i baratoi ar sail gwybodaeth a ddarparwyd gan ffurflen flynyddol Sir Gaerfyrddin, datganiadau effaith ac adroddiad naratif a gyflwynwyd i Is-adran Diwylliant Llywodraeth Cymru.

## Crynodeb gweithredol

Mae Sir Gaerfyrddin yn bodloni pob un o'r 13 Hawl Graidd yn llawn. O'r 5 dangosydd ansawdd lle mae targedau, mae Sir Gaerfyrddin yn cyflawni 3 yn llawn ac 1 yn rhannol. Mae un DA sydd heb ei fodloni.

Mae'n amlwg bod cwsmeriaid yn gwerthfawrogi gwasanaeth llyfrgell Sir Gaerfyrddin, ac mae ganddynt feddwl mawr o'u profiadau o ymgysylltu â'r gwasanaeth. Mae'r gwasanaeth yn perfformio'n arbennig o dda ym maes cymorth anffurfiol ac yn cynnig ystod eang o weithgareddau i gwsmeriaid. Fodd bynnag, mae'r ffaith nad yw'r gwasanaeth yn bodloni'r targed o ran oriau agor, a'r gostyngiad yng nghanran y boblogaeth sydd o fewn pellter/amser teithio penodedig i bwynt gwasanaeth yn feysydd sy'n peri pryder, ynghyd â'r gostyngiad yn y gwariant gweithredol a'r gyllideb lyfrau. Mae'r gostyngiad mewn e-fenthyciadau hefyd yn rhywbeth y bydd Sir Gaerfyrddin am ymchwilio iddo ymhellach, am nad yw hyn yn adlewyrchu tueddiadau cenedlaethol.

- Sir Gaerfyrddin sydd yn y safle uchaf yn genedlaethol am y mesurau bodlonrwydd cwsmeriaid canlynol: dewis o lyfrau; cael dyfarnwyd 'da iawn' neu 'dda' iddi yn gyffredinol; ac am fod yn ddiogel, pleserus a chynhwysol; a hefyd gan ddefnyddwyr 16 oed ac iau (DA2).
- Mae Sir Gaerfyrddin yn uwch na'r canolrif ar gyfer cymorth anffurfiol am bob pen o'r boblogaeth a chynyddodd nifer y sesiynau cymorth anffurfiol 17% o gymharu â 2023-24, a 55% o gymharu â 2022-23 (DA5).
- Mae nifer yr ymweliadau rhithwir wedi cynyddu 26% o gymharu â 2023-24, ac mae Sir Gaerfyrddin yn y chwartel uchaf yn genedlaethol ar gyfer y mesur hwn (DA8).

## Nodyn i adroddiad 2024-25

Yn ystod 2024-25, symudodd awdurdodau lleol yng Nghymru i Blatfform Llyfrgell Ddigidol newydd ar gyfer Cymru gyfan. Perwyd rhywfaint o darfu i weithrediad gwasanaethau llyfrgell yn ystod y broses symud, gan gynnwys mewn perthynas â chaffael stoc newydd, sef gwaith y bu'n rhaid ei atal am gyfnod wrth i wasanaethau unigol symud i'r system newydd. Mae rhywfaint o fân wahaniaethau hefyd yn

ffurfwedd y platfform newydd, sy'n golygu nad yw data defnyddwyr yn ystod 2024-25 yn gwbl gyson. Felly, nid yw'r adroddiadau ar gyfer 2024-25 yn cynnwys y data a nodir isod ar gyfer Dangosyddion Ansawdd 4, 8, 9 a 10.

DA 4 Cymorth ar gyfer iechyd a lles
c) nifer y benthyciadau o gyfres Darllen yn Well Cymru

DA 8 Defnydd o'r llyfrgell
c) cyfanswm y benthycwyr gweithredol wedi'i rannu â maint y boblogaeth drigolion, a'i luosi â 1,000
d) cyfanswm aelodau'r llyfrgell
e) cyfanswm y llyfrau a fenthycwyd (oedolion a phlant ar wahân)
f) cyfanswm yr eitemau clyweledol a fenthycwyd

DA 9 Deunydd darllen cyfoes a phriodol
a) cyfradd gaffael isaf
b) % a wariwyd ar adnoddau i blant

DA 10 Adnoddau yn y Gymraeg
a) isafswm gwariant o 4%
b) benthyciadau yn y Gymraeg am bob pen o'r boblogaeth

Caiff yr holl ddata ei adrodd a'i asesu ar gyfer 2025-26 (sef blwyddyn gyntaf Fframwaith 7), a chaiff y data hwn ei ddefnyddio i osod y meincnod ar gyfer y blynyddoedd sy'n weddill yn y fframwaith.

# Perfformiad yn erbyn y safonau

Mae'r fframwaith safonau'n cynnwys Hawliau Craidd, dangosyddion ansawdd gyda thargedau, dangosyddion ansawdd gyda meincnodau a mesurau effaith.

## Hawliau Craidd

Adroddodd Sir Gaerfyrddin ei bod wedi bodloni pob un o'r 13 Hawl Graidd yn llawn trwy hunanasesu. Ar sail y sylwebaeth fanwl a chynorthwyol a ddarparwyd, mae'r asesydd annibynnol yn cytuno gyda'r hunanasesiad.

## Dangosyddion ansawdd gyda thargedau

Mae 12 dangosydd ansawdd (DA), y mae gan 5 ohonynt dargedau cyfansoddol. O'r rhain, mae Sir Gaerfyrddin yn cyflawni 3 yn llawn ac 1 yn rhannol. Mae un DA sydd heb ei fodloni.

DA 4 (a) Cymorth ar gyfer iechyd a lles, **bodlonwyd yn llawn ▲**
i) Cynllun Darllen yn Well, **bodlonwyd**
ii) Casgliad dynodedig iechyd a lles, **bodlonwyd**

iii) Gwybodaeth am ffyrdd iachach o fyw ac ymddygiad iach, **bodlonwyd**
iv) Cyfeirio at wasanaethau iechyd a lles, **bodlonwyd**

DA 6 Mae'r holl fannau gwasanaeth sefydlog yn cynnig digwyddiadau/gweithgareddau i ddefnyddwyr â gofynion arbennig, **bodlonwyd yn llawn ▲**

DA 7 Lleoliad mannau gwasanaeth, **bodlonwyd yn llawn ▲**

DA 13 Lefelau staffio a chymwysterau, **bodlonwyd yn rhannol ■**
i) Staff am bob pen o'r boblogaeth, **ni fodlonwyd**
ii) Staff cymwysedig am bob pen o'r boblogaeth, **bodlonwyd**
iii) Cymwysterau/hyfforddiant pennaeth y gwasanaeth, **bodlonwyd**
iv) Canran DPP, **bodlonwyd**

DA 16 Oriau agor am bob pen o'r boblogaeth, **ni fodlonwyd ●**

## Mesurau effaith

Mae'r fframwaith yn cynnwys tri dangosydd gyda'r nod o asesu effaith defnyddio llyfrgelloedd ar fywydau pobl. Nid oes targedau i'r dangosyddion hyn, ac mae disgwyl i awdurdodau gynnal arolygon defnyddwyr ar gyfer DA1 ar un achlysur yn ystod y cyfnod o 2022-23 i 2024-25. Cynhaliodd Sir Gaerfyrddin arolwg oedolion ac arolwg plant ym mis Chwefror 2023. Mae'r ffigyrau crynodol (isaf, canolrifol ac uchaf) wedi'u seilio ar ddata a ddarparwyd gan bob awdurdod a ddarparodd ddata yn ffurflenni 2022-23, 2023-24 a 2024-25. Mae'r safleoedd yn adlewyrchu nifer yr ymatebwyr, lle mai 1 yw'r awdurdod sy'n sgorio uchaf.

| Dangosydd perfformiad | | Safle | Isaf | Canolrifol | Uchaf |
|---|---|---|---|---|---|
| DA1 Gwneud gwahaniaeth | | | | | |
| b) % y bobl ifanc sydd o'r farn bod y llyfrgell yn eu helpu i ddysgu a chael gwybod pethau: | 95% | 7/19 | 68% | 94% | 99% |
| e) % yr oedolion sydd o'r farn bod y llyfrgell wedi gwneud gwahaniaeth i'w bywydau: | 91% | 8/20 | 31% | 86.5% | 96% |
| DA 5 b) % y mynychwyr sesiynau hyfforddiant a ddywedodd fod yr hyfforddiant wedi'u helpu i gyflawni eu diben trwy fynychu: | 100% | =1/18 | 75% | 98.5% | 100% |

Gofynnir hefyd i awdurdodau ddarparu datganiad effaith yn disgrifio'r effaith mae'r gwasanaeth llyfrgell wedi'i chael ar unigolyn neu ar grŵp o unigolion yn ystod y flwyddyn. Darparodd Sir Gaerfyrddin ddatganiad effaith a oedd yn canolbwyntio ar y prosiect Sêr y Silffoedd. Creodd cyfranogiad Sir Gaerfyrddin yn Sêr y Silffoedd brofiad ysbrydoledig a chofiadwy i dros 200 o blant, gan eu cysylltu'n uniongyrchol â rhai o awduron mwyaf adnabyddus Cymru. Ar draws wyth digwyddiad mewn llyfrgelloedd yn Rhydaman, Llanelli a Chaerfyrddin, gwelwyd plant yn ymgysylltu mewn sesiynau darllen rhyngweithiol, gweithdai a thrafodaethau dan arweiniad awduron a daniodd eu creadigrwydd a'u brwdfrydedd dros ddarllen ac ysgrifennu.

Canolbwyntiodd y gweithdai ar dechnegau adrodd storïau, datblygu cymeriadau a'r broses awduro, tra bod digwyddiadau llofnodi llyfrau wedi rhoi atgofion gwerthfawr i blant a chysylltiad personol â'r awduron. Roedd adborth gan fyfyrwyr ac athrawon yn eithriadol o gadarnhaol, gydag phlant yn mynegi cynnwrf am gyfarfod ag awduron, ac athrawon yn nodi cymhelliant uwch a gwelliannau mewn sgiliau llythrennedd. Canmolwyd y fenter gan y Cynghorydd Hazel Evans, Aelod Cabinet dros Adfywio, Hamdden, Diwylliant a Thwristiaeth, gan nodi, *"Roedd yr ymgysylltiad rhwng yr awduron a'r plant yn gadarnhaol a chyffrous, gyda chanlyniadau ysbrydoledig iawn... Mae'n brosiect sy'n 'cysylltu'r cyfan' wrth ddarllen er pleser ac mae wedi bod yn llwyddiannus, cymhellol ac ysbrydoledig iawn."*

Trwy Sêr y Silffoedd, dangosodd Llyfrgelloedd Sir Gaerfyrddin rym llyfrgelloedd i ysbrydoli creadigrwydd, gwella llythrennedd ac atgyfnerthu cysylltiadau cymunedol trwy ddod â llyfrau a'u hawduron yn fyw.

## Dangosyddion ansawdd a meincnodau

Nid oes targedau i'r dangosyddion sy'n weddill, ond maent yn caniatáu i wasanaethau fonitro eu perfformiad dros amser. Mae'r tabl canlynol yn crynhoi safle Sir Gaerfyrddin ar gyfer 2024-25. Mae'r safleoedd yn adlewyrchu nifer yr ymatebwyr, lle mai 1 yw'r awdurdod sy'n sgorio uchaf. Caiff dangosyddion 'am bob pen o'r boblogaeth' eu cyfrifo fesul 1,000 o'r boblogaeth oni nodir fel arall.

| Dangosydd perfformiad | | Safle | Isaf | Canolrifol | Uchaf |
|---|---|---|---|---|---|
| DA 1 Gwneud gwahaniaeth | | | | | |
| a) % yr oedolion sydd o'r farn bod defnyddio'r llyfrgell wedi'u helpu i ddatblygu sgiliau newydd | 88% | 3/20 | 17% | 70% | 90% |
| c) iechyd a lles | 71% | 7/20 | 1% | 63% | 90% |
| d) pleserus, diogel a chynhwysol | 100% | =1/20 | 93% | 97% | 100% |
| DA 2 Bodlonrwydd cwsmeriaid | | | | | |
| a) dewis 'da iawn' neu 'dda' o lyfrau | 97% | 1/20 | 84% | 90.5% | 97% |
| b) gofal cwsmeriaid 'da iawn' neu 'dda' | 99% | =2/20 | 92% | 98% | 100% |
| c) cyfleusterau TG 'da iawn' neu 'dda' | 87% | =8/20 | 60% | 85% | 99% |
| d) 'da iawn' neu 'dda' yn gyffredinol | 100% | 1/20 | 85% | 98% | 100% |
| e) sgôr allan o ddeg ymysg defnyddwyr 16 oed ac iau | 9.1 | =1/18 | 8.0 | 9.4 | 9.7 |
| DA 5 Cymorth i ddefnyddwyr | | | | | |
| a) nifer yn mynychu am bob pen o'r boblogaeth | 6 | 16/21 | 1 | 28 | 214 |
| c) cymorth anffurfiol am bob pen o'r boblogaeth | 233 | 5/20 | 15 | 150 | 608 |
| DA 6 Nifer yn mynychu digwyddiadau am bob pen o'r boblogaeth | 229 | 11/22 | 14 | 224.5 | 764 |
| DA 8 Defnydd o'r llyfrgell | | | | | |
| b) ymweliadau rhithwir am bob pen o'r boblogaeth | 1,307 | 4/21 | 5 | 766 | 6,035 |
| DA 13 Lefelau staffio a chymwysterau[7] | | | | | |

[7] *Nid oes safleoedd wedi'u cynnwys ar gyfer gwirfoddolwyr am fod goblygiadau niferoedd gwirfoddolwyr yn aneglur.*

| Dangosydd perfformiad | | Safle | Isaf | Canolrifol | Uchaf |
|---|---|---|---|---|---|
| (v) a) cyfanswm y gwirfoddolwyr | 9 | Dd/B | 0 | 23 | 442 |
| b) oriau gwirfoddolwyr | 650 | Dd/B | 0 | 883 | 22,706 |
| DA 14 Gwariant gweithredol | | | | | |
| a) cyfanswm gwariant am bob pen o’r boblogaeth | £19,114 | 2/21 | £5,978 | £12,646 | £26,209 |
| b) % ar staff | 53% | 20/21 | 48% | 67% | 80% |
| % ar adnoddau gwybodaeth | 10% | =8/21 | 4% | 9% | 19% |
| % ar gyfarpar ac adeiladau | 4% | =6/21 | 0% | 2% | 29% |
| % ar gostau gweithredol eraill | 33% | 3/21 | 1% | 15% | 38% |

# Dadansoddiad o berfformiad

Mae modd rhannu'r Hawliau Craidd a'r dangosyddion ansawdd yn dri phrif faes. Mae'r adran hon o'r adroddiad yn amlinellu perfformiad o dan y meysydd hyn.

## Bodloni anghenion cwsmeriaid (DA 1-2, 4-5)

O gymharu canlyniadau arolwg cwsmeriaid Sir Gaerfyrddin â chanlyniadau ar draws Cymru ar gyfer cyfnod Estyniad Fframwaith 6, mae'r gwasanaeth yn perfformio'n gryf ym maes Gwneud gwahaniaeth (DA1) a Bodlonrwydd cwsmeriaid (DA2), ac mae'n uwch na chanolrif awdurdodau llyfrgell Cymru ar gyfer pob mesur, ac yn y safle uchaf yn genedlaethol am y dewis llyfrau; am gael dyfarnwyd 'da iawn' neu 'dda' yn gyffredinol; am fod yn bleserus, diogel a chynhwysol; a hefyd gan ddefnyddwyr 16 oed ac iau.

Mae Sir Gaerfyrddin yn bodloni'r targed ym maes Cymorth ar gyfer iechyd a lles (DA4). Mae'r gwasanaeth yn nodi bod lles yn flaenoriaeth uchel iddo, gyda disgwyl i'r holl staff gyfranogi ac ennill achrediad perthnasol (e.e. Buddsoddwyr mewn Gofalwyr).

Mae Sir Gaerfyrddin yn uwch na'r canolrif ar gyfer cymorth anffurfiol am bob pen o'r boblogaeth a chynyddodd nifer y sesiynau cymorth anffurfiol 17% o gymharu â 2023-24, a 55% o gymharu â 2022-23 (DA5). Fodd bynnag, gostyngodd y nifer sy'n mynychu gweithgareddau hyfforddiant ffurfiol 71% o gymharu â 2023-24, ac mae Sir Gaerfyrddin bellach yn is na'r canolrif cenedlaethol ar gyfer y mesur hwn. Nid yw'r ffurflen yn darparu gwybodaeth am resymau posibl dros y gostyngiad hwn. Fodd bynnag, mae'n amlwg bod ymateb da i hyfforddiant ymysg y bobl sy'n mynychu; dywedodd 100% o’r bobl a atebodd yr arolwg (n=1,122) eu bod wedi cyflawni eu diben trwy fynychu.

## Mynediad a defnydd (DA 6-8)

Er bod ffigurau'r nifer sy'n mynychu digwyddiadau wedi gostwng ychydig o gymharu â 2023-24 (3%), mae Sir Gaerfyrddin ychydig yn uwch na chanolrif awdurdodau llyfrgell Cymru o ran y nifer sy'n mynychu digwyddiadau am bob pen o'r boblogaeth (DA6). Cynigiodd y gwasanaeth llyfrgell ystod eang o ddigwyddiadau, gan gynnwys

fizzPOP, *lindy hop* a *jive*, hel atgofion, ymweliadau gan awduron, sesiwn galw heibio ar faterion digidol, sesiynau dyfrlliwiau, ffeiriau Nadolig, ffair Dydd Gŵyl Dewi, sesiynau gwneuthurwyr, ymwybyddiaeth awtistiaeth, gwnïo, a sesiwn dementia gyda phlant ysgol a thrigolion cartref gofal.

Mae Sir Gaerfyrddin yn parhau i fodloni'r targed ym maes Lleoliad mannau gwasanaeth (DA7). Fodd bynnag, gwelwyd gostyngiad nodedig yng nghanran y boblogaeth sydd o fewn pellter/amser teithio penodedig i bwynt gwasanaeth (o 95% i 77%) oherwydd gostyngiad yn y fflyd gerbydau o dri cherbyd i un.

Mae nifer yr ymweliadau rhithwir a adroddwyd wedi cynyddu 26% o gymharu â 2023-24 ac mae Sir Gaerfyrddin yn y chwartel uchaf yn genedlaethol ar gyfer y mesur hwn (DA8). Fodd bynnag, mae e-fenthyciadau yn Sir Gaerfyrddin wedi gostwng 11% o gymharu â 2023-24. Dyma'r unig wasanaeth llyfrgell i weld gostyngiad nodedig mewn e-fenthyciadau eleni. Mae'r gwasanaeth yn adrodd am broblemau gyda PressReader y gellid eu priodoli, yn rhannol, i ostyngiad yn y niferoedd. Serch hynny, mae'r gwasanaeth yn parhau i fod yn uwch na'r canolrif ar gyfer e-fenthyciadau ymysg awdurdodau llyfrgell Cymru.

### Arbenigedd a chapasiti (DA 13-14 ac 16)

Mae Sir Gaerfyrddin yn bodloni'r targed ar gyfer staff cymwysedig am bob pen o'r boblogaeth, ac mae yn chwartel uchaf awdurdodau llyfrgell Cymru ar gyfer y mesur hwn (DA13). Er bod cyfanswm y staff wedi cynyddu 11.1 CALl o gymharu â 2023-24, mae Sir Gaerfyrddin yn parhau i fethu â bodloni'r targed hwn. Mae'r gwasanaeth yn adrodd bod y cyngor yn gwerthuso pob swydd gyda gwaharddiad recriwtio yn ei le ers mis Hydref 2024, ac mae lefelau staffio craidd yn cael eu hadolygu cyn i unrhyw swyddi gwag gael eu hysbysebu.

Mae'r gwasanaeth yn y chwartel uchaf yn genedlaethol am wariant gweithredol am bob pen o'r boblogaeth, er bod y ffigur hwn wedi gostwng (2%) o gymharu â 2023-23 (DA14). Mae Sir Gaerfyrddin hefyd yn y chwartel uchaf am bob pen o'r boblogaeth am y gyllideb lyfrau. Fodd bynnag, mae'r gyllideb lyfrau wedi gweld gostyngiad mwy nodedig o 18% o gymharu â 2023-24. Mae'r gwasanaeth yn nodi bod ymrwymiad, dros y 3 blynedd nesaf, i wneud arbedion maint sydd i'w cyflwyno ar draws y gwasanaeth. Nid yw Sir Gaerfyrddin yn bodloni'r targed ym maes Oriau agor (DA16), ac mae'n parhau i fod yn is na'r canolrif cenedlaethol ar gyfer y mesur hwn.

## Y cyd-destun strategol

Yn rhan o'r ffurflen, mae gofyn i awdurdodau adrodd ar y ffordd mae'r gwasanaeth llyfrgell yn cyfrannu at flaenoriaethau a nodau strategol ehangach Llywodraeth Cymru. Mae Sir Gaerfyrddin yn adrodd ei bod yn bwrw ymlaen gyda nodau strategol Llywodraeth Cymru, yn arbennig Ffyniant i Bawb a'r fframwaith Llyfrgelloedd Cysylltiedig ac Uchelgeisiol.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, rhoddodd Llyfrgelloedd Sir Gaerfyrddin bwyslais arbennig ar les oedolion hŷn, yn arbennig y rhai sy'n byw gyda dementia. Roedd hyn yn cynnwys digwyddiadau canu ynghyd a gyflwynwyd mewn tair llyfrgell ranbarthol i hyrwyddo'r casgliad Darllen yn Well ar gyfer Dementia; dawnsio cadair cynhwysol a sesiynau cerdded hamddenol traddodiadol, gan gefnogi iechyd corfforol a meddyliol fel ei gilydd; a Dawns De ar ffurf y 1940au yn cynnwys cerddoriaeth o'r cyfnod, arddangosfeydd treftadaeth leol a gweithgareddau hel atgofion. Dangosodd pob un o'r tair menter sut gall llyfrgelloedd fynd i'r afael â blaenoriaethau cenedlaethol mewn modd ystyrlon, gan feithrin cynhwysiant, hyrwyddo lles ac annog cyfranogiad ar draws cenedlaethau.

## Cyfeiriad at y dyfodol

Gan adrodd ar gyfeiriad yr awdurdod at y dyfodol, a'i gynlluniau ar gyfer y gwasanaeth llyfrgell dros y flwyddyn sydd i ddod, mae Sir Gaerfyrddin yn adrodd ei bod yn gweithio i esblygu i fodloni galwadau cymdeithas sy'n newid, tra'n cynnal gwasanaethau cynhwysol o safon. Mae'r gwasanaeth yn rhagweld gostyngiadau refeniw sylweddol dros y tair i bum mlynedd nesaf, a fydd yn mynnu modelau cyflwyno arloesol i warchod ansawdd a hygyrchedd y gwasanaeth. Ymhlith yr ymrwymiadau allweddol mae cynnal lefelau gwasanaeth cadarn er gwaethaf cyfyngiadau cyllidebol; gwreiddio ymagwedd sy'n troi o amgylch y cwsmer, a'r agwedd ddigidol yn gyntaf; buddsoddi mewn datblygu'r gweithlu a chynllunio ar gyfer olyniaeth; ehangu ymgysylltu ag ysgolion trwy adnoddau wedi'u halinio i'r cwricwlwm cenedlaethol; ac atgyfnerthu rôl y llyfrgell mewn mentrau iechyd ataliol.

Er mwyn diogelu'r ddarpariaeth at y dyfodol, bydd y gwasanaeth yn parhau i weithredu ffurfiau llyfrgell o bedwar math penodol; Llyfrgelloedd Rhanbarthol Gwasanaeth Llawn sy'n cynnig gwasanaethau cynhwysfawr mewn trefi mwy; Llyfrgelloedd Rhanbarthol Digidol sy'n darparu mynediad hunanwasanaeth gyda chyfeiriadau at gymorth digidol; Llyfrgelloedd Cymunedol/Cangen sy'n darparu mynediad hyblyg lleol gyda chymysgedd o fodelau wedi'u staffio a heb staff; a Llyfrgelloedd Symudol sy'n cyrraedd cymunedau gwledig a chymunedau nad ydynt yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol. Nod y model hwn, wedi'i lywio gan gynlluniau peilot llwyddiannus ac adborth defnyddwyr, yw cydbwyso effeithlonrwydd a mynediad hafal.

## Casgliad

Mae'n amlwg bod cwsmeriaid yn gwerthfawrogi gwasanaeth llyfrgell Sir Gaerfyrddin, ac mae ganddynt feddwl mawr o'u profiadau o ymgysylltu â'r gwasanaeth. Mae'r gwasanaeth yn perfformio'n arbennig o dda ym maes cymorth anffurfiol ac yn cynnig ystod eang o weithgareddau i gwsmeriaid. Fodd bynnag, mae'r ffaith nad yw'r gwasanaeth yn bodloni'r targed o ran oriau agor, a'r gostyngiad yng nghanran y boblogaeth sydd o fewn pellter/amser teithio penodedig i bwynt gwasanaeth yn feysydd sy'n peri pryder, ynghyd â'r gostyngiad yn y gwariant gweithredol a'r gyllideb lyfrau. Mae'r gostyngiad mewn e-fenthyciadau hefyd yn rhywbeth y bydd Sir Gaerfyrddin am ymchwilio iddo ymhellach am nad yw hyn yn adlewyrchu tueddiadau cenedlaethol.

# Adroddiad Asesu Blynyddol 2024-25 Ceredigion

Mae'r adroddiad hwn wedi'i baratoi ar sail gwybodaeth a ddarparwyd gan ffurflen flynyddol Ceredigion, datganiadau effaith ac adroddiad naratif a gyflwynwyd i Is-adran Diwylliant Llywodraeth Cymru.

## Crynodeb gweithredol

Mae Ceredigion yn bodloni 11 o'r 13 Hawl Graidd yn llawn. Mae'r 2 Hawl Graidd sy'n weddill heb eu bodloni. O'r 5 dangosydd ansawdd lle mae targedau, mae Ceredigion yn cyflawni 3 yn llawn ac 1 yn rhannol. Mae un targed sydd heb ei fodloni.

Mae Ceredigion yn parhau i berfformio'n dda mewn nifer o feysydd. Mae'r cynnydd mewn e-fenthyciadau wedi parhau, ac mae Ceredigion yn perfformio'n uwch na'r canolrif o ran y nifer sy'n mynychu cymorth anffurfiol. Mae hefyd yn gadarnhaol bod DPP staff wedi cynyddu eleni, gan ganiatáu i Geredigion fodloni'r targed ar gyfer y mesur hwn. Fodd bynnag, mae'r ffaith nad yw Ceredigion wedi bodloni Hawliau Craidd 11 a 12 drwy gydol cyfnod Estyniad Fframwaith 6 yn bryder difrifol. Fel y nodwyd yn flaenorol, bydd ymgynghori â defnyddwyr a datblygu strategaeth yn rhoi ymdeimlad cryfach i'r gwasanaeth o'i gyfeiriad at y dyfodol, sy'n arbennig o bwysig mewn adeg o bwysau cyllidebol cynyddol.

- Mae Ceredigion yn uwch na'r canolrif ar gyfer cymorth anffurfiol am bob pen o'r boblogaeth, ac mae nifer y sesiynau wedi cynyddu 20% o gymharu â 2023-24 (DA5).
- Mae Ceredigion yn chwartel uchaf awdurdodau llyfrgell Cymru am e-fenthyciadau am bob pen o'r boblogaeth, sydd wedi cynyddu 23% o gymharu â 2023-24 a 75% ers 2022-23 (DA8).
- Ceredigion sydd â'r nifer uchaf o oriau agor am bob pen o'r boblogaeth yn genedlaethol (DA16).

## Nodyn i adroddiad 2024-25

Yn ystod 2024-25, symudodd awdurdodau lleol yng Nghymru i Blatfform Llyfrgell Ddigidol newydd ar gyfer Cymru gyfan. Perwyd rhywfaint o darfu i weithrediad gwasanaethau llyfrgell yn ystod y broses symud, gan gynnwys mewn perthynas â chaffael stoc newydd, sef gwaith y bu’n rhaid ei atal am gyfnod wrth i wasanaethau unigol symud i’r system newydd. Mae rhywfaint o fân wahaniaethau hefyd yn ffurfwedd y platfform newydd, sy’n golygu nad yw data defnyddwyr yn ystod 2024-25 yn gwbl gyson. Felly, nid yw’r adroddiadau ar gyfer 2024-25 yn cynnwys y data a nodir isod ar gyfer Dangosyddion Ansawdd 4, 8, 9 a 10.

DA 4 Cymorth ar gyfer iechyd a lles
c) nifer y benthyciadau o gyfres Darllen yn Well Cymru

DA 8 Defnydd o’r llyfrgell
c) cyfanswm y benthycwyr gweithredol wedi’i rannu â maint y boblogaeth drigolion, a’i luosi â 1,000
d) cyfanswm aelodau’r llyfrgell
e) cyfanswm y llyfrau a fenthycwyd (oedolion a phlant ar wahân)
f) cyfanswm yr eitemau clyweledol a fenthycwyd

DA 9 Deunydd darllen cyfoes a phriodol
a) cyfradd gaffael isaf
b) % a wariwyd ar adnoddau i blant

DA 10 Adnoddau yn y Gymraeg
a) isafswm gwariant o 4%
b) benthyciadau yn y Gymraeg am bob pen o’r boblogaeth

Caiff yr holl ddata ei adrodd a’i asesu ar gyfer 2025-26 (sef blwyddyn gyntaf Fframwaith 7), a chaiff y data hwn ei ddefnyddio i osod y meincnod ar gyfer y blynyddoedd sy’n weddill yn y fframwaith.

# Perfformiad yn erbyn y safonau

Mae'r fframwaith safonau'n cynnwys Hawliau Craidd, dangosyddion ansawdd gyda thargedau, dangosyddion ansawdd gyda meincnodau a mesurau effaith.

## Hawliau Craidd

Adroddodd Ceredigion ei fod yn bodloni 11 o'r 13 Hawl Graidd yn llawn trwy hunanasesu, gyda'r 2 Hawl Graidd sy'n weddill yn cael eu hunanasesu fel rhai nad oeddent wedi'u bodloni. Ar sail y sylwebaeth a ddarparwyd, mae'r asesydd annibynnol yn cytuno gyda'r hunanasesiad. Fodd bynnag, fel oedd yn wir yn 2023-24, cyfyngedig yw'r wybodaeth mae Ceredigion wedi'i darparu ar y ffurflen, sy'n ei gwneud yn anodd i'r asesydd annibynnol ddod i farn gywir. Fel sy'n wir yn ystod cyfnod Estyniad Fframwaith 6, nid yw Ceredigion yn bodloni HG12, am fod y gwasanaeth yn dal i weithio ar strategaeth. Mae HG11 heb ei bodloni hefyd, am nad yw'r gwasanaeth wedi ymgynghori â defnyddwyr yn ystod cyfnod Fframwaith 6 (neu gyfnod Estyniad Fframwaith 6).

## Dangosyddion ansawdd gyda thargedau

Mae 12 dangosydd ansawdd (DA), y mae gan 5 ohonynt dargedau cyfansoddol. O'r rhain, mae Ceredigion yn cyflawni 3 yn llawn ac 1 yn rhannol. Mae un targed sydd heb ei fodloni.

DA 4 (a) Cymorth ar gyfer iechyd a lles, **bodlonwyd yn llawn ▲**
- i) Cynllun Darllen yn Well, **bodlonwyd**
- ii) Casgliad dynodedig iechyd a lles, **bodlonwyd**
- iii) Gwybodaeth am ffyrdd iachach o fyw ac ymddygiad iach, **bodlonwyd**
- iv) Cyfeirio at wasanaethau iechyd a lles, **bodlonwyd**

DA 6 Mae'r holl fannau gwasanaeth sefydlog yn cynnig digwyddiadau/gweithgareddau i ddefnyddwyr â gofynion arbennig, **bodlonwyd yn llawn ▲**

DA 7 Lleoliad mannau gwasanaeth, **ni fodlonwyd ●**

DA 13 Lefelau staffio a chymwysterau, **bodlonwyd yn rhannol ■**
- i) Staff am bob pen o'r boblogaeth, **ni fodlonwyd**
- ii) Staff cymwysedig am bob pen o'r boblogaeth, **ni fodlonwyd**
- iii) Cymwysterau/hyfforddiant pennaeth y gwasanaeth, **bodlonwyd**
- iv) Canran DPP, **bodlonwyd**

DA 16 Oriau agor am bob pen o’r boblogaeth, **bodlonwyd yn llawn ▲**

## Mesurau effaith

Mae'r fframwaith yn cynnwys tri dangosydd gyda'r nod o asesu effaith defnyddio llyfrgelloedd ar fywydau pobl. Nid oes targedau i'r dangosyddion hyn, ac mae disgwyl i awdurdodau gynnal arolygon defnyddwyr ar gyfer DA1 ar un achlysur yn ystod y cyfnod o 2022-23 i 2024-25. Nid oes data ar gael ar gyfer Ceredigion am nad yw'r gwasanaeth wedi cynnal arolwg defnyddwyr ymysg oedolion na phlant yn ystod cyfnod Estyniad Fframwaith 6. Mae'r ffigyrau crynodol (isaf, canolrifol ac uchaf) wedi'u seilio ar ddata a ddarparwyd gan bob awdurdod a ddarparodd ddata yn ffurflenni 2022-23, 2023-24 a 2024-25. Mae'r safleoedd yn adlewyrchu nifer yr ymatebwyr, lle mai 1 yw'r awdurdod sy'n sgorio uchaf.

| Dangosydd perfformiad | | Safle | Isaf | Canolrifol | Uchaf |
|---|---|---|---|---|---|
| DA 1 Gwneud gwahaniaeth | | | | | |
| b) % y bobl ifanc sydd o'r farn bod y llyfrgell yn eu helpu i ddysgu a chael gwybod pethau: | Dd/B | Dd/B | 68% | 94% | 99% |
| e) % yr oedolion sydd o'r farn bod y llyfrgell wedi gwneud gwahaniaeth i'w bywydau: | Dd/B | Dd/B | 31% | 86.5% | 96% |
| DA 5 b) % y mynychwyr sesiynau hyfforddiant a ddywedodd fod yr hyfforddiant wedi'u helpu i gyflawni eu diben drwy fynychu: | 91% | =15/18 | 75% | 98.5% | 100% |

Gofynnir hefyd i awdurdodau ddarparu datganiad effaith yn disgrifio'r effaith mae'r gwasanaeth llyfrgell wedi'i chael ar unigolyn neu ar grŵp o unigolion yn ystod y flwyddyn. Darparodd Ceredigion ddatganiad effaith a ddisgrifiodd y rôl drawsnewidiol

yr oedd y llyfrgell yn ei chwarae wrth gefnogi menyw yn ei 60au ag anawsterau dysgu wrth iddi ymafael â heriau byw yn annibynnol wedi iddi golli ei rhieni. Pan ddaeth eich chwaer â hi i'r llyfrgell am help, ymatebodd y staff gyda chymorth ymarferol a thrugarog a'i grymusodd i gymryd camau pwysig tuag at fwy o annibyniaeth. Rhoddodd staff y llyfrgell hi mewn cysylltiad â Gwasanaethau Cymdeithasol a Chyngor ar Bopeth; ei chynorthwyo i wneud cais am basport trwy bori gwefan GOV.UK; a'i helpu i gael pàs bws. Galluogodd y camau hyn iddi gael mynediad i wasanaethau hanfodol, rheoli tasgau bob dydd a chynnal ei symudedd, gan gynnwys defnyddio'i phàs bws i ymweld â ffrindiau.

Roedd ei rhieni'n darllen y papurau newydd yn frwd, a thrwy gyrchu PressReader ar ddyfais ei chwaer, mae hi bellach yn gallu eu cyrchu am ddim y tu allan i'r llyfrgell. Yn ogystal, mae hi nawr yn ymweld â'r llyfrgell yn rheolaidd ac yn sgwrsio gyda staff mewn amgylchedd croesawgar. Mae ei stori'n dangos sut gall llyfrgelloedd gynnig cymorth sydd wedi'i bersonoli ac sy'n gwneud bywyd yn fwy hwyliog sy'n meithrin annibyniaeth, cynhwysiant ac ymdeimlad o berthyn.

## Dangosyddion ansawdd a meincnodau

Nid oes targedau i'r dangosyddion sy'n weddill, ond maent yn caniatáu i wasanaethau fonitro eu perfformiad dros amser. Mae'r tabl canlynol yn crynhoi safle Ceredigion ar gyfer 2024-25. Mae'r safleoedd yn adlewyrchu nifer yr ymatebwyr, lle mai 1 yw'r awdurdod sy'n sgorio uchaf. Caiff dangosyddion 'am bob pen o’r boblogaeth' eu cyfrifo fesul 1,000 o'r boblogaeth oni nodir fel arall.

| Dangosydd perfformiad | | Safle | Isaf | Canolrifol | Uchaf |
|---|---|---|---|---|---|
| DA 1 Gwneud gwahaniaeth | | | | | |
| a) % yr oedolion sydd o'r farn bod defnyddio'r llyfrgell wedi'u helpu i ddatblygu sgiliau newydd | Dd/B | Dd/B | 17% | 70% | 90% |
| c) iechyd a lles | Dd/B | Dd/B | 1% | 63% | 90% |
| d) pleserus, diogel a chynhwysol | Dd/B | Dd/B | 93% | 97% | 100% |
| DA 2 Bodlonrwydd cwsmeriaid | | | | | |
| a) dewis 'da iawn' neu 'dda' o lyfrau | Dd/B | Dd/B | 84% | 90.5% | 97% |
| b) gofal cwsmeriaid 'da iawn' neu 'dda' | Dd/B | Dd/B | 92% | 98% | 100% |
| c) cyfleusterau TG 'da iawn' neu 'dda' | Dd/B | Dd/B | 60% | 85% | 99% |
| d) 'da iawn' neu 'dda' yn gyffredinol | Dd/B | Dd/B | 85% | 98% | 100% |
| e) sgôr allan o ddeg ymysg defnyddwyr 16 oed ac iau | Dd/B | Dd/B | 8.0 | 9.4 | 9.7 |
| DA 5 Cymorth i ddefnyddwyr | | | | | |
| a) nifer yn mynychu am bob pen o’r boblogaeth | 5 | 17/21 | 1 | 28 | 214 |
| c) cymorth anffurfiol am bob pen o’r boblogaeth | 173 | 7/20 | 15 | 150 | 608 |
| DA 6 Nifer yn mynychu digwyddiadau am bob pen o’r boblogaeth | 14 | 22/22 | 14 | 224.5 | 764 |
| DA 8 Defnydd o’r llyfrgell | | | | | |
| b) ymweliadau rhithwir am bob pen o’r boblogaeth | 907 | 8/21 | 5 | 766 | 6,035 |
| DA 13 Lefelau staffio a chymwysterau[8] | | | | | |

[8] *Nid oes safleoedd wedi'u cynnwys ar gyfer gwirfoddolwyr am fod goblygiadau niferoedd gwirfoddolwyr yn aneglur.*

| Dangosydd perfformiad | | Safle | Isaf | Canolrifol | Uchaf |
|---|---|---|---|---|---|
| (v) a) cyfanswm y gwirfoddolwyr | 20 | Dd/B | 0 | 23 | 442 |
| b) oriau gwirfoddolwyr | 1,350 | Dd/B | 0 | 883 | 22,706 |
| DA 14 Gwariant gweithredol | | | | | |
| a) cyfanswm gwariant am bob pen o'r boblogaeth | £10,128 | 17/21 | £5,978 | £12,646 | £26,209 |
| b) % ar staff | 80% | 1/21 | 48% | 67% | 80% |
| % ar adnoddau gwybodaeth | 19% | 1/21 | 4% | 9% | 19% |
| % ar gyfarpar ac adeiladau | 0% | 21/21 | 0% | 2% | 29% |
| % ar gostau gweithredol eraill | 1% | 21/21 | 1% | 15% | 38% |

# Dadansoddiad o berfformiad

Mae modd rhannu'r Hawliau Craidd a'r dangosyddion ansawdd yn dri phrif faes. Mae'r adran hon o'r adroddiad yn amlinellu perfformiad o dan y meysydd hyn.

## Bodloni anghenion cwsmeriaid (DA 1-2, 4-5)

Nid yw Ceredigion wedi ymgynghori â defnyddwyr yn ystod cyfnod Estyniad Fframwaith 6. Nododd ffurflen SLICC 2023-24 fod proses ymgynghori wedi'i chynnwys yn y cynllun busnes ar gyfer 2024-25, ond ni ddarparwyd unrhyw ganlyniadau. Mae Ceredigion yn bodloni'r targed ym maes Cymorth ar gyfer iechyd a lles (DA4) yn llawn. Mae'r gwasanaeth yn uwch na'r canolrif cenedlaethol ar gyfer cymorth anffurfiol am bob pen o'r boblogaeth, a chynyddodd nifer y sesiynau 20% o gymharu â 2023-24 (DA5). Fodd bynnag, mae'r gwasanaeth yn is na'r canolrif ar gyfer hyfforddiant ffurfiol am bob pen o'r boblogaeth, ac mae'r niferoedd ychydig yn is (4%) o gymharu â 2023-24.

## Mynediad a defnydd (DA 6-8)

Mae Ceredigion yn chwartel uchaf awdurdodau llyfrgell Cymru am e-fenthyciadau am bob pen o'r boblogaeth, sydd (DA8). Mae e-fenthyciadau wedi cynyddu 23% o gymharu â 2023-24 a 75% ers 2022-23. Mae ymweliadau rhithwir am bob pen o'r boblogaeth yn uwch na'r canolrif, er y bu gostyngiad bach (3%) o gymharu â 2023-24.

Nid yw Ceredigion yn bodloni'r targed ym maes Lleoliad mannau gwasanaeth (DA7), am fod nifer y llyfrgelloedd symudol wedi'i ostwng o 3 i 2 eleni. Mae'r gwasanaeth yn aildrefnu llwybrau'r ddau gerbyd sy'n weddill er mwyn ceisio gwella'r cyrraedd. Mae'r gwasanaeth yn chwartel isaf awdurdodau llyfrgell Cymru am y nifer sy'n mynychu digwyddiadau am bob pen o'r boblogaeth, er bod hyn wedi cynyddu 7% o gymharu â 2023-24, a 13% ogymharu â 2022-23 (DA6). Gwybodaeth gyfyngedig a ddarperir am y mathau o ddigwyddiadau a gynigir.

## Arbenigedd a chapasiti (DA 13-14 ac 16)

Mae Ceredigion yn bodloni'r targed o ran Oriau agor, a Cheredigion sydd â'r nifer uchaf o oriau agor am bob pen o'r boblogaeth yn genedlaethol (DA16). Mae nifer yr oriau agor wedi parhau'n statig drwy gydol cyfnod Estyniad Fframwaith 6. Mae'r gwasanaeth yn is na'r canolrif ar gyfer gwariant refeniw am bob pen o'r boblogaeth, sy'n parhau bron yn ddigyfnewid ers 2023-24 (DA14). Er bod y gyllideb lyfrau wedi gostwng 8% o gymharu â 2023-24, mae Ceredigion yn y chwartel uchaf yn genedlaethol ar gyfer y mesur hwn. Y canran o'r gyllideb a ddyrannwyd i staffio yw'r uchaf yn genedlaethol.

Mae Ceredigion yn bodloni'r targed yn rhannol ar gyfer Lefelau staffio a chymwysterau (DA13). Mae'r ganran DPP wedi cynyddu eleni, sy'n golygu bod y gwasanaeth bellach yn bodloni'r targed ar gyfer y mesur hwn. Fodd bynnag, mae'r gwasanaeth yn is na'r canolrif ar gyfer cyfanswm staff a staff cymwysedig am bob pen o'r boblogaeth, ac nid yw'n bodloni'r targed ar gyfer y naill fesur na'r llall. Mae'r cyfanswm staff yn ddigyfnewid ers 2023-24, ond mae nifer y staff cymwysedig wedi gostwng 1 CALl. Collodd Ceredigion 1 swydd broffesiynol eleni a chariwyd 1 swydd broffesiynol yn wag, ynghyd â 3 swydd arall (sy'n gyfwerth ag 1 CALl) oherwydd arbedion gofynnol i'r gyllideb ac i baratoi ar gyfer ad-drefnu.

# Y cyd-destun strategol

Yn rhan o'r ffurflen, mae gofyn i awdurdodau adrodd ar y ffordd mae'r gwasanaeth llyfrgell yn cyfrannu at flaenoriaethau a nodau strategol ehangach Llywodraeth Cymru. Amlygodd Ceredigion sut mae ei weithgareddau'n cyfrannu at strategaethau cenedlaethol, gan gynnwys Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Ymhlith yr enghreifftiau mae:

- **Cymru lewyrchus** e.e. cynnal clybiau gwaith, cefnogi ceisiadau am Gredyd Cynhwysol, a hwyluso ceisiadau ar-lein am gofrestr dai Ceredigion sy'n llwyr ddigidol.
- **Cymru iachach** e.e. ymestyn cymorth i bobl sy'n byw gyda dementia; gweithredu fel asiant ar gyfer Wireless for the Blind, gan gyflenwi dyfeisiau sain am ddim; a darparu mynediad i lyfrau llafar.
- **Cymru sy'n fwy cyfartal** e.e. dosbarthu nwyddau mislif am ddim trwy Gynllun Urddas Mislif Llywodraeth Cymru; cynnig offer chwaraeon benthyciadwy mewn partneriaeth â chanolfannau hamdden; darparu dosbarthiadau TG i ddechreuwyr; a chefnogi Dechrau Da gan gyrraedd bron 100% o'r babanod newydd-anedig.
- **Cymru o gymunedau cydlynus** e.e. cynnig gwybodaeth leol i feithrin ymgysylltiad cymunedol.
- **Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu** e.e. cyflogi staff cwbl ddwyieithog sy'n hyrwyddo'r Gymraeg; neilltuo 8% o'r gyllideb lyfrau i adnoddau yn y Gymraeg; cefnogi hanes lleol trwy gasgliadau cynhwysfawr;

trefnu digwyddiadau awduron, sesiynau amser stori a darlithoedd; ymgysylltu â grwpiau cymunedol fel Merched y Wawr a Sefydliad y Merched; a chynnal grwpiau darllen dwyieithog.
- **Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang** e.e. gweithio'n agos ag awdurdodau llyfrgell eraill Cymru trwy gonsortia prynu a digidol.

## Cyfeiriad at y dyfodol

Gan adrodd ar gyfeiriad yr awdurdod at y dyfodol, a'i gynlluniau ar gyfer y gwasanaeth llyfrgell dros y flwyddyn sydd i ddod, mae gwasanaeth llyfrgell Ceredigion yn alinio'i ddatblygiad yn agos â blaenoriaethau strategol Cyngor Sir Ceredigion, yn arbennig Strategaeth Ddigidol 2024-30 ac amcanion ehangach lle mae ffocws ar y gymuned. Er nad oes strategaeth llyfrgelloedd ar wahân wedi'i chyhoeddi ar hyn o bryd, mae themâu allweddol yn dod i'r amlwg a fydd yn siapio gwasanaethau llyfrgell yn y sir.

Bydd cynhwysiant digidol yn ffocws canolog, gyda'r disgwyl i lyfrgelloedd gyflwyno hyfforddiant sgiliau digidol ar gyfer pob oedran; darparu mynediad am ddim i Wi-Fi a dyfeisiau; a chefnogi trigolion i ddatgloi gwasanaethau cyhoeddus ar-lein. Yn gyfochrog â hyn, bydd llyfrgelloedd yn cryfhau eu rôl o ran hyrwyddo lles cymunedol a chynhwysiant cymdeithasol trwy gynnig gofodau diogel a chroesawgar gyda'r nod o leihau unigrwydd ac arwahanrwydd; cynnal digwyddiadau cynhwysol i deuluoedd a grwpiau agored i niwed; a chefnogi iechyd meddwl trwy weithgareddau darllen a chreadigol. Mae dysgu gydol oes a llythrennedd yn parhau'n flaenoriaethau ac mae cynlluniau i hyrwyddo llythrennedd yn y blynyddoedd cynnar; cefnogi addysg i oedolion (gan gynnwys Saesneg i Siaradwyr Ieithoedd Eraill a sgiliau sylfaenol); a chydweithio gydag ysgolion a cholegau i wella deilliannau addysgol. Bydd llyfrgelloedd hefyd yn cyfrannu at nodau cynaliadwyedd a diwylliannol y cyngor trwy fabwysiadu arferion eco-gyfeillgar; cynnal ymgyrchoedd ymwybyddiaeth; a chynnig gwasanaethau a rhaglennu diwylliannol dwyieithog i ddathlu'r iaith Gymraeg a hunaniaeth leol.

## Casgliad

Mae Ceredigion yn parhau i berfformio'n dda mewn nifer o feysydd. Mae'r cynnydd mewn e-fenthyciadau wedi parhau, ac mae Ceredigion yn perfformio'n uwch na'r canolrif o ran y nifer sy'n mynychu cymorth anffurfiol. Mae hefyd yn gadarnhaol bod DPP staff wedi cynyddu eleni, gan ganiatáu i Geredigion fodloni'r targed ar gyfer y mesur hwn. Fodd bynnag, mae'r ffaith nad yw Ceredigion wedi bodloni Hawliau Craidd 11 a 12 drwy gydol cyfnod Estyniad Fframwaith 6 yn bryder difrifol. Fel y nodwyd yn flaenorol, bydd ymgynghori â defnyddwyr a datblygu strategaeth yn rhoi ymdeimlad cryfach i'r gwasanaeth o'i gyfeiriad at y dyfodol, sy'n arbennig o bwysig mewn adeg o bwysau cyllidebol cynyddol.

Fel y nodwyd mewn adroddiadau blaenorol, mae lefel y sylwebaeth a gynigiwyd yn ffurflen Ceredigion yn gyfyngedig iawn o gymharu â'r hyn a ddarperir gan lawer o awdurdodau, ac mae hyn yn cyfyngu ar allu'r asesydd annibynnol i amlygu gwaith cadarnhaol sy'n cael ei wneud yn y gwasanaeth neu i fyfyrio'n llawn ar y meysydd lle nad yw Ceredigion yn perfformio cystal â gwasanaethau llyfrgell eraill.

# Adroddiad Asesu Blynyddol 2024-25 Conwy

Mae'r adroddiad hwn wedi'i baratoi ar sail gwybodaeth a ddarparwyd gan ffurflen flynyddol Conwy, datganiadau effaith ac adroddiad naratif a gyflwynwyd i Is-adran Diwylliant Llywodraeth Cymru.

## Crynodeb gweithredol

Mae Conwy yn bodloni pob un o'r 13 Hawl Graidd yn llawn. O'r 5 dangosydd ansawdd lle mae targedau, mae Conwy yn cyflawni 4 yn llawn ac 1 yn rhannol.

Mae Conwy yn parhau i berfformio'n dda mewn llawer o feysydd, gan gynnwys ymweliadau rhithwir, benthyciadau a'r nifer sy'n mynychu hyfforddiant ffurfiol/cymorth anffurfiol. Mae'n amlwg bod y gwasanaeth yn gweithio'n galed i ddeall yn well feysydd sydd wedi'u nodi fel rhai sy'n peri pryder trwy arolygon cwsmeriaid a data SLICC arall, a mynd i'r afael â nhw. Mae hefyd yn gadarnhaol bod oriau agor wedi'u cynnal a bod y gyllideb lyfrau wedi'i hadfer ychydig eleni. Fodd bynnag, er bod y gwasanaeth yn parhau i fuddsoddi mewn datblygiad staff, mae'r gostyngiad yn nifer y staff cymwysedig yn bryder, ynghyd â sefydlogrwydd ariannol tymor hwy Llyfrgelloedd Conwy, yn arbennig pan ddaw'r Gronfa Ffyniant Gyffredin i ben yn 2026.

- Mae sesiynau cymorth anffurfiol am bob pen o'r boblogaeth yn parhau i fod yn y chwartel uchaf yn genedlaethol, ac mae nifer y sesiynau wedi cynyddu 11% o gymharu â 2023-24 (DA5).
- Mae nifer y defnyddwyr sy'n mynychu digwyddiadau llyfrgell wedi cynyddu 13% o gymharu â 2023-24, a 46% ogymharu â 2022-23 (DA6).
- Mae Conwy yn uwch na'r canolrif cenedlaethol ar gyfer e-fenthyciadau am bob pen o'r boblogaeth, ac mae benthyciadau wedi cynyddu 34% o gymharu â 2023-24 a mwy na dyblu ers 2022-23 (DA8).

## Nodyn i adroddiad 2024-25

Yn ystod 2024-25, symudodd awdurdodau lleol yng Nghymru i Blatfform Llyfrgell Ddigidol newydd ar gyfer Cymru gyfan. Perwyd rhywfaint o darfu i weithrediad gwasanaethau llyfrgell yn ystod y broses symud, gan gynnwys mewn perthynas â chaffael stoc newydd, sef gwaith y bu'n rhaid ei atal am gyfnod wrth i wasanaethau unigol symud i'r system newydd. Mae rhywfaint o fân wahaniaethau hefyd yn ffurfwedd y platfform newydd, sy'n golygu nad yw data defnyddwyr yn ystod 2024-25 yn gwbl gyson. Felly, nid yw'r adroddiadau ar gyfer 2024-25 yn cynnwys y data a nodir isod ar gyfer Dangosyddion Ansawdd 4, 8, 9 a 10.

DA 4 Cymorth ar gyfer iechyd a lles
c) nifer y benthyciadau o gyfres Darllen yn Well Cymru

DA 8 Defnydd o'r llyfrgell
c) cyfanswm y benthycwyr gweithredol wedi'i rannu â maint y boblogaeth drigolion, a'i luosi â 1,000
d) cyfanswm aelodau'r llyfrgell
e) cyfanswm y llyfrau a fenthycwyd (oedolion a phlant ar wahân)
f) cyfanswm yr eitemau clyweledol a fenthycwyd

DA 9 Deunydd darllen cyfoes a phriodol
a) cyfradd gaffael isaf
b) % a wariwyd ar adnoddau i blant

DA 10 Adnoddau yn y Gymraeg
a) isafswm gwariant o 4%
b) benthyciadau yn y Gymraeg am bob pen o'r boblogaeth

Caiff yr holl ddata ei adrodd a'i asesu ar gyfer 2025-26 (sef blwyddyn gyntaf Fframwaith 7), a chaiff y data hwn ei ddefnyddio i osod y meincnod ar gyfer y blynyddoedd sy'n weddill yn y fframwaith.

# Perfformiad yn erbyn y safonau

Mae'r fframwaith safonau'n cynnwys Hawliau Craidd, dangosyddion ansawdd gyda thargedau, dangosyddion ansawdd gyda meincnodau a mesurau effaith.

## Hawliau Craidd

Adroddodd Conwy ei fod wedi bodloni pob un o'r 13 Hawl Graidd yn llawn trwy hunanasesu. Ar sail y sylwebaeth fanwl a chynorthwyol a ddarparwyd, mae'r asesydd annibynnol yn cytuno gyda'r hunanasesiad.

## Dangosyddion ansawdd gyda thargedau

Mae 12 dangosydd ansawdd (DA), y mae gan 5 ohonynt dargedau cyfansoddol. O'r rhain, mae Conwy yn cyflawni 4 yn llawn ac 1 yn rhannol.

DA 4 (a) Cymorth ar gyfer iechyd a lles, **bodlonwyd yn llawn ▲**
i) Cynllun Darllen yn Well, **bodlonwyd**
ii) Casgliad dynodedig iechyd a lles, **bodlonwyd**
iii) Gwybodaeth am ffyrdd iachach o fyw ac ymddygiad iach, **bodlonwyd**
iv) Cyfeirio at wasanaethau iechyd a lles, **bodlonwyd**

DA 6 Mae'r holl fannau gwasanaeth sefydlog yn cynnig digwyddiadau/gweithgareddau i ddefnyddwyr â gofynion arbennig, **bodlonwyd yn llawn ▲**

DA 7 Lleoliad mannau gwasanaeth, **bodlonwyd yn llawn ▲**

DA 13 Lefelau staffio a chymwysterau, **bodlonwyd yn rhannol ■**
i) Staff am bob pen o'r boblogaeth, **ni fodlonwyd**
ii) Staff cymwysedig am bob pen o'r boblogaeth, **ni fodlonwyd**
iii) Cymwysterau/hyfforddiant pennaeth y gwasanaeth, **bodlonwyd**
iv) Canran DPP, **bodlonwyd**

DA 16 Oriau agor am bob pen o’r boblogaeth, **bodlonwyd yn llawn ▲**

## Mesurau effaith

Mae'r fframwaith yn cynnwys tri dangosydd gyda'r nod o asesu effaith defnyddio llyfrgelloedd ar fywydau pobl. Nid oes targedau i'r dangosyddion hyn, ac mae disgwyl i awdurdodau gynnal arolygon defnyddwyr ar gyfer DA1 ar un achlysur yn ystod y cyfnod o 2022-23 i 2024-25. Cynhaliodd Conwy arolwg oedolion ac arolwg plant ym mis Tachwedd 2023. Mae'r ffigyrau crynodol (isaf, canolrifol ac uchaf) wedi'u seilio ar ddata gan bob awdurdod a ddarparodd ddata yn ffurflenni 2022-23, 2023-24 a 2024-25. Mae'r safleoedd yn adlewyrchu nifer yr ymatebwyr, lle mai 1 yw'r awdurdod sy'n sgorio uchaf.

| Dangosydd perfformiad | | Safle | Isaf | Canolrifol | Uchaf |
|---|---|---|---|---|---|
| DA 1 Gwneud gwahaniaeth | | | | | |
| b) % y bobl ifanc sydd o'r farn bod y llyfrgell yn eu helpu i ddysgu a chael gwybod pethau: | 90% | =13/19 | 68% | 94% | 99% |
| e) % yr oedolion sydd o'r farn bod y llyfrgell wedi gwneud gwahaniaeth i'w bywydau: | 79% | =18/20 | 31% | 86.5% | 96% |
| DA 5 b) % y mynychwyr sesiynau hyfforddiant a ddywedodd fod yr hyfforddiant wedi'u helpu i gyflawni eu diben trwy fynychu: | 91% | =15/18 | 75% | 98.5% | 100% |

Gofynnir hefyd i awdurdodau ddarparu datganiad effaith yn disgrifio'r effaith mae'r gwasanaeth llyfrgell wedi'i chael ar unigolyn neu ar grŵp o unigolion yn ystod y flwyddyn. Darparodd Conwy ddatganiad effaith a oedd yn canolbwyntio ar werth y grwpiau Cyfeillion Darllen, yn arbennig y Clwb Clebran yn Llyfrgell Abergele. Trwy'r Clwb Clebran, mae Llyfrgelloedd Conwy yn dangos sut gall llyfrgelloedd gefnogi dysgu iaith, magu hyder a meithrin cymuned, tra'n dathlu a hyrwyddo diwylliant Cymru.

Wedi'i sefydlu dair blynedd yn ôl, mae'r grŵp hwn sy'n cyfarfod bob pythefnos yn cefnogi oedolion a ddechreuodd fel dysgwyr Cymraeg newydd i ddechrau, yn brin o hyder, i sgwrsio yn Gymraeg. Caiff y Clwb Clebran ei arwain gan siaradwr Cymraeg rhugl, ac mae'n cynnig cyfleoedd i ddysgwyr ddatblygu eu sgiliau iaith trwy sgwrsio, gwrando, darllen a chwarae gemau. Mae adnoddau fel papurau bro, cylchgronau Cymraeg a darnau o destun yn cyfoethogi'r profiad. Dros amser, mae cyfranogwyr wedi symud o siarad Cymraeg yn betrus yn ystod y sesiynau yn unig, i sgwrsio'n

naturiol yn Gymraeg cyn, yn ystod ac ar ôl cyfarfodydd. Mae'r amgylchedd cefnogol ac anffurfiol wedi grymuso mynychwyr i ymuno â grwpiau ychwanegol i ddysgwyr, gwneud ffrindiau ac ymestyn eu hymarfer y tu hwnt i'r llyfrgell, gan gynnwys gwylio S4C, gwrando ar Radio Cymru a mynd i gigiau Cymraeg. Rhannodd Geoff, sy'n aelod o'r grŵp, sut mae'r Clwb Clebran wedi ei helpu ef, *"Mae cyfarfod â gwahanol bobl sydd â lefelau gwahanol o Gymraeg yn rhoi cyfle i fi ymarfer darllen a sgwrsio. Mae wedi bod o help mawr i'm hyder."*

Mae llwyddiant y grŵp wedi sbarduno galw gan ddysgwyr yn Sir Conwy ac o'r tu allan gyda cheisiadau am sesiynau wythnosol. Dywedodd Judith Griffith, Rheolwr Llyfrgell Abergele, *"Mae wedi bod yn werthfawr dros ben gweld y gwelliant yn sgiliau Cymraeg y mynychwyr a'u hyder yn blodeuo."*

## Dangosyddion ansawdd a meincnodau

Nid oes targedau i'r dangosyddion sy'n weddill, ond maent yn caniatáu i wasanaethau fonitro eu perfformiad dros amser. Mae'r tabl canlynol yn crynhoi safle Conwy ar gyfer 2024-25. Mae'r safleoedd yn adlewyrchu nifer yr ymatebwyr, lle mai 1 yw'r awdurdod sy'n sgorio uchaf. Caiff dangosyddion 'am bob pen o'r boblogaeth' eu cyfrifo fesul 1,000 o'r boblogaeth oni nodir fel arall.

| **Dangosydd perfformiad** | | **Safle** | **Isaf** | **Canolrifol** | **Uchaf** |
|---|---|---|---|---|---|
| DA 1 Gwneud gwahaniaeth | | | | | |
| a) % yr oedolion sydd o'r farn bod defnyddio'r llyfrgell wedi'u helpu i ddatblygu sgiliau newydd | 64% | =15/20 | 17% | 70% | 90% |
| c) iechyd a lles | 49% | 15/20 | 1% | 63% | 90% |
| d) pleserus, diogel a chynhwysol | 95% | 16/20 | 93% | 97% | 100% |
| DA 2 Bodlonrwydd cwsmeriaid | | | | | |
| a) dewis 'da iawn' neu 'dda' o lyfrau | 88% | 15/20 | 84% | 90.5% | 97% |
| b) gofal cwsmeriaid 'da iawn' neu 'dda' | 96% | 18/20 | 92% | 98% | 100% |
| c) cyfleusterau TG 'da iawn' neu 'dda' | 64% | 19/20 | 60% | 85% | 99% |
| d) 'da iawn' neu 'dda' yn gyffredinol | 97% | =12/20 | 85% | 98% | 100% |
| e) sgôr allan o ddeg ymysg defnyddwyr 16 oed ac iau | 9.1 | 14/18 | 8.0 | 9.4 | 9.7 |
| DA 5 Cymorth i ddefnyddwyr | | | | | |
| a) nifer yn mynychu am bob pen o'r boblogaeth | 34 | =6/21 | 1 | 28 | 214 |
| c) cymorth anffurfiol am bob pen o'r boblogaeth | 253 | 4/20 | 15 | 150 | 608 |
| DA 6 Nifer yn mynychu digwyddiadau am bob pen o'r boblogaeth | 207 | 15/22 | 14 | 224.5 | 764 |
| DA 8 Defnydd o'r llyfrgell | | | | | |
| b) ymweliadau rhithwir am bob pen o'r boblogaeth | 5,372 | 2/21 | 5 | 766 | 6,035 |
| DA 13 Lefelau staffio a chymwysterau[9] | | | | | |

[9] *Nid oes safleoedd wedi'u cynnwys ar gyfer gwirfoddolwyr am fod goblygiadau niferoedd gwirfoddolwyr yn aneglur.*

| Dangosydd perfformiad | | Safle | Isaf | Canolrifol | Uchaf |
|---|---|---|---|---|---|
| (v) a) cyfanswm y gwirfoddolwyr | 40 | Dd/B | 0 | 23 | 442 |
| b) oriau gwirfoddolwyr | 1,850 | Dd/B | 0 | 883 | 22,706 |
| DA 14 Gwariant gweithredol | | | | | |
| a) cyfanswm gwariant am bob pen o'r boblogaeth | £14,932 | 6/21 | £5,978 | £12,646 | £26,209 |
| b) % ar staff | 73% | 8/21 | 48% | 67% | 80% |
| % ar adnoddau gwybodaeth | 10% | =8/21 | 4% | 9% | 19% |
| % ar gyfarpar ac adeiladau | 2% | =11/21 | 0% | 2% | 29% |
| % ar gostau gweithredol eraill | 15% | 11/21 | 1% | 15% | 38% |

# Dadansoddiad o berfformiad

Mae modd rhannu'r Hawliau Craidd a'r dangosyddion ansawdd yn dri phrif faes. Mae'r adran hon o'r adroddiad yn amlinellu perfformiad o dan y meysydd hyn.

## Bodloni anghenion cwsmeriaid (DA 1-2, 4-5)

Nawr bod data ar gael ar gyfer pob awdurdod a gynhaliodd arolwg cwsmeriaid yn ystod cyfnod Estyniad Fframwaith 6, mae hyn yn rhoi Conwy yn is na chanolrif awdurdodau llyfrgell Cymru am bob mesur ym meysydd Gwneud gwahaniaeth (DA1) a Bodlonrwydd cwsmeriaid (DA2). Yn ystod 2024-25, mae'r gwasanaeth wedi cymryd camau i fynd i'r afael ag ymatebion ym meysydd iechyd a lles, gan gynnwys hyrwyddo'r casgliadau Darllen yn Well. Mewn ymateb i'r gyfradd fodlonrwydd is am gyfleusterau TG, llwyddodd y gwasanaeth i sicrhau cyllid ar gyfer 20 o sgriniau newydd yn llyfrgelloedd Llandudno a Bae Cinmel; i ddiweddaru cyfrifiaduron personol i'w gwneud yn gydnaws â Windows 11; ac i ymestyn mynediad i argraffu trwy Wi-Fi ar draws yr holl lyfrgelloedd.

Mae'r nifer sy'n mynychu hyfforddiant ffurfiol am bob pen o'r boblogaeth yn uwch na chanolrif awdurdodau llyfrgell Cymru, ac mae wedi cynyddu 3% o gymharu â 2023-24 a 7% o gymharu â 2022-23 (DA5). Mae sesiynau cymorth anffurfiol am bob pen o'r boblogaeth yn parhau i fod yn y chwartel uchaf yn genedlaethol, ac mae nifer y sesiynau wedi cynyddu 11% o gymharu â 2023-24. Mae'r gwasanaeth yn bodloni'r targed ym maes Iechyd a lles (DA4) yn llawn. Ymhlith y gweithgareddau eleni roedd sesiynau cadw cofnodion ar gyfer pobl â dementia a'u gofalwyr, wedi'u cyllido trwy Lywodraeth Cymru/Cyngor Llyfrau Cymru.

## Mynediad a defnydd (DA 6-8)

Er bod Conwy yn is na'r canolrif cenedlaethol am nifer y defnyddwyr sy'n mynychu digwyddiadau llyfrgell (DA6), mae'r nifer sy'n mynychu a adroddwyd wedi cynyddu 13% o gymharu â 2023-24, a 46% o gymharu â 2022-23. Trwy brosiect a gyllidwyd gan y Gronfa Ffyniant Gyffredin (SPF), 'Creu'r Sbardun', cynhaliwyd bron 1,500 o ddigwyddiadau mewn llyfrgelloedd, gan gynnwys amser stori, grwpiau darllen,

Darllen ar y Cyd, grwpiau Cyfeillion Darllen, sesiynau crefft a stori, cymorth digidol, a gweithgareddau gyda grwpiau lleol fel y Sgowtiaid a Merched y Wawr.

Mae Conwy'n parhau i fod yn chwartel uchaf awdurdodau llyfrgell Cymru am ymweliadau rhithwir am bob pen o'r boblogaeth, er bod cyfanswm yr ymweliadau rhithwir wedi gostwng ychydig (1%) o gymharu â 2023-24, o bosibl oherwydd y tarfu i'r gwasanaeth ar-lein oherwydd gweithredu LMS newydd ar gyfer Cymru gyfan (DA8). Mae Conwy yn uwch na'r canolrif cenedlaethol ar gyfer e-fenthyciadau am bob pen o'r boblogaeth, ac mae benthyciadau wedi cynyddu 34% o gymharu â 2023-24 a mwy na dyblu ers 2022-23.

### Arbenigedd a chapasiti (DA 13-14 ac 16)

Er bod Conwy yn uwch na chanolrif awdurdodau llyfrgell Cymru am gyfanswm staff, nid yw'n bodloni'r targed ar gyfer y mesur hwn, ac mae cyfanswm y staff wedi gweld gostyngiad bach ers 2023-24 (0.4 CALI) (DA13). Mae ailstrwythuro staffio wedi'i gwblhau, gan ddarparu mwy o gapasiti staffio ar lefel rheolwyr rheng flaen. Mae'r gwasanaeth nawr yn bwriadu recriwtio i lenwi swyddi a oedd wedi aros yn wag tra bod penderfyniad ar y gweill ynghylch y posibilrwydd o ostwng oriau agor. Fodd bynnag, mae lefelau staff cymwysedig wedi gostwng yn fwy nodedig am y dilëwyd dwy swydd bellach ym mis Ebrill 2024 (1.86 CALI). Mae'r ganran DPP wedi cynyddu eleni oherwydd hyfforddiant LMS Cymru gyfan, hyfforddiant iechyd a diogelwch a hyfforddiant rheoli ar gyfer y pum Rheolwr Llyfrgell sydd newydd eu penodi. Mae tri aelod o staff yn cyflawni Siarteriaeth CILIP ar hyn o bryd gyda chymorth Llywodraeth Cymru.

Mae Conwy yn uwch na'r canolrif cenedlaethol ar gyfer gwariant refeniw am bob pen o'r boblogaeth, er bod y gyllideb wedi lleihau 3% o gymharu â 2023-24 (DA14). Er y gallai'r gostyngiad o 3% ymddangos yn gymharol fach, mae'n dod mewn cyd-destun o gostau'n cynyddu ac yn gyfwerth â 49c y person, sef y gostyngiad mwyaf ond dau am bob pen o'r boblogaeth yng Nghymru eleni. Serch hynny, mae'n gadarnhaol, ar ôl gostyngiad i'r gyllideb lyfrau yn 2023-24, fod hyn wedi cynyddu rywfaint (2%) eleni, er bod ei bod yn parhau i fod yn is na ffigur 2022-23.

Mae Conwy yn bodloni'r targed ar gyfer Oriau agor, sydd heb newid ers 2023-24 (DA16). Mae'r gwasanaeth yn adrodd, yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus yn 2024 ar y posibilrwydd o ostwng 25% oddi ar oriau agor oherwydd cyfyngiadau cyllidebol, na chafodd y cynigion hyn eu derbyn gan yr Arweinydd a'r Cabinet yn y broses o osod cyllideb 2025-26.

## Y cyd-destun strategol

Yn rhan o'r ffurflen, mae gofyn i awdurdodau adrodd ar y ffordd mae'r gwasanaeth llyfrgelloedd yn cyfrannu at flaenoriaethau a nodau strategol ehangach Llywodraeth Cymru. Darparodd Conwy enghreifftiau o'r ffordd mae'n parhau i gyfrannu at bob un

o saith nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a'r Rhaglen Lywodraethu. Mae datblygu llyfrgelloedd fel hybiau cymunedol yn parhau i fod yn ganolog, gyda ffocws cadarn ar uwchsgilio staff, cefnogi grwpiau llyfrgell cymunedol a chreu partneriaethau i fynd i'r afael â blaenoriaethau cenedlaethol gan gynnwys tlodi, llythrennedd, pobl hŷn, mynediad digidol ac unigrwydd.

Trwy'r rhaglen ddiwylliannol a gyllidwyd gan yr SPF, 'Creu'r Sbardun', mae tri aelod o staff llyfrgell wedi derbyn rolau penodedig i ddarparu gweithgareddau diwylliannol arloesol sy'n cynyddu mynediad at y celfyddydau ac yn rhoi’r Gymraeg wrth galon digwyddiadau, yn cyd-fynd â Strategaeth Diwylliant Conwy. Mae perfformiadau cerddorol, dawns, barddoniaeth a gweithdai mewn llyfrgelloedd wedi cyfrannu at Gymru o Gymunedau Cydlynus a Chymru â Diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn Ffynnu. Mae mentrau'r Llyfrgell Genedlaethol fel 'Cornel Clip' wedi ymestyn cyfranogiad diwylliannol yn llyfrgelloedd Llanrwst a Chonwy.

Mae'r gwasanaeth yn parhau i gefnogi cynhwysiant digidol a lles cymdeithasol trwy fentrau fel sesiynau Croeso Cynnes; darpariaeth Mannau Diogel, sydd wedi’i hymestyn gan y gwasanaeth o 5 llyfrgell ardal adeg y cynllun peilot cychwynnol i gyfanswm o 26 safle ar hyd y sir; a sesiynau amser stori a chrefft am ddim yn ystod y gwyliau. Mae prosiectau cydweithredol gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a’r Tîm Lles Meddyliol, fel model y Coleg Ymadfer yn Llyfrgell Bae Colwyn, yn dangos gwaith integredig yn cefnogi iechyd meddwl a lles.

Mae cyfranogiad y gwasanaeth yng nghais Oed-gyfeillgar Sefydliad Iechyd y Byd, ei waith gyda phartneriaid ar gynlluniau gweithredu gwrth-hiliaeth a LHDTC+ a'i rôl ganolog yn Strategaeth Cwsmeriaid CBSC oll yn amlygu ei ymrwymiad i ddarpariaeth llyfrgelloedd hygyrch a chynhwysol sy'n cefnogi nodau strategol Llywodraeth Cymru a'r Ddeddf Llesiant.

## Cyfeiriad at y dyfodol

Gan adrodd ar gyfeiriad yr awdurdod at y dyfodol a'i gynlluniau ar gyfer y gwasanaeth llyfrgell yn y flwyddyn sydd i ddod, bydd Conwy yn parhau i weithredu o fewn fframwaith y Strategaeth Llyfrgelloedd a Gwybodaeth bresennol, tra'n wynebu heriau ariannol sydd wedi sbarduno adolygiadau o'r hyn y gall y gwasanaeth ei gyflawni. Cynhaliwyd ymgynghoriad â chwsmeriaid ynghylch gostyngiadau posibl o hyd at 25% i oriau agor; fodd bynnag, penderfynodd yr Arweinydd a'r Cabinet yn erbyn gweithredu'r toriadau hyn ar gyfer 2025-26, gan gadw'r oriau agor presennol. Er gwaethaf hyn, mae ailstrwythuro staffio a gwblhawyd ym mis Ebrill 2024 wedi gweld tair swydd broffesiynol yn cael eu dileu, gan leihau'r capasiti ymhellach mewn tîm sydd eisoes wedi gweld gostyngiadau sylweddol ers 2017. Mae hyn yn gadael pedair swydd broffesiynol yn unig yn y gwasanaeth, gan gyfyngu ar gyfleoedd datblygu a rhoi pwysau ar staff.

Mae'r gwasanaeth yn parhau'n ymrwymedig i symud ei Lyfrgelloedd ymlaen i'r model Hybiau Cymunedol, gyda chefnogaeth adnoddau'r Gronfa Ffyniant Gyffredin (SPF) a chyllid parhad i 2025-26 i alluogi ymdrechion marchnata a chyflwyno rhaglen ddiwylliannol amrywiol. Bydd Llyfrgelloedd Conwy yn parhau i greu partneriaethau â chydweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol i ddatblygu llwybrau cyfeirio newydd. Mae'r awdurdod hefyd wedi cymryd swyddogaeth Cymunedau Oed-gyfeillgar ar draws yr awdurdod. Mae lleoliadau llyfrgell ar y cyd sydd wedi llwyddo yng Nghonwy a Llanrwst wedi llywio cynlluniau i archwilio model tebyg yn Llandudno, gyda chynnig i symud gwasanaethau llyfrgell i Venue Cymru er mwyn gwella hygyrchedd, effeithlonrwydd ynni ac oriau agor.

Mae cynaliadwyedd ariannol yn parhau i fod yn bryder difrifol i Gonwy, gyda'r Gronfa Ffyniant Gyffredin yn darparu diogelwch rhannol tan fis Mawrth 2026, a'r tu hwnt i hynny, gallai pwysau cyllidebol pellach effeithio ar y gallu i gyflwyno gwasanaethau.

## Casgliad

Mae Conwy yn parhau i berfformio'n dda mewn llawer o feysydd, gan gynnwys ymweliadau rhithwir, benthyciadau a'r nifer sy'n mynychu hyfforddiant ffurfiol/cymorth anffurfiol. Mae'n amlwg bod y gwasanaeth yn gweithio'n galed i ddeall yn well feysydd sydd wedi'u nodi fel rhai sy'n peri pryder trwy arolygon cwsmeriaid a data SLICC arall, a mynd i'r afael â nhw. Mae hefyd yn gadarnhaol bod oriau agor wedi'u cynnal a bod y gyllideb lyfrau wedi'i hadfer ychydig eleni. Fodd bynnag, er bod y gwasanaeth yn parhau i fuddsoddi mewn datblygiad staff, mae'r gostyngiad yn nifer y staff cymwysedig yn bryder, ynghyd â sefydlogrwydd ariannol tymor hwy Llyfrgelloedd Conwy, yn arbennig pan ddaw'r Gronfa Ffyniant Gyffredin i ben yn 2026.

# Adroddiad Asesu Blynyddol 2024-25 Sir Ddinbych

Mae'r adroddiad hwn wedi'i baratoi ar sail gwybodaeth a ddarparwyd gan ffurflen flynyddol Sir Ddinbych, datganiadau effaith ac adroddiad naratif a gyflwynwyd i Is-adran Diwylliant Llywodraeth Cymru.

## Crynodeb gweithredol

Adroddodd Sir Ddinbych ei bod yn bodloni pob un o'r 13 Hawl Graidd yn llawn. Fodd bynnag, mae'r asesydd annibynnol o'r farn bod y gwasanaeth wedi bodloni 12 o'r 13 Hawl Graidd yn llawn ac 1 yn rhannol. O'r 5 dangosydd ansawdd lle mae targedau, mae Sir Ddinbych yn cyflawni 3 yn llawn ac 1 yn rhannol. Mae un DA sydd heb ei fodloni.

Mae Sir Ddinbych yn perfformio'n dda mewn nifer o feysydd: mae e-fenthyciadau ac ymweliadau rhithwir wedi cynyddu, ynghyd â'r nifer sy'n mynychu hyfforddiant ffurfiol. Mae hefyd yn gadarnhaol bod yr amser a neilltuwyd i hyfforddiant staff wedi cynyddu eleni. Fodd bynnag, mae nifer o feysydd sy'n peri pryder. Mae'r gostyngiad i oriau agor, staffio a'r gyllideb lyfrau eleni oll yn peri heriau sylweddol i weithrediad effeithiol y gwasanaeth. Er nad yw'n bosibl creu cysylltiad pendant o'r wybodaeth sydd ar gael, nid yw'n syndod o bosibl bod cymorth anffurfiol a'r nifer sy'n mynychu digwyddiadau wedi gostwng ochr yn ochr ag oriau agor a niferoedd staffio. Yn y cyd-destun hwn, mae'r estyniad arfaethedig i'r rhaglen wirfoddoli a symud i ragor o oriau agor heb staff yn peri pryderon. Er y gwerthfawrogir bod Sir Ddinbych yn ceisio datblygu ei gwasanaethau mewn amgylchedd ariannol heriol, ni ddylid tanbrisio gwerth bod â staff gwybodus ar gael i gefnogi cwsmeriaid y llyfrgell. Yn ogystal, er y gallai fod yn bosibl dod o hyd i rywfaint o gyllid ychwanegol ar gyfer gweithgareddau atodol o ffynonellau amgen, mae angen cynnal cyllid ar gyfer gwasanaethau craidd er mwyn darparu elfennau allweddol gwasanaeth llyfrgell cynhwysfawr ac effeithlon.

- Mae Sir Ddinbych yn uwch na'r canolrif cenedlaethol am ymweliadau rhithwir, ac mae nifer yr ymweliadau rhithwyr a adroddwyd wedi mwy na dyblu o gymharu â 2023-24 (DA8).
- Mae'r nifer sy'n mynychu hyfforddiant ffurfiol am bob pen o'r boblogaeth wedi cynyddu 28% o gymharu â 2023-24 a 61% o gymharu â 2022-23 (DA5).
- Mae canran DPP staff wedi cynyddu'n nodedig, ac mae Sir Ddinbych bellach yn bodloni'r targed hwn (DA13).

# Nodyn i adroddiad 2024-25

Yn ystod 2024-25, symudodd awdurdodau lleol yng Nghymru i Blatfform Llyfrgell Ddigidol newydd ar gyfer Cymru gyfan. Perwyd rhywfaint o darfu i weithrediad gwasanaethau llyfrgell yn ystod y broses symud, gan gynnwys mewn perthynas â chaffael stoc newydd, sef gwaith y bu'n rhaid ei atal am gyfnod wrth i wasanaethau unigol symud i'r system newydd. Mae rhywfaint o fân wahaniaethau hefyd yn ffurfwedd y platfform newydd, sy'n golygu nad yw data defnyddwyr yn ystod 2024-25 yn gwbl gyson. Felly, nid yw'r adroddiadau ar gyfer 2024-25 yn cynnwys y data a nodir isod ar gyfer Dangosyddion Ansawdd 4, 8, 9 a 10.

DA 4 Cymorth ar gyfer iechyd a lles
- c) nifer y benthyciadau o gyfres Darllen yn Well Cymru

DA 8 Defnydd o'r llyfrgell
- c) cyfanswm y benthycwyr gweithredol wedi'i rannu â maint y boblogaeth drigolion, a'i luosi â 1,000
- d) cyfanswm aelodau'r llyfrgell
- e) cyfanswm y llyfrau a fenthycwyd (oedolion a phlant ar wahân)
- f) cyfanswm yr eitemau clyweledol a fenthycwyd

DA 9 Deunydd darllen cyfoes a phriodol
- a) cyfradd gaffael isaf
- b) % a wariwyd ar adnoddau i blant

DA 10 Adnoddau yn y Gymraeg
- a) isafswm gwariant o 4%
- b) benthyciadau yn y Gymraeg am bob pen o'r boblogaeth

Caiff yr holl ddata ei adrodd a'i asesu ar gyfer 2025-26 (sef blwyddyn gyntaf Fframwaith 7), a chaiff y data hwn ei ddefnyddio i osod y meincnod ar gyfer y blynyddoedd sy'n weddill yn y fframwaith.

# Perfformiad yn erbyn y safonau

Mae'r fframwaith safonau'n cynnwys Hawliau Craidd, dangosyddion ansawdd gyda thargedau, dangosyddion ansawdd gyda meincnodau a mesurau effaith.

## Hawliau Craidd

Adroddodd Sir Ddinbych ei bod wedi bodloni pob un o'r 13 Hawl Graidd yn llawn trwy hunanasesu. Ar sail y sylwebaeth fanwl a chynorthwyol a ddarparwyd, mae'r asesydd annibynnol o'r farn bod y gwasanaeth wedi bodloni 12 Hawl Graidd yn llawn a 1 yn rhannol.

**1. Mae llyfrgelloedd yng Nghymru yn rhad ac am ddim i ymuno â nhw, ac yn agored i bawb.**

Hunanasesiad: Bodlonwyd yn llawn
Asesydd Annibynnol: **Bodlonwyd yn llawn ▲**

2. **Mae llyfrgelloedd yng Nghymru yn sicrhau bod staff cyfeillgar, gwybodus a chymwysedig wrth law i helpu.**
Hunanasesiad: Bodlonwyd yn llawn
Asesydd Annibynnol: **Bodlonwyd yn llawn ▲**

3. **Mae llyfrgelloedd yng Nghymru yn darparu mynediad at ystod o wasanaethau, gweithgareddau ac adnoddau o safon uchel mewn sawl fformat i gefnogi dysgu gydol oes, iechyd a lles personol, cyfranogiad cymunedol, profiadau diwylliannol, hamdden, a darllen er pleser.**
Hunanasesiad: Bodlonwyd yn llawn
Asesydd Annibynnol: **Bodlonwyd yn llawn ▲**

4. **Mae llyfrgelloedd yng Nghymru yn darparu gwasanaethau, cyfleusterau ac adnoddau gwybodaeth priodol i unigolion a grwpiau sydd ag anghenion arbennig.**
Hunanasesiad: Bodlonwyd yn llawn
Asesydd Annibynnol: **Bodlonwyd yn llawn ▲**

5. **Mae llyfrgelloedd yn darparu gofod ffisegol diogel, deniadol a hygyrch sydd ag oriau agor addas dan ofal staff.**
Hunanasesiad: Bodlonwyd yn llawn
Asesydd Annibynnol: **Bodlonwyd yn rhannol ■**
Mae hyn oherwydd y gostyngiad llym i oriau agor ers mis Mehefin 2024, gyda gostyngiad cyfatebol mewn staffio. Roedd oriau agor am bob pen o'r boblogaeth 24% yn is yn 2024-25 o gymharu â'r flwyddyn flaenorol yn dilyn gostyngiad o 40% a roddwyd ar waith ran o'r ffordd trwy'r flwyddyn. Nodir bod y gwasanaeth yn ceisio sicrhau bod yr oriau a gynigir mewn llyfrgelloedd lleol yn ategu ei gilydd, ond mae'n amheus a yw anghenion lleol yn cael eu hateb yn ddigonol yng ngoleuni'r gostyngiad sylweddol i oriau.

6. **Mae llyfrgelloedd yng Nghymru yn benthyca llyfrau am ddim ac yn cynnig mynediad am ddim i wybodaeth, gan gynnwys adnoddau gwybodaeth ar-lein ar gael 24 awr y dydd.**
Hunanasesiad: Bodlonwyd yn llawn
Asesydd Annibynnol: **Bodlonwyd yn llawn ▲**

7. **Mae llyfrgelloedd yng Nghymru yn darparu'r Rhyngrwyd, gan gynnwys Wi-Fi, a mynediad at gyfarpar digidol yn rhad ac am ddim ym mhob man gwasanaeth.**
Hunanasesiad: Bodlonwyd yn llawn

Asesydd Annibynnol: **Bodlonwyd yn llawn ▲**

8. **Mae llyfrgelloedd yng Nghymru yn darparu mynediad at wasanaethau, gweithgareddau diwylliannol ac adnoddau o ansawdd uchel yn y Gymraeg.**
   Hunanasesiad: Bodlonwyd yn llawn
   Asesydd Annibynnol: **Bodlonwyd yn llawn ▲**

9. **Mae llyfrgelloedd yng Nghymru yn gweithio mewn partneriaeth i rannu catalogau a hwyluso mynediad i adnoddau holl lyfrgelloedd Cymru.**
   Hunanasesiad: Bodlonwyd yn llawn
   Asesydd Annibynnol: **Bodlonwyd yn llawn ▲**

10. **Mae llyfrgelloedd yng Nghymru yn cydweithio ag amrywiaeth o bartneriaid i hyrwyddo a darparu gwasanaethau i gynulleidfaoedd newydd ac amrywiol, gan alluogi rhagor o bobl i elwa o'r gwasanaethau hynny.**
    Hunanasesiad: Bodlonwyd yn llawn
    Asesydd Annibynnol: **Bodlonwyd yn llawn ▲**

11. **Mae llyfrgelloedd yng Nghymru yn ymgynghori â defnyddwyr yn rheolaidd i gasglu eu barn ar y gwasanaeth a chasglu gwybodaeth am eu hanghenion newidiol.**
    Hunanasesiad: Bodlonwyd yn llawn
    Asesydd Annibynnol: **Bodlonwyd yn llawn ▲**

12. **Mae llyfrgelloedd yng Nghymru yn trefnu bod eu strategaeth, eu polisïau, eu hamcanion a'u gweledigaeth ar gyfer y gwasanaeth llyfrgelloedd ar gael i'w gweld, mewn print ac ar-lein, mewn amrywiaeth o ieithoedd fel y bo'n briodol i'r gymuned.**
    Hunanasesiad: Bodlonwyd yn llawn
    Asesydd Annibynnol: **Bodlonwyd yn llawn ▲**

13. **Mae llyfrgelloedd yng Nghymru yn darparu cymorth er mwyn helpu pobl i wella'u sgiliau digidol a'u hyder, gan gynnwys defnyddio gwasanaethau e-lywodraeth**
    Hunanasesiad: Bodlonwyd yn llawn
    Asesydd Annibynnol: **Bodlonwyd yn llawn ▲**

## Dangosyddion ansawdd gyda thargedau

Mae 12 dangosydd ansawdd (DA), y mae gan 5 ohonynt dargedau cyfansoddol. O'r rhain, mae Sir Ddinbych yn cyflawni 3 yn llawn ac 1 yn rhannol. Mae un DA sydd heb ei fodloni.

DA 4 (a) Cymorth ar gyfer iechyd a lles, **bodlonwyd yn llawn ▲**
i) Cynllun Darllen yn Well, **bodlonwyd**
ii) Casgliad dynodedig iechyd a lles, **bodlonwyd**
iii) Gwybodaeth am ffyrdd iachach o fyw ac ymddygiad iach, **bodlonwyd**
iv) Cyfeirio at wasanaethau iechyd a lles, **bodlonwyd**

DA 6 Mae'r holl fannau gwasanaeth sefydlog yn cynnig digwyddiadau/gweithgareddau i ddefnyddwyr â gofynion arbennig, **bodlonwyd yn llawn ▲**

DA 7 Lleoliad mannau gwasanaeth, **bodlonwyd yn llawn ▲**

DA 13 Lefelau staffio a chymwysterau, **bodlonwyd yn rhannol ■**
i) Staff am bob pen o'r boblogaeth, **ni fodlonwyd**
ii) Staff cymwysedig am bob pen o'r boblogaeth, **ni fodlonwyd**
iii) Cymwysterau/hyfforddiant pennaeth y gwasanaeth, **bodlonwyd**
iv) Canran DPP, **bodlonwyd**

DA 16 Oriau agor am bob pen o'r boblogaeth, **ni fodlonwyd ●**

## Mesurau effaith

Mae'r fframwaith yn cynnwys tri dangosydd gyda'r nod o asesu effaith defnyddio llyfrgelloedd ar fywydau pobl. Nid oes targedau i'r dangosyddion hyn, ac mae disgwyl i awdurdodau gynnal arolygon defnyddwyr ar gyfer DA1 ar un achlysur yn ystod y cyfnod o 2022-23 i 2024-25. Cynhaliodd Sir Ddinbych arolwg oedolion ac arolwg plant ym mis Hydref 2024. Mae'r ffigyrau crynodol (isaf, canolrifol ac uchaf) wedi'u seilio ar ddata gan bob awdurdod a ddarparodd ddata yn ffurflenni 2022-23, 2023-24 a 2024-25. Mae'r safleoedd yn adlewyrchu nifer yr ymatebwyr, lle mai 1 yw'r awdurdod sy'n sgorio uchaf.

| Dangosydd perfformiad | | Safle | Isaf | Canolrifol | Uchaf |
|---|---|---|---|---|---|
| DA 1 Gwneud gwahaniaeth | | | | | |
| b) % y bobl ifanc sydd o'r farn bod y llyfrgell yn eu helpu i ddysgu a chael gwybod pethau: | 96% | =5/19 | 68% | 94% | 99% |
| e) % yr oedolion sydd o'r farn bod y llyfrgell wedi gwneud gwahaniaeth i'w bywydau: | 87% | 10/20 | 31% | 86.5% | 96% |
| DA 5 b) % y mynychwyr sesiynau hyfforddiant a ddywedodd fod yr hyfforddiant wedi'u helpu i gyflawni eu diben trwy fynychu: | 75% | 18/18 | 75% | 98.5% | 100% |

Gofynnir hefyd i awdurdodau ddarparu datganiad effaith yn disgrifio'r effaith mae'r gwasanaeth llyfrgell wedi'i chael ar unigolyn neu ar grŵp o unigolion yn ystod y flwyddyn. Darparodd Sir Ddinbych ddatganiad effaith a oedd yn dangos manteision cael gwirfoddolwyr i ategu gwasanaethau llyfrgell.

## Dangosyddion ansawdd a meincnodau

Nid oes targedau i'r dangosyddion sy'n weddill, ond maent yn caniatáu i wasanaethau fonitro eu perfformiad dros amser. Mae'r tabl canlynol yn crynhoi safle Sir Ddinbych ar gyfer 2024-25. Mae'r safleoedd yn adlewyrchu nifer yr ymatebwyr, lle mai 1 yw'r awdurdod sy'n sgorio uchaf. Caiff dangosyddion 'am bob pen o'r boblogaeth' eu cyfrifo fesul 1,000 o'r boblogaeth oni nodir fel arall.

| Dangosydd perfformiad | | Safle | Isaf | Canolrifol | Uchaf |
|---|---|---|---|---|---|
| DA 1 Gwneud gwahaniaeth | | | | | |
| a) % yr oedolion sydd o'r farn bod defnyddio'r llyfrgell wedi'u helpu i ddatblygu sgiliau newydd | 68% | 14/20 | 17% | 70% | 90% |
| c) iechyd a lles | 57% | 12/20 | 1% | 63% | 90% |
| d) pleserus, diogel a chynhwysol | 93% | =18/20 | 93% | 97% | 100% |
| DA 2 Bodlonrwydd cwsmeriaid | | | | | |
| a) dewis 'da iawn' neu 'dda' o lyfrau | 87% | =16/20 | 84% | 90.5% | 97% |
| b) gofal cwsmeriaid 'da iawn' neu 'dda' | 95% | 19/20 | 92% | 98% | 100% |
| c) cyfleusterau TG 'da iawn' neu 'dda' | 70% | =16/20 | 60% | 85% | 99% |
| d) 'da iawn' neu 'dda' yn gyffredinol | 93% | 18/20 | 85% | 98% | 100% |
| e) sgôr allan o ddeg ymysg defnyddwyr 16 oed ac iau | 9.2 | =12/18 | 8.0 | 9.4 | 9.7 |
| DA 5 Cymorth i ddefnyddwyr | | | | | |
| a) nifer yn mynychu am bob pen o'r boblogaeth | 29 | =9/21 | 1 | 28 | 214 |
| c) cymorth anffurfiol am bob pen o'r boblogaeth | 179 | 6/20 | 15 | 150 | 608 |
| DA 6 Nifer yn mynychu digwyddiadau am bob pen o'r boblogaeth | 263 | =9/22 | 14 | 224.5 | 764 |

| Dangosydd perfformiad | | Safle | Isaf | Canolrifol | Uchaf |
|---|---|---|---|---|---|
| DA 8 Defnydd o'r llyfrgell | | | | | |
| b) ymweliadau rhithwir am bob pen o'r boblogaeth | 814 | 9/21 | 5 | 766 | 6,035 |
| DA 13 Lefelau staffio a chymwysterau[10] | | | | | |

[10] *Nid oes safleoedd wedi'u cynnwys ar gyfer gwirfoddolwyr am fod goblygiadau niferoedd gwirfoddolwyr yn aneglur.*

| Dangosydd perfformiad | | Safle | Isaf | Canolrifol | Uchaf |
|---|---|---|---|---|---|
| (v) a) cyfanswm y gwirfoddolwyr | 4 | Dd/B | 0 | 23 | 442 |
| b) oriau gwirfoddolwyr | 630 | Dd/B | 0 | 883 | 22,706 |
| DA 14 Gwariant gweithredol | | | | | |
| a) cyfanswm gwariant am bob pen o’r boblogaeth | £11,962 | 13/21 | £5,978 | £12,646 | £26,209 |
| b) % ar staff | 58% | =17/21 | 48% | 67% | 80% |
| % ar adnoddau gwybodaeth | 8% | =13/21 | 4% | 9% | 19% |
| % ar gyfarpar ac adeiladau | 9% | 5/21 | 0% | 2% | 29% |
| % ar gostau gweithredol eraill | 25% | =5/21 | 1% | 15% | 38% |

# Dadansoddiad o berfformiad

Mae modd rhannu'r Hawliau Craidd a'r dangosyddion ansawdd yn dri phrif faes. Mae'r adran hon o'r adroddiad yn amlinellu perfformiad o dan y meysydd hyn.

## Bodloni anghenion cwsmeriaid (DA 1-2, 4-5)

Cynhaliodd Sir Ddinbych arolwg cwsmeriaid yn hydref 2024, yn dilyn gostyngiad i oriau agor. Yn yr amgylchiadau yn, nid yw'n syndod o bosibl bod y gwasanaeth yn perfformio'n is na'r canolrif cenedlaethol ar gyfer y mwyafrif o fesurau (DA1 a DA2). Fodd bynnag, dylid nodi bod y gwasanaeth yn uwch na'r canolrif ar gyfer canran y bobl ifanc sydd o'r farn bod y llyfrgell yn eu helpu i ddysgu (DA1) a'i fod wedi cael sylwadau cadarnhaol gan lawer o gwsmeriaid.

Mae'r gwasanaeth yn bodloni'r targed ym maes Cymorth ar gyfer iechyd a lles (DA4) yn llawn. Mae'r holl lyfrgelloedd yn parhau i gynnig Pwyntiau Trafod wythnosol ar y cyd â Chyngor Sir Ddinbych a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Mae amrywiaeth o sefydliadau'n defnyddio llyfrgelloedd i gynnal sesiwn galw heibio, gan gynnwys Helpa Fi i Stopio, Adferiad a Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig Gogledd Cymru. Mae gan lyfrgelloedd gitiau profi am heintiau a drosglwyddir yn rhywiol hefyd, ac mae nwyddau mislif ar gael.

Mae'r nifer sy'n mynychu sesiynau hyfforddiant ffurfiol am bob pen o'r boblogaeth ychydig yn uwch na'r canolrif ac mae'r nifer sy'n mynychu wedi cynyddu 28% o gymharu â 2023-24 a 61% o gymharu â 2022-23 (DA5). Mae'r ffigur hwn yn cynnwys sesiynau a ddarperir gan golegau Addysg Bellach, Cwmpas ac U3A ar safleoedd llyfrgell. Mae'n bryder mai dim ond 75% o'r mynychwyr (n=49) a ddywedodd fod yr hyfforddiant wedi'u helpu i gyflawni eu diben trwy fynychu, er y nodir bod y ffordd y gofynnwyd y cwestiwn hwn, yn ogystal â'r sampl gymharol fach, yn golygu nad yw'r data'n hollol ddibynadwy. Mae Sir Ddinbych yn uwch na'r canolrif ar gyfer cymorth anffurfiol am bob pen o'r boblogaeth. Fodd bynnag, mae'r nifer sy'n mynychu wedi gostwng 45% o gymharu â 2023-24.

## Mynediad a defnydd (DA 6-8)

Er bod Sir Ddinbych yn parhau i fod yn uwch na'r canolrif ar gyfer y nifer sy'n mynychu digwyddiadau, mae'r cyfanswm sy'n mynychu digwyddiadau llyfrgell wedi gostwng 8% ers 2023-24 (DA6). Mae'r gwasanaeth yn adrodd bod y gostyngiad i oriau agor wedi golygu bod llai o gapasiti gan staff i gynnal digwyddiadau. Fodd bynnag, maen nhw wedi parhau i gynnig amrywiaeth o weithgareddau, gan gynnwys grwpiau darllen, grwpiau crefft, gweu a sgwrs, Paned a Sgwrs, digwyddiadau awduron, ymweliadau dosbarthiadau, amserau Rhigwm Dechrau Da, Gŵyl Ffuglen, a Sêr y Silffoedd.

Mae Sir Ddinbych yn uwch na'r canolrif cenedlaethol am ymweliadau rhithwir, ac mae nifer yr ymweliadau rhithwir a adroddwyd wedi mwy na dyblu o gymharu â 2023-24 (er gwaethaf problemau posibl gyda Google Analytics) (DA8). Mae'r gwasanaeth hefyd yn y chwartel uchaf yn genedlaethol am e-fenthyciadau am bob pen o'r boblogaeth, sydd wedi cynyddu 30% o gymharu â 2023-24.

## Arbenigedd a chapasiti (DA 13-14 ac 16)

Nid yw Sir Ddinbych yn bodloni'r targedau ar gyfer naill ai gyfanswm y staff na chyfanswm y staff cymwysedig am bob pen o'r boblogaeth (DA13). Gostyngwyd oriau agor llyfrgelloedd 40% ym mis Mehefin 2024, felly roedd gostyngiad cyfatebol i'r lefelau staffio. Mae'r cyfanswm staff wedi gostwng 6.9 CALI o gymharu â 2023-24, ac mae nifer y staff cymwysedig wedi gostwng 1.3 CALI. Mae hyn yn golygu bod y gwasanaeth ychydig yn is na'r canolrif ar gyfer staff cymwysedig am bob pen o'r boblogaeth, a'i fod yn y chwartel isaf yn genedlaethol am gyfanswm staff. Mae cyfanswm staff am bob pen o'r boblogaeth yn llai na hanner y ffigur targed. Ar nodyn mwy cadarnhaol, mae'r ganran DPP wedi cynyddu'n nodedig, ac mae Sir Ddinbych bellach yn bodloni'r targed hwn. Mae aelod o staff yn cyflawni Siarteriaeth CILIP ar hyn o bryd, gyda chymorth Llywodraeth Cymru.

Nid yw'r gwasanaeth yn hysbysebu'n rhagweithiol am wirfoddolwyr ar hyn o bryd, ond mae'n gweithio gyda sefydliadau lleol y gallai eu cleientiaid elwa yn sgil gwirfoddoli mewn llyfrgell e.e. lleoliadau gwaith. Mae'n fwriad gan Sir Ddinbych fabwysiadu ymagwedd fwy gweithredol tuag at recriwtio gwirfoddolwyr yn y flwyddyn sydd i ddod, ac mae'n dymuno sefydlu Grwpiau Cyfeillion i helpu i gefnogi gweithgareddau llyfrgell a helpu gyda chodi arian. Er y gall gwirfoddolwyr ddarparu cymorth gwerthfawr i wasanaethau llyfrgell, mewn sefyllfa lle mae niferoedd staff yn gostwng, mae'n arbennig o bwysig sicrhau eu bod yn cael eu defnyddio'n unol ag arweiniad CILIP.

Mae gwariant gweithredol (DA14) wedi gostwng 14% o gymharu â 2023-24, ac mae Sir Ddinbych bellach yn is na'r canolrif cenedlaethol ar gyfer y mesur hwn. Mae hyn yn gyfwerth â gostyngiad o £2.02 y pen. Yr hyn sy'n fwy pryderus yw'r gostyngiad i'r gyllideb lyfrau, sydd 25% yn is na'r llynedd. Hyd yn oed gan ganiatáu am darfu posibl i gaffaeliadau oherwydd cyflwyno'r LMS newydd, mae hyn yn peri pryder aruthrol.

Gostyngwyd oriau agor llyfrgelloedd 40% ym mis Mehefin 2024 oherwydd arbedion i'r gyllideb. O ganlyniad, nid yw Sir Ddinbych bellach yn bodloni'r targed ar gyfer Oriau agor, ac mae bellach yn y chwartel isaf yn genedlaethol am y mesur hwn (DA16). Mae oriau agor am y flwyddyn adrodd 24% yn is nag yn 2023-24, a disgwylir i nifer yr oriau ostwng eto yn 2025-26 wrth i effaith lawn y newidiadau gael ei theimlo.

## Y cyd-destun strategol

Yn rhan o'r ffurflen, mae gofyn i awdurdodau adrodd ar y ffordd mae'r gwasanaeth llyfrgelloedd yn cyfrannu at flaenoriaethau a nodau strategol ehangach Llywodraeth Cymru. Amlygodd Sir Ddinbych sut mae ei llyfrgelloedd yn cefnogi Blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer Diwylliant, Strategaeth Iaith Gymraeg y Cyngor a Chymraeg 2050 trwy alluogi pobl o bob oedran i gysylltu â diwylliant, llythrennedd, iechyd, a bywyd cymunedol. Ymhlith yr enghreifftiau mae:

- **Cefnogi Diwylliant** e.e. cydweithio gyda Chamau Cerdd i gyfoethogi Amser Rhigwm Dechrau Da gyda cherddoriaeth fyw ac archwilio offerynnau, gan gynnwys sioeau Nadolig Dechrau Da yn Theatr Twm o'r Nant, a fynychwyd gan oddeutu 170 o deuluoedd, gyda llawer ohonynt yn cael profiad o theatr am y tro cyntaf. I oedolion, cynigiodd llyfrgelloedd weithgareddau diwylliannol fel dosbarthiadau Sbaeneg, grwpiau ysgrifennu creadigol a chyfres awduron gydag awduron Cymraeg a Saesneg.
- **Cefnogi Llythrennedd** e.e. ymweliadau cyn-geni ac amser rhigwm dwyieithog i gyflwyno teuluoedd i ddarllen; ymweliadau dosbarthiadau a Her Ddarllen yr Haf i annog darllen i blant oedran cynradd; gweithdy ysgrifennu i fyfyrwyr Ysgol Uwchradd Prestatyn gyda'r awdur Rebecca Roberts; a Her Ddarllen i Oedolion, a lansiwyd ym mis Ionawr 2025.
- **Cefnogi Iechyd a Lles** e.e. sesiynau Pwyntiau Trafod wythnosol a Chlybiau Gwaith gyda Sir Ddinbych yn Gweithio; mae'r holl staff yn Gyfeillion Dementia ac wedi cael hyfforddiant ymwybyddiaeth o awtistiaeth; a'r Gwasanaeth Cludo i'r Cartref i drigolion nad ydynt yn gallu cyrraedd llyfrgelloedd.
- **Cefnogi'r Iaith Gymraeg** e.e. amser rhigwm dwyieithog i gyflwyno teuluoedd i'r Gymraeg o oedran cynnar gyda staff o'r Fenter Iaith a RhAG yn hyrwyddo manteision addysg cyfrwng Cymraeg; cyfleoedd i ymgysylltu â staff yn Gymraeg; a gweithgareddau Cymraeg fel digwyddiadau awduron, grwpiau darllen a sesiynau Paned a Sgwrs.
- **Cefnogi Cynhwysiant Digidol** e.e. gwasanaeth benthyca gliniaduron Chromebook; cardiau SIM am ddim i drigolion sy'n wynebu tlodi, trwy bartneriaeth â'r Banc Data Cenedlaethol; a chydweithrediadau gyda Choleg Llandrillo a Chwmpas i gynnig dosbarthiadau sgiliau digidol am ddim i'r gymuned leol.

## Cyfeiriad at y dyfodol

Gan adrodd ar gyfeiriad yr awdurdod at y dyfodol, a'i gynlluniau ar gyfer y gwasanaeth llyfrgell dros y flwyddyn sydd i ddod, nod Sir Ddinbych yw datblygu a thyfu ei gwasanaethau mewn amgylchedd heriol o gyfyngiadau cyllidebol presennol a rhai a ragfynegir. Mae'r gwasanaeth yn ceisio arallgyfeirio ffynonellau cyllid a hybu incwm o ffynonellau eraill, gan gynnwys llogi'r cyfleusterau llyfrgell. Mewn cydweithrediad â'r Tîm Cydnerthu'r Gymuned, mae cynlluniau ar waith i sefydlu grwpiau 'Cyfeillion y Llyfrgell' i gefnogi gweithgareddau ac ymdrechion codi arian, gan gynnwys ymgeisio i ffrydiau cyllid na fyddent fel arall ar gael i awdurdod lleol. Mae grŵp peilot yn Llyfrgell Rhuddlan eisoes ar droed, a fydd yn gwasanaethu fel model ar gyfer cyflwyno grwpiau tebyg ar draws llyfrgelloedd eraill i wella ymgysylltiad lleol, a chynyddu capasiti digwyddiadau a hyrwyddo cymunedol.

Mae'r gwasanaeth wedi sicrhau Grant Cyfalaf Trawsnewid i adnewyddu Llyfrgell Corwen yn hydref 2025. Bydd hyn yn cynnwys gosod technoleg Open+ i ymestyn oriau agor heb staff, darparu mwy o hyblygrwydd ar gyfer benthyca a dychwelyd llyfrau trwy hunanwasanaeth. Os bydd yn llwyddiannus, gallai'r model hwn gael ei ymestyn i lyfrgelloedd ychwanegol. Mae Sir Ddinbych yn ceisio parhau i ddatblygu gwaith partneriaeth er mwyn adeiladu ar rolau llyfrgelloedd fel gofodau cymunedol diogel y gellir ymddiried ynddynt. Er enghraifft, mae cynlluniau i ymestyn rhaglen Amser Rhigwm Dechrau Da gyda sesiynau newydd yn Llangollen a Chorwen mewn partneriaeth â Dechrau'n Deg.

## Casgliad

Mae Sir Ddinbych yn perfformio'n dda mewn nifer o feysydd: mae e-fenthyciadau ac ymweliadau rhithwir wedi cynyddu, ynghyd â'r nifer sy'n mynychu hyfforddiant ffurfiol. Mae hefyd yn gadarnhaol bod yr amser a neilltuwyd i hyfforddiant staff wedi cynyddu eleni. Fodd bynnag, mae nifer o feysydd sy'n peri pryder. Mae'r gostyngiad i oriau agor, staffio a'r gyllideb lyfrau eleni oll yn peri heriau sylweddol i weithrediad effeithiol y gwasanaeth. Er nad yw'n bosibl creu cysylltiad pendant o'r wybodaeth sydd ar gael, nid yw'n syndod o bosibl bod cymorth anffurfiol a'r nifer sy'n mynychu digwyddiadau wedi gostwng ochr yn ochr ag oriau agor a niferoedd staffio. Yn y cyd-destun hwn, mae'r estyniad arfaethedig i'r rhaglen wirfoddoli a symud i ragor o oriau agor heb staff yn peri pryderon. Er y gwerthfawrogir bod Sir Ddinbych yn ceisio datblygu ei gwasanaethau mewn amgylchedd ariannol heriol, ni ddylid tanbrisio gwerth bod â staff gwybodus ar gael i gefnogi cwsmeriaid y llyfrgell. Yn ogystal, er y gallai fod yn bosibl dod o hyd i rywfaint o gyllid ychwanegol ar gyfer gweithgareddau atodol o ffynonellau amgen, mae angen cynnal cyllid ar gyfer gwasanaethau craidd er mwyn darparu elfennau allweddol gwasanaeth llyfrgell cynhwysfawr ac effeithlon.

# Adroddiad Asesu Blynyddol 2024-25 Sir y Fflint

Caiff gwasanaeth llyfrgell Sir y Fflint ei ddarparu gan Gwella Cymru. Mae'r adroddiad hwn wedi'i baratoi ar sail gwybodaeth a ddarparwyd gan ffurflen flynyddol Sir y Fflint, datganiadau effaith ac adroddiad naratif a gyflwynwyd i Is-adran Diwylliant Llywodraeth Cymru.

## Crynodeb gweithredol

Mae Sir y Fflint yn bodloni 12 o'r 13 Hawl Graidd yn llawn. Mae'r Hawl Graidd sy'n weddill heb ei bodloni. O'r 5 dangosydd ansawdd lle mae targedau, mae Sir y Fflint yn cyflawni 4 yn llawn ac 1 yn rhannol.

Mae data a adroddwyd eleni'n dangos bod Sir y Fflint yn parhau i berfformio'n dda mewn llawer o feysydd. Dangosodd ei data arolwg fod cwsmeriaid yn gwerthfawrogi'r gwasanaeth, a bod cefnogaeth dda i hyfforddiant, digwyddiadau a gweithgareddau. Mae'r gwasanaeth hefyd yn darparu lefelau cynyddol o gymorth anffurfiol i gwsmeriaid ac mae e-fenthyciadau ar gynnydd. Mae'n ddealladwy bod rhai heriau wedi bod eleni, am fod y gwasanaeth wedi trosglwyddo o Aura i Gwella. Er bod lefelau staff yn parhau i fod yn bryder, mae'n gadarnhaol bod canran DPP y staff wedi cynyddu eleni.

- Mae Sir y Fflint yn perfformio'n dda iawn ym maes Gwneud gwahaniaeth a Bodlonrwydd cwsmeriaid, ac mae'n uwch na chanolrif awdurdodau llyfrgell Cymru am bob mesur (DA1 a DA2).
- Mae nifer y sesiynau cymorth anffurfiol a adroddwyd wedi cynyddu bron pedair gwaith drosodd o gymharu â 2023-24, a Sir y Fflint bellach yw'r gwasanaeth yn y safle uchaf yn genedlaethol ar gyfer y mesur hwn (DA5).
- Mae Sir y Fflint yn chwartel uchaf awdurdodau llyfrgell Cymru am y nifer sy'n mynychu digwyddiadau am bob pen o'r boblogaeth; mae cyfanswm y mynychwyr 65% yn uwch nag yn 2023-24 a 111% yn uwch nag yn 2022-23.

## Nodyn i adroddiad 2024-25

Yn ystod 2024-25, symudodd awdurdodau lleol yng Nghymru i Blatfform Llyfrgell Ddigidol newydd ar gyfer Cymru gyfan. Perwyd rhywfaint o darfu i weithrediad gwasanaethau llyfrgell yn ystod y broses symud, gan gynnwys mewn perthynas â chaffael stoc newydd, sef gwaith y bu’n rhaid ei atal am gyfnod wrth i wasanaethau unigol symud i’r system newydd. Mae rhywfaint o fân wahaniaethau hefyd yn ffurfwedd y platfform newydd, sy’n golygu nad yw data defnyddwyr yn ystod 2024-25

yn gwbl gyson. Felly, nid yw'r adroddiadau ar gyfer 2024-25 yn cynnwys y data a nodir isod ar gyfer Dangosyddion Ansawdd 4, 8, 9 a 10.

DA 4 Cymorth ar gyfer iechyd a lles
c) nifer y benthyciadau o gyfres Darllen yn Well Cymru

DA 8 Defnydd o'r llyfrgell
c) cyfanswm y benthycwyr gweithredol wedi'i rannu â maint y boblogaeth drigolion, a'i luosi â 1,000
d) cyfanswm aelodau'r llyfrgell
e) cyfanswm y llyfrau a fenthycwyd (oedolion a phlant ar wahân)
f) cyfanswm yr eitemau clyweledol a fenthycwyd

DA 9 Deunydd darllen cyfoes a phriodol
a) cyfradd gaffael isaf
b) % a wariwyd ar adnoddau i blant

DA 10 Adnoddau yn y Gymraeg
a) isafswm gwariant o 4%
b) benthyciadau yn y Gymraeg am bob pen o'r boblogaeth

Caiff yr holl ddata ei adrodd a'i asesu ar gyfer 2025-26 (sef blwyddyn gyntaf Fframwaith 7), a chaiff y data hwn ei ddefnyddio i osod y meincnod ar gyfer y blynyddoedd sy'n weddill yn y fframwaith.

# Perfformiad yn erbyn y safonau

Mae'r fframwaith safonau'n cynnwys Hawliau Craidd, dangosyddion ansawdd gyda thargedau, dangosyddion ansawdd gyda meincnodau a mesurau effaith.

## Hawliau Craidd

Adroddodd Sir y Fflint ei bod yn bodloni 12 o'r 13 Hawl Graidd yn llawn, gyda'r Hawl Graidd sy'n weddill yn cael ei adrodd fel un nad oeddent wedi'i bodloni, a hynny trwy hunanasesu. Ar sail y sylwebaeth fanwl a chynorthwyol a ddarparwyd, mae'r asesydd annibynnol yn cytuno gyda'r hunanasesiad. Fel y disgrifiwyd yn y ffurflen, cafodd gwasanaethau llyfrgell yn Sir y Fflint eu trosglwyddo o gael eu darparu gan Aura Leisure and Libraries Ltd i sefydliad newydd, sef Flintshire Libraries and Leisure Ltd (yn masnachu fel Gwella) ar 1 Tachwedd 2024. O ganlyniad, nid oes strategaeth ar gael ar hyn o bryd, ond mae'r gwasanaeth yn adrodd y caiff un ei datblygu i ategu'r cynllun busnes sefydliadol ehangach yn 2025-26 (HG12).

## Dangosyddion ansawdd gyda thargedau

Mae 12 dangosydd ansawdd (DA), y mae gan 5 ohonynt dargedau cyfansoddol. O'r rhain, mae Sir y Fflint yn cyflawni 4 yn llawn ac 1 yn rhannol.

DA 4 (a) Cymorth ar gyfer iechyd a lles, **bodlonwyd yn llawn ▲**
- i) Cynllun Darllen yn Well, **bodlonwyd**
- ii) Casgliad dynodedig iechyd a lles, **bodlonwyd**
- iii) Gwybodaeth am ffyrdd iachach o fyw ac ymddygiad iach, **bodlonwyd**
- iv) Cyfeirio at wasanaethau iechyd a lles, **bodlonwyd**

DA 6 Mae'r holl fannau gwasanaeth sefydlog yn cynnig digwyddiadau/gweithgareddau i ddefnyddwyr â gofynion arbennig, **bodlonwyd yn llawn ▲**

DA 7 Lleoliad mannau gwasanaeth, **bodlonwyd yn llawn ▲**

DA 13 Lefelau staffio a chymwysterau, **bodlonwyd yn rhannol ■**
- i) Staff am bob pen o'r boblogaeth, **ni fodlonwyd**
- ii) Staff cymwysedig am bob pen o'r boblogaeth, **ni fodlonwyd**
- iii) Cymwysterau/hyfforddiant pennaeth y gwasanaeth, **bodlonwyd**
- iv) Canran DPP, **bodlonwyd**

DA 16 Oriau agor am bob pen o'r boblogaeth, **bodlonwyd yn llawn ▲**

## Mesurau effaith

Mae'r fframwaith yn cynnwys tri dangosydd gyda'r nod o asesu effaith defnyddio llyfrgelloedd ar fywydau pobl. Nid oes targedau i'r dangosyddion hyn, ac mae disgwyl i awdurdodau gynnal arolygon defnyddwyr ar gyfer DA1 ar un achlysur yn ystod y cyfnod o 2022-23 i 2024-25. Cynhaliodd Sir y Fflint arolwg oedolion ac arolwg plant ym mis Mawrth 2024. Mae'r ffigyrau crynodol (isaf, canolrifol ac uchaf) wedi'u seilio ar ddata gan bob awdurdod a ddarparodd ddata yn ffurflenni 2022-23, 2023-24 a 2024-25. Mae'r safleoedd yn adlewyrchu nifer yr ymatebwyr, lle mai 1 yw'r awdurdod sy'n sgorio uchaf.

| Dangosydd perfformiad | | Safle | Isaf | Canolrifol | Uchaf |
|---|---|---|---|---|---|
| DA 1 Gwneud gwahaniaeth | | | | | |
| b) % y bobl ifanc sydd o'r farn bod y llyfrgell yn eu helpu i ddysgu a chael gwybod pethau: | 96% | =5/19 | 68% | 94% | 99% |
| e) % yr oedolion sydd o'r farn bod y llyfrgell wedi gwneud gwahaniaeth i'w bywydau: | 94% | 4/20 | 31% | 86.5% | 96% |
| DA 5 b) % y mynychwyr sesiynau hyfforddiant a ddywedodd fod yr hyfforddiant wedi'u helpu i gyflawni eu diben trwy fynychu: | Dd/B | Dd/B | 75% | 98.5% | 100% |

Gofynnir hefyd i awdurdodau ddarparu datganiad effaith yn disgrifio'r effaith mae'r gwasanaeth llyfrgell wedi'i chael ar unigolyn neu ar grŵp o unigolion yn ystod y flwyddyn. Darparodd Sir y Fflint ddatganiad effaith a gyfeiriodd at y cyfraniad a wnaeth y gwasanaeth i Wythnos Addysg Oedolion 2024 trwy ddarparu rhaglen amrywiol o weithgareddau wedi'u cynllunio i ysbrydoli dysgu gydol oes ac

atgyfnerthu cysylltiadau cymunedol. Ar draws pob llyfrgell, cynigiwyd sesiynau mewn modelu clai, crefftau gwydr y môr, meddwlgarwch, sgiliau digidol, a chyflwyniad i Makaton mewn grwpiau bach, cyfeillgar, gan sicrhau bod mynychwyr yn teimlo'n gartrefol a bod croeso iddyn nhw. Arweiniwyd gweithgareddau gan staff llyfrgell, gan helpu i feithrin ymddiriedaeth a dwysáu cydberthnasau rhwng llyfrgelloedd a'u cymunedau. Cynigiwyd lluniaeth am ddim, tra bod lleoliadau hygyrch wedi helpu i ddileu rhwystrau megis costau cludiant a gofal plant, gan alluogi mwy o bobl i gymryd rhan. Mae Sir y Fflint yn adrodd bod y sesiynau wedi cael effaith sylweddol, gan gefnogi mynychwyr i ddatblygu sgiliau newydd, lleihau ynysigrwydd cymdeithasol a magu hyder, a oedd yn nodau allweddol i'r wythnos a thu hwnt. Helpodd y gweithgareddau hefyd i arddangos a chyfeirio mynychwyr at wasanaethau a gweithgareddau eraill a ddarperir gan y gwasanaeth llyfrgell.

## Dangosyddion ansawdd a meincnodau

Nid oes targedau i'r dangosyddion sy'n weddill, ond maent yn caniatáu i wasanaethau fonitro eu perfformiad dros amser. Mae'r tabl canlynol yn crynhoi safle Sir y Fflint ar gyfer 2024-25. Mae'r safleoedd yn adlewyrchu nifer yr ymatebwyr, lle mai 1 yw'r awdurdod sy'n sgorio uchaf. Caiff dangosyddion 'am bob pen o'r boblogaeth' eu cyfrifo fesul 1,000 o'r boblogaeth oni nodir fel arall.

| Dangosydd perfformiad | | Safle | Isaf | Canolrifol | Uchaf |
|---|---|---|---|---|---|
| DA 1 Gwneud gwahaniaeth | | | | | |
| a) % yr oedolion sydd o'r farn bod defnyddio'r llyfrgell wedi'u helpu i ddatblygu sgiliau newydd | 74% | 9/20 | 17% | 70% | 90% |
| c) iechyd a lles | 90% | 1/20 | 1% | 63% | 90% |
| d) pleserus, diogel a chynhwysol | 99% | =4/20 | 93% | 97% | 100% |
| DA 2 Bodlonrwydd cwsmeriaid | | | | | |
| a) dewis 'da iawn' neu 'dda' o lyfrau | 94% | =4/20 | 84% | 90.5% | 97% |
| b) gofal cwsmeriaid 'da iawn' neu 'dda' | 99% | =2/20 | 92% | 98% | 100% |
| c) cyfleusterau TG 'da iawn' neu 'dda' | 93% | 3/20 | 60% | 85% | 99% |
| d) 'da iawn' neu 'dda' yn gyffredinol | 99% | =2/20 | 85% | 98% | 100% |
| e) sgôr allan o ddeg ymysg defnyddwyr 16 oed ac iau | 9.5 | =5/18 | 8.0 | 9.4 | 9.7 |
| DA 5 Cymorth i ddefnyddwyr | | | | | |
| a) nifer yn mynychu am bob pen o'r boblogaeth | 33 | 8/21 | 1 | 28 | 214 |
| c) cymorth anffurfiol am bob pen o'r boblogaeth | 608 | 1/20 | 15 | 150 | 608 |
| DA 6 Nifer yn mynychu digwyddiadau am bob pen o'r boblogaeth | 444 | 5/22 | 14 | 224.5 | 764 |
| DA 8 Defnydd o'r llyfrgell | | | | | |
| b) ymweliadau rhithwir am bob pen o'r boblogaeth[11] | 443 | 15/21 | 5 | 766 | 6,035 |
| DA 13 Lefelau staffio a chymwysterau[12] | | | | | |

[11] *Mae'r ffigurau a adroddir yn ymwneud ag ymweliadau â'r wefan rhwng 1 Ebrill a 31 Hydref yn unig.*

[12] *Nid oes safleoedd wedi'u cynnwys ar gyfer gwirfoddolwyr am fod goblygiadau niferoedd gwirfoddolwyr yn aneglur.*

| Dangosydd perfformiad | | Safle | Isaf | Canolrifol | Uchaf |
|---|---|---|---|---|---|
| (v) a) cyfanswm y gwirfoddolwyr | 134 | Dd/B | 0 | 23 | 442 |
| b) oriau gwirfoddolwyr | 756 | Dd/B | 0 | 883 | 22,706 |
| DA 14 Gwariant gweithredol | | | | | |
| a) cyfanswm gwariant am bob pen o’r boblogaeth | Dd/B | Dd/B | £5,978 | £12,646 | £26,209 |
| b) % ar staff | Dd/B | Dd/B | 48% | 67% | 80% |
| % ar adnoddau gwybodaeth | Dd/B | Dd/B | 4% | 9% | 19% |
| % ar gyfarpar ac adeiladau | Dd/B | Dd/B | 0% | 2% | 29% |
| % ar gostau gweithredol eraill | Dd/B | Dd/B | 1% | 15% | 38% |

# Dadansoddiad o berfformiad

Mae modd rhannu'r Hawliau Craidd a'r dangosyddion ansawdd yn dri phrif faes. Mae'r adran hon o'r adroddiad yn amlinellu perfformiad o dan y meysydd hyn.

## Bodloni anghenion cwsmeriaid (DA 1-2, 4-5)

Mae Sir y Fflint yn perfformio'n dda iawn ym maes Gwneud gwahaniaeth (DA1), a Bodlonrwydd cwsmeriaid (DA2), ac mae'n uwch na chanolrif awdurdodau llyfrgell Cymru am bob mesur. Mae yn y safle uchaf yn genedlaethol am effaith ar iechyd a lles. Mae'r gwasanaeth yn bodloni'r targedau ym maes Iechyd a lles (DA4) yn llawn. Mae Sir y Fflint yn cynnal grŵp '*Singing for the Brain*' a dau grŵp hel atgofion, '*Sporting Memories*' a '*Mold Memories*'. Cymerodd pob cangen ran mewn '*pythefnos HiVis*' i hyrwyddo gwasanaethau ac adnoddau ar gyfer pobl â nam ar eu golwg neu nam print. Mae'r rhaglen o weithgareddau a digwyddiadau a luniwyd i gefnogi iechyd a lles yn cynnwys clybiau jig-so; grwpiau crefft a sgwrs; sesiynau celf meddwlgarwch; a chwisys.

Mae Sir y Fflint yn uwch na'r canolrif cenedlaethol am y nifer sy'n mynychu sesiynau hyfforddiant ffurfiol am bob pen o'r boblogaeth, ac mae'r nifer sy'n mynychu wedi cynyddu 6% o gymharu â 2023-24 (DA5). Fel y llynedd, ni ddarparwyd unrhyw ddata am ganran y mynychwyr a gyflawnodd eu diben trwy fynychu. Mae nifer y sesiynau cymorth anffurfiol a adroddwyd wedi cynyddu bron pedair gwaith drosodd o gymharu â 2023-24, a Sir y Fflint bellach yw'r gwasanaeth yn y safle uchaf yn genedlaethol am y mesur hwn. Gellir priodoli'r cynnydd hwn, yn rhannol, i adolygiad o'r broses gofnodi ac arweiniad i staff.

## Mynediad a defnydd (DA 6-8)

Mae Sir y Fflint yn chwartel uchaf awdurdodau llyfrgell Cymru am y nifer sy'n mynychu digwyddiadau am bob pen o'r boblogaeth; mae cyfanswm y mynychwyr 65% yn uwch nag yn 2023-24 a 111% yn uwch nag yn 2022-23 (DA6). Mae'r gwasanaeth llyfrgell yn parhau i gymryd rhan yn y cynllun 'Ffitrwydd, Bwyd a Darllen' yn ystod gwyliau'r Pasg a'r Haf i gefnogi iechyd a lles, hyrwyddo sgiliau llythrennedd a mynd i'r afael â thlodi bwyd yn Sir y Fflint. Nid oedd llawer o'r plant a theuluoedd a

gymerodd ran erioed wedi defnyddio gwasanaethau llyfrgell o'r blaen. Ymhlith y digwyddiadau a'r gweithgareddau eraill mae ymweliadau awduron; sesiynau lleferydd a llythrennedd '*Baby Babble*'; sesiynau rhyngweithiol STEM (Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg a Mathemateg); sesiwn galw heibio'r Gwasanaeth Awtistiaeth; sesiynau celf meddwlgarwch; a chwrs Hanes Teuluol newydd wedi'i seilio ar y rhaglen deledu boblogaidd 'A House Through Time'.

Mae e-fenthyciadau ychydig yn uwch na'r canolrif cenedlaethol am bob pen o'r boblogaeth, ac maen nhw wedi cynyddu 30% o gymharu â 2023-24 a mwy na dyblu ers 2022-23 (DA8). Nid yw'n bosibl cynnig sylw am ymweliadau rhithwir am nad oes gan y gwasanaeth wefan sy'n gweithredu'n llawn ers iddo drosglwyddo i Gwella ym mis Tachwedd 2024; mae'n gweithredu ar 'safle sgerbwd' tra bod gwefan newydd yn cael ei datblygu.

### Arbenigedd a chapasiti (DA 13-14 ac 16)

Nid yw Sir y Fflint yn bodloni'r targed ar gyfer cyfanswm staff na staff cymwysedig am bob pen o'r boblogaeth, ac mae'n is na'r canolrif cenedlaethol ar gyfer y ddau fesur (DA13). Mae staffio wedi parhau'n gymharol sefydlog (gostyngiad i'r cyfanswm staff o 0.5 CALl). Ar nodyn mwy cadarnhaol, mae'r ganran DPP wedi cynyddu dipyn eleni o ganlyniad i weithredu'r system LMS newydd, ac mae'r gwasanaeth bellach yn bodloni'r targed hwn. Mae nifer y gwirfoddolwyr wedi gostwng ychydig, o bosibl oherwydd y tarfu a achoswyd yn sgil y symud o Aura i Gwella. Mae'r gwasanaeth yn bodloni'r targed ar gyfer Oriau agor (DA16), ac mae'n uwch na'r canolrif cenedlaethol ar gyfer y mesur hwn. Nid yw oriau agor am bob pen o'r gwasanaeth wedi newid, ac mae Sir y Fflint yn parhau i ddarparu mynediad i rai gwasanaethau yn ystod oriau heb staff.

## Y cyd-destun strategol

Yn rhan o'r ffurflen, mae gofyn i awdurdodau adrodd ar y ffordd mae'r gwasanaeth llyfrgelloedd yn cyfrannu at flaenoriaethau a nodau strategol ehangach Llywodraeth Cymru. Amlygodd Sir y Fflint sut mae'n cefnogi ystod eang o flaenoriaethau cenedlaethol. Mae amrywiaeth o ddigwyddiadau a gweithgareddau yn cefnogi cysylltiad cymdeithasol, dysgu ac ymgysylltiad cymunedol, fel grwpiau Crefft a Sgwrs, sesiynau *Sporting Memories*, clybiau ysgrifennu, a grwpiau darllen. Mae partneriaethau gyda sefydliadau fel *We Mind the Gap* a '*Work Wednesday*' yr Adran Gwaith a Phensiynau yn y Fflint yn darparu cymorth wedi'i dargedu ar gyfer pobl ifanc a phobl sy'n chwilio am waith. Mae'r rhaglen Dysgu Oedolion yn y Gymuned yn parhau i ddarparu cymwysterau a hyfforddiant sgiliau, gan gynnwys Hylendid Bwyd, Cymorth Cyntaf i'r Teulu, Gofal Cwsmeriaid a chyrsiau COSHH. Mae digwyddiadau a chyfleoedd i helpu pobl hŷn i gynnal rhwydweithiau cymdeithasol a gwella'u hyder digidol, yn ogystal â gweithgareddau fel '*Singing for the Brain*' i bobl sy'n byw gyda dementia a'u gofalwyr.

Mae llyfrgelloedd Sir y Fflint yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru'n weithredol, gan gynnwys trwy arddangosfeydd fel '*Steel.Site.Speaks*' yn archwilio hanes Gwaith Dur Shotton a sesiynau Hanes Teuluol. I ategu cynhwysiant digidol, mae cynnig digidol Sir y Fflint yn cynnwys argraffu di-wifr a chynllun benthyca digidol sy'n cynnig dyfeisiau llechi gyda hyfforddiant a'r opsiwn i brynu 'nôl. Er mwyn sicrhau bod casgliadau'n adlewyrchu amrywiaeth y gymuned, mae'r gwasanaeth yn cynnal polisi stoc ffurfiol i hyrwyddo cynrychiolaeth gadarnhaol ac mae'n cyfranogi mewn mentrau cenedlaethol i sicrhau bod yna adnoddau cynhwysol wedi'u cyd-destunoli, gan gynnwys hyfforddiant ar gasgliadau llyfrgell gwrth-hiliol.

## Cyfeiriad at y dyfodol

Gan adrodd ar gyfeiriad yr awdurdod at y dyfodol, a'i gynlluniau ar gyfer y gwasanaeth llyfrgell dros y flwyddyn sydd i ddod, mae Sir y Fflint mewn cyfnod o gryn ansicrwydd ar ôl bod trwy newid sefydliadol sylweddol gyda throsglwyddo gwasanaethau a staff o Aura Leisure and Libraries i'r Cwmni Masnachu sy'n eiddo i'r Awdurdod Lleol, Flintshire Libraries and Leisure Ltd (yn masnachu fel Gwella) ar 1 Tachwedd 2024. Yn dilyn y cyfnod hwn o newid, bydd y ffocws ar gynnal safonau'r gwasanaeth tra'n cefnogi staff i ddatblygu allgyrraedd cymunedol ymhellach, yn ogystal â darpariaeth ym meysydd digidol, iechyd a lles.

Nid oes gan y gwasanaeth strategaeth llyfrgelloedd na chynllun gwasanaeth ar waith, er bod Sir y Fflint yn adrodd bod gwaith ar y gweill ar Strategaeth Llyfrgelloedd newydd, a fydd yn cyd-fynd â blaenoriaethau cenedlaethol a lleol a, phan fydd y wefan newydd yn fyw, caiff cynllun gwasanaeth wedi'i ddiweddaru ei weithredu. Yn ogystal, bydd system gyllid newydd yn cefnogi sefydlogrwydd y gwasanaeth, a bydd sefydlu cytundebau consortiwm newydd ar gyfer cyflenwyr adnoddau'n sicrhau mwy o barhad, ac yn cefnogi camau rheoli casgliadau effeithiol wrth symud ymlaen.

## Casgliad

Mae data a adroddwyd eleni'n dangos bod Sir y Fflint yn parhau i berfformio'n dda mewn llawer o feysydd. Dangosodd data arolwg fod cwsmeriaid yn gwerthfawrogi'r gwasanaeth, a bod cefnogaeth dda i hyfforddiant, digwyddiadau a gweithgareddau. Mae'r gwasanaeth hefyd yn darparu lefelau cynyddol o gymorth anffurfiol i gwsmeriaid, ac mae e-fenthyciadau ar gynnydd. Er bod lefelau staff yn parhau i fod yn bryder, mae'n gadarnhaol bod canran DPP y staff wedi cynyddu eleni.

Nodir bod mwy o gyd-destun wedi'i ddarparu yn y ffurflen eleni, ac roedd hyn o gymorth aruthrol wrth gynorthwyo'r asesydd annibynnol i fyfyrio am yr esboniadau posibl dros y data a ddarparwyd, a'i oblygiadau. Mae'n ddealladwy bod rhai heriau wedi bod yn ystod 2024-25, am fod y gwasanaeth wedi trosglwyddo o Aura i Gwella. O ganlyniad i hyn, mae rhai bylchau yn y data SLICC, sy'n cyfyngu gallu'r asesydd annibynnol i gynnig sylw ar bob agwedd ar y gwasanaeth.

# Adroddiad Asesu Blynyddol 2024-25 Gwynedd

Mae'r adroddiad hwn wedi'i baratoi ar sail gwybodaeth a ddarparwyd gan ffurflen flynyddol Gwynedd, datganiadau effaith ac adroddiad naratif a gyflwynwyd i Is-adran Diwylliant Llywodraeth Cymru.

## Crynodeb gweithredol

Mae Gwynedd yn bodloni pob un o'r 13 Hawl Graidd yn llawn. O'r 5 dangosydd ansawdd lle mae targedau, mae Gwynedd yn cyflawni 4 yn llawn ac 1 yn rhannol.

Mae'n amlwg bod cwsmeriaid yn gwerthfawrogi Llyfrgelloedd Gwynedd, ac mae ganddynt feddwl mawr ohonynt. Mae'r gwasanaeth yn parhau i berfformio'n dda mewn nifer o feysydd, gan gynnwys e-fenthyciadau ac ymweliadau rhithwir. At hynny, mae Gwynedd yn arwain ar weithredu prosiect LMS Cymru. Er bod ymateb da i sesiynau hyfforddiant ffurfiol o hyd, mae'r nifer sy'n mynychu hyfforddiant wedi gostwng eleni. Mae'r nifer sy'n mynychu digwyddiadau hefyd wedi gostwng, er ei bod yn amlwg bod y gwasanaeth wedi gwneud ymdrechion i gyflwyno cynnig cadarn dros wyliau'r haf. Yr agwedd ar adroddiad eleni sy'n peri'r pryder mwyaf yw'r gostyngiad yng nghyfanswm y staff a chyfanswm y staff cymwysedig fel ei gilydd. Er ei bod yn gadarnhaol bod aelodau staff yn cael eu cefnogi trwy Siarteriaeth CILIP, a fydd yn effeithio, gobeithio, ar niferoedd y staff cymwysedig yn y dyfodol, mae'r gostyngiad parhaus yn y niferoedd staffio yn debygol o gael effaith ar allu'r gwasanaeth i barhau i fodloni anghenion cwsmeriaid i'r un lefel uchel a ddarparwyd ganddo yn y gorffennol.

- Mae Gwynedd yn perfformio'n dda ym maes Gwneud gwahaniaeth, ac mae oddeutu’r canolrif neu'n uwch ar gyfer pob mesur (DA1).
- Mae e-fenthyciadau yn uwch na'r canolrif cenedlaethol ac yn parhau i godi; maen nhw 57% yn uwch nag yn 2023-24 ac yn fwy na dwywaith ffigur 2022-23 (DA8).
- Mae ymweliadau rhithwir am bob pen o'r boblogaeth yn uwch na chanolrif awdurdodau llyfrgell Cymru ac maent wedi cynyddu 31% o gymharu â 2023-24 (DA8).

## Nodyn i adroddiad 2024-25

Yn ystod 2024-25, symudodd awdurdodau lleol yng Nghymru i Blatfform Llyfrgell Ddigidol newydd ar gyfer Cymru gyfan. Perwyd rhywfaint o darfu i weithrediad gwasanaethau llyfrgell yn ystod y broses symud, gan gynnwys mewn perthynas â

chaffael stoc newydd, sef gwaith y bu'n rhaid ei atal am gyfnod wrth i wasanaethau unigol symud i'r system newydd. Mae rhywfaint o fân wahaniaethau hefyd yn ffurfwedd y platfform newyddy sy'n golygu nad yw data defnyddwyr yn ystod 2024-25 yn gwbl gyson. Felly, nid yw'r adroddiadau ar gyfer 2024-25 yn cynnwys y data a nodir isod ar gyfer Dangosyddion Ansawdd 4, 8, 9 a 10.

DA 4 Cymorth ar gyfer iechyd a lles
c) nifer y benthyciadau o gyfres Darllen yn Well Cymru

DA 8 Defnydd o'r llyfrgell
c) cyfanswm y benthycwyr gweithredol wedi'i rannu â maint y boblogaeth drigolion, a'i luosi â 1,000
d) cyfanswm aelodau'r llyfrgell
e) cyfanswm y llyfrau a fenthycwyd (oedolion a phlant ar wahân)
f) cyfanswm yr eitemau clyweledol a fenthycwyd

DA 9 Deunydd darllen cyfoes a phriodol
a) cyfradd gaffael isaf
b) % a wariwyd ar adnoddau i blant

DA 10 Adnoddau yn y Gymraeg
a) isafswm gwariant o 4%
b) benthyciadau yn y Gymraeg am bob pen o'r boblogaeth

Caiff yr holl ddata ei adrodd a'i asesu ar gyfer 2025-26 (sef blwyddyn gyntaf Fframwaith 7) a chaiff y data hwn ei ddefnyddio i osod y meincnod ar gyfer y blynyddoedd sy'n weddill yn y fframwaith.

## Perfformiad yn erbyn y safonau

Mae'r fframwaith safonau'n cynnwys Hawliau Craidd, dangosyddion ansawdd gyda thargedau, dangosyddion ansawdd gyda meincnodau a mesurau effaith.

### Hawliau Craidd

Adroddodd Gwynedd ei fod wedi bodloni pob un o'r 13 Hawl Graidd yn llawn trwy hunanasesu. Ar sail y sylwebaeth fanwl a ddarparwyd, mae'r asesydd annibynnol yn cytuno gyda'r hunanasesiad.

### Dangosyddion ansawdd gyda thargedau

Mae 12 dangosydd ansawdd (DA), y mae gan 5 ohonynt dargedau cyfansoddol. O'r rhain, mae Gwynedd yn cyflawni 4 yn llawn ac 1 yn rhannol.

DA 4 (a) Cymorth ar gyfer iechyd a lles, **bodlonwyd yn llawn ▲**
i) Cynllun Darllen yn Well, **bodlonwyd**
ii) Casgliad dynodedig iechyd a lles, **bodlonwyd**

iii) Gwybodaeth am ffyrdd iachach o fyw ac ymddygiad iach, **bodlonwyd**
iv) Cyfeirio at wasanaethau iechyd a lles, **bodlonwyd**

DA 6 Mae'r holl fannau gwasanaeth sefydlog yn cynnig digwyddiadau/gweithgareddau i ddefnyddwyr â gofynion arbennig, **bodlonwyd yn llawn ▲**

DA 7 Lleoliad mannau gwasanaeth, **bodlonwyd yn llawn ▲**

DA 13 Lefelau staffio a chymwysterau, **bodlonwyd yn rhannol ■**
i) Staff am bob pen o'r boblogaeth, **ni fodlonwyd**
ii) Staff cymwysedig am bob pen o'r boblogaeth, **ni fodlonwyd**
iii) Cymwysterau/hyfforddiant pennaeth y gwasanaeth, **bodlonwyd**
iv) Canran DPP, **ni adroddwyd**

DA 16 Oriau agor am bob pen o'r boblogaeth, **bodlonwyd yn llawn ▲**

## Mesurau effaith

Mae'r fframwaith yn cynnwys tri dangosydd gyda'r nod o asesu effaith defnyddio llyfrgelloedd ar fywydau pobl. Nid oes targedau i'r dangosyddion hyn, ac mae disgwyl i awdurdodau gynnal arolygon defnyddwyr ar gyfer DA1 ar un achlysur yn ystod y cyfnod o 2022-23 i 2024-25. Cynhaliodd Gwynedd arolwg oedolion ac arolwg plant ym mis Tachwedd 2023. Mae'r ffigyrau crynodol (isaf, canolrifol ac uchaf) wedi'u seilio ar ddata gan bob awdurdod a ddarparodd ddata yn ffurflenni 2022-23, 2023-24 a 2024-25. Mae'r safleoedd yn adlewyrchu nifer yr ymatebwyr, lle mai 1 yw'r awdurdod sy'n sgorio uchaf.

| Dangosydd perfformiad | | Safle | Isaf | Canol-rifol | Uchaf |
|---|---|---|---|---|---|
| DA 1 Gwneud gwahaniaeth | | | | | |
| b) % y bobl ifanc sydd o'r farn bod y llyfrgell yn eu helpu i ddysgu a chael gwybod pethau: | 94% | =8/19 | 68% | 94% | 99% |
| e) % yr oedolion sydd o'r farn bod y llyfrgell wedi gwneud gwahaniaeth i'w bywydau: | 88% | 9/20 | 31% | 86.5% | 96% |
| DA 5 b) % y mynychwyr sesiynau hyfforddiant a ddywedodd fod yr hyfforddiant wedi'u helpu i gyflawni eu diben trwy fynychu: | 100% | =1/18 | 75% | 98.5% | 100% |

Gofynnir hefyd i awdurdodau ddarparu datganiad effaith yn disgrifio'r effaith mae'r gwasanaeth llyfrgell wedi'i chael ar unigolyn neu ar grŵp o unigolion yn ystod y flwyddyn. Darparodd Gwynedd ddatganiad effaith a oedd yn eang ei gwmpas, gan ddisgrifio ystod o weithgareddau yn hytrach nag enghraifft o effaith benodol. Trwy ddarparu cymorth digidol, mae'r gwasanaeth llyfrgell yn helpu pobl i gyrchu gwybodaeth berthnasol ac yn cynorthwyo trigolion i fyw bywydau cyflawn a diogel yn eu cymunedau. Ymhlith yr enghreifftiau penodol mae darparu cardiau SIM a thalebau data am ddim yn rhan o'r Cynllun Banc Data Cenedlaethol; sesiynau sgiliau

digidol sylfaenol i weithwyr gofal cymdeithasol; a gweithdai ar ymgeisio am Gredyd Pensiwn.

## Dangosyddion ansawdd a meincnodau

Nid oes targedau i'r dangosyddion sy'n weddill ond maent yn caniatáu i wasanaethau fonitro eu perfformiad dros amser. Mae'r tabl canlynol yn crynhoi safle Gwynedd ar gyfer 2024-25. Mae'r safleoedd yn adlewyrchu nifer yr ymatebwyr, lle mai 1 yw'r awdurdod sy'n sgorio uchaf. Caiff dangosyddion 'am bob pen o'r boblogaeth' eu cyfrifo fesul 1,000 o'r boblogaeth oni nodir fel arall.

| Dangosydd perfformiad | | Safle | Isaf | Canolrifol | Uchaf |
|---|---|---|---|---|---|
| DA 1 Gwneud gwahaniaeth | | | | | |
| a) % yr oedolion sydd o'r farn bod defnyddio'r llyfrgell wedi'u helpu i ddatblygu sgiliau newydd | 90% | =1/20 | 17% | 70% | 90% |
| c) iechyd a lles | 76% | 4/20 | 1% | 63% | 90% |
| d) pleserus, diogel a chynhwysol | 98% | =7/20 | 93% | 97% | 100% |
| DA 2 Bodlonrwydd cwsmeriaid | | | | | |
| a) dewis 'da iawn' neu 'dda' o lyfrau | 93% | =6/20 | 84% | 90.5% | 97% |
| b) gofal cwsmeriaid 'da iawn' neu 'dda' | 99% | =2/20 | 92% | 98% | 100% |
| c) cyfleusterau TG 'da iawn' neu 'dda' | 94% | 2/20 | 60% | 85% | 99% |
| d) 'da iawn' neu 'dda' yn gyffredinol | 99% | =2/20 | 85% | 98% | 100% |
| e) sgôr allan o ddeg ymysg defnyddwyr 16 oed ac iau | 8.0 | 18/18 | 8.0 | 9.4 | 9.7 |

| Dangosydd perfformiad | | Safle | Isaf | Canolrifol | Uchaf |
|---|---|---|---|---|---|
| DA 5 Cymorth i ddefnyddwyr | | | | | |
| a) nifer yn mynychu am bob pen o'r boblogaeth | 3 | =18/21 | 1 | 28 | 214 |
| c) cymorth anffurfiol am bob pen o'r boblogaeth | 105 | 12/20 | 15 | 150 | 608 |
| DA 6 Nifer yn mynychu digwyddiadau am bob pen o'r boblogaeth | 177 | 17/22 | 14 | 224.5 | 764 |
| DA 8 Defnydd o'r llyfrgell | | | | | |
| b) ymweliadau rhithwir am bob pen o'r boblogaeth | 1,120 | 6/21 | 5 | 766 | 6,035 |
| DA 13 Lefelau staffio a chymwysterau[13] | | | | | |

[13] *Nid oes safleoedd wedi'u cynnwys ar gyfer gwirfoddolwyr am fod goblygiadau niferoedd gwirfoddolwyr yn aneglur.*

| Dangosydd perfformiad | | Safle | Isaf | Canolrifol | Uchaf |
|---|---|---|---|---|---|
| (v) a) cyfanswm y gwirfoddolwyr | 0 | Dd/B | 0 | 23 | 442 |
| b) oriau gwirfoddolwyr | 0 | Dd/B | 0 | 883 | 22,706 |
| DA 14 Gwariant gweithredol | | | | | |
| a) cyfanswm gwariant am bob pen o'r boblogaeth | £21,543 | 2/21 | £5,978 | £12,646 | £26,209 |
| b) % ar staff | 48% | 21/21 | 48% | 67% | 80% |
| % ar adnoddau gwybodaeth | 11% | =5/21 | 4% | 9% | 19% |
| % ar gyfarpar ac adeiladau | 3% | 10/21 | 0% | 2% | 29% |
| % ar gostau gweithredol eraill | 38% | 1/21 | 1% | 15% | 38% |

# Dadansoddiad o berfformiad

Mae modd rhannu'r Hawliau Craidd a'r dangosyddion ansawdd yn dri phrif faes. Mae'r adran hon o'r adroddiad yn amlinellu perfformiad o dan y meysydd hyn.

## Bodloni anghenion cwsmeriaid (DA 1-2, 4-5)

Nawr bod canlyniadau ar gael o bob rhan o gyfnod Estyniad Fframwaith 6, dangosir bod Gwynedd yn perfformio'n dda ym maes Gwneud gwahaniaeth (DA1), a'i fod oddeutu'r canolrif neu'n uwch ar gyfer pob mesur ac yn y safle uchaf yn genedlaethol am ganran yr oedolion sydd o'r farn bod defnyddio'r llyfrgell wedi'u helpu i ddatblygu sgiliau newydd. Mae'r gwasanaeth hefyd yn perfformio'n dda mewn perthynas â Bodlonrwydd cwsmeriaid (DA2), ac mae'n uwch na'r canolrif ar gyfer pob mesur, ac eithrio'r sgôr allan o 10 gan blant a phobl ifanc. Yn hyn o beth, Gwynedd yw'r awdurdodau llyfrgell yn y safle isaf yng Nghymru. Fel y nodwyd yn 2023-24, mae hyn yn rhywbeth y gallai'r gwasanaeth ei ystyried yn fanylach yn yr arolygon sydd ganddo ar y gorwel.

Mae'r nifer sy'n mynychu sesiynau hyfforddiant ffurfiol yn parhau i fod yn is na chanolrif awdurdodau llyfrgell Cymru ac yn dilyn cynnydd aruthrol yn 2023-24, mae'r nifer sy'n mynychu wedi gostwng 33% eleni. Nodir nad yw darpariaeth trydydd parti nac ymweliadau ysgol wedi'u cynnwys yn y cyfanswm. Mae ymateb da i hyfforddiant, a dywedodd 100% o'r bobl a atebodd yr arolwg (n=322) eu bod wedi cyflawni eu diben trwy fynychu. Roedd Gwynedd yn gallu adrodd ar y nifer yn mynychu cymorth anffurfiol eleni ac mae'r ffigur hwn hefyd yn is na chanolrif awdurdodau llyfrgell Cymru.

## Mynediad a defnydd (DA 6-8)

Mae'r nifer sy'n mynychu digwyddiadau am bob pen o'r boblogaeth wedi gostwng 9% eleni ac mae'n is na chanolrif awdurdodau llyfrgell Cymru (DA6). Disgrifiodd adroddiad blynyddol 2023-24 fod cyllid ar gyfer Her Ddarllen yr Haf wedi'i ddileu. Fodd bynnag, yn 2024, cynhaliodd y gwasanaeth weithgareddau cerdded llenyddol yn ystod gwyliau'r haf gyda thaith gerdded y Bala a phrosiect Draw Dros y Don - sef taith hunanarweiniad wedi'i seilio ar nofel Bod Rhydderch gan Lona Patel, a

gweithdai cysylltiedig. Yn ogystal, cynhaliodd Gwynedd raglen Croeso Cynnes a rhaglen Hwyl yr Haf i Blant a oedd yn cynnwys crefftio, paentio wynebau, gweithdy balwnau, gweithdy graffiti a Sesiynau Stori Mama G.

Mae ymweliadau rhithwir am bob pen o'r boblogaeth yn uwch na chanolrif awdurdodau llyfrgell Cymru ac maent wedi cynyddu 31% o gymharu â 2023-24 (DA8). Mae e-fenthyciadau hefyd yn uwch na'r canolrif cenedlaethol ac yn parhau i godi; maent 57% yn uwch nag yn 2023-24 ac yn fwy na dwywaith ffigur 2022-23.

### Arbenigedd a chapasiti (DA 13-14 ac 16)

Nid yw Gwynedd yn bodloni'r targedau ar gyfer cyfanswm y staff na chyfanswm y staff cymwysedig am bob pen o'r boblogaeth (DA13). Mae'r cyfanswm staffio wedi gostwng 3.6 CALl eleni ac mae'r gwasanaeth yn adrodd ei fod yn wynebu toriadau pellach a fydd yn effeithio ar oriau staffio yn y flwyddyn sydd i ddod. Mae nifer y staff cymwysedig wedi'i ostwng 2.5 CALl. Mae hyn yn golygu nad yw Gwynedd bellach yn chwartel uchaf awdurdodau llyfrgell Cymru am gyfanswm y staff a staff cymwysedig am bob pen o'r boblogaeth, er ei fod ychydig yn uwch na'r canolrif ar gyfer y ddau. Mae'n gadarnhaol bod 3 aelod o'r tîm llyfrgell wedi dechrau'r broses Siarteriaeth CILIP. Fel mewn blynyddoedd blaenorol, mae Gwynedd yn adrodd nad oes ganddo unrhyw ffordd ffurfiol o gofnodi oriau staff a dreulir yn hyfforddi neu ar ddatblygiad personol.

Mae'r gwasanaeth yn chwartel uchaf awdurdodau llyfrgell Cymru am gyfanswm y gwariant am bob pen o'r boblogaeth ac mae hyn wedi cynyddu 14% o gymharu â 2023-24. Er bod y gronfa lyfrau wedi gostwng 17% o gymharu â 2023-24, Gwynedd sydd yn y safle uchaf yn genedlaethol am y gronfa lyfrau am bob pen o'r boblogaeth (er, fel mae'r gwasanaeth yn ei nodi, mae'r ffigur deunyddiau'n cynnwys adnoddau heblaw deunyddiau darllen) (DA14). Mae Gwynedd yn bodloni'r targed ar gyfer oriau agor am bob pen o'r boblogaeth, ac mae yn chwartel uchaf awdurdodau llyfrgell Cymru ar gyfer y mesur hwn (DA16). Mae cyfanswm yr oriau agor â staff heb newid ers 2023-24, ond mae oriau hunanwasanaeth wedi cynyddu.

## Y cyd-destun strategol

Yn rhan o'r ffurflen, mae gofyn i awdurdodau adrodd ar y ffordd mae'r gwasanaeth llyfrgell yn cyfrannu at flaenoriaethau a nodau strategol ehangach Llywodraeth Cymru. Nododd Gwynedd ystod o ffyrdd mae'n cyfrannu at flaenoriaethau cenedlaethol, yn arbennig y rhai a amlinellir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Ymhlith yr enghreifftiau mae:

- **Hyrwyddo darllen er pleser a llythrennedd** e.e. cynhaliodd Gwynedd dros 100 o weithgareddau haf i blant gyda chymorth gan Gronfa Ffyniant Gyffredin Gogledd Cymru a chyflwyno'r daith hynod lwyddiannus "Hei Hogia" i 38 o ysgolion, gan gyrraedd oddeutu 3,200 o ddisgyblion ym mlynyddoedd 5-8.

- **Cefnogi iechyd a lles** e.e. gweithgareddau'n gysylltiedig â lles yn y gymuned, wedi'u cyflwyno gan ddau swyddog hybu lles a gafodd eu trosglwyddo i'r gwasanaeth llyfrgell.
- **Cymorth digidol** e.e. Sesiynau cymorth digidol un i un wedi'u cyflwyno mewn llyfrgelloedd ac yng nghartrefi pobl. Ar lefel genedlaethol, Gwynedd sy'n arwain y gwaith o weithredu prosiect LMS Cymru, gan gyfrannu at nodau'r Strategaeth Ddigidol i Gymru.
- **Lleihau effaith amgylcheddol** e.e. dileu'r defnydd o siacedi plastig ar lyfrau; defnyddio cerbydau trydan ar gyfer gwasanaeth cludo llyfrgell gartref; gweithio gyda mentrau cymunedol fel Dolan a Benthyg trwy wasanaeth Llyfrgell y Petha i gefnogi Strategaeth Economi Gylchol Llywodraeth Cymru.
- **Hyrwyddo'r iaith Gymraeg a'r diwylliant Cymraeg a Chymreig** e.e. sesiynau rhigwm a stori trwy gyfrwng y Gymraeg, digwyddiadau a phrosiectau iaith cymunedol fel Dewch am Dro a Draw Dros y Don gyda chefnogaeth Cronfa Ffyniant Gyffredin Gogledd Cymru; cefnogi dysgwyr Cymraeg trwy sesiynau anffurfiol fel Paned a Sgwrs; a gweithio gyda phartneriaid fel Grŵp Llandrillo Menai ac Addysg Oedolion Cymru i weinyddu'r grant Dysgu Oedolion yn y Gymuned a datblygu rhwydweithiau cymunedol cadarn.

## Cyfeiriad at y dyfodol

Gan adrodd ar gyfeiriad yr awdurdod at y dyfodol, a'i gynlluniau ar gyfer y gwasanaeth llyfrgell, amlinellodd Gwynedd ei weledigaeth ar gyfer y pum mlynedd nesaf yn eu cynllun, 'Llyfrgelloedd Llawn Bywyd 2023-28'. Er gwaethaf heriau parhaus ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus, mae'r gwasanaeth yn parhau'n ymrwymedig i ddatblygu nodau ym meysydd Darllen, Iechyd a Lles, Yr Iaith Gymraeg a Diwylliant, a Gwybodaeth a Digidol, gan ddarparu cynnig ymatebol, cynhwysfawr ac effeithlon sy'n cyd-fynd â blaenoriaethau lleol a chenedlaethol fel ei gilydd. Mae'r gwasanaeth yn parhau i ganolbwyntio ar gyflwyno cynnig cymunedol cadarn. Ymhlith y cynlluniau at y dyfodol, mae atgyfnerthu partneriaethau gyda sefydliadau fel Rhwydwaith yr Economi Gylchol a Grŵp Llandrillo Menai, yn arbennig ym maes addysg gymunedol a chynaliadwyedd.

Mae colli'r Gwasanaeth Llyfrgell Ysgolion ym mis Mawth 2025, wedi i'r Adran Addysg dynnu ei gyllid yn ôl, yn cynrychioli newid nodedig. Fodd bynnag, mae Gwynedd yn parhau i archwilio modelau cydweithredol newydd ag ysgolion, gan adeiladu ar fentrau llwyddiannus fel Hei Hogia a'r Cynllun Darllen i Deuluoedd, a bydd yn sicrhau cymorth blynyddol gan yr Adran Addysg i gyllido deunyddiau Her Ddarllen yr Haf.

Mae Gwynedd yn adrodd y bydd strwythur staffio newydd yn cael ei weithredu yn y flwyddyn sydd i ddod wrth i'r Tîm Arweinyddiaeth Llyfrgelloedd newydd osod blaenoriaethau yng nghyd-destun y Cynllun Llyfrgelloedd. Bydd Gwynedd yn parhau fel yr awdurdod arweiniol ar gyfer prosiect Consortiwm LMS Cymru.

## Casgliad

Mae'n amlwg bod cwsmeriaid yn gwerthfawrogi Llyfrgelloedd Gwynedd, ac mae ganddynt feddwl mawr ohonynt. Mae'r gwasanaeth yn parhau i berfformio'n dda mewn nifer o feysydd, gan gynnwys e-fenthyciadau ac ymweliadau rhithwir. Er bod ymateb da i sesiynau hyfforddiant ffurfiol o hyd, mae'r nifer sy'n mynychu hyfforddiant wedi gostwng eleni. Mae'r nifer sy'n mynychu digwyddiadau hefyd wedi gostwng, er ei bod yn amlwg bod y gwasanaeth wedi gwneud ymdrechion i gyflwyno cynnig cadarn dros wyliau'r haf. Yr agwedd ar adroddiad eleni sy'n peri'r pryder mwyaf yw'r gostyngiad yng nghyfanswm y staff a chyfanswm y staff cymwysedig fel ei gilydd. Er ei bod yn gadarnhaol bod aelodau staff yn cael eu cefnogi trwy Siarteriaeth CILIP, a fydd yn effeithio, gobeithio, ar niferoedd y staff cymwysedig yn y dyfodol, mae'r gostyngiad parhaus yn y niferoedd staffio yn debygol o gael effaith ar allu'r gwasanaeth i barhau i fodloni anghenion cwsmeriaid i'r un lefel uchel a ddarparwyd ganddo yn y gorffennol.

Mae'n gadarnhaol bod Gwynedd wedi gallu cyflwyno systemau i gasglu data a oedd wedi'i hepgor yn flaenorol mewn perthynas â chymorth anffurfiol. Mae hyn o gymorth o ran darparu darlun llawnach o'r gwasanaeth a'i weithgareddau. Fodd bynnag, mae'r diffyg canran DPP staff yn parhau’n fwlch yn ffurflen Gwynedd.

# Adroddiad Asesu Blynyddol 2024-25 Ynys Môn

Mae'r adroddiad hwn wedi'i baratoi ar sail gwybodaeth a ddarparwyd gan ffurflen flynyddol Ynys Môn, datganiadau effaith ac adroddiad naratif a gyflwynwyd i Is-adran Diwylliant Llywodraeth Cymru.

## Crynodeb gweithredol

Mae Ynys Môn yn bodloni 11 o'r 13 Hawl Graidd yn llawn a 2 yn rhannol. O'r 5 dangosydd ansawdd lle mae targedau, mae Ynys Môn yn cyflawni 4 yn llawn ac 1 yn rhannol.

Mae Ynys Môn wedi gwella'i pherfformiad yn syfrdanol mewn nifer o feysydd eleni, yn benodol y nifer sy'n mynychu digwyddiadau a hyfforddiant ffurfiol, sydd wedi cael hwb yn sgil cyllid SPF (y Gronfa Ffyniant Gyffredin). Mae hefyd yn gadarnhaol bod e-fenthyciadau'n parhau i gynyddu, a bod ymweliadau rhithwir yn gadarn o hyd. Er bod recriwtio i'r swydd gymwysedig wag eleni wedi cael effaith gadarnhaol ar gapasiti'r uwch dîm, mae'r gwasanaeth yn cydnabod bod y cynnydd yn nifer y digwyddiadau a gweithgareddau wedi amlygu'r heriau o ran y lefelau staffio presennol.

Er gwaethaf llawer o elfennau cadarnhaol yn ei ffurflen eleni, nid yw Ynys Môn yn bodloni dwy o'r Hawliau Craidd o hyd. Mae hyn wedi dod yn fater o bryder cynyddol am na aethpwyd i'r afael â materion a amlygwyd mewn adroddiadau blynyddol blaenorol. Mae nifer o flynyddoedd wedi mynd heibio erbyn hyn ers i arolwg cwsmeriaid gael ei gynnal, ac mae'r gwasanaeth yn parhau i fynnu nad oes modd rhannu strategaeth newydd, er i un gael ei chynhyrchu. Yn ogystal, mae'r sylwebaeth o ran cyfeiriad at y dyfodol yn cyfeirio at strategaeth ehangach y Cyngor, ond mae'n amlwg o wan mewn perthynas â manylion penodol datblygu llyfrgelloedd.

- Mae'r nifer sy'n mynychu hyfforddiant ffurfiol wedi codi eleni, ar ôl cynyddu mwy na phedair gwaith drosodd o gymharu â 2023-24 (DA5).
- Mae e-fenthyciadau wedi mwy na dyblu o gymharu â 2023-24 ac wedi treblu bron ers 2022-23 (DA8).
- Mae defnydd da yn cael ei wneud o wefan y llyfrgell, ac mae Ynys Môn yn chwartel uchaf gwasanaethau llyfrgell Cymru o hyd am ymweliadau rhithwir (DA8).

## Nodyn i adroddiad 2024-25

Yn ystod 2024-25, symudodd awdurdodau lleol yng Nghymru i Blatfform Llyfrgell Ddigidol newydd ar gyfer Cymru gyfan. Perwyd rhywfaint o darfu i weithrediad

gwasanaethau llyfrgell yn ystod y broses symud, gan gynnwys mewn perthynas â chaffael stoc newydd, sef gwaith y bu’n rhaid ei atal am gyfnod wrth i wasanaethau unigol symud i’r system newydd. Mae rhywfaint o fân wahaniaethau hefyd yn ffurfwedd y platfform newydd, sy’n golygu nad yw data defnyddwyr yn ystod 2024-25 yn gwbl gyson. Felly, nid yw’r adroddiadau ar gyfer 2024-25 yn cynnwys y data a nodir isod ar gyfer Dangosyddion Ansawdd 4, 8, 9 a 10.

DA 4 Cymorth ar gyfer iechyd a lles
c) nifer y benthyciadau teitlau o gyfres Darllen yn Well yng Nghymru

DA 8 Defnydd o’r llyfrgell
c) cyfanswm y benthycwyr gweithredol wedi'i rannu â maint y boblogaeth drigolion, a'i luosi â 1,000
d) cyfanswm aelodau'r llyfrgell
e) cyfanswm y llyfrau a fenthycwyd (oedolion a phlant ar wahân)
f) cyfanswm yr eitemau clyweledol a fenthycwyd

DA 9 Deunydd darllen cyfoes a phriodol
a) cyfradd gaffael isaf
b) % a wariwyd ar adnoddau i blant

DA10 Adnoddau yn y Gymraeg
a) isafswm gwariant o 4%
b) benthyciadau yn y Gymraeg am bob pen o’r boblogaeth

Caiff yr holl ddata ei adrodd a’i asesu ar gyfer 2025-26 (sef blwyddyn gyntaf Fframwaith 7), a chaiff y data hwn ei ddefnyddio i osod y meincnod ar gyfer y blynyddoedd sy’n weddill yn y fframwaith.

## Perfformiad yn erbyn y safonau

Mae'r fframwaith safonau'n cynnwys Hawliau Craidd, dangosyddion ansawdd gyda thargedau, dangosyddion ansawdd gyda meincnodau a mesurau effaith.

### Hawliau Craidd

Adroddodd Ynys Môn ei bod wedi bodloni 11 o'r 13 Hawl Graidd yn llawn a 2 o’r Hawliau Craidd sy'n weddill yn rhannol trwy hunanasesu. Ar sail y sylwebaeth fanwl a chynorthwyol a ddarparwyd, mae'r asesydd annibynnol yn cytuno gyda'r hunanasesiad.

Mewn perthynas â HG11, nid yw'r gwasanaeth wedi cynnal arolwg defnyddwyr yn ystod cyfnod Estyniad Fframwaith 6. Priodolir hyn i anawsterau staffio a phenderfyniad i oedi hyn o ganlyniad i gyflwyno'r LMS newydd. Bodlonir yr Hawl Graidd hon yn rhannol am fod y gwasanaeth yn cynnal rhywfaint o ymgynghori â defnyddwyr. Yn arbennig, mae cyllid yr SPF wedi cefnogi ymgynghori'n gysylltiedig â darpariaeth digwyddiadau a gweithgareddau yn ystod 2024-25. Mewn perthynas â

HG12, fel yn achos ffurflen 2023-24, mae Ynys Môn yn adrodd bod strategaeth a pholisïau'r gwasanaeth llyfrgell wedi'u hadolygu a'u diweddaru ond nad ydynt ar gael ar-lein hyd yma.

## Dangosyddion ansawdd gyda thargedau

Mae 12 dangosydd ansawdd (DA), y mae gan 5 ohonynt dargedau cyfansoddol. O'r rhain, mae Ynys Môn yn cyflawni 4 yn llawn ac 1 yn rhannol.

DA 4 (a) Cymorth ar gyfer iechyd a lles, **bodlonwyd yn llawn ▲**
- i) Cynllun Darllen yn Well, **bodlonwyd**
- ii) Casgliad dynodedig iechyd a lles, **bodlonwyd**
- iii) Gwybodaeth am ffyrdd iachach o fyw ac ymddygiad iach, **bodlonwyd**
- iv) Cyfeirio at wasanaethau iechyd a lles, **bodlonwyd**

DA 6 Mae'r holl fannau gwasanaeth sefydlog yn cynnig digwyddiadau/gweithgareddau i ddefnyddwyr â gofynion arbennig, **bodlonwyd yn llawn ▲**

DA 7 Lleoliad mannau gwasanaeth, **bodlonwyd yn llawn ▲**

DA 13 Lefelau staffio a chymwysterau, **bodlonwyd yn rhannol ■**
- i) Staff am bob pen o'r boblogaeth, **ni fodlonwyd**
- ii) Staff cymwysedig am bob pen o'r boblogaeth, **ni fodlonwyd**
- iii) Cymwysterau/hyfforddiant pennaeth y gwasanaeth, **bodlonwyd**
- iv) Canran DPP, **bodlonwyd**

DA 16 Oriau agor am bob pen o’r boblogaeth, **bodlonwyd yn llawn ▲**

## Mesurau effaith

Mae'r fframwaith yn cynnwys tri dangosydd gyda'r nod o asesu effaith defnyddio llyfrgelloedd ar fywydau pobl. Nid oes targedau i'r dangosyddion hyn, ac mae disgwyl i awdurdodau gynnal arolygon defnyddwyr ar gyfer DA1 ar un achlysur yn ystod y cyfnod o 2022-23 i 2024-25. Nid yw Ynys Môn wedi cynnal arolwg oedolion nac arolwg plant yn ystod cyfnod Estyniad Fframwaith 6. Mae'r ffigyrau crynodol (isaf, canolrifol ac uchaf) wedi'u seilio ar ddata gan bob awdurdod a ddarparodd ddata yn ffurflenni 2022-23, 2023-24 a 2024-25. Mae'r safleoedd yn adlewyrchu nifer yr ymatebwyr, lle mai 1 yw'r awdurdod sy'n sgorio uchaf.

| Dangosydd perfformiad | | Safle | Isaf | Canolrifol | Uchaf |
|---|---|---|---|---|---|
| DA 1 Gwneud gwahaniaeth | | | | | |
| b) % y bobl ifanc sydd o'r farn bod y llyfrgell yn eu helpu i ddysgu a chael gwybod pethau: | Dd/B | Dd/B | 68% | 94% | 99% |
| e) % yr oedolion sydd o'r farn bod y llyfrgell wedi gwneud gwahaniaeth i'w bywydau: | Dd/B | Dd/B | 31% | 86.5% | 96% |
| DA 5 b) % y mynychwyr sesiynau hyfforddiant a ddywedodd fod yr hyfforddiant wedi'u helpu i gyflawni eu diben trwy fynychu: | 98% | =10/18 | 75% | 98.5% | 100% |

Gofynnir hefyd i awdurdodau ddarparu datganiad effaith yn disgrifio'r effaith mae'r gwasanaeth llyfrgell wedi'i chael ar unigolyn neu ar grŵp o unigolion yn ystod y flwyddyn. Darparodd Ynys Môn ddatganiad effaith yn amlygu gwerth gweithdy graffiti o leoliad llyfrgell ar gyfer oedolion ifanc. Gweithiodd Llyfrgelloedd Llangefni a Chaergybi'n llwyddiannus gyda phobl ifanc 10 oed ac yn hŷn trwy weithdy graffiti ysbrydolgar dan arweiniad yr artist, Andy Birch. Wedi'i ariannu'n rhannol gan y gronfa SPF, nod y gweithdy oedd meithrin creadigrwydd, cyflwyno pobl ifanc yn eu harddegau nad ydynt yn ddefnyddwyr rheolaidd i'r llyfrgell, a chynhyrchu celfwaith cymunedol parhaus. Dyluniodd y cyfranogwyr eu byrddau enw eu hunain mewn arddull graffiti a chymryd rhan mewn sesiwn syniadau sydyn, a oedd yn cynnwys awgrymu geiriau ac ymadroddion yn y Gymraeg a'r Saesneg ar gyfer murlun newydd ar fur y llyfrgell yn Llangefni. Cafodd eu syniadau eu hymgorffori mewn celfwaith bywiog a arweiniodd at ddarn lliwgar sy'n dathlu darllen ac sy'n adlewyrchu creadigrwydd a chydweithrediad pobl ifanc leol. Mae'r murlun wedi cael croeso cynnes gan y gymuned ac mae'n parhau fel gwaddol i'r prosiect, gan ennyn balchder ac ymdeimlad o berchnogaeth ymysg y cyfranogwyr. Mae adborth gan gyfranogwyr a rhieni wedi bod yn gadarnhaol. Dywedodd un rhiant, *"Rwy'n cael trafferth dod o hyd i weithgareddau ar gyfer plant hŷn, felly mae hyn wedi bod yn wych,"* tra bod unigolyn yn ei arddegau wedi dweud, *"Mae wedi bod yn dda rhoi cynnig ar rywbeth newydd a bod yn greadigol gyda phobl o'r un oedran â fi."*

Trwy'r gweithdy hwn, darparodd Ynys Môn gyfle ystyrlon am hunanfynegiant, atgyfnerthwyd cysylltiadau gyda phobl ifanc, a dangoswyd grym llyfrgelloedd i ysbrydoli creadigrwydd a chreu balchder cymunedol.

## Dangosyddion ansawdd a meincnodau

Nid oes targedau i'r dangosyddion sy'n weddill ond maent yn caniatáu i wasanaethau fonitro eu perfformiad dros amser. Mae'r tabl canlynol yn crynhoi safle Ynys Môn ar gyfer 2024-25. Mae'r safleoedd yn adlewyrchu nifer yr ymatebwyr, lle mai 1 yw'r awdurdod sy'n sgorio uchaf. Caiff dangosyddion 'am bob pen o’r boblogaeth' eu cyfrifo fesul 1,000 o'r boblogaeth oni nodir fel arall.

| Dangosydd perfformiad | | Safle | Isaf | Canolrifol | Uchaf |
|---|---|---|---|---|---|
| DA 1 Gwneud gwahaniaeth | | | | | |
| a) % yr oedolion sydd o'r farn bod defnyddio'r llyfrgell wedi'u helpu i ddatblygu sgiliau newydd | Dd/B | Dd/B | 17% | 70% | 90% |
| c) iechyd a lles | Dd/B | Dd/B | 1% | 63% | 90% |
| d) pleserus, diogel a chynhwysol | Dd/B | Dd/B | 93% | 97% | 100% |
| DA 2 Bodlonrwydd cwsmeriaid | | | | | |
| a) dewis 'da iawn' neu 'dda' o lyfrau | Dd/B | Dd/B | 84% | 90.5% | 97% |
| b) gofal cwsmeriaid 'da iawn' neu 'dda' | Dd/B | Dd/B | 92% | 98% | 100% |
| c) cyfleusterau TG 'da iawn' neu 'dda' | Dd/B | Dd/B | 60% | 85% | 99% |
| d) 'da iawn' neu 'dda' yn gyffredinol | Dd/B | Dd/B | 85% | 98% | 100% |
| e) sgôr allan o ddeg ymysg defnyddwyr 16 oed ac iau | Dd/B | Dd/B | 8.0 | 9.4 | 9.7 |
| DA 5 Cymorth i ddefnyddwyr | | | | | |
| a) nifer yn mynychu am bob pen o'r boblogaeth | 9 | 15/21 | 1 | 28 | 214 |
| c) cymorth anffurfiol am bob pen o'r boblogaeth | 15 | 20/20 | 15 | 150 | 608 |
| DA 6 Nifer yn mynychu digwyddiadau am bob pen o'r boblogaeth | 125 | 19/22 | 14 | 224.5 | 764 |
| DA 8 Defnydd o'r llyfrgell | | | | | |
| b) ymweliadau rhithwir am bob pen o'r boblogaeth | 2,385 | 3/21 | 5 | 766 | 6,035 |
| DA 13 Lefelau staffio a chymwysterau[14] | | | | | |
| v) a) cyfanswm y gwirfoddolwyr | 2 | Dd/B | 0 | 23 | 442 |
| b) oriau gwirfoddolwyr | 87 | Dd/B | 0 | 883 | 22,706 |
| DA 14 Gwariant gweithredol | | | | | |
| a) cyfanswm gwariant am bob pen o'r boblogaeth | £15,965 | 6/21 | £5,978 | £12,646 | £26,209 |
| b) % ar staff | 64% | =13/21 | 48% | 67% | 80% |
| % ar adnoddau gwybodaeth | 10% | =8/21 | 4% | 9% | 19% |
| % ar gyfarpar ac adeiladau | 2% | =11/21 | 0% | 2% | 29% |
| % ar gostau gweithredol eraill | 24% | 7/21 | 1% | 15% | 38% |

# Dadansoddiad o berfformiad

Mae modd rhannu'r Hawliau Craidd a'r dangosyddion ansawdd yn dri phrif faes. Mae'r adran hon o'r adroddiad yn amlinellu perfformiad o dan y meysydd hyn.

## Bodloni anghenion cwsmeriaid (DA 1-2, 4-5)

Mae'r nifer sy'n mynychu hyfforddiant ffurfiol wedi codi eleni, ar ôl cynyddu mwy na phedair gwaith drosodd o gymharu â 2023-24, am i'r niferoedd gael eu hybu gan gyllid grant SPF (DA5). Mae canran y defnyddwyr sy'n dweud bod yr hyfforddiant wedi'u helpu i gyflawni eu diben hefyd wedi gwella tipyn o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Mae niferoedd cymorth anffurfiol wedi cynyddu 24% o gymharu â 2023-24 ac mae'r gwasanaeth yn adrodd bod y galw'n parhau i gynyddu am help anffurfiol, yn

[14] *Nid oes safleoedd wedi'u cynnwys ar gyfer gwirfoddolwyr am fod goblygiadau niferoedd gwirfoddolwyr yn aneglur.*

arbennig gyda chwblhau ffurflenni ar-lein, sganio dogfennau a chwilio am swyddi. Fodd bynnag, Ynys Môn sy'n nodi'r ffigur isaf o hyd am gymorth anffurfiol am bob pen o'r boblogaeth yn genedlaethol. Mae'r gwasanaeth yn nodi nad yw cymorth anffurfiol bob amser yn cael ei nodi a'i adrodd o bosibl. Mae Ynys Môn yn bodloni'r targed ar gyfer iechyd a lles (DA4) yn llawn ac yn adrodd bod amser ac adnoddau sylweddol staff yn cael eu neilltuo yn y maes hwn. Nid yw'r gwasanaeth wedi cynnal arolwg defnyddwyr yn y blynyddoedd diwethaf, ond mae'n adrodd bod cynlluniau i gynnal arolwg yn 2025-26 (DA1 a DA2).

## Mynediad a defnydd (DA 6-8)

Mae cyllid grant SPF wedi cael effaith ar y rhaglen digwyddiadau a gweithgareddau eleni; cynyddodd y nifer sy'n mynychu digwyddiadau 25% a thargedodd y gwasanaeth gynulleidfaoedd newydd neu gynulleidfaoedd sydd wedi'u tangynrychioli (DA6). Ymhlith y digwyddiadau mae achlysuron lansio llyfrau, gweithdai ffeltio, ffotograffiaeth ddigidol a sgyrsiau gan awduron. Fodd bynnag, er gwaethaf gwelliannau nodedig, mae'r gwasanaeth yn parhau i fod yn chwartel isaf awdurdodau llyfrgell Cymru ar gyfer y mesur hwn.

Mae'r wefan llyfrgelloedd yn parhau i gael ei defnyddio'n dda, ac mae Ynys Môn yn chwartel uchaf gwasanaethau llyfrgell Cymru o hyd am ymweliadau rhithwir er gwaethaf gostyngiad bach (3%) yn yr ymweliadau rhithwir o gymharu â 2023-24 (DA8). Mae'r gwasanaeth yn uwch na'r canolrif ar gyfer e-fenthyciadau am bob pen o'r boblogaeth. Mae e-fenthyciadau wedi mwy na dyblu o gymharu â 2023-24 ac wedi treblu bron ers 2022-23.

## Arbenigedd a chapasiti (DA 13-14 ac 16)

Nid yw Ynys Môn yn bodloni'r targedau ar gyfer cyfanswm y staff na chyfanswm y staff cymwysedig am bob pen o'r boblogaeth, er ei bod yn uwch na'r canolrif cenedlaethol ar gyfer y ddau fesur (DA13). Mae'r cyfanswm staffio wedi gostwng ychydig (0.4 CALI) am fod swydd wag wedi'i dileu a'r gwaith wedi'i ailddosbarthu. Mae'r gwasanaeth yn adrodd bod effeithiau ysgwyddo swyddi gwag yn y gwasanaeth yn gynyddol amlwg wrth i'r rhaglen digwyddiadau a gweithgareddau gael ei chwyddo. Fodd bynnag, llwyddwyd i recriwtio i swydd broffesiynol a oedd yn wag am gyfnod hir yn ystod y cyfnod adrodd hwn, ac mae hyn wedi effeithio'n gadarnhaol ar gapasiti'r uwch dîm.

Mae gwariant gweithredol (DA14) yn uwch na'r canolrif cenedlaethol ac wedi cynyddu 26% o gymharu â 2023-24 oherwydd ychwanegu cyllid grant sylweddol. Fodd bynnag, nid yw'r gyllideb lyfrau am bob pen o'r boblogaeth wedi newid ers y flwyddyn flaenorol.

Mae'r gwasanaeth yn parhau i fodloni'r targed ar gyfer oriau agor, ac mae'n uwch na'r canolrif cenedlaethol ar gyfer y mesur hwn (DA16). Nid yw'r oriau agor wedi newid ers 2023-24. Mae'r gwasanaeth yn adrodd bod llwybrau llyfrgelloedd symudol

wedi'u diwygio yn ôl anghenion cymunedau a chwsmeriaid, ond bod oriau agor wedi aros yr un peth.

## Y cyd-destun strategol

Yn rhan o'r ffurflen, mae gofyn i awdurdodau adrodd ar y ffordd mae'r gwasanaeth llyfrgell yn cyfrannu at flaenoriaethau a nodau strategol ehangach Llywodraeth Cymru. Nododd Ynys Môn ystod o feysydd lle mae ei gwasanaeth llyfrgell yn cefnogi'r blaenoriaethau hyn; ymhlith yr enghreifftiau mae'r canlynol:

- **Dysgu** e.e. partneriaethau gydag Addysg Gymunedol i Oedolion, sy'n rhan o'r gwasanaeth llyfrgell; a phecynnau prosiect ac adnoddau darllen ar gyfer plant ac athrawon ysgolion cynradd wedi'u darparu gan y gwasanaeth llyfrgell i ysgolion.
- **Darllen a llythrennedd** e.e. darparu sesiynau sgiliau sylfaenol gyda phartneriaid; ymweliadau dosbarthiadau; pecynnau â llawer o gopïau; a chasgliadau â thema wedi'u darparu gan y gwasanaeth llyfrgell i ysgolion.
- **Lles cymunedol** e.e. cynorthwyo sefydliadau trydydd sector a phartneriaid eraill i hybu eu gwasanaethau.
- **Sgiliau ac adfywio economaidd** e.e. darparu gwybodaeth busnes; cefnogi cynhwysiant a llythrennedd digidol; a gweithredu fel hyb ar gyfer gwybodaeth i dwristiaid.
- **Cynhwysiant a chyfranogiad digidol** e.e. darparu help a chymorth wyneb yn wyneb, dros y ffôn a thrwy e-bost; hwyluso cyrsiau TG ar-lein a sesiynau digidol un i un; ac ymestyn y cynnig Llyfrgell Ddigidol, gan gynnwys papurau newydd digidol a BorrowBox.
- **Iechyd a lles** e.e. grwpiau therapiwtig a darllen ar goedd ar gyfer trigolion dall ac â golwg rhannol; cynnal y Gwasanaeth Llyfrgell i drigolion sy'n gaeth i'w cartrefi; a chynnal ymgyrchoedd i leihau unigrwydd.
- **Hunaniaeth ddiwylliannol** e.e. cynnal casgliad hanes lleol helaeth sy'n cysylltu lle ac iaith; rhoi pwyslais mawr ar stoc yn y Gymraeg; a hwyluso grwpiau darllen i siaradwyr a dysgwyr y Gymraeg.
- **Tlodi** e.e. cynnig Croeso Cynnes yn ystod y gaeaf.

## Cyfeiriad at y dyfodol

Gan adrodd ar gyfeiriad yr awdurdod at y dyfodol, a'i gynlluniau ar gyfer y gwasanaeth llyfrgell dros y flwyddyn sydd i ddod, bydd Ynys Môn yn parhau i weithredu'n unol â Chynllun Cyngor Sir Ynys Môn 2023-28. Gan gydnabod yr heriau sylweddol a berir gan y sefyllfa economaidd sydd ohoni a'r argyfwng costau byw, bydd y gwasanaeth yn cyfrannu at weledigaeth y cyngor trwy gefnogi cymunedau dysgu cynaliadwy a chynnig gwasanaethau hygyrch o safon, sy'n cyfoethogi bywydau trigolion Ynys Môn. Ymhlith blaenoriaethau'r gwasanaeth llyfrgell at y dyfodol, mae datblygu meysydd allweddol a nodwyd yng Nghynllun y Cyngor: sef hyrwyddo'r Gymraeg; cefnogi gofal cymdeithasol a lles; gwella addysg; cyfrannu at

gyfleoedd datblygu economaidd; a mynd i’r afael â’r newid hinsawdd. Mae Ynys Môn yn adrodd y bydd yr awdurdod a'i staff yn cynnal eu ffocws ar ddiogelu llesiant, lles ac ansawdd bywyd trigolion.

## Casgliad

Mae Ynys Môn wedi gwella'i pherfformiad yn syfrdanol mewn nifer o feysydd eleni, yn benodol y nifer sy'n mynychu digwyddiadau a hyfforddiant ffurfiol, sydd wedi cael hwb yn sgil cyllid SPF (y Gronfa Ffyniant Gyffredin). Mae hefyd yn gadarnhaol bod e-fenthyciadau'n parhau i gynyddu, a bod ymweliadau rhithwir yn gadarn o hyd. Er bod recriwtio i'r swydd gymwysedig wag eleni wedi cael effaith gadarnhaol ar gapasiti'r uwch dîm, mae'r gwasanaeth yn cydnabod bod y cynnydd yn nifer y digwyddiadau a gweithgareddau wedi amlygu'r heriau o ran y lefelau staffio presennol.

Er gwaethaf llawer o elfennau cadarnhaol yn ei ffurflen eleni, nid yw Ynys Môn yn bodloni dwy o'r Hawliau Craidd o hyd. Mae hyn wedi dod yn fater o bryder cynyddol am na aethpwyd i'r afael â materion a amlygwyd mewn adroddiadau blynyddol blaenorol. Mae nifer o flynyddoedd wedi mynd heibio erbyn hyn ers i arolwg cwsmeriaid gael ei gynnal, ac mae'r gwasanaeth yn parhau i fynnu nad oes modd rhannu strategaeth newydd, er i un gael ei chynhyrchu. Yn ogystal, mae'r sylwebaeth o ran cyfeiriad at y dyfodol yn cyfeirio at strategaeth ehangach y Cyngor, ond mae'n amlwg o wan mewn perthynas â manylion penodol datblygu llyfrgelloedd.

# Adroddiad Asesu Blynyddol 2024-25 Merthyr Tudful

Mae'r adroddiad hwn wedi'i baratoi ar sail gwybodaeth a ddarparwyd gan ffurflen flynyddol Merthyr Tudful, datganiadau effaith ac adroddiad naratif a gyflwynwyd i Is-adran Diwylliant Llywodraeth Cymru.

## Crynodeb gweithredol

Adroddodd Merthyr Tudful ei fod wedi bodloni pob un o'r 13 Hawl Graidd yn llawn trwy hunanasesu. Fodd bynnag, mae'r asesydd annibynnol o'r farn bod y gwasanaeth wedi bodloni 12 o'r 13 Hawl Graidd yn llawn ac 1 yn rhannol. O'r 5 dangosydd ansawdd lle mae targedau, mae Merthyr Tudful yn cyflawni 3 yn llawn ac 1 yn rhannol. Mae un DA sydd heb ei fodloni.

Yn 2023-24, codwyd pryderon difrifol am Lyfrgelloedd Merthyr Tudful o ganlyniad i ostyngiad mewn cyllid a newid mewn llywodraethiant a gafodd effaith ddifrifol ar staffio, oriau agor a darpariaeth adnoddau. Fodd bynnag, mae ffurflen 2024-25 yn dangos bod y sefyllfa ym Merthyr Tudful wedi gwella'n amlwg yn ystod y flwyddyn. Mae'n gadarnhaol bod y gwasanaeth bellach yn bodloni 12 o'r 13 Hawl Graidd. Mae niferoedd staffio'n cynyddu'n raddol, mae darpariaeth TG yn cael ei gwella, mae mwy o weithgareddau'n cael eu cynnig, ac mae'r gyllideb lyfrau wedi cynyddu eleni. Fodd bynnag, mae effaith y problemau mae'r gwasanaeth wedi bod trwyddynt yn y blynyddoedd diwethaf yn dal i gael ei theimlo. Yn arbennig, mae'r gostyngiad i oriau agor wedi effeithio'n amlwg ar gwsmeriaid, ac mae hefyd yn cyfyngu ar allu'r gwasanaeth i weithio gyda phartneriaid sy'n dymuno defnyddio gofodau llyfrgell. Mae gan Lyfrgelloedd Merthyr Tudful strategaeth erbyn hyn i lywio'u datblygiad dros y blynyddoedd nesaf, ac mae'n amlwg o ffurflen eleni fod cynnydd yn cael ei wneud. Fodd bynnag, fel y nodwyd yn adroddiad blynyddol 2023-24, mae'n debygol y bydd y gwasanaeth yn cymryd sawl blwyddyn i adfer yn sgil yr heriau mae wedi'u hwynebu.

- Mae Merthyr Tudful oddeutu'r canolrif, neu'n uwch na'r canolrif, am fesurau Gwneud gwahaniaeth, ac mae yn y chwartel uchaf am iechyd a lles a datblygu sgiliau (DA1).
- Mae nifer y defnyddwyr sy'n mynychu digwyddiadau llyfrgell wedi tyfu'n sylweddol wrth i'r nifer sy'n mynychu gynyddu fwy na hanner can waith drosodd o gymharu â 2023-24 (DA6).
- Mae e-fenthyciadau wedi mwy na dyblu o gymharu â 2023-24 (DA8).

## Nodyn i adroddiad 2024-25

Yn ystod 2024-25, symudodd awdurdodau lleol yng Nghymru i Blatfform Llyfrgell Ddigidol newydd ar gyfer Cymru gyfan. Perwyd rhywfaint o darfu i weithrediad gwasanaethau llyfrgell yn ystod y broses symud, gan gynnwys mewn perthynas â chaffael stoc newydd, sef gwaith y bu'n rhaid ei atal am gyfnod wrth i wasanaethau unigol symud i'r system newydd. Mae rhywfaint o fân wahaniaethau hefyd yn ffurfwedd y platfform newydd, sy'n golygu nad yw data defnyddwyr yn ystod 2024-25 yn gwbl gyson. Felly, nid yw'r adroddiadau ar gyfer 2024-25 yn cynnwys y data a nodir isod ar gyfer Dangosyddion Ansawdd 4, 8, 9 a 10.

DA 4 Cymorth ar gyfer iechyd a lles
c) nifer y benthyciadau o gyfres Darllen yn Well Cymru

DA 8 Defnydd o'r llyfrgell
c) cyfanswm y benthycwyr gweithredol wedi'i rannu â maint y boblogaeth drigolion, a'i luosi â 1,000
d) cyfanswm aelodau'r llyfrgell
e) cyfanswm y llyfrau a fenthycwyd (oedolion a phlant ar wahân)
f) cyfanswm yr eitemau clyweledol a fenthycwyd

DA 9 Deunydd darllen cyfoes a phriodol
a) cyfradd gaffael isaf
b) % a wariwyd ar adnoddau i blant

DA 10 Adnoddau yn y Gymraeg
a) isafswm gwariant o 4%
b) benthyciadau yn y Gymraeg am bob pen o'r boblogaeth

Caiff yr holl ddata ei adrodd a'i asesu ar gyfer 2025-26 (sef blwyddyn gyntaf Fframwaith 7), a chaiff y data hwn ei ddefnyddio i osod y meincnod ar gyfer y blynyddoedd sy'n weddill yn y fframwaith.

## Perfformiad yn erbyn y safonau

Mae'r fframwaith safonau'n cynnwys Hawliau Craidd, dangosyddion ansawdd gyda thargedau, dangosyddion ansawdd gyda meincnodau a mesurau effaith.

### Hawliau Craidd

Adroddodd Merthyr Tudful ei fod wedi bodloni pob un o'r 13 Hawl Graidd yn llawn trwy hunanasesu. Ar sail y sylwebaeth fanwl a chynorthwyol a ddarparwyd, mae'r asesydd annibynnol o'r farn bod y gwasanaeth wedi bodloni 12 Hawl Graidd yn llawn ac 1 yn rhannol. Yn 2023-24, barnwyd nad oedd Merthyr Tudful wedi bodloni HG5 oherwydd gostyngiad drastig i oriau agor yn 2023-24, y mae effaith lawn hynny i'w gweld yn amlwg yn ffurflen eleni, fel mae'r gwasanaeth yn ei nodi. Mae'r gwasanaeth yn cydnabod bod y gostyngiad i oriau agor wedi sbarduno pryderon ymysg

defnyddwyr, a dylid ei ganmol am gynnal ymgynghoriad ar y mater hwn. Fodd bynnag, hyd nes bod tystiolaeth bod newidiadau wedi'u gwneud i sicrhau bod oriau agor yn bodloni anghenion lleol, mae'r gwasanaeth yn parhau i fodloni HG5 yn rhannol yn unig.

Ar nodyn mwy cadarnhaol, mae'n braf nodi bod dwy swydd cynorthwyydd llyfrgell amser llawn a swydd Allgyrraedd Llyfrgelloedd ran-amser wedi'u creu yn 2024-25, gan helpu'r gwasanaeth i sicrhau bod HG2 yn cael ei bodloni eleni. Yn ogystal, mae gan Ferthyr Tudful strategaeth llyfrgelloedd sydd ar gael yn gyhoeddus erbyn hyn, gan alluogi'r gwasanaeth i fodloni HG12.

**14. Mae llyfrgelloedd yng Nghymru yn rhad ac am ddim i ymuno â nhw, ac yn agored i bawb.**

Hunanasesiad: Bodlonwyd yn llawn

Asesydd Annibynnol: **Bodlonwyd yn llawn ▲**

**15. Mae llyfrgelloedd yng Nghymru yn sicrhau bod staff cyfeillgar, gwybodus a chymwysedig wrth law i helpu.**

Hunanasesiad: Bodlonwyd yn llawn

Asesydd Annibynnol: **Bodlonwyd yn llawn ▲**

**16. Mae llyfrgelloedd yng Nghymru yn darparu mynediad at ystod o wasanaethau, gweithgareddau ac adnoddau o safon uchel mewn sawl fformat i gefnogi dysgu gydol oes, iechyd a lles personol, cyfranogiad cymunedol, profiadau diwylliannol, hamdden, a darllen er pleser.**

Hunanasesiad: Bodlonwyd yn llawn

Asesydd Annibynnol: **Bodlonwyd yn llawn ▲**

**17. Mae llyfrgelloedd yng Nghymru yn darparu gwasanaethau, cyfleusterau ac adnoddau gwybodaeth priodol i unigolion a grwpiau sydd ag anghenion arbennig.**

Hunanasesiad: Bodlonwyd yn llawn

Asesydd Annibynnol: **Bodlonwyd yn llawn ▲**

**18. Mae llyfrgelloedd yn darparu gofod ffisegol diogel, deniadol a hygyrch sydd ag oriau agor addas dan ofal staff.**

Hunanasesiad: Bodlonwyd yn llawn.

Asesydd Annibynnol: **Bodlonwyd yn rhannol ■**

Mae hyn oherwydd y gostyngiad parhaus i oriau agor a'r diffyg tystiolaeth bod mesurau wedi'u cymryd i sicrhau bod oriau agor yn bodloni anghenion lleol.

**19. Mae llyfrgelloedd yng Nghymru yn benthyca llyfrau am ddim ac yn cynnig mynediad am ddim i wybodaeth, gan gynnwys adnoddau gwybodaeth ar-lein ar gael 24 awr y dydd.**

Hunanasesiad: Bodlonwyd yn llawn

Asesydd Annibynnol: **Bodlonwyd yn llawn ▲**

20. **Mae llyfrgelloedd yng Nghymru yn darparu'r Rhyngrwyd, gan gynnwys Wi-Fi, a mynediad at gyfarpar digidol yn rhad ac am ddim ym mhob man gwasanaeth.**
Hunanasesiad: Bodlonwyd yn llawn
Asesydd Annibynnol: **Bodlonwyd yn llawn ▲**

21. **Mae llyfrgelloedd yng Nghymru yn darparu mynediad at wasanaethau, gweithgareddau diwylliannol ac adnoddau o ansawdd uchel yn y Gymraeg.**
Hunanasesiad: Bodlonwyd yn llawn
Asesydd Annibynnol: **Bodlonwyd yn llawn ▲**

22. **Mae llyfrgelloedd yng Nghymru yn gweithio mewn partneriaeth i rannu catalogau a hwyluso mynediad i adnoddau holl lyfrgelloedd Cymru.**
Hunanasesiad: Bodlonwyd yn llawn
Asesydd Annibynnol: **Bodlonwyd yn llawn ▲**

23. **Mae llyfrgelloedd yng Nghymru yn cydweithio ag amrywiaeth o bartneriaid i hyrwyddo a darparu gwasanaethau i gynulleidfaoedd newydd ac amrywiol, gan alluogi rhagor o bobl i elwa o'r gwasanaethau hynny.**
Hunanasesiad: Bodlonwyd yn llawn
Asesydd Annibynnol: **Bodlonwyd yn llawn ▲**

24. **Mae llyfrgelloedd yng Nghymru yn ymgynghori â defnyddwyr yn rheolaidd i gasglu eu barn ar y gwasanaeth a chasglu gwybodaeth am eu hanghenion newidiol.**
Hunanasesiad: Bodlonwyd yn llawn
Asesydd Annibynnol: **Bodlonwyd yn llawn ▲**

25. **Mae llyfrgelloedd yng Nghymru yn trefnu bod eu strategaeth, eu polisïau, eu hamcanion a'u gweledigaeth ar gyfer y gwasanaeth llyfrgelloedd ar gael i'w gweld, mewn print ac ar-lein, mewn amrywiaeth o ieithoedd fel y bo'n briodol i'r gymuned.**
Hunanasesiad: Bodlonwyd yn llawn.
Asesydd Annibynnol: **Bodlonwyd yn llawn ▲**

26. **Mae llyfrgelloedd yng Nghymru yn darparu cymorth er mwyn helpu pobl i wella'u sgiliau digidol a'u hyder, gan gynnwys defnyddio gwasanaethau e-lywodraeth**
Hunanasesiad: Bodlonwyd yn llawn
Asesydd Annibynnol: **Bodlonwyd yn llawn ▲**

## Dangosyddion ansawdd gyda thargedau

Mae 12 dangosydd ansawdd (DA), y mae gan 5 ohonynt dargedau cyfansoddol. O'r rhain, mae Merthyr Tudful yn cyflawni 3 yn llawn ac 1 yn rhannol. Mae un DA sydd heb ei fodloni.

DA 4 (a) Cymorth ar gyfer iechyd a lles, **bodlonwyd yn llawn ▲**
- i) Cynllun Darllen yn Well, **bodlonwyd**
- ii) Casgliad dynodedig iechyd a lles, **bodlonwyd**
- iii) Gwybodaeth am ffyrdd iachach o fyw ac ymddygiad iach, **bodlonwyd**
- iv) Cyfeirio at wasanaethau iechyd a lles, **bodlonwyd**

DA 6 Mae'r holl fannau gwasanaeth sefydlog yn cynnig digwyddiadau/gweithgareddau i ddefnyddwyr â gofynion arbennig, **bodlonwyd yn llawn ▲**

DA 7 Lleoliad mannau gwasanaeth, **bodlonwyd yn llawn ▲**

DA 13 Lefelau staffio a chymwysterau, **bodlonwyd yn rhannol ■**
- i) Staff am bob pen o'r boblogaeth, **ni fodlonwyd**
- ii) Staff cymwysedig am bob pen o'r boblogaeth, **ni fodlonwyd**
- iii) Cymwysterau/hyfforddiant pennaeth y gwasanaeth, **bodlonwyd**
- iv) Canran DPP, **bodlonwyd**

DA 16 Oriau agor am bob pen o’r boblogaeth, **ni fodlonwyd ●**

## Mesurau effaith

Mae'r fframwaith yn cynnwys tri dangosydd gyda'r nod o asesu effaith defnyddio llyfrgelloedd ar fywydau pobl. Nid oes targedau i'r dangosyddion hyn, ac mae disgwyl i awdurdodau gynnal arolygon defnyddwyr ar gyfer DA1 ar un achlysur yn ystod y cyfnod o 2022-23 i 2024-25. Cynhaliodd Merthyr Tudful arolwg oedolion ac arolwg plant rhannol ym mis Mawrth 2025. Mae'r ffigyrau crynodol (isaf, canolrifol ac uchaf) wedi'u seilio ar ddata gan bob awdurdod lleol a ddarparodd ddata yn ffurflenni 2022-23, 2023-24 a 2024-25. Mae'r safleoedd yn adlewyrchu nifer yr ymatebwyr, lle mai 1 yw'r awdurdod sy'n sgorio uchaf.

| Dangosydd perfformiad | | Safle | Isaf | Canolrifol | Uchaf |
|---|---|---|---|---|---|
| DA 1 Gwneud gwahaniaeth | | | | | |
| b) % y bobl ifanc sydd o'r farn bod y llyfrgell yn eu helpu i ddysgu a chael gwybod pethau: | 92% | 12/19 | 68% | 94% | 99% |
| e) % yr oedolion sydd o'r farn bod y llyfrgell wedi gwneud gwahaniaeth i'w bywydau: | 85% | 13/20 | 31% | 86.5% | 96% |
| DA 5 b) % y mynychwyr sesiynau hyfforddiant a ddywedodd fod yr hyfforddiant wedi'u helpu i gyflawni eu diben trwy fynychu: | Dd/B | Dd/B | 75% | 98.5% | 100% |

Gofynnir hefyd i awdurdodau ddarparu datganiad effaith yn disgrifio'r effaith mae'r gwasanaeth llyfrgell wedi'i chael ar unigolyn neu ar grŵp o unigolion yn ystod y flwyddyn. Darparodd Merthyr Tudful ddatganiad effaith a ddangosodd sut gall llyfrgelloedd gefnogi lles, annibyniaeth a chysylltiad cymunedol trwy ddarparu adnoddau digidol i fodloni anghenion unigol. Trwy gymorth wedi'i bersonoli ac arbenigedd digidol, mae staff Llyfrgell Dowlais wedi galluogi darllenwyr i oresgyn rhwystrau a achoswyd oherwydd anawsterau symudedd ac iechyd, wedi cynyddu llythrennedd digidol ac wedi meithrin cyffro newydd ynghylch darllen.

Darparwyd enghraifft o'r cymorth a gynigiwyd gan y llyfrgell i aelod o grŵp crosio '*Dowlais Hookers*' sy'n cyfarfod yn y llyfrgell. Mae'n ddarllenwraig frwd a welodd fod ei golwg a oedd yn gwanhau yn ei chyfyngu i ddarllen llyfrau print mawr, nad oeddent yn aml yn cynnwys ei hoff awduron. Awgrymodd staff y llyfrgell BorrowBox fel dewis amgen. Cafodd ei chefnogi i lawrlwytho, gosod a defnyddio'r ap BorrowBox ar ei llechen, a oedd o gymorth gwerthfawr iawn. Dywedodd, *"Mae BorrowBox yn wych! Rwy' wedi mwynhau pob llyfr rwy' wedi'i ddarllen."* Cyn bo hir, roedd yn rhannu ei chyfrolau diweddaraf gyda'i chyd-aelodau yn y grŵp crosio, a daethon nhw hefyd i ymddiddori a gofyn i staff am help i gael yr ap eu hunain. Y sgil effaith oedd bod eraill yn y grŵp yn mabwysiadu BorrowBox, gan wella'u mynediad i ddeunydd darllen a hybu hyder digidol. Rhannodd aelodau sut roedd BorrowBox wedi cael effaith gadarnhaol, gydag un yn nodi, *"Mae mor hawdd ei ddefnyddio... rwy'n gallu benthyg llyfrau a'u hadnewyddu pan mae'n anodd gadael y tŷ oherwydd fy nghlun,"* a nododd rhywun arall, *"Pan fydd fy arthritis yn wael, mae dal llyfr yn anodd - mae defnyddio BorrowBox ar lechen yn haws o lawer."*

## Dangosyddion ansawdd a meincnodau

Nid oes targedau i'r dangosyddion sy'n weddill, ond maent yn caniatáu i wasanaethau fonitro eu perfformiad dros amser. Mae'r tabl canlynol yn crynhoi safle Merthyr Tudful ar gyfer 2024-25. Mae'r safleoedd yn adlewyrchu nifer yr ymatebwyr, lle mai 1 yw'r awdurdod sy'n sgorio uchaf. Caiff dangosyddion 'am bob pen o’r boblogaeth' eu cyfrifo fesul 1,000 o'r boblogaeth oni nodir fel arall.

| Dangosydd perfformiad | | Safle | Isaf | Canolrifol | Uchaf |
|---|---|---|---|---|---|
| DA 1 Gwneud gwahaniaeth | | | | | |
| a) % yr oedolion sydd o'r farn bod defnyddio'r llyfrgell wedi'u helpu i ddatblygu sgiliau newydd | 79% | =5/20 | 17% | 70% | 90% |
| c) iechyd a lles | 75% | 5/20 | 1% | 63% | 90% |
| d) pleserus, diogel a chynhwysol | 97% | =9/20 | 93% | 97% | 100% |
| DA 2 Bodlonrwydd cwsmeriaid | | | | | |
| a) dewis 'da iawn' neu 'dda' o lyfrau | 84% | 20/20 | 84% | 90.5% | 97% |
| b) gofal cwsmeriaid 'da iawn' neu 'dda' | 92% | 20/20 | 92% | 98% | 100% |
| c) cyfleusterau TG 'da iawn' neu 'dda' | 74% | 15/20 | 60% | 85% | 99% |
| d) 'da iawn' neu 'dda' yn gyffredinol | 85% | 20/20 | 85% | 98% | 100% |
| e) sgôr allan o ddeg ymysg defnyddwyr 16 oed ac iau | Dd/B | Dd/B | 8.0 | 9.4 | 9.7 |
| DA 5 Cymorth i ddefnyddwyr | | | | | |
| a) nifer yn mynychu am bob pen o’r boblogaeth | Dd/B | Dd/B | 1 | 28 | 214 |
| c) cymorth anffurfiol am bob pen o’r boblogaeth | Dd/B | Dd/B | 15 | 150 | 608 |
| DA 6 Nifer yn mynychu digwyddiadau am bob pen o’r boblogaeth | 191 | 16/22 | 14 | 224.5 | 764 |
| DA 8 Defnydd o’r llyfrgell | | | | | |
| b) ymweliadau rhithwir am bob pen o’r boblogaeth | 5 | 21/21 | 5 | 766 | 6,035 |
| DA 13 Lefelau staffio a chymwysterau[15] | | | | | |
| (v) a) cyfanswm y gwirfoddolwyr | 1 | Dd/B | 0 | 23 | 442 |
| b) oriau gwirfoddolwyr | 150 | Dd/B | 0 | 883 | 22,706 |
| DA 14 Gwariant gweithredol | | | | | |
| a) cyfanswm gwariant am bob pen o’r boblogaeth | £9,675 | 18/21 | £5,978 | £12,646 | £26,209 |
| b) % ar staff | 61% | 15/21 | 48% | 67% | 80% |
| % ar adnoddau gwybodaeth | 18% | 2/21 | 4% | 9% | 19% |
| % ar gyfarpar ac adeiladau | 12% | 4/21 | 0% | 2% | 29% |
| % ar gostau gweithredol eraill | 10% | 15/21 | 1% | 15% | 38% |

# Dadansoddiad o berfformiad

Mae modd rhannu'r Hawliau Craidd a'r dangosyddion ansawdd yn dri phrif faes. Mae'r adran hon o'r adroddiad yn amlinellu perfformiad o dan y meysydd hyn.

## Bodloni anghenion cwsmeriaid (DA 1-2, 4-5)

Mae'r arolwg cwsmeriaid a gynhaliodd Merthyr Tudful ym mis Mawrth 2025 yn dangos gwelliant nodedig o cymharu â'r canlyniadau a adroddwyd yn y flwyddyn flaenorol. Eleni, defnyddiodd y gwasanaeth gyfuniad o arolygon ar-lein a gafodd eu hysbysebu'n eang ar gyfryngau cymdeithasol y llyfrgelloedd, ac arolygon papur ym mhob llyfrgell.[16] Cynyddodd nifer yr arolygon a gwblhawyd yn sgil darparu arolygon

[15] *Nid oes safleoedd wedi'u cynnwys ar gyfer gwirfoddolwyr am fod goblygiadau niferoedd gwirfoddolwyr yn aneglur.*

[16] *Cynhaliwyd arolygon plant yn ystod ymweliadau dosbarthiadau â'r llyfrgell ac yn ystod ymweliadau staff llyfrgell ag ysgolion. Mae hyn yn golygu bod plant yn gallu ymateb dros eu hunain, yn hytrach na bod rhieni yn ateb eu rhan. Fodd bynnag. mae hefyd yn golygu ei bod yn bosibl nad oedd pob plentyn a gwblhau arolygon wedi ymweld â'r llyfrgell.*

papur. O gymharu'r canlyniadau hyn yn erbyn y rhai a adroddwyd yn genedlaethol yn ystod cyfnod Estyniad Fframwaith 6, mae Merthyr Tudful oddeutu'r canolrif, neu'n uwch na'r canolrif, ym maes Gwneud gwahaniaeth (mesurau DA1), ac mae yn y chwartel uchaf am iechyd a lles a datblygu sgiliau. Fodd bynnag, nid yw'n syndod o bosibl o ystyried heriau'r ychydig flynyddoedd diwethaf, nad yw'r gwasanaeth yn perfformio cystal yn gymharol ym maes Bodlonrwydd cwsmeriaid (DA2); er gwaethaf gwelliannau addawol o gymharu â 2023-24, Merthyr Tudful yw'r awdurdod yn y safle isaf o hyd am dri o'r pedwar mesur bodlonrwydd cwsmeriaid. Mae'r gwasanaeth yn cydnabod bod problemau ariannol o dan Ymddiriedolaeth Hamdden Merthyr Tudful wedi effeithio'n ddifrifol ar nifer a dewis y llyfrau newydd a ychwanegwyd at stoc y llyfrgelloedd. Mae'r gwasanaeth wedi cymryd camau i wella'i gynnig TG. Mae cyfarpar TG newydd wedi'i osod yn Llyfrgelloedd Aberfan, Dowlais a Merthyr Tudful, a chaiff cyfarpar ei osod yn Llyfrgell Treharis pan fydd yn ailagor ym mis Awst 2025.

Mae Merthyr Tudful yn parhau i fodloni'r targed ym maes Cymorth ar gyfer iechyd a lles (DA4) yn llawn. Nid yw grwpiau darllen ar y cyd wedi'u hailgyflwyno eto, ond byddant yn faes blaenoriaeth i gael hyfforddiant ynddo wrth i staff llyfrgell newydd ymsefydlu yn eu rolau. Mae llyfrgelloedd yn parhau i ddarparu lle i grwpiau cymunedol fel Gweu a Sgwrs, grwpiau celf, grwpiau ysgrifennu, ac ati, er bod gostyngiad yn yr oriau agor wedi cyfyngu argaeledd gofodau llyfrgell i sefydliadau partner.

Ni ddarparwyd unrhyw ddata mewn perthynas â Chymorth i ddefnyddwyr (DA5). Mae'r gwasanaeth yn adrodd bod lefelau staffio isel yn golygu bod sesiynau hyfforddiant ffurfiol yn cael eu cynnal gan bartneriaid sy'n gweithio mewn gofodau llyfrgell. Cynhelir arolwg sampl o gymorth anffurfiol ym mis Hydref 2025.

## Mynediad a defnydd (DA 6-8)

Mae perfformiad Merthyr Tudful mewn perthynas â'r Nifer sy'n mynychu digwyddiadau llyfrgell wedi gwella tipyn o gymharu â 2023-24 (DA6). Mae nifer y digwyddiadau a drefnwyd wedi cynyddu o 418 yn 2023-24 i 658 yn 2024-25. Mae'r nifer sy'n mynychu a adroddwyd wedi tyfu mwy na hanner can waith drosodd, ac mae'n agos i ffigur 2022-23. Nod llawer o ddigwyddiadau llyfrgell yw lleihau ynysigrwydd cymdeithasol. Ymhlith y digwyddiadau roedd amser stori, sesiynau ysgrifennu creadigol, menywod yn cadw cofnodion iechyd, Sgwrs Gerdded, cymorth gwaith cartref ac arddangosfeydd celf.

Merthyr Tudful yw'r gwasanaeth yn y safle isaf yn genedlaethol am ymweliadau rhithwir (DA8). Fodd bynnag, mae'r gwasanaeth yn nodi nad oes teclyn wedi'i osod eto ar y wefan llyfrgelloedd newydd i ddarparu data ar ffigurau ymwelwyr, felly mae'r ffigur ond yn cyfrif ymweliadau â phorthol Llyfrgelloedd Cymru. Mae'r gwasanaeth yn y chwartel isaf yn genedlaethol am e-fenthyciadau am bob pen o'r boblogaeth. Fodd bynnag, mae e-fenthyciadau wedi mwy na dyblu o gymharu â 2023-24.

## Arbenigedd a chapasiti (DA 13-14 ac 16)

Mae Merthyr Tudful bellach yn bodloni'r targed am ganran DPP staff; yn wir, mae'n meddu ar y ganran gydradd uchaf yn genedlaethol am y mesur hwn. Fodd bynnag, mae cyfanswm staff a staff cymwysedig am bob pen o'r boblogaeth yn is na'r canolrif o hyd, ac nid yw'r gwasanaeth yn bodloni'r naill darged na'r llall o'r rhain (DA13). Serch hynny, mae'r sefyllfa'n gwella. Crëwyd dwy swydd cynorthwyydd llyfrgell amser llawn a swydd allgyrraedd llyfrgelloedd ran-amser (0.4) yn 2024-25. Er, ar hyn o bryd, dim ond y Llyfrgellydd Gweithrediadau sy'n meddu ar gymhwyster llyfrgell ffurfio, bydd aelod pellach o'r staff yn dechrau cwrs MA mewn Astudiaethau Gwybodaeth cyn bo hir trwy ddysgu o bell.

Mae Merthyr Tudful yn y chwartel isaf yn genedlaethol am Wariant gweithredol am bob pen o'r boblogaeth; mae gwariant refeniw am bob pen o'r boblogaeth wedi cynyddu 2% o gymharu â 2023-24 (DA14). Fodd bynnag, mae'r gwasanaeth yn neilltuo cyfran sylweddol o'r gyllideb i ddeunyddiau, ac mae yn chwartel uchaf awdurdodau llyfrgell Cymru am y gyllideb lyfrau am bob pen o'r boblogaeth, ac mae'r gyllideb lyfrau wedi cynyddu 10% o gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

Mae Oriau agor am bob pen o'r boblogaeth (DA16) a adroddwyd wedi gostwng eleni, ac nid yw'r gwasanaeth yn bodloni'r targed hwn. Mae yn y chwartel isaf yn genedlaethol am y mesur hwn. Dim ond yn ffurflen eleni y gwelwyd effaith lawn y gostyngiad i oriau agor y llyfrgelloedd a gyflwynwyd o fis Medi 2024 (a adroddwyd yn ffurflen 2023-24). Mae ymgynghoriad ynghylch oriau agor wedi'i gynnal mewn ymateb i bryderon defnyddwyr llyfrgell am y gostyngiad i oriau agor llyfrgelloedd. Mae'r gwasanaeth yn adrodd ei bod yn debygol y caiff rhai newidiadau eu gwneud i oriau agor llyfrgelloedd, er bod oriau agor ychwanegol yn annhebygol.

# Y cyd-destun strategol

Yn rhan o'r ffurflen, mae gofyn i awdurdodau adrodd ar y ffordd mae'r gwasanaeth llyfrgelloedd yn cyfrannu at flaenoriaethau a nodau strategol ehangach Llywodraeth Cymru. Amlygodd Merthyr Tudful ystod o weithgareddau sy'n dangos sut y cyfrannodd llyfrgelloedd at nodau Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, a blaenoriaethau cenedlaethol, gan gynnwys y canlynol:

- **Cymru lewyrchus** e.e. mynediad am ddim i gyfarpar TG i gefnogi busnesau lleol wrth ddylunio ac argraffu dogfennau; gwasanaethau llungopïo ac argraffu cost isel; a lle i gynnal cyfarfodydd.
- **Cymru gydnerth** e.e. partneru â Chymunedau am Waith a Hwb Cymunedol Cwmpawd i gefnogi ceiswyr gwaith; a gweithio gyda Dechrau'n Deg i ddarparu sesiynau cymorth iaith cynnar i rieni a theuluoedd.
- **Cymru iachach** e.e. trefnu Sesiynau Menywod yn Cadw Cofnodion Iechyd i gefnogi iechyd meddwl.

- **Cymru o gymunedau cydlynus** e.e. digwyddiadau cymunedol sy'n meithrin cysylltiad fel sesiynau allgyrraedd Diwrnod Empathi, sesiynau Sgwrs Gerdded a sgyrsiau hanes lleol; creu gofod cynhwysol gydag arddangosiadau llyfrau yn dathlu Balchder Pride, Mis Hanes Pobl Ddu a Diwrnod Coffáu'r Holocost; a chynnig cyfleoedd gwirfoddoli gan gynnwys project Gardd Goffa'r Llyfrgell.
- **Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu** e.e. sesiynau creadigol gan gynnwys grwpiau celf, clybiau ysgrifennu, clybiau comigau, gweu a sgwrs a grwpiau llyfrau; sgyrsiau gan awduron yn Gymraeg a Saesneg; a gweithio gyda Chymraeg i Blant i ddarparu sesiynau tylino babis dwyieithog a sesiynau yoga i fabanod i gyflwyno'r Gymraeg i deuluoedd.
- **Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang** e.e. trawsnewid tir diffaith y tu ôl i Lyfrgell Merthyr Tudful yn Ardd Goffa; cydweithio ar osod Pwyntiau gwefru ceir trydan mewn meysydd parcio llyfrgelloedd; gwasanaethu fel pwyntiau casglu ar gyfer eitemau trydanol bach, bagiau gwastraff bwyd a batris; a buddsoddi mewn technolegau arbed ynni fel goleuadau LED a systemau gwresogi effeithlon.

## Cyfeiriad at y dyfodol

Gan adrodd ar gyfeiriad yr awdurdod at y dyfodol, a'i gynlluniau ar gyfer y gwasanaeth llyfrgell dros y flwyddyn sydd i ddod, mae Merthyr Tudful yn cyfeirio at waith y Tîm Allgyrraedd Llyfrgelloedd wrth hyrwyddo'r gwasanaeth i bobl nad ydynt yn defnyddio'r llyfrgelloedd a sefydliadau addysgol. Mae cynllun i ailagor Llyfrgell Treharis, ynghyd â rhaglen hyrwyddo i ailgysylltu ag aelodau llyfrgell nad ydynt wedi adnewyddu eu haelodaeth, a denu cynulleidfaoedd newydd. Bydd Llyfrgelloedd Merthyr Tudful hefyd yn archwilio cydweithio gyda sefydliadau partner i sefydlu hybiau llyfrgell wedi'u staffio gan wirfoddolwyr, gan ymestyn mynediad i wasanaethau llyfrgell i bobl nad ydynt yn eu defnyddio ar hyn o bryd. Bwriedir cynnal adolygiad o'r strwythur staffio llyfrgelloedd. Yn ogystal, bydd y gwasanaeth yn gweithio gyda Llyfrgell Genedlaethol Cymru i hyrwyddo'r Cornel Clipiau.

## Casgliad

Mae'n amlwg bod y sefyllfa yn Llyfrgelloedd Merthyr Tudful wedi gwella mewn llawer o feysydd ers 2023-24. Mae'n gadarnhaol bod y gwasanaeth bellach yn bodloni 12 o'r 13 Hawl Graidd. Mae niferoedd staffio'n cynyddu'n raddol, mae darpariaeth TG yn cael ei gwella, mae mwy o weithgareddau'n cael eu cynnig, ac mae'r gyllideb lyfrau wedi cynyddu eleni. Fodd bynnag, mae effaith y problemau mae'r gwasanaeth wedi bod trwyddynt yn y blynyddoedd diwethaf yn dal i gael ei theimlo. Yn arbennig, mae'r gostyngiad i oriau agor wedi effeithio'n amlwg ar gwsmeriaid, ac mae hefyd yn cyfyngu ar allu'r gwasanaeth i weithio gyda phartneriaid sy'n dymuno defnyddio gofodau llyfrgell. Mae gan Lyfrgelloedd Merthyr Tudful strategaeth erbyn hyn i lywio'u datblygiad dros y blynyddoedd nesaf, ac mae'n amlwg o ffurflen eleni fod cynnydd yn cael ei wneud. Fodd bynnag, fel y nodwyd yn adroddiad blynyddol 2023-24, mae'n debygol y bydd y gwasanaeth yn cymryd sawl blwyddyn i adfer yn sgil yr heriau mae wedi'u hwynebu.

# Adroddiad Asesu Blynyddol 2024-25 Sir Fynwy

Mae'r adroddiad hwn wedi'i baratoi ar sail gwybodaeth a ddarparwyd gan ffurflen flynyddol Sir Fynwy, datganiadau effaith ac adroddiad naratif a gyflwynwyd i Is-adran Diwylliant Llywodraeth Cymru.

## Crynodeb gweithredol

Mae Sir Fynwy yn bodloni 12 o'r 13 Hawl Graidd yn llawn ac 1 yn rhannol. O'r 5 dangosydd ansawdd lle mae targedau, mae Sir Fynwy yn cyflawni 3 yn llawn ac 1 yn rhannol. Mae un targed sydd heb ei fodloni.

Yn 2023-24, codwyd pryderon difrifol am Lyfrgelloedd Sir Fynwy o ganlyniad i heriau'n gysylltiedig â staffio, argaeledd mannau gwasanaeth a darpariaeth deunyddiau. Fodd bynnag, mae ffurflen eleni yn dangos gwelliannau amlwg ym mherfformiad y gwasanaeth yn ystod 2024-25. Mae Sir Fynwy bellach yn bodloni'r targed o ran Lleoliad mannau gwasanaeth (DA7) yn llawn a'r targed ar gyfer Lefelau staffio a chymwysterau (DA13) yn rhannol. At hynny, mae gwariant gweithredol wedi cynyddu, er bod cyfran y gyllideb a ddyrannwyd i ddeunyddiau (y gyllideb lyfrau) wedi gostwng. Nodir bod y gwasanaeth wedi cymryd camau i fynd i'r afael â phryderon am hyfforddiant staff a amlygwyd yn adroddiad blynyddol 2023-24. Mae'r gwasanaeth yn perfformio'n dda ym maes e-fenthyciadau, ac mae'n amlwg bod Sir Fynwy yn datblygu mentrau cyflwyno ac ymgysylltu arloesol, gan gynnwys ymgysylltu ag ysgolion ac adnoddau ar gyfer pobl sy'n byw gyda dementia. At ei gilydd, felly, mae'r darlun yn amlwg yn un sy'n gwella er, fel y gellir deall, mae'n debygol o gymryd amser i'r gwasanaeth adfer yn sgil heriau ariannol a staffio'r blynyddoedd diwethaf. Fodd bynnag, mae pryderon yn parhau mewn rhai meysydd, yn arbennig, bod lefelau staffio'n parhau'n isel, ac nid yw'r gwasanaeth yn bodloni'r targed ar gyfer oriau agor o hyd. Mae’r gostyngiad i’r gyllideb lyfrau am bob pen o’r boblogaeth eleni yn peri pryder arbennig o ystyried y pryderon am y ddarpariaeth ddeunyddiau a nodwyd yn 2023-24.

- Mae'r nifer sy'n mynychu digwyddiadau wedi cynyddu 16% o gymharu â 2023-24 a 36% o gymharu â 2022-23 (DA6).
- Mae'r gwasanaeth yn y chwartel uchaf yn genedlaethol am e-fenthyciadau am bob pen o'r boblogaeth, am fod e-fenthyciadau wedi cynyddu 27% o gymharu â 2023-24 a 94% o gymharu â 2023-23 (DA8).
- Mae Sir Fynwy'n uwch na'r canolrif cenedlaethol am gymorth anffurfiol am bob pen o'r boblogaeth (DA5).

# Nodyn i adroddiad 2024-25

Yn ystod 2024-25, symudodd awdurdodau lleol yng Nghymru i Blatfform Llyfrgell Ddigidol newydd ar gyfer Cymru gyfan. Perwyd rhywfaint o darfu i weithrediad gwasanaethau llyfrgell yn ystod y broses symud, gan gynnwys mewn perthynas â chaffael stoc newydd, sef gwaith y bu'n rhaid ei atal am gyfnod wrth i wasanaethau unigol symud i'r system newydd. Mae rhywfaint o fân wahaniaethau hefyd yn ffurfwedd y platfform newydd, sy'n golygu nad yw data defnyddwyr yn ystod 2024-25 yn gwbl gyson. Felly, nid yw'r adroddiadau ar gyfer 2024-25 yn cynnwys y data a nodir isod ar gyfer Dangosyddion Ansawdd 4, 8, 9 a 10.

DA 4 Cymorth ar gyfer iechyd a lles
- c) nifer y benthyciadau o gyfres Darllen yn Well Cymru

DA 8 Defnydd o'r llyfrgell
- c) cyfanswm y benthycwyr gweithredol wedi'i rannu â maint y boblogaeth drigolion, a'i luosi â 1,000
- d) cyfanswm aelodau'r llyfrgell
- e) cyfanswm y llyfrau a fenthycwyd (oedolion a phlant ar wahân)
- f) cyfanswm yr eitemau clyweledol a fenthycwyd

DA 9 Deunydd darllen cyfoes a phriodol
- a) cyfradd gaffael isaf
- b) % a wariwyd ar adnoddau i blant

DA 10 Adnoddau yn y Gymraeg
- a) isafswm gwariant o 4%
- b) benthyciadau yn y Gymraeg am bob pen o'r boblogaeth

Caiff yr holl ddata ei adrodd a'i asesu ar gyfer 2025-26 (sef blwyddyn gyntaf Fframwaith 7), a chaiff y data hwn ei ddefnyddio i osod y meincnod ar gyfer y blynyddoedd sy'n weddill yn y fframwaith.

# Perfformiad yn erbyn y safonau

Mae'r fframwaith safonau'n cynnwys Hawliau Craidd, dangosyddion ansawdd gyda thargedau, dangosyddion ansawdd gyda meincnodau a mesurau effaith.

## Hawliau Craidd

Adroddodd Sir Fynwy ei bod wedi bodloni 12 o'r 13 Hawl Graidd yn llawn ac un yn rhannol trwy hunanasesu. Ar sail y sylwebaeth gynorthwyol a ddarparwyd, mae'r asesydd annibynnol yn cytuno gyda'r hunanasesiad. Mae'r gwasanaeth yn bodloni HG12 yn rhannol, am nad yw'r strategaeth llyfrgelloedd wedi'i chyhoeddi eto.

## Dangosyddion ansawdd gyda thargedau

Mae 12 dangosydd ansawdd (DA), y mae gan 5 ohonynt dargedau cyfansoddol. O'r rhain, mae Sir Fynwy yn cyflawni 3 yn llawn ac 1 yn rhannol. Mae un targed sydd heb ei fodloni.

DA 4 (a) Cymorth ar gyfer iechyd a lles, **bodlonwyd yn llawn ▲**
- i) Cynllun Darllen yn Well, **bodlonwyd**
- ii) Casgliad dynodedig iechyd a lles, **bodlonwyd**
- iii) Gwybodaeth am ffyrdd iachach o fyw ac ymddygiad iach, **bodlonwyd**
- iv) Cyfeirio at wasanaethau iechyd a lles, **bodlonwyd**

DA 6 Mae'r holl fannau gwasanaeth sefydlog yn cynnig digwyddiadau/gweithgareddau i ddefnyddwyr â gofynion arbennig, **bodlonwyd yn llawn ▲**

DA 7 Lleoliad mannau gwasanaeth, **bodlonwyd yn llawn ▲**

DA 13 Lefelau staffio a chymwysterau, **bodlonwyd yn rhannol ■**
- i) Staff am bob pen o'r boblogaeth, **ni fodlonwyd**
- ii) Staff cymwysedig am bob pen o'r boblogaeth, **ni fodlonwyd**
- iii) Cymwysterau/hyfforddiant pennaeth y gwasanaeth, **ni fodlonwyd**
- iv) Canran DPP, **bodlonwyd**

DA 16 Oriau agor am bob pen o'r boblogaeth, **ni fodlonwyd ●**

## Mesurau effaith

Mae'r fframwaith yn cynnwys tri dangosydd gyda'r nod o asesu effaith defnyddio llyfrgelloedd ar fywydau pobl. Nid oes targedau i'r dangosyddion hyn, ac mae disgwyl i awdurdodau gynnal arolygon defnyddwyr ar gyfer DA1 ar un achlysur yn ystod y cyfnod o 2022-23 i 2024-25. Cynhaliodd Sir Fynwy arolwg oedolion ym mis Mawrth 2023 ac arolwg plant ym mis Hydref 2022. Mae'r ffigyrau crynodol (isaf, canolrifol ac uchaf) wedi'u seilio ar ddata gan bob awdurdod a ddarparodd ddata yn ffurflenni 2022-23, 2023-24 a 2024-25. Mae'r safleoedd yn adlewyrchu nifer yr ymatebwyr, lle mai 1 yw'r awdurdod sy'n sgorio uchaf.

| Dangosydd perfformiad | | Safle | Isaf | Canolrifol | Uchaf |
|---|---|---|---|---|---|
| DA 1 Gwneud gwahaniaeth | | | | | |
| b) % y bobl ifanc sydd o'r farn bod y llyfrgell yn eu helpu i ddysgu a chael gwybod pethau: | 88% | 16/19 | 68% | 94% | 99% |
| e) % yr oedolion sydd o'r farn bod y llyfrgell wedi gwneud gwahaniaeth i'w bywydau: | 83% | =14/20 | 31% | 86.5% | 96% |
| DA 5 b) % y mynychwyr sesiynau hyfforddiant a ddywedodd fod yr hyfforddiant wedi'u helpu i gyflawni eu diben trwy fynychu: | 99% | =6/18 | 75% | 98.5% | 100% |

Gofynnir hefyd i awdurdodau ddarparu datganiad effaith yn disgrifio'r effaith mae'r

gwasanaeth llyfrgell wedi'i chael ar unigolyn neu ar grŵp o unigolion yn ystod y flwyddyn. Darparodd Sir Fynwy ddatganiad effaith yn disgrifio sut mae Hyb Cymunedol Cil-y-coed wedi trawsnewid ei rôl yn y gymuned trwy raglen arloesol yn ymgysylltu ag ysgolion. Gan ddechrau ym mis Medi 2023 gydag Ysgol Gynradd Rogiet, creodd yr hyb fodel o ymweliadau ysgol wythnosol sydd wedi ysbrydoli brwdfrydedd dros ddarllen a defnyddio'r llyfrgell ymysg plant lleol. Bob wythnos, mae gwahanol grwpiau blwyddyn yn cymryd rhan mewn sesiynau rhyngweithiol yn cynnwys adrodd storïau, barddoniaeth, cwisys a chrefftau. Mae pob plentyn yn benthyg llyfr i fynd ag e nôl i'r ysgol, gan annog chwant i ddarllen a meithrin ymdeimlad o berchnogaeth. Mae'r dull hwn wedi cyflwyno cannoedd o blant i amgylchedd y llyfrgell, gan arwain at gynnydd sylweddol mewn aelodau newydd i'r llyfrgell ymysg pobl ifanc.

Mae llwyddiant y rhaglen wedi'i gweld yn ymestyn yn 2024-25 ac erbyn hyn, mae'n cynnwys Ysgolion Cynradd Dewstow, Durand, Gwndi a Pharc y Castell, gyda sesiynau'n rhychwantu o'r Derbyn i Flwyddyn 6. Mae meithrinfeydd lleol, gan gynnwys meithrinfa cyfrwng Cymraeg, hefyd wedi ymuno, gan elwa ar y sesiynau dwyieithog sy'n hyrwyddo'r Gymraeg a diwylliant Cymru. Mae cynlluniau ar waith i ymestyn y rhaglen ymhellach gyda grwpiau Cymraeg o Ysgol Gyfun Cil-y-coed. Mae'r galw bellach yn fwy na'r capasiti, ac mae'r rhestr aros yn adlewyrchu enw da cadarn y rhaglen a'i heffaith ar gefnogi llythrennedd, ysbrydoli cariad at ddarllen, a chysylltiadau cymunedol cryfach.

## Dangosyddion ansawdd a meincnodau

Nid oes targedau i'r dangosyddion sy'n weddill, ond maent yn caniatáu i wasanaethau fonitro eu perfformiad dros amser. Mae'r tabl canlynol yn crynhoi safle Sir Fynwy ar gyfer 2024-25. Mae'r safleoedd yn adlewyrchu nifer yr ymatebwyr, lle mai 1 yw'r awdurdod sy'n sgorio uchaf. Caiff dangosyddion 'am bob pen o’r boblogaeth' eu cyfrifo fesul 1,000 o'r boblogaeth oni nodir fel arall.

| Dangosydd perfformiad | | Safle | Isaf | Canolrifol | Uchaf |
|---|---|---|---|---|---|
| DA 1 Gwneud gwahaniaeth | | | | | |
| a) % yr oedolion sydd o'r farn bod defnyddio'r llyfrgell wedi'u helpu i ddatblygu sgiliau newydd | 53% | 19/20 | 17% | 70% | 90% |
| c) iechyd a lles | 46% | 17/20 | 1% | 63% | 90% |
| d) pleserus, diogel a chynhwysol | 97% | =9/20 | 93% | 97% | 100% |
| DA 2 Bodlonrwydd cwsmeriaid | | | | | |
| a) dewis 'da iawn' neu 'dda' o lyfrau | 87% | =16/20 | 84% | 90.5% | 97% |
| b) gofal cwsmeriaid 'da iawn' neu 'dda' | 98% | =10/20 | 92% | 98% | 100% |
| c) cyfleusterau TG 'da iawn' neu 'dda' | 70% | =16/20 | 60% | 85% | 99% |
| d) 'da iawn' neu 'dda' yn gyffredinol | 96% | =15/20 | 85% | 98% | 100% |
| e) sgôr allan o ddeg ymysg defnyddwyr 16 oed ac iau | 9.3 | 11/18 | 8.0 | 9.4 | 9.7 |
| DA 5 Cymorth i ddefnyddwyr | | | | | |
| a) nifer yn mynychu am bob pen o'r boblogaeth | 2 | 20/21 | 1 | 28 | 214 |
| c) cymorth anffurfiol am bob pen o'r boblogaeth | 164 | 10/20 | 15 | 150 | 608 |
| DA 6 Nifer yn mynychu digwyddiadau am bob pen o'r boblogaeth | 220 | 12/22 | 14 | 224.5 | 764 |
| DA 8 Defnydd o'r llyfrgell | | | | | |
| b) ymweliadau rhithwir am bob pen o'r boblogaeth | 520 | 14/21 | 5 | 766 | 6,035 |
| DA 13 Lefelau staffio a chymwysterau[17] | | | | | |
| (v) a) cyfanswm y gwirfoddolwyr | 27 | Dd/B | 0 | 23 | 442 |
| b) oriau gwirfoddolwyr | 478 | Dd/B | 0 | 883 | 22,706 |
| DA 14 Gwariant gweithredol | | | | | |
| a) cyfanswm gwariant am bob pen o'r boblogaeth | £9,415 | 20/21 | £5,978 | £12,646 | £26,209 |
| b) % ar staff | 64% | =13/21 | 48% | 67% | 80% |
| % ar adnoddau gwybodaeth | 5% | 20/21 | 4% | 9% | 19% |
| % ar gyfarpar ac adeiladau | 15% | 3/21 | 0% | 2% | 29% |
| % ar gostau gweithredol eraill | 16% | =9/21 | 1% | 15% | 38% |

# Dadansoddiad o berfformiad

Mae modd rhannu'r Hawliau Craidd a'r dangosyddion ansawdd yn dri phrif faes. Mae'r adran hon o'r adroddiad yn amlinellu perfformiad o dan y meysydd hyn.

## Bodloni anghenion cwsmeriaid (DA 1-2, 4-5)

O gymharu Sir Fynwy â gwasanaethau eraill ar draws cyfnod Estyniad Fframwaith 6, mae'r gwasanaeth yn perfformio ar y canolrif ar gyfer defnyddwyr sydd o'r farn bod y llyfrgell yn bleserus, diogel a chynhwysol, ond mae'n is na'r canolrif ar gyfer gweddill y mesurau ym maes Gwneud gwahaniaeth (DA1). Mewn perthynas â Bodlonrwydd cwsmeriaid (DA2), mae Sir Fynwy ar y canolrif cenedlaethol am ofal cwsmeriaid, ond yn is na'r canolrif ar gyfer mesurau eraill bodlonrwydd cwsmeriaid.

[17] *Nid oes safleoedd wedi'u cynnwys ar gyfer gwirfoddolwyr am fod goblygiadau niferoedd gwirfoddolwyr yn aneglur.*

Mae'r gwasanaeth yn bodloni'r targed ym maes Cymorth ar gyfer iechyd a lles (DA4). Ym mis Chwefror 2025, lansiodd Sir Fynwy gasgliad o flychau atgofion, wedi'u llunio i sbarduno hel atgofion a chefnogi pobl sy'n byw gyda dementia, mewn cydweithrediad â'r Tîm Cymorth ac Ymwybyddiaeth Dementia.

Mae Sir Fynwy yn chwartel isaf awdurdodau llyfrgell Cymru am y nifer sy'n mynychu hyfforddiant ffurfiol am bob pen o'r boblogaeth, ac mae'r nifer sy'n mynychu a adroddwyd wedi gostwng 20% o gymharu â 2023-24. Caiff hyfforddiant ffurfiol ei ddarparu mewn partneriaeth â'r gwasanaeth Addysg i Oedolion a Chymunedol trwy gytundeb masnachfraint gyda Choleg Gwent. Dywedodd 99% o'r bobl a oedd yn mynychu (n=254, gan gynnwys rhai cyrsiau y tu allan i orchwyl SLICC) fod yr hyfforddiant wedi'u helpu i gyflawni eu diben trwy fynychu. Mae Sir Fynwy'n uwch na'r canolrif cenedlaethol am gymorth anffurfiol am bob pen o'r boblogaeth.

## Mynediad a defnydd (DA 6-8)

Mae'r nifer sy'n mynychu digwyddiadau wedi cynyddu 16% o gymharu â 2023-24, a 36% o gymharu â 2022-23 (DA6). Mae Sir Fynwy'n agos i'r canolrif cenedlaethol ar gyfer y mesur hwn. Cydweithiodd y gwasanaeth llyfrgell ag artistiaid perfformio lleol i ddatblygu perfformiad dwyieithog wedi'i ysbrydoli gan Mali a'r Môr Stormus gan Malachy Doyle ac Andrew Whitson, sydd wedi teithio ar draws pum awdurdod llyfrgell. Ymhlith y digwyddiadau eraill mae gwasanaethau carolau, dathliadau Nadoligaidd, noson gwis, a digwyddiadau cerddoriaeth fyw. Cynyddodd canran yr aelwydydd o fewn pellter dynodedig i fan gwasanaeth 1% yng nghyfrifiadau elen, ac mae Sir Fynwy bellach yn bodloni'r targed ar gyfer Lleoliad mannau gwasanaeth (DA7). Mae ymweliadau rhithwir wedi cynyddu 31% o gymharu â 2023-24, ond mae Sir Fynwy'n parhau i fod yn is na'r canolrif ar gyfer y mesur hwn (DA8). Mae'r gwasanaeth hefyd yn y chwartel uchaf yn genedlaethol am e-fenthyciadau am bob pen o'r boblogaeth, am fod e-fenthyciadau wedi cynyddu 27% o gymharu â 2023-24 a 94% o gymharu â 2022-23.

## Arbenigedd a chapasiti (DA 13-14 ac 16)

Mae perfformiad Sir Fynwy mewn perthynas â Lefelau staffio a chymwysterau (DA13) wedi gwella eleni, am fod y gwasanaeth bellach yn bodloni elfen hyfforddiant y dangosydd hwn. Yn wir, mae nifer yr oriau hyfforddiant staff a adroddwyd wedi cynyddu mwy na deunaw gwaith drosodd o gymharu â 2023-24. Fodd bynnag, nid yw lefelau staffio wedi newid ers y llynedd, ac nid oes gan y gwasanaeth reolwr gweithredol sy'n meddu ar gymhwyster llyfrgell ar hyn o bryd, er y nodir bod pennaeth y gwasanaethau llyfrgell yn ymgymryd â hyfforddiant Siarteriaeth CILIP. Mae gan Sir Fynwy nifer bach o wirfoddolwyr ar hyn o bryd, ond mae’n ystyried sut mae modd cynyddu'r gwasanaeth trwy gyfrwng gwirfoddolwyr. Wrth wneud hyn, dylai'r gwasanaeth sicrhau bod gwirfoddolwyr yn cael eu defnyddio'n unol ag arweiniad CILIP.

Er bod gwariant refeniw wedi cynyddu 12% o gymharu â 2023-24, mae Sir Fynwy yn parhau i fod yn y chwartel isaf yn genedlaethol am Wariant gweithredol am bob pen o'r boblogaeth (DA14). Mae'r gyllideb lyfrau am bob pen o'r boblogaeth hefyd yn y chwartel isaf ac mae wedi gostwng 7% o gymharu â ffigur 2023-24, am fod cyfran y gyllideb a ddyrannwyd i ddeunyddiau wedi gostwng o 6% i 5%. Sir Fynwy yw'r awdurdod llyfrgell yn y safle isaf am y gyllideb lyfrau am bob pen o'r boblogaeth. Mae oriau agor am bob pen o'r boblogaeth wedi gostwng ychydig (3%) o gymharu â 2023-24, felly mae'r gwasanaeth yn parhau i fod yn is na'r canolrif cenedlaethol ar gyfer y mesur hwn ac nid yw'n bodloni'r targed Oriau agor (DA16).

## Y cyd-destun strategol

Yn rhan o'r ffurflen, mae gofyn i awdurdodau adrodd ar y ffordd mae'r gwasanaeth llyfrgelloedd yn cyfrannu at flaenoriaethau a nodau strategol ehangach Llywodraeth Cymru. Nododd Sir Fynwy bum maes allweddol lle mae ei rhaglenni'n cefnogi blaenoriaethau strategol Lywodraeth Cymru:

- **Hyrwyddo dysgu a datblygu sgiliau** e.e. ymweliadau ymgysylltu ag ysgolion, clybiau gwaith cartref, grwpiau darllen i oedolion, cynlluniau benthyca dyfeisiau, cymorth un i un, a mynediad at blatfformau dysgu ar-lein.
- **Cefnogi iechyd a lles** e.e. partneru gyda byrddau iechyd lleol a thimau iechyd meddwl cymunedol i ddarparu Blychau Atgofion dementia-gyfeillgar a gweithgareddau creadigol fel dysgu wedi'i seilio ar goginio ac ymgysylltiad yn y celfyddydau.
- **Hyrwyddo'r Gymraeg a diwylliant Cymru** e.e. hyrwyddo Cymraeg 2050 trwy amser stori dwyieithog, datblygu stoc yn y Gymraeg a rhaglennu diwylliannol; a chydweithredu gydag ysgolion cyfrwng Cymraeg ac artistiaid lleol ar brosiectau fel perfformiad dwyieithog Mali a'r Môr Stormus.
- **Atgyfnerthu cymunedau a lleihau anghydraddoldeb** e.e. allgyrraedd trwy ddarpariaeth llyfrgelloedd symudol, ac ymgysylltiad wedi'i dargedu gydag ysgolion a chartrefi gofal i sicrhau mynediad teg.
- **Darparu gwerth a chynaliadwyedd** e.e. gwneud y mwyaf o bartneriaethau, ymgysylltiad cymunedol a chymorth.

## Cyfeiriad at y dyfodol

Gan adrodd ar gyfeiriad yr awdurdod at y dyfodol, a'i gynlluniau ar gyfer y gwasanaeth llyfrgell dros y flwyddyn sydd i ddod, mae Sir Fynwy'n cyfeirio at symud i gyfnod tyngedfennol o adnewyddu. Mae'r gwasanaeth yn cydnabod effaith sylweddol cyni parhaus ar staffio, argaeledd mannau gwasanaeth a darpariaeth stoc, ond mae'n parhau'n ymrwymedig i adfywio gwasanaethau llyfrgell gyda chefnogaeth Cyngor Sir Fynwy ac yn unol â'r Cynllun Cymunedol a Chorfforaethol 2022-28.

Un o'r blaenoriaethau pennaf yw datblygu Strategaeth Llyfrgelloedd Cyhoeddus newydd dros gyfnod o bum mlynedd, wedi'i llywio gan drafodaethau mewnol ac

ymgynghori â'r cyhoedd. Bydd y strategaeth hon yn sefydlu fframwaith clir a mesuradwy er mwyn sicrhau bod llyfrgelloedd yn parhau i fod yn ofodau sydd ar agor, yn hygyrch ac yn groesawgar sy'n hyrwyddo dysgu gydol oes, lles, cynhwysiant digidol ac ymgysylltiad diwylliannol. Bydd y strategaeth newydd hefyd yn adlewyrchu blaenoriaethau allweddol y Cyngor, gan gynnwys tegwch, gwytnwch cymunedol a chyfleoedd i bawb, gan gydnabod y rôl hanfodol mae llyfrgelloedd yn ei chwarae wrth gefnogi'r nodau hyn. Mae Sir Fynwy yn gobeithio y bydd hyn, ynghyd â phwyslais ar gydweithio, yn adfer hyder y cyhoedd ac yn sicrhau bod y gwasanaeth yn parhau i gyflawni effaith ystyrlon i drigolion ar draws y sir.

## Casgliad

Mae gwelliannau amlwg ym mherfformiad Sir Fynwy eleni. Mae'r gwasanaeth bellach yn bodloni'r targed o ran Lleoliad mannau gwasanaeth (DA7) yn llawn a'r targed ar gyfer Lefelau staffio a chymwysterau (DA13) yn rhannol. At hynny, mae gwariant gweithredol wedi cynyddu, er bod cyfran y gyllideb a ddyrannwyd i ddeunyddiau (y gyllideb lyfrau) wedi gostwng. Nodir bod y gwasanaeth wedi cymryd camau i fynd i'r afael â phryderon am hyfforddiant staff a darpariaeth adnoddau a amlygwyd yn adroddiad blynyddol 2023-24. Mae'r gwasanaeth yn perfformio'n dda ym maes e-fenthyciadau, ac mae'n amlwg bod Sir Fynwy yn datblygu mentrau cyflwyno ac ymgysylltu arloesol, gan gynnwys ymgysylltu ag ysgolion ac adnoddau ar gyfer pobl sy'n byw gyda dementia. At ei gilydd, felly, mae'r darlun yn amlwg yn un sy'n gwella er, fel y gellir deall, mae'n debygol o gymryd amser i'r gwasanaeth adfer yn sgil heriau'r blynyddoedd diwethaf. Fodd bynnag, mae pryderon yn parhau mewn rhai meysydd, yn arbennig, bod lefelau staffio heb eu cynyddu; nid yw’r gwasanaeth yn bodloni'r targed ar gyfer oriau agor o hyd; ac mae’r gyllideb lyfrau a gwariant refeniw cyffredinol yn y chwartel isel yn genedlaethol.

# Adroddiad Asesu Blynyddol 2024-25 Castell-nedd Port Talbot

Mae'r adroddiad hwn wedi'i baratoi ar sail gwybodaeth a ddarparwyd gan ffurflen flynyddol Castell-nedd Port Talbot, datganiadau effaith ac adroddiad naratif a gyflwynwyd i Is-adran Diwylliant Llywodraeth Cymru.

## Crynodeb gweithredol

Mae Castell-nedd Port Talbot yn bodloni pob un o'r 13 Hawl Graidd yn llawn. O'r 5 dangosydd ansawdd lle mae targedau, mae Castell-nedd Port Talbot yn cyflawni 3 yn llawn ac 1 yn rhannol. Mae un DA sydd heb ei fodloni.

Mae Castell-nedd Port Talbot yn parhau i berfformio'n dda mewn llawer o feysydd. Mae'n amlwg bod aelodau o'r gymuned leol yn gwerthfawrogi'r gwasanaeth llyfrgell, a bod ganddynt feddwl mawr amdano. Mae'r nifer sy'n mynychu digwyddiadau, hyfforddiant a chymorth anffurfiol yn parhau i fod ymhell yn uwch na chanolrif awdurdodau Cymru. Mae hefyd yn gadarnhaol bod y gyllideb lyfrau wedi'i chynyddu eleni. Fodd bynnag, mae pryderon am lefelau staffio ac oriau agor o hyd. Yn ogystal, mae'r gostyngiad yn nifer yr ymweliadau rhithwir yn rhywbeth y gallai'r gwasanaeth ddymuno ymchwilio iddo ymhellach er mwyn nodi rhesymau posibl dros hyn a gwneud unrhyw addasiadau angenrheidiol i wefan y llyfrgelloedd.

- Castell-nedd Port Talbot yw'r awdurdod cydradd uchaf yn genedlaethol am ganran yr oedolion sydd o'r farn bod defnyddio'r llyfrgell wedi eu helpu i ddatblygu sgiliau newydd, ac am y sgôr ymysg defnyddwyr 16 oed ac iau (DA1 a DA2).
- Mae'r nifer sy'n mynychu hyfforddiant ffurfiol a chymorth anffurfiol am bob pen o'r boblogaeth yn y chwartel uchaf yn genedlaethol (DA5).
- Mae'r nifer sy'n mynychu digwyddiadau am bob pen o'r boblogaeth yn parhau i fod yn uwch na chanolrif awdurdodau llyfrgell Cymru, ac mae wedi cynyddu 4% o gymharu â 2023-24 a 17% o gymharu â 2022-23 (DA6).

## Nodyn i adroddiad 2024-25

Yn ystod 2024-25, symudodd awdurdodau lleol yng Nghymru i Blatfform Llyfrgell Ddigidol newydd ar gyfer Cymru gyfan. Perwyd rhywfaint o darfu i weithrediad gwasanaethau llyfrgell yn ystod y broses symud, gan gynnwys mewn perthynas â chaffael stoc newydd, sef gwaith y bu'n rhaid ei atal am gyfnod wrth i wasanaethau unigol symud i'r system newydd. Mae rhywfaint o fân wahaniaethau hefyd yn

ffurfwedd y platfform newydd, sy'n golygu nad yw data defnyddwyr yn ystod 2024-25 yn gwbl gyson. Felly, nid yw'r adroddiadau ar gyfer 2024-25 yn cynnwys y data a nodir isod ar gyfer Dangosyddion Ansawdd 4, 8, 9 a 10.

DA 4 Cymorth ar gyfer iechyd a lles
c) nifer y benthyciadau o gyfres Darllen yn Well Cymru

DA 8 Defnydd o'r llyfrgell
c) cyfanswm y benthycwyr gweithredol wedi'i rannu â maint y boblogaeth drigolion, a'i luosi â 1,000
d) cyfanswm aelodau'r llyfrgell
e) cyfanswm y llyfrau a fenthycwyd (oedolion a phlant ar wahân)
f) cyfanswm yr eitemau clyweledol a fenthycwyd

DA 9 Deunydd darllen cyfoes a phriodol
a) cyfradd gaffael isaf
b) % a wariwyd ar adnoddau i blant

DA 10 Adnoddau yn y Gymraeg
a) isafswm gwariant o 4%
b) benthyciadau yn y Gymraeg am bob pen o'r boblogaeth

Caiff yr holl ddata ei adrodd a'i asesu ar gyfer 2025-26 (sef blwyddyn gyntaf Fframwaith 7), a chaiff y data hwn ei ddefnyddio i osod y meincnod ar gyfer y blynyddoedd sy'n weddill yn y fframwaith.

# Perfformiad yn erbyn y safonau

Mae'r fframwaith safonau'n cynnwys Hawliau Craidd, dangosyddion ansawdd gyda thargedau, dangosyddion ansawdd gyda meincnodau a mesurau effaith.

## Hawliau Craidd

Adroddodd Castell-nedd Port Talbot ei fod wedi bodloni pob un o'r 13 Hawl Graidd yn llawn trwy hunanasesu. Ar sail y sylwebaeth fanwl a defnyddiol a ddarparwyd, mae'r asesydd annibynnol yn cytuno gyda'r hunanasesiad.

## Dangosyddion ansawdd gyda thargedau

Mae 12 dangosydd ansawdd (DA), y mae gan 5 ohonynt dargedau cyfansoddol. O'r rhain, mae Castell-nedd Port Talbot yn cyflawni 3 yn llawn ac 1 yn rhannol. Mae un DA sydd heb ei fodloni.

DA 4 (a) Cymorth ar gyfer iechyd a lles, **bodlonwyd yn llawn** ▲
i) Cynllun Darllen yn Well, **bodlonwyd**
ii) Casgliad dynodedig iechyd a lles, **bodlonwyd**
iii) Gwybodaeth am ffyrdd iachach o fyw ac ymddygiad iach, **bodlonwyd**
iv) Cyfeirio at wasanaethau iechyd a lles, **bodlonwyd**

DA 6 Mae'r holl fannau gwasanaeth sefydlog yn cynnig digwyddiadau/gweithgareddau i ddefnyddwyr â gofynion arbennig, **bodlonwyd yn llawn ▲**

DA 7 Lleoliad mannau gwasanaeth, **bodlonwyd yn llawn ▲**

DA 13 Lefelau staffio a chymwysterau, **bodlonwyd yn rhannol ■**
i) Staff am bob pen o'r boblogaeth, **ni fodlonwyd**
ii) Staff cymwysedig am bob pen o'r boblogaeth, **ni fodlonwyd**
iii) Cymwysterau/hyfforddiant pennaeth y gwasanaeth, **bodlonwyd**
iv) Canran DPP, **bodlonwyd**

DA 16 Oriau agor am bob pen o'r boblogaeth, **ni fodlonwyd ●**

## Mesurau effaith

Mae'r fframwaith yn cynnwys tri dangosydd gyda'r nod o asesu effaith defnyddio llyfrgelloedd ar fywydau pobl. Nid oes targedau i'r dangosyddion hyn, ac mae disgwyl i awdurdodau gynnal arolygon defnyddwyr ar gyfer DA1 ar un achlysur yn ystod y cyfnod o 2022-23 i 2024-25. Mae'r ffigyrau crynodol (isaf, canolrifol ac uchaf) wedi'u seilio ar ddata gan bob awdurdod lleol a ddarparodd ddata yn ffurflenni 2022-23, 2023-24 a 2024-25. Cynhaliodd Castell-nedd Port Talbot arolwg oedolion ac arolwg plant ym mis Mawrth 2023. Mae'r safleoedd yn adlewyrchu nifer yr ymatebwyr, lle mai 1 yw'r awdurdod sy'n sgorio uchaf.

| Dangosydd perfformiad | | Safle | Isaf | Canolrifol | Uchaf |
|---|---|---|---|---|---|
| DA 1 Gwneud gwahaniaeth | | | | | |
| b) % y bobl ifanc sydd o'r farn bod y llyfrgell yn eu helpu i ddysgu a chael gwybod pethau: | 97% | 4/19 | 68% | 94% | 99% |
| e) % yr oedolion sydd o'r farn bod y llyfrgell wedi gwneud gwahaniaeth i'w bywydau: | 93% | =5/20 | 31% | 86.5% | 96% |
| DA 5 b) % y mynychwyr sesiynau hyfforddiant a ddywedodd fod yr hyfforddiant wedi'u helpu i gyflawni eu diben trwy fynychu: | 96% | 13/18 | 75% | 98.5% | 100% |

Gofynnir hefyd i awdurdodau ddarparu datganiad effaith yn disgrifio'r effaith mae'r gwasanaeth llyfrgell wedi'i chael ar unigolyn neu ar grŵp o unigolion yn ystod y flwyddyn. Darparodd Castell-nedd Port Talbot ddatganiad effaith yn dangos sut gall llyfrgelloedd drawsnewid bywydau trwy ddarparu cymorth wedi'i bersonoli, meithrin sgiliau digidol a chreu mannau croesawgar lle gall unigolion fagu hyder, canfod cymuned a darganfod cariad at ddarllen. Nid oedd gan Roy, a ymwelodd â Llyfrgell Sgiwen ym mis Mehefin 2024 ar ôl colli ei wraig, unrhyw brofiad o ddefnyddio gwasanaethau digidol. Ceisiodd help gan staff y llyfrgell, a nododd fod ei anghenion yn ymestyn y tu hwnt i gymorth TG cyffredin. Lluniodd staff restr o asiantaethau a allai roi cymorth ychwanegol a chroesawyd Roy fel ymwelydd cyson, gan ddarparu amgylchedd cefnogol a chyfeillgar. Aeth Roy i sesiynau hyfforddiant digidol un i un

ac mewn grŵp, ac yn fuan datblygodd hyder i ddefnyddio ffonau symudol, llechennau a gliniaduron - gan symud o ddechreuwr i ddefnyddiwr medrus mewn llai na chwe mis. Hefyd, dechreuodd Roy ddarparu cymorth a chyngor i eraill mewn dosbarthiadau dysgu digidol. Mae ei daith yn amlygu effaith rymusol mentrau cynhwysiant digidol mewn llyfrgelloedd. Yn ogystal â'i sgiliau digidol newydd, darganfyddodd Roy angerdd dros ddarllen storïau dirgel, gan ymgysylltu â chyd-ddefnyddwyr y llyfrgell i rannu argymhellion am lyfrau, ac mae wedi dod i ddefnyddio BorrowBox yn hyderus, gan ymestyn ei gyfleoedd i ddarllen a chofleidio adnoddau digidol pellach.

## Dangosyddion ansawdd a meincnodau

Nid oes targedau i'r dangosyddion sy'n weddill, ond maent yn caniatáu i wasanaethau fonitro eu perfformiad dros amser. Mae'r tabl canlynol yn crynhoi safle Castell-nedd Port Talbot ar gyfer 2024-25. Mae'r safleoedd yn adlewyrchu nifer yr ymatebwyr, lle mai 1 yw'r awdurdod sy'n sgorio uchaf. Caiff dangosyddion 'am bob pen o’r boblogaeth' eu cyfrifo fesul 1,000 o'r boblogaeth oni nodir fel arall.

| Dangosydd perfformiad | | Safle | Isaf | Canolrifol | Uchaf |
|---|---|---|---|---|---|
| DA 1 Gwneud gwahaniaeth | | | | | |
| a) % yr oedolion sydd o'r farn bod defnyddio'r llyfrgell wedi'u helpu i ddatblygu sgiliau newydd | 90% | =1/20 | 17% | 70% | 90% |
| c) iechyd a lles | 84% | =2/20 | 1% | 63% | 90% |
| d) pleserus, diogel a chynhwysol | 98% | =7/20 | 93% | 97% | 100% |
| DA 2 Bodlonrwydd cwsmeriaid | | | | | |
| a) dewis 'da iawn' neu 'dda' o lyfrau | 96% | 2/20 | 84% | 90.5% | 97% |
| b) gofal cwsmeriaid 'da iawn' neu 'dda' | 99% | =2/20 | 92% | 98% | 100% |
| c) cyfleusterau TG 'da iawn' neu 'dda' | 90% | =5/20 | 60% | 85% | 99% |
| d) 'da iawn' neu 'dda' yn gyffredinol | 98% | =7/20 | 85% | 98% | 100% |
| e) sgôr allan o ddeg ymysg defnyddwyr 16 oed ac iau | 9.7 | =1/18 | 8.0 | 9.4 | 9.7 |
| DA 5 Cymorth i ddefnyddwyr | | | | | |
| a) nifer yn mynychu am bob pen o’r boblogaeth | 41 | 5/21 | 1 | 28 | 214 |
| c) cymorth anffurfiol am bob pen o’r boblogaeth | 441 | 2/20 | 15 | 150 | 608 |
| DA 6 Nifer yn mynychu digwyddiadau am bob pen o’r boblogaeth | 415 | 6/22 | 14 | 224.5 | 764 |
| DA 8 Defnydd o’r llyfrgell | | | | | |
| b) ymweliadau rhithwir am bob pen o’r boblogaeth | 196 | 19/21 | 5 | 766 | 6,035 |
| DA 13 Lefelau staffio a chymwysterau[18] | | | | | |

[18] *Nid oes safleoedd wedi'u cynnwys ar gyfer gwirfoddolwyr am fod goblygiadau niferoedd gwirfoddolwyr yn aneglur.*

| Dangosydd perfformiad | | Safle | Isaf | Canolrifol | Uchaf |
|---|---|---|---|---|---|
| (v) a) cyfanswm y gwirfoddolwyr | 23 | DD/B | 0 | 23 | 442 |
| b) oriau gwirfoddolwyr | 776 | DD/B | 0 | 883 | 22,706 |
| DA 14 Gwariant gweithredol | | | | | |
| a) cyfanswm gwariant am bob pen o'r boblogaeth | £13,860 | 7/21 | £5,978 | £12,646 | £26,209 |
| b) % ar staff | 60% | 16/21 | 48% | 67% | 80% |
| % ar adnoddau gwybodaeth | 9% | =11/21 | 4% | 9% | 19% |
| % ar gyfarpar ac adeiladau | 2% | =11/21 | 0% | 2% | 29% |
| % ar gostau gweithredol eraill | 30% | 4/21 | 1% | 15% | 38% |

# Dadansoddiad o berfformiad

Mae modd rhannu'r Hawliau Craidd a'r dangosyddion ansawdd yn dri phrif faes. Mae'r adran hon o'r adroddiad yn amlinellu perfformiad o dan y meysydd hyn.

## Bodloni anghenion cwsmeriaid (DA 1-2, 4-5)

Mae Castell-nedd Port Talbot yn perfformio'n dda mewn perthynas â Gwneud gwahaniaeth (DA1) a Bodlonrwydd cwsmeriaid (DA2); mae'n uwch na chanolrif awdurdodau llyfrgell Cymru am bob mesur a CNPT yw'r awdurdod cydradd uchaf yn genedlaethol am ganran yr oedolion sydd o'r farn bod defnyddio'r llyfrgell wedi eu helpu i ddatblygu sgiliau newydd, ac am y sgôr ymysg defnyddwyr 16 oed ac iau. Mae Castell-nedd Port Talbot yn bodloni'r targed ym maes Cymorth ar gyfer iechyd a lles (DA4), ac mae'r gwasanaeth yn gweithio gyda nifer o asiantaethau'n gysylltiedig ag iechyd gan gynnwys Gwasanaethau Cymdeithasol, Cydlynwyr Ardal Leol, Age Connects, Sefydliad Pobl Fyddarddall DeafBlind UK, Sightlife, Clinic Traed Symudol CNPT, a Macmillan. Mae'r nifer sy'n mynychu hyfforddiant ffurfiol a chymorth anffurfiol yn y chwartel uchaf yn genedlaethol a heb newid llawer ers 2023-24 (DA15).

## Mynediad a defnydd (DA 6-8)

Mae'r nifer sy'n mynychu digwyddiadau am bob pen o'r boblogaeth yn parhau i fod yn uwch na chanolrif awdurdodau llyfrgell Cymru, ac mae wedi cynyddu 4% o gymharu â 2023-24 a 17% ers 2022-23 (DA6). Ym mis Hydref 2024, cynhaliodd y gwasanaeth ei Ŵyl Llyfrau Plant gyntaf. Mae hefyd wedi dod yn bencampwr Croeso Cynnes. Ymhlith y digwyddiadau ar gyfer pobl â gofynion arbennig mae Sightlife ar gyfer pobl â nam ar eu golwg, boreau coffi ar gyfer ffoaduriaid o Wcráin, a chyfarfodydd Chai a Sgwrs.

Mae nifer yr ymweliadau rhithwir yn chwartel isaf awdurdodau llyfrgell Cymru, ac mae'r ffigur am ymweliadau rhithwir wedi gostwng 11% o gymharu â 2023-24 (DA8). Mae e-fenthyciadau wedi gostwng ychydig (1%) o gymharu â 2023-24, er bod Castell-nedd Port Talbot yn parhau i fod yn agos i'r canolrif.

### Arbenigedd a chapasiti (DA 13-14 ac 16)

Mewn perthynas â lefelau staffio a chymwysterau, mae Castell-nedd Port Talbot yn bodloni'r targedau ar gyfer canran DPP staff a chymwysterau'r pennaeth gwasanaeth, ond nid yw'n bodloni'r targedau ar gyfer cyfanswm staff na staff cymwysedig am bob pen o'r boblogaeth. Mae un aelod o staff yn gweithio tuag at Siarteriaeth CILIP. Mae'r gwasanaeth oddeutu'r canolrif cenedlaethol am gyfanswm staff, ac mae'n uwch na'r canolrif am staff cymwysedig am bob pen o'r boblogaeth. Gostyngodd cyfanswm staff 0.9 CALl, ond ni fu unrhyw newid yn nifer y staff cymwysedig. Mae gan y gwasanaeth 23 o wirfoddolwyr sy'n cefnogi digwyddiadau a gweithgareddau.

Mae gwariant gweithredol yn uwch na'r canolrif cenedlaethol, ac mae wedi cynyddu 7% o gymharu â 2023-24 (DA14). Mae'r gyllideb lyfrau am bob pen o'r boblogaeth ychydig yn uwch na chanolrif awdurdodau llyfrgell Cymru ac mae wedi cynyddu 9% o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Nid yw Castell-nedd Port Talbot yn bodloni'r targed ar gyfer oriau agor am bob pen o'r boblogaeth (DA16).

## Y cyd-destun strategol

Yn rhan o'r ffurflen, mae gofyn i awdurdodau adrodd ar y ffordd mae'r gwasanaeth llyfrgell yn cyfrannu at flaenoriaethau a nodau strategol ehangach Llywodraeth Cymru. Amlinellodd Castell-nedd Port Talbot sut mae eu gwaith yn alinio ag amcanion Cynllun Corfforaethol Castell-nedd Port Talbot 2024-27 a Strategaeth Diwylliant 2023 Castell-nedd Port Talbot, yn ogystal ag ystod o bolisïau a strategaethau cenedlaethol. Ymhlith yr enghreifftiau mae:

- Datblygu partneriaethau â Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe i gefnogi trigolion sy'n byw gyda chyflyrau iechyd corfforol a meddyliol hirdymor, gan wella mynediad i weithwyr proffesiynol iechyd yn y gymuned.
- Cynnal rhaglen gydweithredol o waith gyda menter Dechrau'n Deg Llywodraeth Cymru i ddarparu adnoddau, gweithgareddau a chymorth i blant yn y blynyddoedd cynnar a'u teuluoedd a'u gofalwyr.
- Cyflwyno sesiynau hyfforddiant ffurfiol gyda phartneriaid fel Prifysgol Abertawe a Dysgu Oedolion yn y Gymuned Powys a Chastell-nedd Port Talbot i helpu trigolion i wella'u sgiliau a gwella'u gobeithion o gael gwaith.
- Cefnogi Rhaglenni Gwella Gwyliau'r Haf Llywodraeth Cymru trwy gynnig ystod eang o ddigwyddiadau a gweithgareddau i blant yn ystod gwyliau'r ysgol.
- Creu Gŵyl Llyfrau Plant i roi cyfleoedd i blant gael profiad o ddigwyddiadau llenyddol o safon, ymgysylltu ag awduron a darlunwyr proffesiynol, a datblygu eu sgiliau creadigol eu hunain.
- Rhedeg rhaglen Her Ddarllen yr Haf a ddenodd y nifer uchaf erioed o blant yn cystadlu yn Llyfrgelloedd Castell-nedd Port Talbot, gan annog llythrennedd a darllen er pleser.

- Gweithio gyda'r Fenter Iaith a Dechrau'n Deg CNPT i ddarparu sesiynau cân a rhigwm i blant o dan dair oed a rhaglen o weithgareddau Cymraeg i blant ifanc.
- Darparu lle ac adnoddau mewn llyfrgelloedd yng nghanol y dref i gefnogi busnesau bach a phobl hunangyflogedig.

## Cyfeiriad at y dyfodol

Gan adrodd ar gyfeiriad yr awdurdod at y dyfodol, a'i gynlluniau ar gyfer y gwasanaeth llyfrgell dros y flwyddyn sydd i ddod, y weledigaeth a nodwyd yn y Strategaeth Llyfrgelloedd 2025-30 newydd fydd yn llywio Castell-nedd Port Talbot: sef i ddarparu gwasanaeth llyfrgell bywiog a chynhwysol i holl drigolion ac ymwelwyr â Chastell-nedd Port Talbot, gan ysbrydoli'r dychymyg a dysgu, a chreu amgylchedd er mwyn iddynt gyflawni eu potensial. Mae'r strategaeth yn ymrwymo i ddarparu gwasanaethau trwy rwydwaith cadarn a chynaliadwy o lyfrgelloedd cyhoeddus, gan gynnwys rhai dan reolaeth yr Awdurdod Lleol a safleoedd a Reolir gan y Gymuned, gan sicrhau bod yr holl ofodau'n parhau'n ddiogel, yn groesawgar ac yn gefnogol i ymgysylltiad cymunedol trwy ddarllen, technoleg, a chysylltiadau â diwylliant a threftadaeth.

Mae'r strategaeth yn pwysleisio ymgysylltiad cymunedol; llythrennedd digidol; a llyfrgelloedd fel gofodau ar gyfer rhyngweithio cymdeithasol, dysgu a digwyddiadau diwylliannol. Mae Castell-nedd Port Talbot yn adrodd y byddant yn gweithio i wella cyfleusterau, yn buddsoddi mewn technolegau cynaliadwy ac yn rhoi darllen wrth galon gweithgareddau llyfrgell. Mae'n fwriad hefyd gan y gwasanaeth integreiddio i raddau helaethach gyda gwasanaethau eraill yr awdurdod lleol i wella cynnig y llyfrgell.

## Casgliad

Mae Castell-nedd Port Talbot yn parhau i berfformio'n dda mewn llawer o feysydd. Mae'n amlwg bod aelodau o'r gymuned leol yn gwerthfawrogi'r gwasanaeth llyfrgell, a bod ganddynt feddwl mawr amdano. Mae'r nifer sy'n mynychu digwyddiadau, hyfforddiant a chymorth anffurfiol yn parhau i fod ymhell yn uwch na chanolrif awdurdodau Cymru. Mae hefyd yn gadarnhaol bod y gyllideb lyfrau wedi'i chynyddu eleni. Fodd bynnag, mae pryderon am lefelau staffio ac oriau agor o hyd. Yn ogystal, mae'r gostyngiad yn nifer yr ymweliadau rhithwir yn rhywbeth y gallai'r gwasanaeth ddymuno ymchwilio iddo ymhellach er mwyn nodi rhesymau posibl dros hyn a gwneud unrhyw addasiadau angenrheidiol i wefan y llyfrgelloedd.

# Adroddiad Asesu Blynyddol 2024-25 Casnewydd

Mae'r adroddiad hwn wedi'i baratoi ar sail gwybodaeth a ddarparwyd gan ffurflen flynyddol Casnewydd, datganiadau effaith ac adroddiad naratif a gyflwynwyd i Is-adran Diwylliant Llywodraeth Cymru.

## Crynodeb gweithredol

Adroddodd Casnewydd ei fod wedi bodloni 12 o'r 13 Hawl Graidd yn llawn ac un yn rhannol trwy hunanasesu. Fodd bynnag, mae'r asesydd annibynnol o'r farn bod y gwasanaeth wedi bodloni 11 Hawl Graidd yn llawn a 2 yn rhannol. O'r 5 dangosydd ansawdd lle mae targedau, mae Casnewydd yn cyflawni 3 yn llawn ac 1 yn rhannol. Mae un targed sydd heb ei fodloni.

Fel oedd yn wir yn 2023-24, mae Casnewydd yn perfformio'n dda mewn rhai meysydd, gan gynnwys darpariaeth hyfforddiant ffurfiol ac ymweliadau rhithwir. Mae'r gwasanaeth wedi datblygu perthnasau cadarn gydag ysgolion lleol ac amrywiaeth o randdeiliaid cymunedol yn ardal Casnewydd. Mae recriwtio Llyfrgellydd Cymunedol eleni'n ddatblygiad cadarnhaol ar gyfer cyflwyno'r gwasanaeth, a'r gobaith yw y bydd y swydd hon yn gallu helpu i gynyddu ymgysylltu, gan gynnwys o ran mynychu digwyddiadau a chymorth ar gyfer ystod amrywiol o grwpiau cymunedol. Fodd bynnag, mae'r sefyllfa mewn perthynas ag agweddau allweddol ar y gwasanaeth llyfrgell yn peri pryderon difrifol. Mae'r gostyngiad graddol i'r oriau agor yn y blynyddoedd diwethaf, ynghyd â'r lefelau staffio isaf am bob pen o'r boblogaeth yn genedlaethol, bellach wedi cyrraedd lefel lle nad yw Casnewydd bellach yn bodloni Hawl Graidd 5, a rhagwelir y bydd gostyngiadau pellach ar gyfer 2025-26. Mae'n addawol bod y gwasanaeth wedi drafftio dogfen strategaeth erbyn hyn, er nad yw hon wedi'i chymeradwyo eto. Yn sylfaenol, fodd bynnag, bydd Casnewydd yn parhau i wynebu heriau sylweddol o ran cyflwyno gwasanaeth llyfrgell effeithiol tra bod lefelau cyllido'n parhau i fod cymaint yn is nag awdurdodau eraill yng Nghymru.

- Mae Casnewydd yn chwartel uchaf awdurdodau llyfrgell Cymru am sesiynau hyfforddiant ffurfiol am bob pen o'r boblogaeth, ac mae'r nifer sy'n mynychu wedi cynyddu 45% o gymharu â 2023-24, a 58% o gymharu â 2022-23 (DA5).
- Mae Casnewydd yn uwch na'r canolrif cenedlaethol ar gyfer ymweliadau rhithwir, sydd wedi cynyddu 14% o gymharu â 2023-24 a 31% ers 2022-23 (DA8).
- Mae e-fenthyciadau am bob pen o'r boblogaeth wedi cynyddu; maen nhw 38% yn uwch nag yn 2023-24, ac yn fwy na dwywaith ffigur 2022-23 (DA8).

## Nodyn i adroddiad 2024-25

Yn ystod 2024-25, symudodd awdurdodau lleol yng Nghymru i Blatfform Llyfrgell Ddigidol newydd ar gyfer Cymru gyfan. Perwyd rhywfaint o darfu i weithrediad gwasanaethau llyfrgell yn ystod y broses symud, gan gynnwys mewn perthynas â chaffael stoc newydd, sef gwaith y bu'n rhaid ei atal am gyfnod wrth i wasanaethau unigol symud i'r system newydd. Mae rhywfaint o fân wahaniaethau hefyd yn ffurfwedd y platfform newydd, sy'n golygu nad yw data defnyddwyr yn ystod 2024-25 yn gwbl gyson. Felly, nid yw'r adroddiadau ar gyfer 2024-25 yn cynnwys y data a nodir isod ar gyfer Dangosyddion Ansawdd 4, 8, 9 a 10.

DA 4 Cymorth ar gyfer iechyd a lles
- c) nifer y benthyciadau o gyfres Darllen yn Well Cymru

DA 8 Defnydd o'r llyfrgell
- c) cyfanswm y benthycwyr gweithredol wedi'i rannu â maint y boblogaeth drigolion, a'i luosi â 1,000
- d) cyfanswm aelodau'r llyfrgell
- e) cyfanswm y llyfrau a fenthycwyd (oedolion a phlant ar wahân)
- f) cyfanswm yr eitemau clyweledol a fenthycwyd

DA 9 Deunydd darllen cyfoes a phriodol
- a) cyfradd gaffael isaf
- b) % a wariwyd ar adnoddau i blant

DA 10 Adnoddau yn y Gymraeg
- a) isafswm gwariant o 4%
- b) benthyciadau yn y Gymraeg am bob pen o'r boblogaeth

Caiff yr holl ddata ei adrodd a'i asesu ar gyfer 2025-26 (sef blwyddyn gyntaf Fframwaith 7) a chaiff y data hwn ei ddefnyddio i osod y meincnod ar gyfer y blynyddoedd sy'n weddill yn y fframwaith.

## Perfformiad yn erbyn y safonau

Mae'r fframwaith safonau'n cynnwys Hawliau Craidd, dangosyddion ansawdd gyda thargedau, dangosyddion ansawdd gyda meincnodau a mesurau effaith.

### Hawliau Craidd

Adroddodd Casnewydd ei fod wedi bodloni 12 o'r 13 Hawl Graidd yn llawn ac 1 yn rhannol trwy hunanasesu. Ar sail y sylwebaeth fanwl a chynorthwyol a ddarparwyd, mae'r asesydd annibynnol o'r farn bod y gwasanaeth wedi bodloni 11 Hawl Graidd yn llawn a 2 yn rhannol.

**27. Mae llyfrgelloedd yng Nghymru yn rhad ac am ddim i ymuno â nhw, ac yn agored i bawb.**
Hunanasesiad: Bodlonwyd yn llawn

Asesydd Annibynnol: **Bodlonwyd yn llawn ▲**

**28. Mae llyfrgelloedd yng Nghymru yn sicrhau bod staff cyfeillgar, gwybodus a chymwysedig wrth law i helpu.**

Hunanasesiad: Bodlonwyd yn llawn

Asesydd Annibynnol: **Bodlonwyd yn llawn ▲**

**29. Mae llyfrgelloedd yng Nghymru yn darparu mynediad at ystod o wasanaethau, gweithgareddau ac adnoddau o safon uchel mewn sawl fformat i gefnogi dysgu gydol oes, iechyd a lles personol, cyfranogiad cymunedol, profiadau diwylliannol, hamdden, a darllen er pleser.**

Hunanasesiad: Bodlonwyd yn llawn

Asesydd Annibynnol: **Bodlonwyd yn llawn ▲**

**30. Mae llyfrgelloedd yng Nghymru yn darparu gwasanaethau, cyfleusterau ac adnoddau gwybodaeth priodol i unigolion a grwpiau sydd ag anghenion arbennig.**

Hunanasesiad: Bodlonwyd yn llawn

Asesydd Annibynnol: **Bodlonwyd yn llawn ▲**

**31. Mae llyfrgelloedd yn darparu gofod ffisegol diogel, deniadol a hygyrch sydd ag oriau agor addas dan ofal staff.**

Hunanasesiad: Bodlonwyd yn llawn

Asesydd Annibynnol: **Bodlonwyd yn rhannol ■**

Mae hyn oherwydd y gostyngiad parhaus i oriau agor a'r diffyg tystiolaeth bod mesurau wedi'u cymryd i sicrhau bod oriau agor yn bodloni anghenion lleol.

**32. Mae llyfrgelloedd yng Nghymru yn benthyca llyfrau am ddim ac yn cynnig mynediad am ddim i wybodaeth, gan gynnwys adnoddau gwybodaeth ar-lein ar gael 24 awr y dydd.**

Hunanasesiad: Bodlonwyd yn llawn

Asesydd Annibynnol: **Bodlonwyd yn llawn ▲**

**33. Mae llyfrgelloedd yng Nghymru yn darparu'r Rhyngrwyd, gan gynnwys Wi-Fi, a mynediad at gyfarpar digidol yn rhad ac am ddim ym mhob man gwasanaeth.**

Hunanasesiad: Bodlonwyd yn llawn

Asesydd Annibynnol: **Bodlonwyd yn llawn ▲**

**34. Mae llyfrgelloedd yng Nghymru yn darparu mynediad at wasanaethau, gweithgareddau diwylliannol ac adnoddau o ansawdd uchel yn y Gymraeg.**

Hunanasesiad: Bodlonwyd yn llawn

Asesydd Annibynnol: **Bodlonwyd yn llawn ▲**

**35. Mae llyfrgelloedd yng Nghymru yn gweithio mewn partneriaeth i rannu catalogau a hwyluso mynediad i adnoddau holl lyfrgelloedd Cymru.**

Hunanasesiad: Bodlonwyd yn llawn

Asesydd Annibynnol: **Bodlonwyd yn llawn ▲**

**36. Mae llyfrgelloedd yng Nghymru yn cydweithio ag amrywiaeth o bartneriaid i hyrwyddo a darparu gwasanaethau i gynulleidfaoedd newydd ac amrywiol, gan alluogi rhagor o bobl i elwa o'r gwasanaethau hynny.**

Hunanasesiad: Bodlonwyd yn llawn

Asesydd Annibynnol: **Bodlonwyd yn llawn ▲**

**37. Mae llyfrgelloedd yng Nghymru yn ymgynghori â defnyddwyr yn rheolaidd i gasglu eu barn ar y gwasanaeth a chasglu gwybodaeth am eu hanghenion newidiol.**

Hunanasesiad: Bodlonwyd yn llawn

Asesydd Annibynnol: **Bodlonwyd yn llawn ▲**

**38. Mae llyfrgelloedd yng Nghymru yn trefnu bod eu strategaeth, eu polisïau, eu hamcanion a'u gweledigaeth ar gyfer y gwasanaeth llyfrgelloedd ar gael i'w gweld, mewn print ac ar-lein, mewn amrywiaeth o ieithoedd fel y bo'n briodol i'r gymuned.**

Hunanasesiad: Bodlonwyd yn rhannol

Asesydd Annibynnol: **Bodlonwyd yn rhannol ■**

Mae strategaeth llyfrgelloedd newydd wedi'i drafftio, a bydd cymeradwyaeth iddi'n cael ei cheisio'n ddiweddarach yn 2025.

**39. Mae llyfrgelloedd yng Nghymru yn darparu cymorth er mwyn helpu pobl i wella'u sgiliau digidol a'u hyder, gan gynnwys defnyddio gwasanaethau e-lywodraeth**

Hunanasesiad: Bodlonwyd yn llawn

Asesydd Annibynnol: **Bodlonwyd yn llawn ▲**

## Dangosyddion ansawdd gyda thargedau

Mae 12 dangosydd ansawdd (DA), y mae gan 5 ohonynt dargedau cyfansoddol. O'r rhain, mae Casnewydd yn cyflawni 3 yn llawn ac 1 yn rhannol. Mae un targed sydd heb ei fodloni.

DA 4 (a) Cymorth ar gyfer iechyd a lles, **bodlonwyd yn llawn ▲**

i) Cynllun Darllen yn Well, **bodlonwyd**

ii) Casgliad dynodedig iechyd a lles, **bodlonwyd**

iii) Gwybodaeth am ffyrdd iachach o fyw ac ymddygiad iach, **bodlonwyd**
iv) Cyfeirio at wasanaethau iechyd a lles, **bodlonwyd**

DA 6 Mae'r holl fannau gwasanaeth sefydlog yn cynnig digwyddiadau/gweithgareddau i ddefnyddwyr â gofynion arbennig, **bodlonwyd yn llawn ▲**

DA 7 Lleoliad mannau gwasanaeth, **bodlonwyd yn llawn ▲**

DA 13 Lefelau staffio a chymwysterau, **bodlonwyd yn rhannol ■**
i) Staff am bob pen o'r boblogaeth, **ni fodlonwyd**
ii) Staff cymwysedig am bob pen o'r boblogaeth, **ni fodlonwyd**
iii) Cymwysterau/hyfforddiant pennaeth y gwasanaeth, **bodlonwyd**
iv) Canran DPP, **bodlonwyd**

DA 16 Oriau agor am bob pen o'r boblogaeth, **ni fodlonwyd ●**

## Mesurau effaith

Mae'r fframwaith yn cynnwys tri dangosydd gyda'r nod o asesu effaith defnyddio llyfrgelloedd ar fywydau pobl. Nid oes targedau i'r dangosyddion hyn, ac mae disgwyl i awdurdodau gynnal arolygon defnyddwyr ar gyfer DA1 ar un achlysur yn ystod y cyfnod o 2022-23 i 2024-25. Cynhaliodd Casnewydd arolwg oedolion ac arolwg plant ym mis Mawrth 2023. Mae'r ffigyrau crynodol (isaf, canolrifol ac uchaf) wedi'u seilio ar ddata gan bob awdurdod a ddarparodd ddata yn ffurflenni 2022-23, 2023-24 a 2024-25. Mae'r safleoedd yn adlewyrchu nifer yr ymatebwyr, lle mai 1 yw'r awdurdod sy'n sgorio uchaf.

| Dangosydd perfformiad | | Safle | Isaf | Canolrifol | Uchaf |
|---|---|---|---|---|---|
| DA 1 Gwneud gwahaniaeth | | | | | |
| b) % y bobl ifanc sydd o'r farn bod y llyfrgell yn eu helpu i ddysgu a chael gwybod pethau: | 93% | 11/19 | 68% | 94% | 99% |
| e) % yr oedolion sydd o'r farn bod y llyfrgell wedi gwneud gwahaniaeth i'w bywydau: | 93% | =5/20 | 31% | 86.5% | 96% |
| DA 5 b) % y mynychwyr sesiynau hyfforddiant a ddywedodd fod yr hyfforddiant wedi'u helpu i gyflawni eu diben trwy fynychu: | Dd/B | Dd/B | 75% | 98.5% | 100% |

Gofynnir hefyd i awdurdodau ddarparu datganiad effaith yn disgrifio'r effaith mae'r gwasanaeth llyfrgell wedi'i chael ar unigolyn neu ar grŵp o unigolion yn ystod y flwyddyn. Darparodd Casnewydd ddatganiad effaith a gyfeiriodd at y cymorth a ddarparwyd i'r gymuned Wcreinaidd yn Llyfrgell Ganolog Casnewydd. Mae'r llyfrgell yn darparu gofod tawel a chroesawgar ar gyfer grwpiau cymorth, ac yn cynnal gweithdai ysgrifennu a dathliadau diwylliannol. Trwy gynnig amgylchedd lle gall unigolion o bob oedran ddod ynghyd, rhannu profiadau a chael mynediad i adnoddau, mae'r llyfrgell wedi chwarae rôl allweddol wrth helpu newydd-ddyfodiaid i

ymgartrefu a ffynnu. Mae darpariaeth y llyfrgell o ran clybiau llyfrau, grwpiau ysgrifennu creadigol a sesiynau sgiliau cyfrifiadurol trwy gyfrwng yr Wcreineg wedi grymuso aelodau ifanc y gymuned i wella'u Saesneg, datblygu llythrennedd digidol a magu hyder. Dywedodd un cyfranogydd, 17 oed, *"Pan ddes i i Gymru, roeddwn yn teimlo ar goll ac yn methu deall dim. Helpodd Llyfrgell Casnewydd fi i deimlo'n ddiogel eto",* tra bod un arall, 19 oed, wedi nodi, *"Rhoddodd y dosbarthiadau cyfrifiadura gyda chyfieithu hyder ifi... nawr dwi'n gallu ymgeisio am swyddi ac astudio ar-lein."*

Ym mis Ionawr 2025, cynhaliodd y llyfrgell ddigwyddiad diwylliannol, y daeth oddeutu 90 o aelodau o'r gymuned Wcreinaidd a defnyddwyr eraill y llyfrgell iddo, gan ddathlu treftadaeth trwy berfformiadau a rhannu ennyd a atgyfnerthodd ysbryd cymunedol. Mynegodd mynychwyr werthfawrogiad i staff cyfeillgar y llyfrgell, a sicrhaodd fod cyfarfodydd a digwyddiadau'n rhedeg yn llyfn, ac am offrymau hael fel lluniaeth a greodd awyrgylch cynnes. Dywedodd Iryna, aelod o'r grŵp, *"Hoffen ni fynegi ein gwerthfawrogiad diffuant i Lyfrgell Ganolog Casnewydd am ddarparu gofod mor groesawgar a chefnogol i gyfarfodydd ein Grŵp Cymunedol Wcreinaidd."*

## Dangosyddion ansawdd a meincnodau

Nid oes targedau i'r dangosyddion sy'n weddill, ond maent yn caniatáu i wasanaethau fonitro eu perfformiad dros amser. Mae'r tabl canlynol yn crynhoi safle Casnewydd ar gyfer 2024-25. Mae'r safleoedd yn adlewyrchu nifer yr ymatebwyr, lle mai 1 yw'r awdurdod sy'n sgorio uchaf. Caiff dangosyddion 'am bob pen o’r boblogaeth' eu cyfrifo fesul 1,000 o'r boblogaeth oni nodir fel arall.

| Dangosydd perfformiad | | Safle | Isaf | Canolrifol | Uchaf |
|---|---|---|---|---|---|
| DA 1 Gwneud gwahaniaeth | | | | | |
| a) % yr oedolion sydd o'r farn bod defnyddio'r llyfrgell wedi'u helpu i ddatblygu sgiliau newydd | 80% | 4/20 | 17% | 70% | 90% |
| c) iechyd a lles | 74% | 6/20 | 1% | 63% | 90% |
| d) pleserus, diogel a chynhwysol | 97% | =9/20 | 93% | 97% | 100% |
| DA 2 Bodlonrwydd cwsmeriaid | | | | | |
| a) dewis 'da iawn' neu 'dda' o lyfrau | 94% | =4/20 | 84% | 90.5% | 97% |
| b) gofal cwsmeriaid 'da iawn' neu 'dda' | 98% | =10/20 | 92% | 98% | 100% |
| c) cyfleusterau TG 'da iawn' neu 'dda' | 82% | =13/20 | 60% | 85% | 99% |
| d) 'da iawn' neu 'dda' yn gyffredinol | 97% | =12/20 | 85% | 98% | 100% |
| e) sgôr allan o ddeg ymysg defnyddwyr 16 oed ac iau | 9.5 | =5/18 | 8.0 | 9.4 | 9.7 |
| DA 5 Cymorth i ddefnyddwyr | | | | | |
| a) nifer yn mynychu am bob pen o'r boblogaeth | 44 | 4/21 | 1 | 28 | 214 |
| c) cymorth anffurfiol am bob pen o'r boblogaeth | 55 | 17/20 | 15 | 150 | 608 |
| DA 6 Nifer yn mynychu digwyddiadau am bob pen o'r boblogaeth | 99 | 21/22 | 14 | 224.5 | 764 |
| DA 8 Defnydd o'r llyfrgell | | | | | |
| b) ymweliadau rhithwir am bob pen o'r boblogaeth | 936 | 7/21 | 5 | 766 | 6,035 |
| DA 13 Lefelau staffio a chymwysterau[19] | | | | | |
| (v) a) cyfanswm y gwirfoddolwyr | 24 | Dd/B | 0 | 23 | 442 |
| b) oriau gwirfoddolwyr | 5,000 | Dd/B | 0 | 883 | 22,706 |
| DA 14 Gwariant gweithredol | | | | | |
| a) cyfanswm gwariant am bob pen o'r boblogaeth | £5,978 | 21/21 | £5,978 | £12,646 | £26,209 |
| b) % ar staff | 72% | 9/21 | 48% | 67% | 80% |
| % ar adnoddau gwybodaeth | 17% | =3/21 | 4% | 9% | 19% |
| % ar gyfarpar ac adeiladau | 4% | =6/21 | 0% | 2% | 29% |
| % ar gostau gweithredol eraill | 7% | =16/21 | 1% | 15% | 38% |

# Dadansoddiad o berfformiad

Mae modd rhannu'r Hawliau Craidd a'r dangosyddion ansawdd yn dri phrif faes. Mae'r adran hon o'r adroddiad yn amlinellu perfformiad o dan y meysydd hyn.

## Bodloni anghenion cwsmeriaid (DA 1-2, 4-5)

Mae Casnewydd yn chwartel uchaf awdurdodau llyfrgell Cymru am y nifer sy'n mynychu sesiynau hyfforddiant ffurfiol am bob pen o'r boblogaeth (DA5). Mae'r nifer sy'n mynychu wedi cynyddu 45% o gymharu â 2023-24 a 58% o gymharu â 2022-23. Roedd mwyafrif y sesiynau hyfforddiant ffurfiol i ddefnyddwyr yn canolbwyntio ar waith gyda phlant, gyda phwyslais arbennig ar ymweliadau ysgolion a dosbarthiadau, a'r rhaglen Lluosi. Mae sesiynau hyfforddiant anffurfiol yn parhau i

[19] *Nid oes safleoedd wedi'u cynnwys ar gyfer gwirfoddolwyr am fod goblygiadau niferoedd gwirfoddolwyr yn aneglur.*

fod yn is na'r canolrif cenedlaethol, ac mae'r niferoedd a adroddwyd wedi newid braidd dim o gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

Mae Casnewydd yn agos i'r canolrif, neu'n uwch na'r canolrif, ym maes Gwneud gwahaniaeth (DA1) a Bodlonrwydd cwsmeriaid (DA2). Mae'r gwasanaeth yn bodloni'r targed ym maes Cymorth ar gyfer iechyd a lles (DA4), ac mae'n parhau i fod yn gysylltiedig â phartneriaethau allanol yn ymwneud â chymorth iechyd a lles.

## Mynediad a defnydd (DA 6-8)

Mae'r gwasanaeth yn chwartel isaf awdurdodau llyfrgell Cymru o hyd am y nifer sy'n mynychu digwyddiadau am bob pen o'r boblogaeth, er bod y nifer sy'n mynychu a adroddwyd wedi cynyddu 17% o gymharu â 2023-24 (DA6). Ymhlith y digwyddiadau eleni roedd partneriaeth â Chyngor Ffoaduriaid o Wcráin i ddarparu perfformiad dwyieithog ar effaith y rhyfel yn Wcráin ar deuluoedd sy'n ffoaduriaid yng Nghasnewydd; gweithredu Gŵyl Geiriau gyntaf Casnewydd mewn partneriaeth â darparwyr diwylliannol ar draws y ddinas; cyfleoedd i oedolion ag anghenion ychwanegol yn y Llyfrgell Ganolog a Llyfrgell Tŷ-du; a sesiynau newydd ar gyfer pobl ifanc gwiar a thraws.

Mae Casnewydd yn uwch na'r canolrif cenedlaethol ar gyfer ymweliadau rhithwir, sydd wedi cynyddu 14% o gymharu â 2023-24 a 31% ers 2022-23 (DA8). Mae e-fenthyciadau hefyd wedi cynyddu; maen nhw 38% yn uwch nag yn 2023-24 ac yn fwy na dwywaith ffigur 2022-23. Fodd bynnag, er gwaethaf y cynnydd, mae Casnewydd yn parhau i fod yn is na chanolrif awdurdodau llyfrgell Cymru o ran e-fenthyciadau am bob pen o'r boblogaeth.

## Arbenigedd a chapasiti (DA 13-14 ac 16)

Nid yw'r gwasanaeth yn bodloni'r targedau ar gyfer cyfanswm y staff na chyfanswm y staff cymwysedig (DA13). Er bod y cyfanswm staff am bob pen o'r boblogaeth wedi cynyddu 1 CALl eleni oherwydd recriwtio Llyfrgellydd Cymunedol newydd, Casnewydd sydd â'r ffigur isaf o hyd am gyfanswm staff am bob pen o'r boblogaeth ymhlith awdurdodau llyfrgell Cymru. Mae cyfanswm staff am bob pen o'r boblogaeth yn llai na hanner y ffigur targed. Mae'r gwasanaeth yn perfformio'n well o ran staff cymwysedig; mae nifer y staff cymwysedig wedi parhau'n sefydlog, ac mae ar y canolrif cenedlaethol, er bod hyn dipyn yn is na'r targed. Mae tri aelod o staff yn gweithio tuag at Siarteriaeth CILIP ar hyn o bryd, gyda chymorth Llywodraeth Cymru.

Mae nifer y gwirfoddolwyr yng Nghasnewydd wedi cynyddu'n syfrdanol eleni; mae'r gwasanaeth yn adrodd bod 24 o wirfoddolwyr a 5,000 o oriau gwirfoddolwyr (sy'n gyfwerth â bron 3 CALl). Eleni gwelwyd y ddwy bartneriaeth â'r Rhaglen Byw'n Annibynnol i oedolion ag anghenion ychwanegol yng Ngholeg Gwent. Cafwyd rhaglen interniaeth gyntaf y Llyfrgell Ganolog lle cefnogodd interniaid staff tra'n dysgu sgiliau a chael profiad o rôl Dysgu Cymunedol a Chynorthwyydd Llyfrgell, gyda golwg ar gael swyddi cyflogedig yn y dyfodol. Bydd y fenter hon yn parhau yn

2025-26. Yn Llyfrgell Tŷ-du, trawsnewidiodd dysgwyr o'r rhaglen arddio'r ardd tu allan, a'i chynnal a'i chadw, mewn partneriaeth â swyddogion Cadwch Gymru'n Daclus. O ystyried y cynnydd sylweddol mewn gwirfoddoli, ochr yn ochr â'r lefel isel o staff cyflogedig yng Nghasnewydd, mae'n bwysig sicrhau bod gwirfoddolwyr yn parhau i gael eu defnyddio yn unol ag arweiniad CILIP.

Gwariant gweithredol am bob pen o'r boblogaeth yng Nghasnewydd yw'r isaf yn genedlaethol (DA14). Mae'r bwlch rhwng Casnewydd ac awdurdodau llyfrgell eraill Cymru yn parhau i dyfu; eleni, mae'r ffigur am bob pen o'r boblogaeth £3,400 yn is na'r awdurdod nesaf isaf, ac yn llai na hanner y canolrif cenedlaethol.[20] At hynny, mae'r gyllideb lyfrau wedi'i gostwng 16% o gymharu â 2023-24 a 23% o gymharu â 2022-23. Hyd yn oed gan ganiatáu am darfu i gaffaeliadau oherwydd cyflwyno'r LMS newydd, mae hyn yn peri pryder mawr, ac mae'n debygol o gael effaith hirdymor ar y casgliad.

Nid yw'r gwasanaeth yn bodloni'r targed am oriau agor am bob pen o'r boblogaeth, ac mae yn chwartel isaf awdurdodau llyfrgell Cymru ar gyfer y mesur hwn (DA16). Mae oriau agor a adroddwyd wedi gostwng 2% ymhellach eleni, gan wneud cyfanswm gostyngiad o 9% ers 2022-23. Mae oriau agor am bob pen o'r boblogaeth yn 63% yn unig o'r targed.

## Y cyd-destun strategol

Yn rhan o'r ffurflen, mae gofyn i awdurdodau adrodd ar y ffordd mae'r gwasanaeth llyfrgelloedd yn cyfrannu at flaenoriaethau a nodau strategol ehangach Llywodraeth Cymru. Nododd Casnewydd ystod o weithgareddau i gefnogi'r Rhaglen Lywodraethu, gan gynnwys y canlynol:

- **Diogelu, ailadeiladu a datblygu ein gwasanaethau ar gyfer pobl agored i niwed** e.e. Gwasanaeth Cludo i'r Cartref i drigolion nad ydynt yn gallu cael mynediad i adeiladau llyfrgell; ymestyn y rhaglen wirfoddoli i gefnogi oedolion ag anghenion ychwanegol; a Llyfrgellydd Cymunedol newydd yn ymgysylltu â chymunedau nad ydynt wedi'u gwasanaethu'n ddigonol yn flaenorol er mwyn llywio darpariaeth y gwasanaeth. Ymhlith y partneriaethau newydd mae interniaethau â chymorth gyda Choleg Gwent; cyfranogi gyda Gweithgor Teuluoedd Cyngor Dinas Casnewydd mewn partneriaeth â'r Sefydliad Brenhinol i fynd i'r afael â digartrefedd; gweithio gyda thimau pobl ddigartref a llety dros dro i ddarparu amser stori a darparu casgliadau mewn gwestai llety dros dro; sefydlu gardd beillio sy'n cael ei chynnal a'i chadw gan oedolion ag anghenion ychwanegol; partneriaethau gyda thimau Plant sy'n Derbyn Gofal; a sesiynau ysgrifennu creadigol ar gyfer ceiswyr lloches, mewnfudwyr a ffoaduriaid.
- **Dathlu amrywiaeth a gweithredu i ddileu anghydraddoldeb o bob math** e.e. mae Rheolwr y Llyfrgell yn gweithio gyda'r Uwch Swyddog

[20] *Caiff dangosyddion 'am bob pen o'r boblogaeth' eu cyfrifo fesul 1,000 o'r boblogaeth oni nodir fel arall*

Cydraddoldebau ac Amrywiaeth a chymunedau lleiafrifoedd ethnig i ddathlu eu cyfraniadau at hanes Casnewydd. Mae gwaith ar y gweill i fireinio casgliadau Ieithoedd y Byd, gan adolygu stoc ac ieithoedd ar draws y gwasanaeth. Mae cydweithio ar y gweill gyda GWIR ar ddethol stoc ieuenctid LHDTC+ a chynnal dosbarthiadau ysgrifennu creadigol.

- **Bwrw ymlaen tuag at filiwn o siaradwyr Cymraeg, a galluogi ein diwydiannau twristiaeth, chwaraeon a'r celfyddydau i ffynnu** e.e. buddsoddi mewn stoc iaith Gymraeg, gyda ffocws arbennig ar ddeunyddiau sy'n addas i ddysgwyr a phlant ifanc.
- **Parhau â'r rhaglen hirdymor o ddiwygio addysg, a sicrhau bod anghydraddoldebau addysgol yn lleihau a bod safonau'n codi** e.e. mae'r tîm Hanes Lleol yn cefnogi prosiectau ymchwil ysgolion lleol ar hanes Casnewydd.

## Cyfeiriad at y dyfodol

Gan adrodd ar gyfeiriad yr awdurdod at y dyfodol, a'i gynlluniau ar gyfer y gwasanaeth llyfrgell dros y flwyddyn sydd i ddod, nod Casnewydd yw parhau i wella gwasanaeth i gwsmeriaid trwy athroniaeth o'r Gymuned yn Arwain, gan sicrhau bod gwasanaethau'n adlewyrchu anghenion cymunedau lleol yn uniongyrchol. Mae staff pob cangen wedi cael hyfforddiant erbyn hyn mewn cyflwyno amser stori yn effeithiol, gan alluogi i sesiynau amser stori gael eu hailgyflwyno ar draws pob cangen am y tro cyntaf ers cyn y pandemig. Mae ymdrechion i hybu ymgysylltu â darllen plant wedi arwain at gynnydd yn nifer yr ysgolion i gymryd rhan yn Her Ddarllen yr Haf, o 4 i 33 (allan o 44) o ysgolion.

Mae Casnewydd yn adrodd y bydd Llyfrgellwyr Gweithrediadau ar gael yn fwy i gefnogi gweithgareddau ymgysylltu cymunedol ehangach. Yn dilyn eiriolaeth gymunedol yn erbyn cau rhagor o ganghennau a mwy o graffu gan y Cabinet, mae Casnewydd o'r farn y bydd y gwasanaeth llyfrgell yn cael cymorth ychwanegol am ei waith.

Mae cynlluniau i adleoli ac uno llyfrgelloedd Malpas a Sant Julian yng Nghwrt Malpas wedi'u canslo, gan olygu bod Llyfrgell Malpas yn dal ar agor. Fodd bynnag, bydd Llyfrgell Sant Julian yn cau ym mis Awst 2025. Y gobaith yw y bydd buddsoddiad parhaus mewn gwasanaethau digidol a chyflwyno egwyddorion datblygu darllenwyr ar draws canghennau'n gyrru cynnydd pellach mewn aelodaeth a chyfranogiad gweithredol mewn rhaglenni, gwasanaethau a chasgliadau llyfrgell.

## Casgliad

Fel oedd yn wir yn 2023-24, mae Casnewydd yn perfformio'n dda mewn rhai meysydd, gan gynnwys darpariaeth hyfforddiant ffurfiol ac ymweliadau rhithwir. Mae'r gwasanaeth wedi datblygu perthnasoedd cadarn gydag ysgolion lleol ac amrywiaeth o randdeiliaid cymunedol yn ardal Casnewydd. Mae recriwtio Llyfrgellydd Cymunedol

eleni'n ddatblygiad cadarnhaol ar gyfer cyflwyno'r gwasanaeth, a'r gobaith yw y bydd y swydd hon yn gallu helpu i gynyddu ymgysylltu, gan gynnwys o ran mynychu digwyddiadau. Fodd bynnag, mae'r sefyllfa mewn perthynas ag agweddau allweddol ar y gwasanaeth llyfrgell yn peri pryderon difrifol. Mae'r gostyngiad graddol i'r oriau agor yn y blynyddoedd diwethaf, ynghyd â'r lefelau staffio isaf am bob pen o'r boblogaeth yn genedlaethol, bellach wedi cyrraedd lefel lle nad yw Casnewydd bellach yn bodloni Hawl Graidd 5, a rhagwelir y bydd gostyngiadau pellach ar gyfer 2025-26. Mae'n addawol bod y gwasanaeth wedi drafftio dogfen strategaeth erbyn hyn, er nad yw hon wedi'i chymeradwyo eto. Yn sylfaenol, fodd bynnag, bydd Casnewydd yn parhau i wynebu heriau sylweddol o ran cyflwyno gwasanaeth llyfrgell effeithiol tra bod lefelau cyllido'n parhau i fod cymaint yn is nag awdurdodau eraill yng Nghymru.

# Adroddiad Asesu Blynyddol 2024-25 Sir Benfro

Mae'r adroddiad hwn wedi'i baratoi ar sail gwybodaeth a ddarparwyd gan ffurflen flynyddol Sir Benfro, datganiadau effaith ac adroddiad naratif a gyflwynwyd i Is-adran Diwylliant Llywodraeth Cymru.

## Crynodeb gweithredol

Mae Sir Benfro yn bodloni pob un o'r 13 Hawl Graidd yn llawn. O'r 5 dangosydd ansawdd lle mae targedau, mae Sir Benfro yn cyflawni 4 yn llawn ac 1 yn rhannol.

Mae'n amlwg bod cwsmeriaid llyfrgelloedd Sir Benfro yn eu gwerthfawrogi, a'u bod yn teimlo bod y gwasanaeth yn gwneud gwahaniaeth i'w bywydau. Mae e-fenthyciadau wedi parhau i gynyddu, ynghyd â'r nifer sy'n mynychu hyfforddiant ffurfiol. Fodd bynnag, o ran ymgysylltu â digwyddiadau, hyfforddiant a chymorth, nid yw Sir Benfro'n ymadfer mor fuan, na mor gyson, o gyfnod y pandemig â llawer o awdurdodau llyfrgell eraill, ac wrth i amser fynd yn ei flaen, mae hyn yn dechrau peri pryder. Mae'r gostyngiad mewn niferoedd staff, oriau agor â staff a chyllidebau llyfrau eleni'n gwanhau'r gwasanaeth. Mae gostyngiadau pellach i staff, oriau agor a chyllidebau llyfrau a ragwelir yn y blynyddoedd nesaf yn destun pryder. Mae'r camau hyn, ynghyd â chynlluniau'r gwasanaeth i ddibynnu'n helaethach ar wirfoddoli cymunedol, yn codi cwestiynau am allu'r gwasanaeth i barhau i fodloni'r Hawliau Craidd a'r targedau DA yn y blynyddoedd sydd i ddod.

- Sir Benfro yw'r awdurdod yn y safle cydradd uchaf yn genedlaethol am y sgôr a roddir gan ddefnyddwyr 16 oed ac iau (DA2), a chwsmeriaid sydd o'r farn bod y llyfrgell yn bleserus, diogel a chynhwysol (DA1).
- Mae e-fenthyciadau am bob pen o'r boblogaeth wedi cynyddu 18% o gymharu â 2023-24, a 58% o gymharu â 2022-23 (DA8).
- Mae Sir Benfro bellach yn bodloni'r targed ar gyfer oriau staff a neilltuwyd i hyfforddiant (DA13).

## Nodyn i adroddiad 2024-25

Yn ystod 2024-25, symudodd awdurdodau lleol yng Nghymru i Blatfform Llyfrgell Ddigidol newydd ar gyfer Cymru gyfan. Perwyd rhywfaint o darfu i weithrediad gwasanaethau llyfrgell yn ystod y broses symud, gan gynnwys mewn perthynas â chaffael stoc newydd, sef gwaith y bu'n rhaid ei atal am gyfnod wrth i wasanaethau unigol symud i'r system newydd. Mae rhywfaint o fân wahaniaethau hefyd yn ffurfwedd y platfform newydd, sy'n golygu nad yw data defnyddwyr yn ystod 2024-25 yn gwbl gyson. Ni symudodd Sir Benfro draw tan ddiwedd Mai 2025 ac roedd yn

gallu darparu set ddata lawn. Er tegwch a chysondeb gydag awdurdodau eraill, nid yw'r adroddiad ar gyfer 2024-25 yn cynnwys y data ar gyfer Dangosyddion Ansawdd 4, 8, 9 a 10.

DA 4 Cymorth ar gyfer iechyd a lles
c) nifer y benthyciadau o gyfres Darllen yn Well Cymru

DA 8 Defnydd o'r llyfrgell
c) cyfanswm y benthycwyr gweithredol wedi'i rannu â maint y boblogaeth drigolion, a'i luosi â 1,000
d) cyfanswm aelodau'r llyfrgell
e) cyfanswm y llyfrau a fenthycwyd (oedolion a phlant ar wahân)
f) cyfanswm yr eitemau clyweledol a fenthycwyd

DA 9 Deunydd darllen cyfoes a phriodol
a) cyfradd gaffael isaf
b) % a wariwyd ar adnoddau i blant

DA 10 Adnoddau yn y Gymraeg
a) isafswm gwariant o 4%
b) benthyciadau yn y Gymraeg am bob pen o'r boblogaeth

Caiff yr holl ddata ei adrodd a'i asesu ar gyfer 2025-26 (sef blwyddyn gyntaf Fframwaith 7), a chaiff y data hwn ei ddefnyddio i osod y meincnod ar gyfer y blynyddoedd sy'n weddill yn y fframwaith.

# Perfformiad yn erbyn y safonau

Mae'r fframwaith safonau'n cynnwys Hawliau Craidd, dangosyddion ansawdd gyda thargedau, dangosyddion ansawdd gyda meincnodau a mesurau effaith.

## Hawliau Craidd

Adroddodd Sir Benfro ei bod wedi bodloni pob un o'r 13 Hawl Graidd yn llawn trwy hunanasesu. Ar sail y sylwebaeth fanwl a chynorthwyol a ddarparwyd, mae'r asesydd annibynnol yn cytuno gyda'r hunanasesiad.

## Dangosyddion ansawdd gyda thargedau

Mae 12 dangosydd ansawdd (DA), y mae gan 5 ohonynt dargedau cyfansoddol. O'r rhain, mae Sir Benfro yn cyflawni 4 yn llawn ac 1 yn rhannol.

DA 4 (a) Cymorth ar gyfer iechyd a lles, **bodlonwyd yn llawn ▲**
i) Cynllun Darllen yn Well, **bodlonwyd**
ii) Casgliad dynodedig iechyd a lles, **bodlonwyd**
iii) Gwybodaeth am ffyrdd iachach o fyw ac ymddygiad iach, **bodlonwyd**
iv) Cyfeirio at wasanaethau iechyd a lles, **bodlonwyd**

DA 6 Mae'r holl fannau gwasanaeth sefydlog yn cynnig digwyddiadau/gweithgareddau i ddefnyddwyr â gofynion arbennig, **bodlonwyd yn llawn** ▲

DA 7 Lleoliad mannau gwasanaeth, **bodlonwyd yn llawn** ▲

DA 13 Lefelau staffio a chymwysterau, **bodlonwyd yn rhannol** ■
i) Staff am bob pen o'r boblogaeth, **ni fodlonwyd**
ii) Staff cymwysedig am bob pen o'r boblogaeth, **ni fodlonwyd**
iii) Cymwysterau/hyfforddiant pennaeth y gwasanaeth, **bodlonwyd**
iv) Canran DPP, **bodlonwyd**

DA 16 Oriau agor am bob pen o'r boblogaeth, **bodlonwyd yn llawn** ▲

## Mesurau effaith

Mae'r fframwaith yn cynnwys tri dangosydd gyda'r nod o asesu effaith defnyddio llyfrgelloedd ar fywydau pobl. Nid oes targedau i'r dangosyddion hyn, ac mae disgwyl i awdurdodau gynnal arolygon defnyddwyr ar gyfer DA1 ar un achlysur yn ystod y cyfnod o 2022-23 i 2024-25. Cynhaliodd Sir Benfro arolwg oedolion ac arolwg plant ym mis Mawrth 2023. Mae'r ffigyrau crynodol (isaf, canolrifol ac uchaf) wedi'u seilio ar ddata gan bob awdurdod a ddarparodd ddata yn ffurflenni 2022-23, 2023-24 a 2024-25. Mae'r safleoedd yn adlewyrchu nifer yr ymatebwyr, lle mai 1 yw'r awdurdod sy'n sgorio uchaf.

| Dangosydd perfformiad | | Safle | Isaf | Canolrifol | Uchaf |
|---|---|---|---|---|---|
| DA 1 Gwneud gwahaniaeth | | | | | |
| b) % y bobl ifanc sydd o'r farn bod y llyfrgell yn eu helpu i ddysgu a chael gwybod pethau: | 98% | =2/19 | 68% | 94% | 99% |
| e) % yr oedolion sydd o'r farn bod y llyfrgell wedi gwneud gwahaniaeth i'w bywydau: | 93% | =5/20 | 31% | 86.5% | 96% |
| DA 5 b) % y mynychwyr sesiynau hyfforddiant a ddywedodd fod yr hyfforddiant wedi'u helpu i gyflawni eu diben trwy fynychu: | 100% | =1/18 | 75% | 98.5% | 100% |

Gofynnir hefyd i awdurdodau ddarparu datganiad effaith yn disgrifio'r effaith mae'r gwasanaeth llyfrgell wedi'i chael ar unigolyn neu ar grŵp o unigolion yn ystod y flwyddyn. Darparodd Sir Benfro ddatganiad effaith a amlygodd fod Llyfrgell Doc Penfro, ers 2022, wedi partneru gyda Menter Iaith Sir Benfro i gynnal sesiynau Coffi a Chlonc. Mae Swyddog Datblygu Menter Iaith Sir Benfro'n nodi, *"Mae'r sesiynau'n bwysig i greu cyfleoedd i siaradwyr rhugl, siaradwyr newydd a dysgwyr ddod ynghyd mewn amgylchedd croesawgar a hamddenol i siarad ac ymarfer eu Cymraeg mewn ardal lle mai ychydig o gyfleoedd eraill sydd i wneud hynny."* Mae'r achlysuron hyn yn chwarae rôl werthfawr wrth hyrwyddo defnydd o'r iaith, atgyfnerthu hunaniaeth ddiwylliannol a chreu cysylltiadau cymunedol. Mae cyfranogwyr yn adrodd am effaith

gymdeithasol sylweddol, gan rannu bod y sesiynau'n eu helpu i gyfarfod â phobl newydd, gwneud ffrindiau, a lleihau unigrwydd. Nododd un mynychwr, *"Mae llyfrgelloedd yn hanfodol yn fy mywyd. Heb y grwpiau Cymraeg yn cyfarfod yn y llyfrgell, ble bydden ni'n cwrdd i sgwrsio?"* Mae mynychwyr hefyd yn elwa ar ddysgu sgiliau newydd, gan gynnwys gwella'u hyder i siarad Cymraeg, cael eu hamlygu i'r iaith y tu allan i wersi ffurfiol, a darganfod llyfrau ac adnoddau diwylliannol Cymraeg. Mae'r sesiynau'n annog mwy o ymgysylltiad gyda'r llyfrgell, gyda llawer o gyfranogwyr yn benthyg llyfrau, yn mynychu grwpiau eraill ac yn archwilio gwasanaethau'r llyfrgell. Amlygodd un cyfranogydd, *"Mae'n gweithio ochr yn ochr â dysgu Cymraeg. Mae'n eich trochi chi mewn awyrgylch cyfeillgar."*

Mae'r sesiynau wedi meithrin amgylchedd cadarnhaol, heb bwysau, lle mae pawb yn teimlo'u bod yn cael eu cynnwys a'u cefnogi, tra bod y bartneriaeth rhwng y llyfrgell a'r Fenter Iaith yn dangos cydweithio effeithiol er mwyn ateb anghenion lleol. Mae staff llyfrgell hefyd yn elwa, gan ddod o hyd i gyfleoedd i ymarfer eu Cymraeg eu hunain ac ymgysylltu'n ddyfnach â'r gymuned.

## Dangosyddion ansawdd a meincnodau

Nid oes targedau i'r dangosyddion sy'n weddill, ond maent yn caniatáu i wasanaethau fonitro eu perfformiad dros amser. Mae'r tabl canlynol yn crynhoi safle Sir Benfro ar gyfer 2024-25. Mae'r safleoedd yn adlewyrchu nifer yr ymatebwyr, lle mai 1 yw'r awdurdod sy'n sgorio uchaf. Caiff dangosyddion 'am bob pen o'r boblogaeth' eu cyfrifo fesul 1,000 o'r boblogaeth oni nodir fel arall.

| **Dangosydd perfformiad** | | **Safle** | **Isaf** | **Canolrifol** | **Uchaf** |
|---|---|---|---|---|---|
| DA 1 Gwneud gwahaniaeth | | | | | |
| a) % yr oedolion sydd o'r farn bod defnyddio'r llyfrgell wedi'u helpu i ddatblygu sgiliau newydd | 75% | 8/20 | 17% | 70% | 90% |
| c) iechyd a lles | 68% | 9/20 | 1% | 63% | 90% |
| d) pleserus, diogel a chynhwysol | 100% | =1/20 | 93% | 97% | 100% |
| DA 2 Bodlonrwydd cwsmeriaid | | | | | |
| a) dewis 'da iawn' neu 'dda' o lyfrau | 91% | =9/20 | 84% | 90.5% | 97% |
| b) gofal cwsmeriaid 'da iawn' neu 'dda' | 98% | =10/20 | 92% | 98% | 100% |
| c) cyfleusterau TG 'da iawn' neu 'dda' | 87% | =8/20 | 60% | 85% | 99% |
| d) 'da iawn' neu 'dda' yn gyffredinol | 98% | =7/20 | 85% | 98% | 100% |
| e) sgôr allan o ddeg ymysg defnyddwyr 16 oed ac iau | 9.7 | =1/18 | 8.0 | 9.4 | 9.7 |
| DA 5 Cymorth i ddefnyddwyr | | | | | |
| a) nifer yn mynychu am bob pen o'r boblogaeth | 1 | 21/21 | 1 | 28 | 214 |
| c) cymorth anffurfiol am bob pen o'r boblogaeth | 77 | 13/20 | 15 | 150 | 608 |
| DA 6 Nifer yn mynychu digwyddiadau am bob pen o'r boblogaeth | 116 | 20/22 | 14 | 224.5 | 764 |
| DA 8 Defnydd o'r llyfrgell | | | | | |
| b) ymweliadau rhithwir am bob pen o'r boblogaeth | 198 | 18/21 | 5 | 766 | 6,035 |
| DA 13 Lefelau staffio a chymwysterau[21] | | | | | |

[21] *Nid oes safleoedd wedi'u cynnwys ar gyfer gwirfoddolwyr am fod goblygiadau niferoedd gwirfoddolwyr yn aneglur.*

| Dangosydd perfformiad | | Safle | Isaf | Canolrifol | Uchaf |
|---|---|---|---|---|---|
| (v) a) cyfanswm y gwirfoddolwyr | 77 | Dd/B | 0 | 23 | 442 |
| b) oriau gwirfoddolwyr | 2,575 | Dd/B | 0 | 883 | 22,706 |
| DA 14 Gwariant gweithredol | | | | | |
| a) cyfanswm gwariant am bob pen o’r boblogaeth | £12,068 | 12/21 | £5,978 | £12,646 | £26,209 |
| b) % ar staff | 58% | =17/21 | 48% | 67% | 80% |
| % ar adnoddau gwybodaeth | 6% | =18/21 | 4% | 9% | 19% |
| % ar gyfarpar ac adeiladau | 2% | =11/21 | 0% | 2% | 29% |
| % ar gostau gweithredol eraill | 34% | 2/21 | 1% | 15% | 38% |

## Dadansoddiad o berfformiad

Mae modd rhannu'r Hawliau Craidd a'r dangosyddion ansawdd yn dri phrif faes. Mae'r adran hon o'r adroddiad yn amlinellu perfformiad o dan y meysydd hyn.

### Bodloni anghenion cwsmeriaid (DA 1-2, 4-5)

Mae Sir Benfro'n perfformio'n dda iawn mewn perthynas â Gwneud gwahaniaeth (DA1), a Bodlonrwydd cwsmeriaid (DA2), ac mae oddeutu'r canolrif neu'n uwch na'r canolrif am bob mesur. Mae'n perfformio'n arbennig o gryf o ran y sgôr a roddir gan ddefnyddwyr 16 oed ac iau (DA2), a chwsmeriaid sydd o'r farn bod y llyfrgell yn bleserus, diogel a chynhwysol (DA1). Sir Benfro yw'r awdurdod yn y safle cydradd uchaf yn genedlaethol am y ddau fesur.

Mae'r gwasanaeth yn bodloni'r targed ym maes Cymorth ar gyfer iechyd a lles (DA4) yn llawn. Mae llyfrgelloedd yn gweithio gydag ystod o bartneriaid i ddarparu cymorth iechyd a lles, gan gynnwys gwasanaethau cwnsela (e.e. Cwnsela Mind), Uned Therapi Iaith a Lleferydd Hywel Dda, Therapi Anifeiliaid Cariad, Cymorth i Deuluoedd sy’n delio ag ASD (ar gyfer unigolion awtistig a niwrowahanol), Cymorth Cyffuriau ac Alcohol Dyfed, SNAP (cymorth i blant cyn-ysgol ag anghenion ychwanegol), ac Adferiad (cymorth iechyd meddwl).

Er bod y nifer sy'n mynychu sesiynau hyfforddiant ffurfiol wedi bron dyblu o gymharu â 2023-24, Sir Benfro yw'r awdurdod yn y safle isaf yn genedlaethol o hyd am y mesur hwn (DA5). Serch hynny, dywedodd 100% o’r bobl a atebodd yr arolwg (n=28) eu bod wedi cyflawni eu diben trwy fynychu. Mae capasiti staffio'n golygu bod y gwasanaeth llyfrgell yn dibynnu ar drydydd partïon i ddod i mewn i ddarparu'r hyfforddiant, felly rheolaeth gyfyngedig sydd ganddo dros nifer y sesiynau a gynigir. Mae Sir Benfro hefyd yn is na'r canolrif cenedlaethol am gymorth anffurfiol am bob pen o'r boblogaeth, ac mae nifer y sesiynau wedi gostwng 18% o gymharu â 2023-24 a 40% o gymharu â 2022-23. Er mwyn sicrhau bod yr wybodaeth hon yn cael ei chasglu mor gywir â phosibl, mae'r gwasanaeth yn mynd i beilota sampl dros gyfnod o wythnos bob chwarter yn 2025-26.

## Mynediad a defnydd (DA 6-8)

Mae Sir Benfro yn chwartel isaf awdurdodau llyfrgell Cymru am bob pen o'r boblogaeth am y nifer sy'n mynychu digwyddiadau (DA6). Mae'r niferoedd sy'n mynychu wedi cynyddu fymryn o gymharu â 2023-24 (2%). Ymhlith yr enghreifftiau o weithgareddau a gynigir i ddefnyddwyr â gofynion arbennig mae sesiwn grefftau i Ysgol Portfield (plant a phobl ifanc ag anabledd dysgu), sesiynau *Reading Dog* i blant ag anghenion dysgu ychwanegol, a sesiynau teganau synhwyraidd yn y llyfrgell i blant ac oedolion ag anghenion dysgu ychwanegol.

Yn ystod 2024-25, mae Llyfrgell Arberth wedi'i hadleoli, ond mae dal yng nghanol y dref ac mae'r gwasanaeth yn parhau i fodloni'r targed ym maes Lleoliad mannau gwasanaeth (DA7).

Mae Sir Benfro'n parhau i fod yn chwartel isaf awdurdodau llyfrgell Cymru am ymweliadau rhithwir am bob pen o'r boblogaeth (DA8). Mae ymweliadau â'r wefan wedi cynyddu 3% o gymharu â 2023-24, ond maent yn dal i fod yn is na ffigur 2022-23. Mae e-fenthyciadau am bob pen o'r boblogaeth wedi cynyddu 18% o gymharu â 2023-24 a 58% o gymharu â 2022-23. Fodd bynnag, mae'r gwasanaeth yn parhau i fod yn is na'r canolrif ar gyfer y mesur hwn.

## Arbenigedd a chapasiti (DA 13-14 ac 16)

Mae'n gadarnhaol bod Sir Benfro'n bodloni'r targed ar gyfer oriau staff a neilltuwyd i hyfforddiant eleni. Fodd bynnag, nid yw'n bodloni'r targedau ar gyfer cyfanswm y staff na staff cymwysedig am bob pen o'r boblogaeth, ac mae'r ddau ffigur wedi gostwng o gymharu â 2023-24 (DA13). Mae'r gwasanaeth bellach yn is na'r canolrif cenedlaethol am gyfanswm staff am bob pen o'r boblogaeth. Mae nifer y staff wedi disgyn 4.1 CALl oherwydd colli 1.6 CALl o swyddi rheoli llyfrgelloedd; 0.8 CALl o staff rheng flaen; heb ail-lenwi swyddi staff archifau (0.8 CALl); a swyddi gwag (0.9 CALl) oherwydd ymddeoliadau (sy'n cael eu gwasanaethu gan swydd dros dro). Mae nifer y staff cymwysedig wedi gostwng 1.5 CALl o ganlyniad i arbedion effeithlonrwydd (unwyd un swydd ac ni ail-lenwyd swydd arall pan ymddeolodd deiliad y swydd).

Er bod nifer y staff wedi gostwng eleni, mae nifer y gwirfoddolwyr wedi cynyddu i 77. At ei gilydd, mae gwirfoddolwyr yn cyfrannu 2,575 o oriau (oddeutu 1.5 CALl) at y gwasanaeth. Yn Arberth a Saundersfoot fel ei gilydd, mae nifer yr oriau a ddarperir gan wirfoddolwyr yn uwch erbyn hyn na'r cyfanswm a ddarperir gan staff cyflogedig Cyngor Sir Penfro. O ystyried lefel gynyddol cyfranogiad gwirfoddolwyr yn Sir Benfro, mae'n arbennig o bwysig sicrhau bod gwirfoddolwyr yn cael eu defnyddio'n unol ag arweiniad CILIP.

Mae gwariant gweithredol am bob pen o'r boblogaeth yn agos i'r canolrif cenedlaethol, ond mae wedi gostwng 4% o gymharu â 2023-24 (DA14). Mae Sir Benfro yn y chwartel isaf am wariant ar ddeunyddiau am bob pen o'r boblogaeth ac

mae hyn wedi gostwng 22% o gymharu â'r flwyddyn flaenorol oherwydd angen i wneud arbedion (er bod y gyllideb adnoddau heb newid ers 2023-24. Mae hyn yn peri pryder oherwydd ei fod yn debygol o effeithio ar allu'r gwasanaeth i gynnig adnoddau cyfoes a deniadol i gwsmeriaid.

Er bod oriau agor â staff wedi gostwng 4% o gymharu â 2023-24, mae Sir Benfro'n dal i fodloni'r targed ar gyfer nifer yr oriau agor am bob pen o'r boblogaeth (DA16). Mae gan y gwasanaeth 2 lyfrgell erbyn hyn sy'n cynnig oriau agor heb staff (trwy system Open Plus Bibliotheca). Mae nifer yr oriau agor heb staff wedi cynyddu tua thraean o gymharu â 2023-24 yn dilyn cyflwyno Open Plus yn Llyfrgell Arberth o fis Tachwedd 2024.

## Y cyd-destun strategol

Yn rhan o'r ffurflen, mae gofyn i awdurdodau adrodd ar y ffordd mae'r gwasanaeth llyfrgelloedd yn cyfrannu at flaenoriaethau a nodau strategol ehangach Llywodraeth Cymru. Amlygodd Sir Benfro ystod eang o weithgareddau wedi'u halinio â blaenoriaethau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ac, ar lefel leol, â Rhaglen Weinyddu Cyngor Sir Penfro 2022-27, a Chynllun Llesiant Sir Benfro, gyda ffocws ar leihau anghydraddoldeb a thlodi a chreu cymunedau cysylltiedig sy'n ffynnu. Ymhlith yr enghreifftiau mae:

- Gweithgareddau fel sesiynau amser rhigwm, grwpiau gweu a sgwrs, clybiau llyfrau, grwpiau sgwrsio Cymraeg, clybiau Lego, sgyrsiau awduron a sesiynau crefft.
- Lletya oddeutu 42 o sefydliadau partner mewn gofodau llyfrgell i ddarparu cymorth ar iechyd meddwl, cyflogadwyedd, tai, rheoli arian, materion cyfreithiol, rheoli caethiwed, cyllid, ac ymwybyddiaeth sgamiau.
- Cynnal gwasanaethau i gysylltu cymunedau gwledig, gan gynnwys gwasanaeth Llyfrgell Symudol sy'n ymweld â 57 o bentrefi, a gwasanaeth Llyfrgell Gartref sy'n galw gyda phobl agored i niwed ac ynysig.
- Darparu llyfrau mewn sawl fformat i sicrhau hygyrchedd, a chefnogi mentrau cenedlaethol fel Her Ddarllen yr Haf a Dechrau Da.
- Gwella mynediad diwylliannol trwy bartneriaethau fel y cydweithrediad â Llyfrgell Genedlaethol Cymru i arddangos deunydd diwylliannol yn Oriel Glanyrafon yn Llyfrgell Hwlffordd a chyd-reoli Tapestri Glaniad y Ffrancod yn Abergwaun, sydd wedi dod yn gyrchfan i ymwelwyr mordeithiau. Mae gweithgareddau, fel gweithdai dan arweiniad awduron, gydag awduron o Gymru, trwy fenter Sêr y Silffoedd Cyngor Llyfrau Cymru, yn rhoi cyfleoedd i blant ryngweithio ag awduron a datblygu sgiliau adrodd storïau.
- Cefnogi'r iaith Gymraeg trwy ddarparu arwyddion ac adnoddau dwyieithog, annog staff llyfrgell i ddatblygu sgiliau Cymraeg, a chyllido gwersi Cymraeg i staff newydd.
- Sicrhau tegwch a chynhwysiant trwy alinio gwasanaethau â Chynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol a Chynllun Gweithredu LHDTC+ Cymru; casglu

barn gan gymunedau amrywiol trwy'r Asesiad Anghenion Llyfrgell; darparu gweithdai ysgrifennu creadigol i oedolion o grwpiau wedi'u tangynrychioli trwy'r prosiect Pob Stori; a mynychu hyfforddiant ar Gasgliadau Llyfrgell Gwrth-hiliol.

## Cyfeiriad at y dyfodol

Gan adrodd ar gyfeiriad yr awdurdod at y dyfodol, a'i gynlluniau ar gyfer y gwasanaeth llyfrgell dros y flwyddyn sydd i ddod, mae Sir Benfro'n cyfeirio at heriau ariannol sylweddol, gyda'r angen i wneud arbedion o 20% yn ystod blwyddyn ariannol 2025-26. Er nad oes unrhyw gynlluniau ar hyn o bryd i gau llyfrgelloedd, bydd ymgais i wneud arbedion trwy fesurau fel lleihau oriau agor, cronfeydd llyfrau a lefelau staffio, yn ogystal â chynyddu incwm ac archwilio ymyriadau eraill i arbed costau. Wrth edrych ymlaen, mae Cynllun Ariannol Tymor Canolig y cyngor yn nodi pwysau ariannol parhaus, gyda gofyn i holl wasanaethau'r cyngor nodi arbedion blynyddol o 5% am o leiaf y tair blynedd nesaf. Bydd y cyd-destun ariannol heriol hwn yn llywio cyfeiriad y gwasanaeth llyfrgell at y dyfodol, ac mae'n rhaid iddo gydbwyso cynaliadwyedd ariannol a chynnal y gofyn statudol i ddarparu gwasanaeth. Mae Sir Benfro'n rhagweld y bydd angen mwy o fuddsoddiad gan Gynghorau Tref a Chymuned lleol a mwy o gyfranogiad cymunedol trwy wirfoddoli. Mae modelau cymorth cymunedol eisoes wedi'u sefydlu mewn llyfrgelloedd llai. Yn y dyfodol, mae’n fwriad gan Sir Benfro ystyried dulliau tebyg mewn llyfrgelloedd mwy, a fydd yn fwy heriol.

## Casgliad

Mae'n amlwg bod cwsmeriaid llyfrgelloedd Sir Benfro yn eu gwerthfawrogi, a'u bod yn teimlo bod y gwasanaeth yn gwneud gwahaniaeth i'w bywydau. Mae e-fenthyciadau wedi parhau i gynyddu, ynghyd â'r nifer sy'n mynychu hyfforddiant ffurfiol. Fodd bynnag, o ran ymgysylltu â digwyddiadau, hyfforddiant a chymorth, nid yw Sir Benfro'n ymadfer mor fuan, na mor gyson, o gyfnod y pandemig â llawer o awdurdodau llyfrgell, ac wrth i amser fynd yn ei flaen, mae hyn yn dechrau peri pryder. Mae'r gostyngiad mewn niferoedd staff, oriau agor a chyllidebau llyfrau eleni'n gwanhau'r gwasanaeth, ac mae’r gostyngiad pellach i staff, oriau agor â staff a chyllidebau llyfrau a ragwelir yn y blynyddoedd nesaf yn destun pryder. Mae'r camau hyn, ynghyd â chynlluniau'r gwasanaeth i ddibynnu'n helaethach ar wirfoddoli cymunedol, yn codi cwestiynau am allu'r gwasanaeth i barhau i fodloni'r Hawliau Craidd a'r targedau DA yn y blynyddoedd sydd i ddod.

Mewn perthynas ag adrodd data SLICC, mae Sir Benfro'n ymwybodol bod cofnodi gweithgareddau cymorth anffurfiol yn faes i'w wella o hyd, ac mae'n fwriad ganddo beilota sampl dros gyfnod o wythnos bob chwarter yn 2024-25.

# Adroddiad Asesu Blynyddol 2024-25 Powys

Mae'r adroddiad hwn wedi'i baratoi ar sail gwybodaeth a ddarparwyd gan ffurflen flynyddol Powys, datganiadau effaith ac adroddiad naratif a gyflwynwyd i Is-adran Diwylliant Llywodraeth Cymru.

## Crynodeb gweithredol

Mae Powys yn bodloni 12 o'r 13 Hawl Graidd yn llawn ac 1 yn rhannol. O'r 5 dangosydd ansawdd lle mae targedau, mae Powys yn cyflawni 3 yn llawn ac 1 yn rhannol. Mae un DA sydd heb ei fodloni.

Mae Powys yn perfformio'n dda mewn nifer o feysydd. Mae'r nifer sy'n mynychu hyfforddiant ffurfiol, digwyddiadau a chymorth anffurfiol oll ar gynnydd, ynghyd ag e-fenthyciadau. Mae hefyd yn gadarnhaol bod y gwasanaeth bellach yn bodloni'r targed am nifer y mannau gwasanaeth sefydlog sy'n darparu digwyddiadau a gweithgareddau ar gyfer defnyddwyr â gofynion arbennig. Mae'r ffaith bod swyddi newydd wedi'u creu yn y strwythur staffio hefyd yn elfen gadarnhaol o ffurflen eleni, a bydd hyn, gobeithio, yn caniatáu i Bowys barhau i ddatblygu ei gweithgareddau a'i chynnig cymorth cymunedol. Mae gan Bowys gysylltiadau cadarn amlwg gyda'r gymuned leol, yn arbennig o ran cymorth iechyd a lles. Mae'r targed ym maes lleoliad mannau gwasanaeth yn parhau i fod yn her barhaus o ystyried dwysedd y boblogaeth yn y sir. Er bod gwelliant derbyniol yn y perfformiad yn erbyn DA7 eleni, mae'r gwasanaeth yn dal dipyn o ffordd o fodloni'r targed.

- Powys yw'r awdurdod llyfrgell sydd yn y safle uchaf yng Nghymru ym maes pobl ifanc sydd o'r farn bod y llyfrgell yn eu helpu i ddysgu (DA1).
- Mae Powys yn parhau i fod yn y chwartel uchaf yn genedlaethol am y nifer sy'n mynychu sesiynau hyfforddiant ffurfiol, gyda'r nifer yn cynyddu 25% o gymharu â 2023-24, a bron un ar ddeg gwaith drosodd ers 2022-23 (DA5).
- Mae Powys bellach yn bodloni'r targed am nifer y mannau gwasanaeth sefydlog sy'n darparu digwyddiadau a gweithgareddau ar gyfer defnyddwyr â gofynion arbennig (DA6).

## Nodyn i adroddiad 2024-25

Yn ystod 2024-25, symudodd awdurdodau lleol yng Nghymru i Blatfform Llyfrgell Ddigidol newydd ar gyfer Cymru gyfan. Perwyd rhywfaint o darfu i weithrediad gwasanaethau llyfrgell yn ystod y broses symud, gan gynnwys mewn perthynas â chaffael stoc newydd, sef gwaith y bu’n rhaid ei atal am gyfnod wrth i wasanaethau unigol symud i’r system newydd. Mae rhywfaint o fân wahaniaethau hefyd yn

ffurfwedd y platfform newydd, sy’n golygu nad yw data defnyddwyr yn ystod 2024-25 yn gwbl gyson. Felly, nid yw’r adroddiadau ar gyfer 2024-25 yn cynnwys y data a nodir isod ar gyfer Dangosyddion Ansawdd 4, 8, 9 a 10.

DA 4 Cymorth ar gyfer iechyd a lles
c) nifer y benthyciadau o gyfres Darllen yn Well Cymru

DA 8 Defnydd o’r llyfrgell
c) cyfanswm y benthycwyr gweithredol wedi’i rannu â maint y boblogaeth drigolion, a’i luosi â 1,000
d) cyfanswm aelodau’r llyfrgell
e) cyfanswm y llyfrau a fenthycwyd (oedolion a phlant ar wahân)
f) cyfanswm yr eitemau clyweledol a fenthycwyd

DA 9 Deunydd darllen cyfoes a phriodol
a) cyfradd gaffael isaf
b) % a wariwyd ar adnoddau i blant

DA 10 Adnoddau yn y Gymraeg
a) isafswm gwariant o 4%
b) benthyciadau yn y Gymraeg am bob pen o’r boblogaeth

Caiff yr holl ddata ei adrodd a’i asesu ar gyfer 2025-26 (sef blwyddyn gyntaf Fframwaith 7), a chaiff y data hwn ei ddefnyddio i osod y meincnod ar gyfer y blynyddoedd sy’n weddill yn y fframwaith.

# Perfformiad yn erbyn y safonau

Mae'r fframwaith safonau'n cynnwys Hawliau Craidd, dangosyddion ansawdd gyda thargedau, dangosyddion ansawdd gyda meincnodau a mesurau effaith.

## Hawliau Craidd

Adroddodd Powys ei bod wedi bodloni 12 o'r 13 Hawl Graidd yn llawn ac 1 yn rhannol trwy hunanasesu. Ar sail y sylwebaeth fanwl a chynorthwyol a ddarparwyd, mae'r asesydd annibynnol yn cytuno gyda'r hunanasesiad. Mae HG 6 wedi'i bodloni'n rhannol oherwydd y ffaith y codir tâl am eitemau y tu allan i'r awdurdod, ond yng Nghymru.

## Dangosyddion ansawdd gyda thargedau

Mae 12 dangosydd ansawdd (DA), y mae gan 7 ohonynt dargedau cyfansoddol. O'r rhain, mae Powys yn cyflawni 3 yn llawn ac 1 yn rhannol. Mae un DA sydd heb ei fodloni.

DA 4 (a) Cymorth ar gyfer iechyd a lles, **bodlonwyd yn llawn ▲**
i) Cynllun Darllen yn Well, **bodlonwyd**
ii) Casgliad dynodedig iechyd a lles, **bodlonwyd**

iii) Gwybodaeth am ffyrdd iachach o fyw ac ymddygiad iach, **bodlonwyd**
iv) Cyfeirio at wasanaethau iechyd a lles, **bodlonwyd**

DA 6 Mae'r holl fannau gwasanaeth sefydlog yn cynnig digwyddiadau/gweithgareddau i ddefnyddwyr â gofynion arbennig, **bodlonwyd yn llawn ▲**

DA 7 Lleoliad mannau gwasanaeth, **ni fodlonwyd ●**

DA 13 Lefelau staffio a chymwysterau, **bodlonwyd yn rhannol ■**
i) Staff am bob pen o'r boblogaeth, **ni fodlonwyd**
ii) Staff cymwysedig am bob pen o'r boblogaeth, **ni fodlonwyd**
iii) Cymwysterau/hyfforddiant pennaeth y gwasanaeth, **bodlonwyd**
iv) Canran DPP, **bodlonwyd**

DA 16 Oriau agor am bob pen o'r boblogaeth, **bodlonwyd yn llawn ▲**

## Mesurau effaith

Mae'r fframwaith yn cynnwys tri dangosydd gyda'r nod o asesu effaith defnyddio llyfrgelloedd ar fywydau pobl. Nid oes targedau i'r dangosyddion hyn, ac mae disgwyl i awdurdodau gynnal arolygon defnyddwyr ar gyfer DA1 ar un achlysur yn ystod y cyfnod o 2022-23 i 2024-25. Cynhaliodd Powys arolwg oedolion ac arolwg plant ym mis Mawrth 2024. Mae'r ffigyrau crynodol (isaf, canolrifol ac uchaf) wedi'u seilio ar ddata gan bob awdurdod a ddarparodd ddata yn ffurflenni 2022-23, 2023-24 a 2024-25. Mae'r safleoedd yn adlewyrchu nifer yr ymatebwyr, lle mai 1 yw'r awdurdod sy'n sgorio uchaf.

| Dangosydd perfformiad | | Safle | Isaf | Canolrifol | Uchaf |
|---|---|---|---|---|---|
| DA 1 Gwneud gwahaniaeth | | | | | |
| b) % y bobl ifanc sydd o'r farn bod y llyfrgell yn eu helpu i ddysgu a chael gwybod pethau: | 99% | 1/19 | 68% | 94% | 99% |
| e) % yr oedolion sydd o'r farn bod y llyfrgell wedi gwneud gwahaniaeth i'w bywydau: | 95% | =2/20 | 31% | 86.5% | 96% |
| DA 5 b) % y mynychwyr sesiynau hyfforddiant a ddywedodd fod yr hyfforddiant wedi'u helpu i gyflawni eu diben trwy fynychu: | 88% | 17/18 | 75% | 98.5% | 100% |

Gofynnir hefyd i awdurdodau ddarparu datganiad effaith yn disgrifio'r effaith mae'r gwasanaeth llyfrgell wedi'i chael ar unigolyn neu ar grŵp o unigolion yn ystod y flwyddyn. Darparodd Powys ddatganiad effaith a gyfeiriodd at effaith cymorth a ddarparwyd ar gyfer staff o Grŵp Orbis, sef gwasanaeth arbenigol yn cefnogi plant ac oedolion ag anghenion cymhleth yn gysylltiedig ag awtistiaeth, yn ystod ymweliadau â Llyfrgell Trefyclo. Trwy ymweliadau wythnosol, mae myfyrwyr o oedrannau amrywiol yn magu hyder, yn datblygu sgiliau ymarferol ac yn meithrin cariad at lyfrau a llyfrgelloedd. Yn ystod pob ymweliad, mae plant iau yn benthyg ac

yn dychwelyd llyfrau, yn defnyddio'r peiriant hunanwasanaeth, ac yn chwarae gemau bwrdd. Mae'r gweithgareddau hyn yn helpu i feithrin sgiliau llythrennedd cynnar, ysbrydoli dychymyg a darparu cysylltiadau cadarnhaol â darllen. Mae myfyrwyr hŷn yn ymgymryd â thasgau ystyrlon sy'n adlewyrchu cyfrifoldebau yn y gweithle, gan gynnwys gwirio'r blwch post, tynnu llyfrau a oedd wedi'u derbyn allan o'u bocsys a chwblhau gwiriadau silffoedd ar gyfer teitlau ar gadw. Mae hyn wedi rhoi hwb i'w hyder, eu cyfathrebu a'u sgiliau trefnu. Mae staff llyfrgell wedi nodi cynnydd amlwg yng ngallu'r myfyrwyr i gyflawni dyletswyddau'n annibynnol ac yn gyfrifol.

Trwy ddarparu amgylchedd croesawgar a strwythuredig lle gall myfyrwyr Orbis ymdrin â llyfrau ac ymarfer sgiliau bywyd hanfodol, mae Llyfrgell Trefyclo'n dangos y rôl bwerus mae llyfrgelloedd yn ei chwarae wrth gefnogi cynhwysiant, datblygiad personol ac ymgysylltiad cymunedol ar gyfer pobl ifanc ag anghenion ychwanegol.

## Dangosyddion ansawdd a meincnodau

Nid oes targedau i'r dangosyddion sy'n weddill, ond maent yn caniatáu i wasanaethau fonitro eu perfformiad dros amser. Mae'r tabl canlynol yn crynhoi safle Powys ar gyfer 2024-25. Mae'r safleoedd yn adlewyrchu nifer yr ymatebwyr, lle mai 1 yw'r awdurdod sy'n sgorio uchaf. Caiff dangosyddion 'am bob pen o’r boblogaeth' eu cyfrifo fesul 1,000 o'r boblogaeth oni nodir fel arall.

| Dangosydd perfformiad | | Safle | Isaf | Canolrifol | Uchaf |
|---|---|---|---|---|---|
| DA 1 Gwneud gwahaniaeth | | | | | |
| a) % yr oedolion sydd o'r farn bod defnyddio'r llyfrgell wedi'u helpu i ddatblygu sgiliau newydd | 70% | =10/20 | 17% | 70% | 90% |
| c) iechyd a lles | 61% | 11/20 | 1% | 63% | 90% |
| d) pleserus, diogel a chynhwysol | 97% | =9/20 | 93% | 97% | 100% |
| DA 2 Bodlonrwydd cwsmeriaid | | | | | |
| a) dewis 'da iawn' neu 'dda' o lyfrau | 86% | =18/20 | 84% | 90.5% | 97% |
| b) gofal cwsmeriaid 'da iawn' neu 'dda' | 99% | =2/20 | 92% | 98% | 100% |
| c) cyfleusterau TG 'da iawn' neu 'dda' | 85% | =10/20 | 60% | 85% | 99% |
| d) 'da iawn' neu 'dda' yn gyffredinol | 87% | 19/20 | 85% | 98% | 100% |
| e) sgôr allan o ddeg ymysg defnyddwyr 16 oed ac iau | 9.4 | =9/18 | 8.0 | 9.4 | 9.7 |
| DA 5 Cymorth i ddefnyddwyr | | | | | |
| a) nifer yn mynychu am bob pen o’r boblogaeth | 172 | 2/21 | 1 | 28 | 214 |
| c) cymorth anffurfiol am bob pen o’r boblogaeth | 60 | 16/20 | 15 | 150 | 608 |
| DA 6 Nifer yn mynychu digwyddiadau am bob pen o’r boblogaeth | 210 | 14/22 | 14 | 224.5 | 764 |
| DA 8 Defnydd o’r llyfrgell | | | | | |
| b) ymweliadau rhithwir am bob pen o’r boblogaeth | Dd/B | Dd/B | 5 | 766 | 6,035 |
| DA 13 Lefelau staffio a chymwysterau[22] | | | | | |

[22] *Nid oes safleoedd wedi'u cynnwys ar gyfer gwirfoddolwyr am fod goblygiadau niferoedd gwirfoddolwyr yn aneglur.*

| Dangosydd perfformiad | | Safle | Isaf | Canolrifol | Uchaf |
|---|---|---|---|---|---|
| (v) a) cyfanswm y gwirfoddolwyr | 259 | Dd/B | 0 | 23 | 442 |
| b) oriau gwirfoddolwyr | 5,817 | Dd/B | 0 | 883 | 22,706 |
| DA 14 Gwariant gweithredol | | | | | |
| a) cyfanswm gwariant am bob pen o’r boblogaeth | £12,985 | 10/21 | £5,978 | £12,646 | £26,209 |
| b) % ar staff | 74% | 7/21 | 48% | 67% | 80% |
| % ar adnoddau gwybodaeth | 6% | =18/21 | 4% | 9% | 19% |
| % ar gyfarpar ac adeiladau | 4% | =6/21 | 0% | 2% | 29% |
| % ar gostau gweithredol eraill | 16% | 9/21 | 1% | 15% | 38% |

# Dadansoddiad o berfformiad

Mae modd rhannu'r Hawliau Craidd a'r dangosyddion ansawdd yn dri phrif faes. Mae'r adran hon o'r adroddiad yn amlinellu perfformiad o dan y meysydd hyn.

## Bodloni anghenion cwsmeriaid (DA 1-2, 4-5)

Nawr bod yr holl ddata ar gael ar gyfer cyfnod Estyniad Fframwaith 6, dangosir bod Powys yn perfformio'n agos i'r canolrif cenedlaethol, neu’n uwch na’r canolrif cenedlaethol, am yr holl fesurau Gwneud gwahaniaeth (DA1). Dyma'r awdurdod sydd yn y safle uchaf ym maes pobl ifanc sydd o'r farn bod y llyfrgell yn eu helpu i ddysgu a chael gwybod pethau. Mae Powys hefyd yn perfformio'n dda yn gyffredinol ym maes Bodlonrwydd cwsmeriaid (DA2), gan gyflawni 85% neu'n uwch am bob mesur.

Mae cymorth ar gyfer iechyd a lles (DA4) yn parhau i fod yn flaenoriaeth, gyda rôl newydd Swyddog Ymgysylltu â'r Gymuned (Iechyd a Lles) wedi'i hychwanegu at y strwythur staffio. Mae'r gwasanaeth llyfrgell wedi sefydlu partneriaethau gwybodaeth iechyd ar draws y sir, gan gynnwys gyda Bwrdd Iechyd Addysgu Powys (BIAP), ar amrywiol brosiectau gan gynnwys cynllun benthyg dyfeisiau iPad. Mae cymorth ar gyfer pobl sy'n byw gyda dementia a'u gofalwyr yn cynnwys sesiynau galw heibio gydag aelod o'r Tîm Asesu'r Cof, sesiynau Symudiadau Tai Chi er Lles (TMW) a grŵp canu rhwng y cenedlaethau. Uchafbwynt arall yw Clwb Llyfrau Pobl yn Gyntaf Powys yn y Gaer (Aberhonddu). Mae Pobl yn Gyntaf Powys yn helpu i drefnu grwpiau hunaneiriolaeth i bobl ag anabledd dysgu ar draws Powys, ac maent yn cyfarfod bob wythnos i ddarllen mewn grŵp a rhannu eu barn am y llyfr yn ogystal â chymryd rhan mewn gweithgareddau meddwlgarwch.

Mae Powys yn parhau i fod yn y chwartel uchaf yn genedlaethol am y nifer sy'n mynychu sesiynau hyfforddiant ffurfiol, gyda'r nifer yn cynyddu 25% o gymharu â 2023-24, a bron unarddeg gwaith drosodd ers 2022-23 (DA5). Roedd hyn yn rhannol oherwydd dau brosiect ynghlwm â'r Gronfa Ffyniant Gyffredin: Nifer i Fyny a Hybiau Cymunedol Digidol. Yn rhan o'r ail brosiect, sefydlwyd 10 hwb digidol, a arweiniodd at gynnydd sylweddol mewn ymgysylltiad. Adroddwyd bod y nifer sy'n mynychu am

gymorth anffurfiol hefyd wedi codi, i fyny 34% o gymharu â 2023-24, er bod Powys yn parhau i fod yn is na'r canolrif ar gyfer y mesur hwn.

## Mynediad a defnydd (DA 6-8)

Yn 2024-25, bodlonodd Powys y targed ar gyfer nifer y mannau gwasanaeth sefydlog sy'n darparu digwyddiadau a gweithgareddau i ddefnyddwyr â gofynion arbennig (DA6). Ymhlith y digwyddiadau i bobl â gofynion arbennig mae sesiynau galw heibio cymunedol i bobl o Wcráin, sesiynau galw heibio am gyngor ariannol, sesiynau cyngor ynni a gweithgareddau ar gyfer pobl sy'n byw gyda dementia. Mae'r gwasanaeth hefyd yn parhau i weithio'n agos gyda gwasanaeth Hygyrchedd Powys i gefnogi a galluogi unigolion a theuluoedd i fyw bywydau llawn a chyrchu eu cymunedau a chymryd rhan lawn ynddynt. Cynyddodd y nifer sy'n mynychu gweithgareddau a digwyddiadau 30% o gymharu â 2023-24, gan fwy na dyblu ers 2022-23, er bod y gwasanaeth yn parhau i fod yn is na'r canolrif cenedlaethol ar gyfer y nifer sy'n mynychu am bob pen o'r boblogaeth.

Er bod canran y boblogaeth o fewn pellter penodedig i wasanaeth llyfrgell neu leoliad symudol yn uwch nag yr adroddwyd yn 2023-24, nid yw Powys yn bodloni'r targed ym maes Lleoliad gwasanaethau (DA7). Nodir yr heriau sydd ynghlwm â gweithio mewn ardal lle mae dwysedd poblogaeth isel, ac mae'r gwasanaeth yn cynnig gwasanaeth Archebu a Chasglu ac yn gweithio gyda gwirfoddolwyr i ddosbarthu deunyddiau darllen i gwsmeriaid nad ydynt yn gallu cyrraedd llyfrgell.

Mae Powys yn uwch na'r canolrif cenedlaethol ym maes e-fenthyciadau, sydd wedi mwy na dyblu o gymharu â 2023-24 (DA8). Nid oedd y gwasanaeth yn gallu adrodd ar ymweliadau rhithwir eleni oherwydd problemau technegol gyda Google Analytics.

## Arbenigedd a chapasiti (DA 13-14 ac 16)

Er nad yw Powys yn bodloni'r targedau ar gyfer cyfanswm y staff na chyfanswm y staff cymwysedig am bob pen o'r boblogaeth, mae yn y chwartel uchaf yn genedlaethol ar gyfer y ddau fesur (DA13). Fodd bynnag, dylid nodi bod y cyfanswm staffio wedi'i seilio ar Wasanaethau Diwylliannol Powys yn eu cyfanrwydd (h.y. gan gynnwys amgueddfeydd, llyfrgelloedd ac archifau), am fod y pedair amgueddfa oll wedi'u cyd-leoli gyda llyfrgelloedd bellach. O ganlyniad i adolygiad staffio diweddar, mae pedair swydd Swyddog Ymgysylltu â'r Gymuned newydd wedi'u creu gyda chylchoedd gwaith ym meysydd Plant a Phobl Ifanc, Diwylliant a Threftadaeth, Digidol, ac Iechyd a Lles. Eu nodau trawsfwaol ar gyfer 2025-26 fydd mapio cyfansoddiad cymunedau a chynnal dadansoddiad anghenion. Ar gyfer 2024-25, cyllidwyd un swydd Uwch Gynorthwyydd Llyfrgell (Cymorth Digidol) gan Grant Cymorth Tai gyda ffocws ar gynhwysiant digidol. Yn hanesyddol, mae Cynorthwywyr Llyfrgell, Cynorthwywyr Hwb a Chynorthwywyr Canolfan wedi cael cyflog Radd 3. Yn dilyn adolygiad o'r swydd-ddisgrifiadau, mae rôl newydd wedi'i chreu, sef Swyddog Cymunedau, Diwylliant a Digidol, sy'n cael cyflog ar Radd 5. Mae'r rôl a'r radd newydd yn adlewyrchu'r angen am sgiliau newydd ac yn cydnabod cyfrifoldeb staff y

rheng flaen ar hyn o bryd. Mae cyfran yr amser staff a dreuliwyd ar hyfforddiant yn nodedig uwch eleni oherwydd gweithredu'r LMS newydd. Mae dau aelod o staff yn ymgymryd â Siarteriaeth CILIP gyda chymorth Llywodraeth Cymru.

Mae Powys yn defnyddio gwirfoddolwyr, ac adroddir bod oriau gwirfoddolwyr yn gyfwerth ag ychydig o dan 3.5 aelod o staff CALI (gostyngiad o 4% ers 2023-24). Nodir bod y ffigur hwn yn cynnwys gwirfoddolwyr o bob rhan o'r Gwasanaethau Diwylliannol. Yn dilyn yr adolygiad gwasanaeth, mae swydd Swyddog Ymgysylltu â Gwirfoddolwyr bellach yn rhan o'r strwythur staffio. Fodd bynnag, mae'n bwysig sicrhau bod gwirfoddolwyr yn cael eu defnyddio yn unol ag arweiniad CILIP.

Yn dilyn gostyngiad mewn gwariant gweithredol yn 2023-24, mae gwariant refeniw wedi cynyddu 43% eleni, ac mae Powys bellach yn uwch na'r canolrif cenedlaethol (DA14). Mae cyfran y gwariant refeniw a ddyrannwyd i staffio wedi cynyddu o 67% i 74% o ganlyniad i'r newidiadau staffio a adroddwyd. Fodd bynnag, er gwaethaf y cynnydd i'r gyllideb gyffredinol, mae'r gyllideb lyfrau wedi'i gostwng 13%. Er y cydnabyddir bod effaith bosibl ar gaffaeliadau trwy gyflwyno'r LMS newydd, mae hyn yn bryder.

Mae Powys yn bodloni'r targed ar gyfer oriau agor, gydag ychydig o gynnydd yn yr oriau agor eleni (1%) (DA16). Mae gan y gwasanaeth nifer bach hefyd o oriau agor heb staff.

## Y cyd-destun strategol

Yn rhan o'r ffurflen, mae gofyn i awdurdodau adrodd ar y ffordd mae'r gwasanaeth llyfrgelloedd yn cyfrannu at flaenoriaethau a nodau strategol ehangach Llywodraeth Cymru. Amlinellodd Powys ystod eang o weithgareddau sy'n cyfrannu at Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, gan gynnwys y canlynol:

- **Cymru iachach** e.e. rhoi benthyg peiriannau monitro pwysau gwaed a darparu adnoddau dementia am ddim, fel blychau cofio a Rempods; codi ymwybyddiaeth o faterion iechyd a chysylltu trigolion â sefydliadau arbenigol; a lleihau ynysigrwydd cymdeithasol trwy amrywiaeth o weithgareddau.
- **Cymru fwy cyfartal** e.e. cynnig offer TG a sesiynau cymorth digidol a ddim i hybu sgiliau a lleihau tlodi digidol; a gweithredu Mannau Cynnes yn ystod misoedd y gaeaf i gefnogi pobl mewn angen.
- **Cymru o gymunedau cydlynus** e.e. cynnig lle diogel a niwtral lle gall trigolion gysylltu ag eraill trwy weithgareddau a digwyddiadau.
- **Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu** e.e. cynnig cyfleusterau wedi'u cydleoli sy'n cefnogi mynediad i weithgareddau diwylliannol ac yn darparu adnoddau a digwyddiadau yn y Gymraeg, gan gynnwys Cymraeg i Blant a grwpiau sgwrsio i ddysgwyr y Gymraeg.
- **Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang** e.e. ailgylchu ac ailddefnyddio deunyddiau'r llyfrgell yn lleol; cefnogi gwirfoddolwyr gan gynnwys myfyrwyr

Bagloriaeth Cymru, profiad gwaith a Gwobr Dug Caeredin; a gweithredu fel hybiau casglu sbwriel ar gyfer Cadwch Gymru'n Daclus.

## Cyfeiriad at y dyfodol

Gan adrodd ar gyfeiriad yr awdurdod at y dyfodol, a'i gynlluniau ar gyfer y gwasanaeth llyfrgell dros y flwyddyn sydd i ddod, bydd Powys yn gweithredu o fewn fframwaith Cyfeiriad Strategol Corfforaethol y cyngor, 'Powys Gynaliadwy', sydd â'r nod o ddylunio gwasanaethau cryfach, tecach a gwyrddach o fewn y cyllidebau sydd ar gael, tra'n meithrin gwytnwch trwy atebion dan arweiniad y gymuned. Fodd bynnag, fel mae Powys yn ei nodi, nid yw 'Powys Gynaliadwy' eto wedi'i datblygu neu ei gweithredu'n llawn a, nes y bydd hi, mae cyfeiriad a chynlluniau'r Gwasanaethau Diwylliannol, gan gynnwys y llyfrgell, at y dyfodol, yn parhau'n aneglur. Fel rhan o'r Gwasanaethau Diwylliannol, mae'r gwasanaeth llyfrgell yn wynebu heriau ariannol sylweddol dros yr ychydig flynyddoedd nesaf, a fydd yn mynnu addasu parhaus i sicrhau bod y dull o gyflwyno'r gwasanaeth yn parhau'n gynaliadwy ac yn ymatebol i anghenion y gymuned. Mae strwythur staffio newydd yn ei le i gynyddu allgyrraedd a hyrwyddo'r gwasanaethau llyfrgell i gynulleidfa ehangach.

## Casgliad

Mae Powys yn perfformio'n dda mewn nifer o feysydd. Mae'r nifer sy'n mynychu hyfforddiant ffurfiol, digwyddiadau a chymorth anffurfiol oll ar gynnydd, ynghyd ag e-fenthyciadau. Mae hefyd yn gadarnhaol bod y gwasanaeth bellach yn bodloni'r targed am nifer y mannau gwasanaeth sefydlog sy'n darparu digwyddiadau a gweithgareddau ar gyfer defnyddwyr â gofynion arbennig. Mae'r ffaith bod swyddi newydd wedi'u creu yn y strwythur staffio hefyd yn elfen gadarnhaol o ffurflen eleni, a bydd hyn, gobeithio, yn caniatáu i Bowys barhau i ddatblygu ei gweithgareddau a'i chynnig cymorth cymunedol. Mae gan Bowys gysylltiadau cadarn amlwg gyda'r gymuned leol, yn arbennig o ran cymorth iechyd a lles. Mae'r targed ym maes lleoliad mannau gwasanaeth yn parhau i fod yn her barhaus o ystyried dwysedd y boblogaeth yn y sir. Er bod gwelliant derbyniol yn y perfformiad yn erbyn DA7 eleni, mae'r gwasanaeth yn dal dipyn o ffordd o fodloni'r targed.

Mewn perthynas â'r ffurflen SLICC, mae'n gadarnhaol bod Powys wedi gallu darparu ffigurau staffio eleni. Fodd bynnag, mae'n parhau'n anodd cymharu lefelau staffio ym Mhowys â lefelau mewn awdurdodau llyfrgell eraill oherwydd na ddarperir amcangyfrif o gyfran amser staff a neilltuir i wasanaethau llyfrgell.

# Adroddiad Asesu Blynyddol 2024-25 Rhondda Cynon Taf

Mae'r adroddiad hwn wedi'i baratoi ar sail gwybodaeth a ddarparwyd gan ffurflen flynyddol Rhondda Cynon Taf, datganiadau effaith ac adroddiad naratif a gyflwynwyd i Is-adran Diwylliant Llywodraeth Cymru.

## Crynodeb gweithredol

Mae Rhondda Cynon Taf yn bodloni pob un o'r 13 Hawl Graidd yn llawn. O'r 5 dangosydd ansawdd lle mae targedau, mae Rhondda Cynon Taf yn cyflawni 3 yn llawn ac 1 yn rhannol. Mae un DA sydd heb ei fodloni.

Mae'n amlwg bod cwsmeriaid yn gwerthfawrogi Llyfrgelloedd Rhondda Cynon Taf, a bod y gwasanaeth yn perfformio'n dda mewn nifer o feysydd, gan gynnwys darpariaeth hyfforddiant ffurfiol a chymorth ar gyfer hyfforddiant staff. Mae hefyd yn gadarnhaol bod cynnydd wedi bod eleni yn y cymorth anffurfiol a'r oriau agor cyffredinol, er nad yw'r gwasanaeth yn bodloni'r targed ar gyfer yr ail elfen yma eto. Fodd bynnag, mae'r gostyngiad parhaus i'r gyllideb lyfrau'n bryder o hyd ac os na chymerir camau i fynd i'r afael â hyn, mae'n debygol o ddechrau effeithio ar brofiad cwsmeriaid o'r gwasanaeth llyfrgell. Mae'n bosibl y bydd Rhondda Cynon Taf hefyd am adolygu ei ddarpariaeth e-adnoddau. Er bod e-fenthyciadau'n cynyddu, maent yn nodedig is nag awdurdodau llyfrgell eraill Cymru, felly mae'n bosibl y bydd y gwasanaeth am ymchwilio i hyn ymhellach ac archwilio ffyrdd o wneud ei gynnig e-adnoddau'n fwy deniadol i gwsmeriaid.

- Rhondda Cynon Taf yw'r gwasanaeth yn y safle uchaf yn genedlaethol am ofal cwsmeriaid (DA2).
- Mae Rhondda Cynon Taf yn uwch na'r canolrif cenedlaethol ar gyfer cymorth ffurfiol am bob pen o'r boblogaeth, ac mae nifer y sesiynau cymorth ffurfiol a ddarparwyd wedi cynyddu 18% o gymharu â 2023-24 a 70% o gymharu â 2022-23 (DA5).
- Mae cymorth anffurfiol am bob pen o'r boblogaeth wedi cynyddu'n ddramatig ers 2023-24, gan godi fwy na theirgwaith drosodd (DA5).

## Nodyn i adroddiad 2024-25

Yn ystod 2024-25, symudodd awdurdodau lleol yng Nghymru i Blatfform Llyfrgell Ddigidol newydd ar gyfer Cymru gyfan. Perwyd rhywfaint o darfu i weithrediad

gwasanaethau llyfrgell yn ystod y broses symud, gan gynnwys mewn perthynas â chaffael stoc newydd, sef gwaith y bu'n rhaid ei atal am gyfnod wrth i wasanaethau unigol symud i'r system newydd. Mae rhywfaint o fân wahaniaethau hefyd yn ffurfwedd y platfform newydd, sy'n golygu nad yw data defnyddwyr yn ystod 2024-25 yn gwbl gyson. Felly, nid yw'r adroddiadau ar gyfer 2024-25 yn cynnwys y data a nodir isod ar gyfer Dangosyddion Ansawdd 4, 8, 9 a 10.

DA 4 Cymorth ar gyfer iechyd a lles
c) nifer y benthyciadau o gyfres Darllen yn Well Cymru

DA 8 Defnydd o'r llyfrgell
c) cyfanswm y benthycwyr gweithredol wedi'i rannu â maint y boblogaeth drigolion, a'i luosi â 1,000
d) cyfanswm aelodau'r llyfrgell
e) cyfanswm y llyfrau a fenthycwyd (oedolion a phlant ar wahân)
f) cyfanswm yr eitemau clyweledol a fenthycwyd

DA 9 Deunydd darllen cyfoes a phriodol
a) cyfradd gaffael isaf
b) % a wariwyd ar adnoddau i blant

DA 10 Adnoddau yn y Gymraeg
a) isafswm gwariant o 4%
b) benthyciadau yn y Gymraeg am bob pen o'r boblogaeth

Caiff yr holl ddata ei adrodd a'i asesu ar gyfer 2025-26 (sef blwyddyn gyntaf Fframwaith 7), a chaiff y data hwn ei ddefnyddio i osod y meincnod ar gyfer y blynyddoedd sy'n weddill yn y fframwaith.

## Perfformiad yn erbyn y safonau

Mae'r fframwaith safonau'n cynnwys Hawliau Craidd, dangosyddion ansawdd gyda thargedau, dangosyddion ansawdd gyda meincnodau a mesurau effaith.

### Hawliau Craidd

Adroddodd Rhondda Cynon Taf ei fod wedi bodloni pob un o'r 13 Hawl Graidd yn llawn trwy hunanasesu. Ar sail y sylwebaeth fanwl a chynorthwyol a ddarparwyd, mae'r asesydd annibynnol yn cytuno gyda'r hunanasesiad.

### Dangosyddion ansawdd gyda thargedau

Mae 12 dangosydd ansawdd (DA), y mae gan 5 ohonynt dargedau cyfansoddol. O'r rhain, mae Rhondda Cynon Taf yn cyflawni 3 yn llawn ac 1 yn rhannol. Mae un DA sydd heb ei fodloni.

DA 4 (a) Cymorth ar gyfer iechyd a lles, **bodlonwyd yn llawn ▲**
i) Cynllun Darllen yn Well, **bodlonwyd**

ii) Casgliad dynodedig iechyd a lles, **bodlonwyd**
iii) Gwybodaeth am ffyrdd iachach o fyw ac ymddygiad iach, **bodlonwyd**
iv) Cyfeirio at wasanaethau iechyd a lles, **bodlonwyd**

DA 6 Mae'r holl fannau gwasanaeth sefydlog yn cynnig digwyddiadau/gweithgareddau i ddefnyddwyr â gofynion arbennig, **bodlonwyd yn llawn** ▲

DA 7 Lleoliad mannau gwasanaeth, **bodlonwyd yn llawn** ▲

DA 13 Lefelau staffio a chymwysterau, **bodlonwyd yn rhannol** ■
i) Staff am bob pen o'r boblogaeth, **ni fodlonwyd**
ii) Staff cymwysedig am bob pen o'r boblogaeth, **ni fodlonwyd**
iii) Cymwysterau/hyfforddiant pennaeth y gwasanaeth, **bodlonwyd**
iv) Canran DPP, **bodlonwyd**

DA 16 Oriau agor am bob pen o'r boblogaeth, **ni fodlonwyd** ●

## Mesurau effaith

Mae'r fframwaith yn cynnwys tri dangosydd gyda'r nod o asesu effaith defnyddio llyfrgelloedd ar fywydau pobl. Nid oes targedau i'r dangosyddion hyn, ac mae disgwyl i awdurdodau gynnal arolygon defnyddwyr ar gyfer DA1 ar un achlysur yn ystod y cyfnod o 2022-23 i 2024-25. Cynhaliodd Rhondda Cynon Taf arolwg oedolion ym mis Mawrth 2025 ac arolwg plant ym mis Mawrth 2023. Mae'r ffigyrau crynodol (isaf, canolrifol ac uchaf) wedi'u seilio ar ddata gan bob awdurdod lleol a ddarparodd ddata yn ffurflenni 2022-23, 2023-24 a 2024-25. Mae'r safleoedd yn adlewyrchu nifer yr ymatebwyr, lle mai 1 yw'r awdurdod sy'n sgorio uchaf.

| Dangosydd perfformiad | | Safle | Isaf | Canolrifol | Uchaf |
|---|---|---|---|---|---|
| DA 1 Gwneud gwahaniaeth | | | | | |
| b) % y bobl ifanc sydd o'r farn bod y llyfrgell yn eu helpu i ddysgu a chael gwybod pethau: | 90% | =13/19 | 68% | 94% | 99% |
| e) % yr oedolion sydd o'r farn bod y llyfrgell wedi gwneud gwahaniaeth i'w bywydau: | 82% | 17/20 | 31% | 86.5% | 96% |
| DA 5 b) % y mynychwyr sesiynau hyfforddiant a ddywedodd fod yr hyfforddiant wedi'u helpu i gyflawni eu diben trwy fynychu: | 97% | 12/18 | 75% | 98.5% | 100% |

Gofynnir hefyd i awdurdodau ddarparu datganiad effaith yn disgrifio'r effaith mae'r gwasanaeth llyfrgell wedi'i chael ar unigolyn neu ar grŵp o unigolion yn ystod y flwyddyn. Darparodd Rhondda Cynon Taf ddatganiad effaith a roddodd fanylion sut mae Llyfrgell Pontypridd wedi chwarae rôl hanfodol yn ymrwymiad Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf i groesawu hyd at 50 o ffoaduriaid trwy Gynllun Adsefydlu'r DU. Trwy ddarparu gofod cyfeillgar, diogel ac anfeirniadol, mae'r llyfrgell yn cynnal cyfarfodydd wythnosol rhwng y Tîm Adsefydlu a theuluoedd o ffoaduriaid,

gan alluogi cymorth wyneb yn wyneb, wedi'i bersonoli, i fynd i'r afael ag anghenion yn gysylltiedig â thai, addysg, iechyd ac integreiddio. Mae staff y llyfrgell yn hyrwyddo gwasanaethau'r llyfrgell yn weithredol, yn annog aelodaeth newydd ac yn cysylltu teuluoedd â gweithgareddau fel Amser Rhigwm i blant. Mae'r llyfrgell wedi ymestyn ei chasgliad o lyfrau mewn ieithoedd Ewropeaidd, gan helpu ffoaduriaid i gadw cysylltiadau â'u mamiaith tra'n ymgartrefu yn eu cymuned newydd.

Mae adborth gan y Tîm Adsefydlu a theuluoedd o ffoaduriaid yn nodi bod cyfarfod yn y llyfrgell yn lleihau gorbryder yn sylweddol, ac yn cefnogi camau trosglwyddo llyfnach. Mae'r amgylchedd croesawgar wedi'i ddisgrifio fel un sy'n gwneud i ffoaduriaid deimlo'n gyfforddus ac wedi'u gwerthfawrogi, ac mae'r cyfle i gael mynediad i wasanaethau'r cyngor a gweithgareddau cymunedol mewn un lle wedi'u helpu i ddechrau creu cysylltiadau lleol. Mae'r llyfrgell hefyd yn helpu teuluoedd i fagu hyder wrth ddod i arfer â'u cymuned newydd.

Trwy hwyluso'r cyfarfodydd hyn, mae Llyfrgell Pontypridd yn cefnogi cydlyniant cymunedol; yn hwyluso teithiau adsefydlu ffoaduriaid; ac yn dangos y rôl hanfodol mae llyfrgelloedd yn ei chwarae wrth feithrin cynhwysiant a darparu mannau hygyrch, y gellir ymddiried ynddynt sy'n helpu newydd-ddyfodiaid i deimlo'n gartrefol.

## Dangosyddion ansawdd a meincnodau

Nid oes targedau i'r dangosyddion sy'n weddill, ond maent yn caniatáu i wasanaethau fonitro eu perfformiad dros amser. Mae'r tabl canlynol yn crynhoi safle Rhondda Cynon Taf ar gyfer 2024-25. Mae'r safleoedd yn adlewyrchu nifer yr ymatebwyr, lle mai 1 yw'r awdurdod sy'n sgorio uchaf. Caiff dangosyddion 'am bob pen o’r boblogaeth' eu cyfrifo fesul 1,000 o'r boblogaeth oni nodir fel arall.

| Dangosydd perfformiad | | Safle | Isaf | Canolrifol | Uchaf |
|---|---|---|---|---|---|
| DA 1 Gwneud gwahaniaeth | | | | | |
| a) % yr oedolion sydd o'r farn bod defnyddio'r llyfrgell wedi'u helpu i ddatblygu sgiliau newydd | 76% | 7/20 | 17% | 70% | 90% |
| c) iechyd a lles | 56% | =13/20 | 1% | 63% | 90% |
| d) pleserus, diogel a chynhwysol | 99% | =4/20 | 93% | 97% | 100% |
| DA 2 Bodlonrwydd cwsmeriaid | | | | | |
| a) dewis 'da iawn' neu 'dda' o lyfrau | 93% | =6/20 | 84% | 90.5% | 97% |
| b) gofal cwsmeriaid 'da iawn' neu 'dda' | 100% | 1/20 | 92% | 98% | 100% |
| c) cyfleusterau TG 'da iawn' neu 'dda' | 91% | 4/20 | 60% | 85% | 99% |
| d) 'da iawn' neu 'dda' yn gyffredinol | 98% | =7/20 | 85% | 98% | 100% |
| e) sgôr allan o ddeg ymysg defnyddwyr 16 oed ac iau | 9.4 | =9/18 | 8.0 | 9.4 | 9.7 |
| DA 5 Cymorth i ddefnyddwyr | | | | | |
| a) nifer yn mynychu am bob pen o'r boblogaeth | 29 | =9/21 | 1 | 28 | 214 |
| c) cymorth anffurfiol am bob pen o'r boblogaeth | 63 | 15/20 | 15 | 150 | 608 |
| DA 6 Nifer yn mynychu digwyddiadau am bob pen o'r boblogaeth | 212 | 13/22 | 14 | 224.5 | 764 |
| DA 8 Defnydd o'r llyfrgell | | | | | |
| b) ymweliadau rhithwir am bob pen o'r boblogaeth | 648 | 12/21 | 5 | 766 | 6,035 |
| DA 13 Lefelau staffio a chymwysterau[23] | | | | | |
| (v) a) cyfanswm y gwirfoddolwyr | 16 | Dd/B | 0 | 23 | 442 |
| b) oriau gwirfoddolwyr | 998 | Dd/B | 0 | 883 | 22,706 |
| DA 14 Gwariant gweithredol | | | | | |
| a) cyfanswm gwariant am bob pen o'r boblogaeth | £11,498 | 14/21 | £5,978 | £12,646 | £26,209 |
| b) % ar staff | 77% | =3/21 | 48% | 67% | 80% |
| % ar adnoddau gwybodaeth | 9% | =11/21 | 4% | 9% | 19% |
| % ar gyfarpar ac adeiladau | 2% | =11/21 | 0% | 2% | 29% |
| % ar gostau gweithredol eraill | 12% | 14/21 | 1% | 15% | 38% |

# Dadansoddiad o berfformiad

Mae modd rhannu'r Hawliau Craidd a'r dangosyddion ansawdd yn dri phrif faes. Mae'r adran hon o'r adroddiad yn amlinellu perfformiad o dan y meysydd hyn.

## Bodloni anghenion cwsmeriaid (DA 1-2, 4-5)

Mae Rhondda Cynon Taf yn perfformio'n dda ym maes Bodlonrwydd cwsmeriaid (DA2), ac mae oddeutu'r canolrif neu'n uwch na'r canolrif ar gyfer pob mesur, a hwn yw'r gwasanaeth yn y safle uchaf yn genedlaethol am ofal cwsmeriaid. Mae canlyniadau ym maes Gwneud gwahaniaeth (DA1) hefyd yn gadarnhaol yn y rhan fwyaf o feysydd. Mae Rhondda Cynon Taf yn bodloni'r targed ym maes Cymorth ar gyfer iechyd a lles yn llawn, ac ymhlith y mentrau newydd eleni mae llyfrgelloedd yn

[23] *Nid oes safleoedd wedi'u cynnwys ar gyfer gwirfoddolwyr am fod goblygiadau niferoedd gwirfoddolwyr yn aneglur.*

troi'n lleoliadau Mannau Diogel dynodedig a chymryd rhan mewn cynllun gan y llywodraeth i ddarparu cynnyrch mislif am ddim (DA4).

Mae Rhondda Cynon Taf yn uwch na'r canolrif cenedlaethol ar gyfer cymorth ffurfiol am bob pen o'r boblogaeth, ac mae nifer y sesiynau cymorth ffurfiol a ddarparwyd wedi cynyddu 18% o gymharu â 2023-24 a 70% o gymharu â 2022-23 (DA5). Mae cymorth anffurfiol am bob pen o'r boblogaeth wedi cynyddu'n ddramatig ers 2023-24, gan godi fwy na theirgwaith drosodd. Fodd bynnag, er gwaethaf y gwelliannau nodedig hyn, mae'r gwasanaeth yn parhau i fod yn is na'r canolrif cenedlaethol ar gyfer y mesur hwn.

## Mynediad a defnydd (DA 6-8)

Mae'r nifer sy'n mynychu digwyddiadau ychydig yn is na'r canolrif (DA6). Mae'r ffigurau mynychu wedi parhau'n agos i ffigurau'r flwyddyn flaenorol. Ymhlith yr enghreifftiau mae grwpiau hirdymor sefydledig fel Gweu a Sgwrs, Ysgrifennu Creadigol, a *Dungeons and Dragons*; digwyddiadau tymor cyfyngedig fel gwersi gitâr, gwersi Cymraeg a chyrsiau dysgu am fwyd (*Foodwise)*; a digwyddiadau unigol fel gweithgareddau'r Pasg a'r Nadolig.

Er bod cyfran y boblogaeth sy'n byw o fewn pellter penodedig i lyfrgell wedi gostwng o gymharu â'r hyn a adroddwyd yn 2023-24, mae Rhondda Cynon Taf yn dal i fodloni'r targed ym maes Lleoliad gwasanaethau o dipyn (DA7). Mae ymweliadau rhithwir wedi cynyddu 12% o gymharu â 2023-24, ac mae Rhondda Cynon Taf bellach yn agos i'r canolrif ar gyfer y mesur hwn (DA8). Fodd bynnag, mae'r gwasanaeth yn y safle isaf yn genedlaethol am e-fenthyciadau, er gwaethaf cynnydd o 12% o gymharu â 2023-24.

## Arbenigedd a chapasiti (DA 13-14 ac 16)

Nid yw Rhondda Cynon Taf yn bodloni'r targed ar gyfer cyfanswm staff am bob pen o'r boblogaeth, er ei fod oddeutu'r canolrif cenedlaethol ar gyfer y mesur hwn (DA13). Mae'r gwasanaeth yn adrodd bod pwysau ariannol yn y cyngor wedi arwain at adolygiad gwasanaeth yn 2024. Arweiniodd hyn at dorri swyddi 3 uwch gynorthwyydd llyfrgell ac 1 cynorthwyydd rheoli stoc o'r strwythur staffio, gan leihau 2 oddi ar nifer y staff CALI. Mae'r cyfanswm staff yn cynnwys prentis, rheolwr prosiect a gyllidir trwy grant NHLF y Loteri a swyddog datblygu TGCh a gyllidir trwy'r Gronfa Ffyniant Gyffredin. Nid yw'r gwasanaeth yn bodloni'r targed ychwaith am staff cymwysedig am bob pen o'r boblogaeth, ac nid yw'r ffigur hwn wedi newid ers 2023-24. Mae Rhondda Cynon Taf yn adrodd ei fod yn annhebygol o recriwtio staff cymwysedig ychwanegol yn y dyfodol agos, er bod aelod o staff wedi cwblhau eu cwrs ac yn disgwyl i'w gradd gael ei chadarnhau. Mae rhai staff heb gymwysterau'n parhau mewn swyddi y mae gofyn am gymwysterau ar eu cyfer, a hynny oherwydd yr angen i ailddefnyddio staff a adleolwyd yn ystod camau diweddar i ailstrwythuro gwasanaethau. Unwaith i'r staff hyn adael y swyddi, cânt eu hysbysebu fel swyddi cymwysedig. Fodd bynnag, mae'r gwasanaeth yn perfformio'n dda am y gyfran o

amser staff a neilltuir i hyfforddiant. Mae system arfarnu staff wedi'i chyflwyno'n ddiweddar, ac elfen allweddol o hon yw nodi anghenion hyfforddiant staff.

Er bod Gwariant gweithredol wedi cynyddu 15%, mae Rhondda Cynon Taf yn parhau i fod yn is na'r canolrif cenedlaethol (DA14). Er bod gwariant cyffredinol wedi cynyddu eleni, mae'r gyfran a neilltuir i ddeunyddiau wedi gostwng, ac mae'r gyllideb lyfrau 12% yn is nag yn 2023-24. Er y gallai cyflwyno LMS newydd eleni fod wedi peri tarfu eleni, mae'r gwariant ar ddeunyddiau am bob pen o'r boblogaeth wedi gostwng 28% ers 2022-23.

Er nad yw Rhondda Cynon Taf yn bodloni'r targed ym maes Oriau agor (DA16), mae'r gwasanaeth wedi gwneud gwelliannau mewn perthynas â'r DA hwn ers y flwyddyn flaenorol, gyda'r oriau agor cyffredinol yn cynyddu 12%. Yn dilyn adolygiad gwasanaeth yn 2024, gostyngodd y 3 llyfrgell ardal eu horiau agor, ond cynyddodd llyfrgelloedd cangen llai eu horiau agor nhw. Mae'r gwasanaeth yn gweithredu model clwstwr fel bod o leiaf un llyfrgell gangen ac un llyfrgell ardal ar agor o fewn clwstwr am 6 diwrnod yr wythnos. Yn ogystal, mae gwasanaeth cludo 'I'r Cartref'.

## Y cyd-destun strategol

Yn rhan o'r ffurflen, mae gofyn i awdurdodau adrodd ar y ffordd mae'r gwasanaeth llyfrgelloedd yn cyfrannu at flaenoriaethau a nodau strategol ehangach Llywodraeth Cymru. Amlinellodd Rhondda Cynon Taf ystod eang o weithgareddau yn alinio â Chynllun Corfforaethol y Cyngor 2024-30 (Gweithio gyda'n Cymunedau), sy'n gwasanaethu'r Cynllun Llesiant sy'n ofynnol yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae'r cynllun yn canolbwyntio ar bedwar amcan llesiant. Ymhlith yr enghreifftiau mae:

- **Pobl a Chymunedau** e.e. mynediad am ddim i ystod o weithgareddau fel cynlluniau Darllen yn Well, Caffis Dementia, sesiynau dysgu am fwyd *Foodwise*, Amser Rhigwm i Fabanod a Her Ddarllen yr Haf i gefnogi addysg, datblygu sgiliau, lles a chysylltiadau cymunedol.
- **Gwaith a Busnes** e.e. darparu hyfforddiant, cymorth sgiliau digidol, a chyrsiau sgiliau hanfodol mewn partneriaeth ag Addysg i Oedolion a Chanolfan Byd Gwaith; cefnogi Clybiau Gwaith a rhaglenni dychwelyd i'r gwaith a Chymunedau am Waith a Mwy; a chynnig cyfleoedd gwirfoddoli sy'n helpu pobl i ddatblygu sgiliau ychwanegol i wella'u gobeithion o ran cael gwaith.
- **Natur a'r Amgylchedd** e.e. cefnogi mentrau ailgylchu, darparu pwyntiau gwaredu batris, cynlluniau cewynnau amldro a chynnyrch mislif am ddim; a gosod paneli solar a systemau goleuo effeithlon mewn llyfrgelloedd.
- **Diwylliant, Treftadaeth a'r Iaith Gymraeg** e.e. mynediad i adnoddau yn y Gymraeg gan gynnwys print mawr, sain, e-lyfrau ac e-gylchgronau; datblygu digwyddiadau dwyieithog a chyfrwng Cymraeg fel dosbarthiadau Cymraeg, grwpiau darllen, boreau coffi ac Amser Rhigwm; sicrhau bod staff sy'n siarad

Cymraeg yn amlwg a bod hyfforddiant ar gael i staff hyd at Lefel Iaith Gymraeg 1; a chadw cof cymunedol trwy gasgliadau hanes lleol.

## Cyfeiriad at y dyfodol

Gan adrodd ar gyfeiriad yr awdurdod at y dyfodol a'i gynlluniau ar gyfer y gwasanaeth llyfrgell dros y flwyddyn sydd i ddod, mae Rhondda Cynon Taf yn nodi, er nad yw arbedion effeithlonrwydd wedi'u ceisio eto ar gyfer 2025-26, bod pwysau ariannol sy'n wynebu awdurdodau lleol yn parhau i fod yn ffactor allweddol a allai ddylanwadu ar gynllunio a chyfeiriad y gwasanaeth at y dyfodol.

Ymhlith y blaenoriaethau allweddol ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod, mae terfynu a chyhoeddi Strategaeth Llyfrgelloedd newydd sy'n rhychwantu'r cyfnod 2026-30, a fydd yn nodi gweledigaeth y gwasanaeth a'i gynllun gweithredu ar gyfer y blynyddoedd sydd i ddod. Yn ogystal, mae cais am grant 'Blaenoriaethau ar gyfer Diwylliant' yn cael ei lunio ar y cyd, a hynny mewn partneriaeth â'r gwasanaeth Celfyddydau. Os bydd yn llwyddiannus, bydd y cyllid hwn yn cynorthwyo'r gwaith o ddatblygu mannau creadigol ac ymarfer i artistiaid ar safle partneriaeth yr Hwb Creadigol yn Llyfrgell Treorci a Theatr y Parc a'r Dâr, gan atgyfnerthu rôl y llyfrgell ymhellach o ran hyrwyddo ymgysylltiad diwylliannol a chefnogi cymunedau creadigol lleol. Blaenoriaeth bellach i'r gwasanaeth fydd gwreiddio'r LMS Cymru gyfan newydd yn llawn.

## Casgliad

Mae'n amlwg bod cwsmeriaid yn gwerthfawrogi Llyfrgelloedd Rhondda Cynon Taf, a bod y gwasanaeth yn perfformio'n dda mewn nifer o feysydd, gan gynnwys darpariaeth hyfforddiant ffurfiol a chymorth ar gyfer hyfforddiant staff. Mae hefyd yn gadarnhaol bod cynnydd wedi bod eleni yn y cymorth anffurfiol a'r oriau agor cyffredinol, er nad yw'r gwasanaeth yn bodloni'r targed ar gyfer yr ail elfen yma eto. Fodd bynnag, mae'r gostyngiad parhaus i'r gyllideb lyfrau'n bryder o hyd ac os na chymerir camau i fynd i'r afael â hyn, mae'n debygol o ddechrau effeithio ar brofiad cwsmeriaid o'r gwasanaeth llyfrgell. Mae'n bosibl y bydd Rhondda Cynon Taf hefyd am adolygu ei ddarpariaeth e-adnoddau. Er bod e-fenthyciadau'n cynyddu, maent yn nodedig is nag awdurdodau llyfrgell eraill Cymru, felly mae'n bosibl y bydd y gwasanaeth am ymchwilio i hyn ymhellach ac archwilio ffyrdd o wneud ei gynnig e-adnoddau'n fwy deniadol i gwsmeriaid.

# Adroddiad Asesu Blynyddol 2024-25 Abertawe

Mae'r adroddiad hwn wedi'i baratoi ar sail gwybodaeth a ddarparwyd gan ffurflen flynyddol Abertawe, datganiadau effaith ac adroddiad naratif a gyflwynwyd i Is-adran Diwylliant Llywodraeth Cymru.

## Crynodeb gweithredol

Mae Abertawe yn bodloni pob un o'r 13 Hawl Graidd yn llawn. O'r 5 dangosydd ansawdd lle mae targedau, mae Abertawe yn cyflawni 3 yn llawn ac 1 yn rhannol. Mae un DA sydd heb ei fodloni.

Mae Abertawe yn parhau i berfformio'n dda mewn nifer o feysydd, gan gynnwys y nifer sy'n mynychu digwyddiadau, cymorth anffurfiol, ymweliadau rhithwir ac e-fenthyciadau. Mae'r gwasanaeth hefyd yn parhau i weithio gyda phlant a phobl ifanc i sicrhau bod y llyfrgell yn bodloni eu hanghenion. Amlygwyd y diffyg staff cymwysedig fel pryder yn ffurflen y llynedd. Er ei bod yn siomedig, wrth gwrs, nad oedd modd i'r gwasanaeth llyfrgell recriwtio staff cymwysedig, canlyniad cadarnhaol yw ei fod yn cefnogi staff presennol i gyflawni statws cymwysedig yn y dyfodol. Nid yw Abertawe wedi bodloni'r targed o ran oriau agor am bob pen o'r boblogaeth eleni. Er y cydnabyddir bod hyn oherwydd newidiadau cyflym i’r boblogaeth yn hytrach na gostyngiad i oriau agor, awgrymir y dylai Abertawe adolygu darpariaeth oriau agor ar draws yr awdurdod er mwyn penderfynu a oes modd addasu oriau agor yng ngoleuni newidiadau yn y boblogaeth, a'r galw cynyddol am wasanaethau llyfrgell a allai ymddangos o ganlyniad.

- Mae Abertawe yn perfformio'n dda ym maes Bodlonrwydd cwsmeriaid, ac mae'n uwch na'r canolrif cenedlaethol ar gyfer pob mesur (DA2).
- Mae'r nifer sy'n mynychu digwyddiadau'n parhau i fod yn uwch na chanolrif awdurdodau llyfrgell Cymru, ac mae wedi cynyddu 5% o gymharu â 2023-24 (DA6).
- Mae'r gwasanaeth yn y chwartel uchaf yn genedlaethol am e-fenthyciadau am bob pen o'r boblogaeth. Mae e-fenthyciadau wedi cynyddu 24% o gymharu â 2023-24, a 75% o gymharu â 2022-23 (DA8).

## Nodyn i adroddiad 2024-25

Yn ystod 2024-25, symudodd awdurdodau lleol yng Nghymru i Blatfform Llyfrgell Ddigidol newydd ar gyfer Cymru gyfan. Perwyd rhywfaint o darfu i weithrediad gwasanaethau llyfrgell yn ystod y broses symud, gan gynnwys mewn perthynas â

chaffael stoc newydd, sef gwaith y bu'n rhaid ei atal am gyfnod wrth i wasanaethau unigol symud i'r system newydd. Mae rhywfaint o fân wahaniaethau hefyd yn ffurfwedd y platfform newydd, sy'n golygu nad yw data defnyddwyr yn ystod 2024-25 yn gwbl gyson. Felly, nid yw'r adroddiadau ar gyfer 2024-25 yn cynnwys y data a nodir isod ar gyfer Dangosyddion Ansawdd 4, 8, 9 a 10.

DA 4 Cymorth ar gyfer iechyd a lles
c) nifer y benthyciadau o gyfres Darllen yn Well Cymru

DA 8 Defnydd o'r llyfrgell
c) cyfanswm y benthycwyr gweithredol wedi'i rannu â maint y boblogaeth drigolion, a'i luosi â 1,000
d) cyfanswm aelodau'r llyfrgell
e) cyfanswm y llyfrau a fenthycwyd (oedolion a phlant ar wahân)
f) cyfanswm yr eitemau clyweledol a fenthycwyd

DA 9 Deunydd darllen cyfoes a phriodol
a) cyfradd gaffael isaf
b) % a wariwyd ar adnoddau i blant

DA 10 Adnoddau yn y Gymraeg
a) isafswm gwariant o 4%
b) benthyciadau yn y Gymraeg am bob pen o'r boblogaeth

Caiff yr holl ddata ei adrodd a'i asesu ar gyfer 2025-26 (sef blwyddyn gyntaf Fframwaith 7), a chaiff y data hwn ei ddefnyddio i osod y meincnod ar gyfer y blynyddoedd sy'n weddill yn y fframwaith.

## Perfformiad yn erbyn y safonau

Mae'r fframwaith safonau'n cynnwys Hawliau Craidd, dangosyddion ansawdd gyda thargedau, dangosyddion ansawdd gyda meincnodau a mesurau effaith.

### Hawliau Craidd

Adroddodd Abertawe ei fod wedi bodloni pob un o'r 13 Hawl Graidd yn llawn trwy hunanasesu. Ar sail y sylwebaeth fanwl a chynorthwyol a ddarparwyd, mae'r asesydd annibynnol yn cytuno gyda'r hunanasesiad.

### Dangosyddion ansawdd gyda thargedau

Mae 12 dangosydd ansawdd (DA), y mae gan 5 ohonynt dargedau cyfansoddol. O'r rhain, mae Abertawe yn cyflawni 3 yn llawn ac 1 yn rhannol. Mae un DA sydd heb ei fodloni.

DA 4 (a) Cymorth ar gyfer iechyd a lles, **bodlonwyd yn llawn ▲**
i) Cynllun Darllen yn Well, **bodlonwyd**
ii) Casgliad dynodedig iechyd a lles, **bodlonwyd**

iii) Gwybodaeth am ffyrdd iachach o fyw ac ymddygiad iach, **bodlonwyd**
iv) Cyfeirio at wasanaethau iechyd a lles, **bodlonwyd**

DA 6 Mae'r holl fannau gwasanaeth sefydlog yn cynnig digwyddiadau/gweithgareddau i ddefnyddwyr â gofynion arbennig, **bodlonwyd yn llawn ▲**

DA 7 Lleoliad mannau gwasanaeth, **bodlonwyd yn llawn ▲**

DA 13 Lefelau staffio a chymwysterau, **bodlonwyd yn rhannol ■**
i) Staff am bob pen o'r boblogaeth, **ni fodlonwyd**
ii) Staff cymwysedig am bob pen o'r boblogaeth, **ni fodlonwyd**
iii) Cymwysterau/hyfforddiant pennaeth y gwasanaeth, **bodlonwyd**
iv) Canran DPP, **bodlonwyd**

DA 16 Oriau agor am bob pen o'r boblogaeth, **ni fodlonwyd ●**

## Mesurau effaith

Mae'r fframwaith yn cynnwys tri dangosydd gyda'r nod o asesu effaith defnyddio llyfrgelloedd ar fywydau pobl. Nid oes targedau i'r dangosyddion hyn, ac mae disgwyl i awdurdodau gynnal arolygon defnyddwyr ar gyfer DA1 ar un achlysur yn ystod y cyfnod o 2022-23 i 2024-25. Cynhaliodd Abertawe arolwg oedolion ac arolwg plant ym mis Tachwedd 2022. Mae'r ffigyrau crynodol (isaf, canolrifol ac uchaf) wedi'u seilio ar ddata gan bob awdurdod lleol a ddarparodd ddata yn ffurflenni 2022-23, 2023-24 a 2024-25. Mae'r safleoedd yn adlewyrchu nifer yr ymatebwyr, lle mai 1 yw'r awdurdod sy'n sgorio uchaf.

| Dangosydd perfformiad | | Safle | Isaf | Canolrifol | Uchaf |
|---|---|---|---|---|---|
| DA 1 Gwneud gwahaniaeth | | | | | |
| b) % y bobl ifanc sydd o'r farn bod y llyfrgell yn eu helpu i ddysgu a chael gwybod pethau: | 68% | 19/19 | 68% | 94% | 99% |
| e) % yr oedolion sydd o'r farn bod y llyfrgell wedi gwneud gwahaniaeth i'w bywydau: | 95% | =2/20 | 31% | 86.5% | 96% |
| DA 5 b) % y mynychwyr sesiynau hyfforddiant a ddywedodd fod yr hyfforddiant wedi'u helpu i gyflawni eu diben trwy fynychu: | 92% | 14/18 | 75% | 98.5% | 100% |

Gofynnir hefyd i awdurdodau ddarparu datganiad effaith yn disgrifio'r effaith mae'r gwasanaeth llyfrgell wedi'i chael ar unigolyn neu ar grŵp o unigolion yn ystod y flwyddyn. Darparodd Abertawe ddatganiad effaith a oedd yn dangos manteision gwirfoddolwyr i ategu gwasanaethau llyfrgell. Darparwyd enghraifft o sut mae gwirfoddolwr a bardd ymrwymedig wedi trawsnewid bywydau yn un o lyfrgelloedd cymunedol Abertawe, trwy ei chyfraniadau creadigol, yn arbennig yn ystod Wythnos Ffoaduriaid a'r ymgyrch Croeso Cynnes. A hithau wedi cael profiad o heriau ceisio lloches ei hun, cynhaliodd ddarlleniadau barddoniaeth mewn bore coffi mewn llyfrgell

ar gyfer teuluoedd o ffoaduriaid lleol, gan rannu ei thaith o symud i'r DU. Ysbrydolodd hyn fynychwyr i fod yn agored, rhannu eu storïau eu hunain a gwneud ffrindiau newydd ar sail profiadau cyffredin. Cydweithiodd y gwirfoddolwr gyda staff y llyfrgell i arwain sesiynau crefftau papur i oedolion, gan greu gofodau croesawgar a therapiwtig lle gallai cyfranogwyr ddysgu sgiliau newydd, cymdeithasu a chael cysur. Denodd y sesiynau hyn aelodau newydd i'r llyfrgell a chyfoethogi'r ymdeimlad o gymuned. Gan fyfyrio am ei chymhelliant, rhannodd y gwirfoddolwr, *"Rwy'n cael cysur aruthrol o wneud celf a chrefft mewn amgylchedd cymdeithasol... rwy'n rhoi rhywbeth nôl i'r gymuned."* Ychwanegodd, *"Rwy' am helpu pobl sy'n ceisio lloches neu sy'n ffoaduriaid... Os galla i gyfrannu mewn unrhyw ffordd i'w helpu, mae hynny'n rhywbeth sy'n golygu llawer i mi."*

## Dangosyddion ansawdd a meincnodau

Nid oes targedau i'r dangosyddion sy'n weddill, ond maent yn caniatáu i wasanaethau fonitro eu perfformiad dros amser. Mae'r tabl canlynol yn crynhoi safle Abertawe ar gyfer 2024-25. Mae'r safleoedd yn adlewyrchu nifer yr ymatebwyr, lle mai 1 yw'r awdurdod sy'n sgorio uchaf. Caiff dangosyddion 'am bob pen o’r boblogaeth' eu cyfrifo fesul 1,000 o'r boblogaeth oni nodir fel arall.

| Dangosydd perfformiad | | Safle | Isaf | Canolrifol | Uchaf |
|---|---|---|---|---|---|
| DA 1 Gwneud gwahaniaeth | | | | | |
| a) % yr oedolion sydd o'r farn bod defnyddio'r llyfrgell wedi'u helpu i ddatblygu sgiliau newydd | 69% | =12/20 | 17% | 70% | 90% |
| c) iechyd a lles | 65% | 10/20 | 1% | 63% | 90% |
| d) pleserus, diogel a chynhwysol | 93% | =18/20 | 93% | 97% | 100% |
| DA 2 Bodlonrwydd cwsmeriaid | | | | | |
| a) dewis 'da iawn' neu 'dda' o lyfrau | 92% | 8/20 | 84% | 90.5% | 97% |
| b) gofal cwsmeriaid 'da iawn' neu 'dda' | 99% | =2/20 | 92% | 98% | 100% |
| c) cyfleusterau TG 'da iawn' neu 'dda' | 90% | =5/20 | 60% | 85% | 99% |
| d) 'da iawn' neu 'dda' yn gyffredinol | 99% | =2/20 | 85% | 98% | 100% |
| e) sgôr allan o ddeg ymysg defnyddwyr 16 oed ac iau | 9.6 | 4/18 | 8.0 | 9.4 | 9.7 |
| DA 5 Cymorth i ddefnyddwyr | | | | | |
| a) nifer yn mynychu am bob pen o’r boblogaeth | 24 | 12/21 | 1 | 28 | 214 |
| c) cymorth anffurfiol am bob pen o’r boblogaeth | 165 | 9/20 | 15 | 150 | 608 |
| DA 6 Nifer yn mynychu digwyddiadau am bob pen o’r boblogaeth | 349 | 7/22 | 14 | 224.5 | 764 |
| DA 8 Defnydd o’r llyfrgell | | | | | |
| b) ymweliadau rhithwir am bob pen o’r boblogaeth | 806 | 10/21 | 5 | 766 | 6,035 |
| DA 13 Lefelau staffio a chymwysterau[24] | | | | | |

[24] *Nid oes safleoedd wedi'u cynnwys ar gyfer gwirfoddolwyr am fod goblygiadau niferoedd gwirfoddolwyr yn aneglur.*

| Dangosydd perfformiad | | Safle | Isaf | Canolrifol | Uchaf |
|---|---|---|---|---|---|
| (v) a) cyfanswm y gwirfoddolwyr | 32 | Dd/B | 0 | 23 | 442 |
| b) oriau gwirfoddolwyr | 1,034 | Dd/B | 0 | 883 | 22,706 |
| DA 14 Gwariant gweithredol | | | | | |
| a) cyfanswm gwariant am bob pen o’r boblogaeth | £13,669 | 8/21 | £5,978 | £12,646 | £26,209 |
| b) % ar staff | 79% | 2/21 | 48% | 67% | 80% |
| % ar adnoddau gwybodaeth | 11% | =5/21 | 4% | 9% | 19% |
| % ar gyfarpar ac adeiladau | 2% | =11/21 | 0% | 2% | 29% |
| % ar gostau gweithredol eraill | 7% | =16/21 | 1% | 15% | 38% |

# Dadansoddiad o berfformiad

Mae modd rhannu'r Hawliau Craidd a'r dangosyddion ansawdd yn dri phrif faes. Mae'r adran hon o'r adroddiad yn amlinellu perfformiad o dan y meysydd hyn.

## Bodloni anghenion cwsmeriaid (DA 1-2, 4-5)

Mae Abertawe yn perfformio'n dda ym maes Bodlonrwydd cwsmeriaid, ac mae'n uwch na'r canolrif cenedlaethol ar gyfer pob mesur (DA2). Fodd bynnag, yn yr arolwg defnyddwyr diwethaf, a gynhaliwyd ddiwedd 2022, roedd staff yn teimlo bod canran y bobl ifanc sydd o'r farn bod y llyfrgell yn eu helpu i ddysgu yn siomedig (DA1). Mae Abertawe, felly, yn parhau i weithio gydag ysgolion i geisio ffyrdd newydd o gasglu adborth ac awgrymiadau gan blant a rhieni, gan gynnwys prynu cymaint o stoc â phosibl o blith awgrymiadau'r grwpiau hynny am stoc. Mae'r gwasanaeth wedi buddsoddi am y tro cyntaf mewn e-adnoddau i gefnogi dysgu (gan adlewyrchu'r gostyngiad ym maes cyhoeddi anffuglen plant) ac wedi codi'r mater gyda chyflenwyr llyfrau. Bu'r llyfrgellydd plant yn gweithio gydag ysgol gynradd ar ymarfer dethol stoc, a mynychodd ddigwyddiad i ysgolion o bob rhan o Abertawe ar Ddiwrnod Plant y Byd i gasglu adborth plant am y syniad o ddefnyddio Lego mewn llyfrgelloedd.

Mae Abertawe yn bodloni'r targed ym maes Cymorth ar gyfer iechyd a lles (DA4) yn llawn. Ymhlith y gweithgareddau iechyd a lles mae sesiynau synhwyraidd yn Llyfrgell Tre-gŵyr i blant iau; y grŵp i Bobl Trwm eu Clyw yn Llyfrgell Ganolog Abertawe, sy'n cynnig grŵp cymorth amlddisgyblaethol; a grwpiau gweithgarwch corfforol, fel y Cerddwyr yn Nhre-gŵyr a Cherdded dros Iechyd Meddwl yn Llyfrgell Ganolog Abertawe.

Mae'r gwasanaeth yn agos i'r canolrif cenedlaethol am y nifer sy'n mynychu cymorth ffurfiol ac anffurfiol fel ei gilydd (DA5). Mae'r nifer sy'n mynychu sesiynau hyfforddiant ffurfiol wedi gostwng 11% o gymharu â 2023-24. Fodd bynnag, mae cymorth anffurfiol wedi cynyddu 20% ers 2023-24, a 51% o gymharu â 2023-24. Mae'r gwasanaeth yn nodi bod ceisiadau am gymorth anffurfiol wedi cynyddu oherwydd ymholiadau am y defnydd o'r LMS newydd, yn ogystal â cheisiadau am basys bws a newidiadau i Gredyd Cynhwysol.

### Mynediad a defnydd (DA 6-8)

Mae'r nifer sy'n mynychu digwyddiadau'n parhau i fod yn uwch na chanolrif awdurdodau llyfrgell Cymru, ac mae wedi cynyddu 5% o gymharu â 2023-24 (DA6). Mae'r gwasanaeth yn adrodd iddo gyrchu cyfleoedd lleol a chenedlaethol am gyllid er mwyn gweithio gyda phartneriaid newydd a hwyluswyr allanol i ddarparu gweithgareddau.

Mae Abertawe hefyd yn parhau i fod yn uwch na chanolrif awdurdodau llyfrgell Cymru am ymweliadau rhithwir am bob pen o'r boblogaeth, er bod ymweliadau â'r wefan wedi gostwng 8% o gymharu â 2023-24 (DA8). Mae'r gwasanaeth yn y chwartel uchaf yn genedlaethol am e-fenthyciadau am bob pen o'r boblogaeth. Mae e-fenthyciadau wedi cynyddu 24% o gymharu â 2023-24, a 75% o gymharu â 2022-23.

### Arbenigedd a chapasiti (DA 13-14 ac 16)

Mae Abertawe yn chwartel uchaf awdurdodau llyfrgell Cymru am gyfanswm y staff am bob pen o'r boblogaeth, ond yn y chwartel isaf am staff cymwysedig (DA13). Mae cymhareb y staff cymwysedig o gymharu â staff anghymwysedig yn nodedig is na'r cyfartaledd cenedlaethol. Nid yw'r gwasanaeth wedi denu mwy o staff cymwysedig i rolau yn ystod y flwyddyn hon er gwaethaf gosod sawl hysbyseb am rolau. Priodolir hyn i gystadleuaeth gan gyflogwyr eraill yn yr ardal sy'n cynnig gwell cyfleoedd. Fodd bynnag, mae'r gwasanaeth yn cymryd camau i ddatblygu staff sydd eisoes yn eu gwaith er mwyn eu paratoi ar gyfer rolau cymwysedig, gan gynnwys cymwysterau LAIS (Prentisiaethau ar Lefelau 3 a 5). Mae dau aelod o staff yn ymgymryd â Siarteriaeth CILIP. Mae'r awdurdod lleol wedi cymeradwyo adolygiad gweithlu ar gyfer 2025 er mwyn adolygu'r strwythur staffio. Mae'r amser a neilltuir i hyfforddiant staff wedi cynyddu eleni oherwydd gweithredu'r LMS newydd, yn ogystal â lefel trosiant staff.

Mae gwariant gweithredol am bob pen o'r boblogaeth yn uwch na'r canolrif cenedlaethol, er y bu gostyngiad bach (1%) o gymharu â 2023-24 (DA14). Mae'r gyllideb lyfrau wedi gostyng ychydig hefyd (2%), er bod Abertawe hefyd yn parhau'n uwch na'r canolrif cenedlaethol ar gyfer y mesur hwn.

Er bod oriau agor yn parhau'r un peth ag yr oeddent yn 2023-24, nid yw Abertawe yn bodloni'r targed ym maes Oriau agor am bob pen o'r boblogaeth mwyach oherwydd cynnydd yn y boblogaeth (DA16). Mae rhai llyfrgelloedd wedi cael arwyddion newydd i wella amlygrwydd eu horiau agor yn y gymuned.

## Y cyd-destun strategol

Yn rhan o'r ffurflen, mae gofyn i awdurdodau adrodd ar y ffordd mae'r gwasanaeth llyfrgelloedd yn cyfrannu at flaenoriaethau a nodau strategol ehangach Llywodraeth Cymru. Amlinellodd Abertawe ystod eang o weithgareddau i ddangos ei gyfraniad:

- **Gofal iechyd cynaliadwy** e.e. darparu gwasanaethau llyfrgell i drigolion agored i niwed trwy eu gwasanaeth cludo i'r cartref; mynd i'r afael â thlodi mislif trwy ddarparu adnoddau a nwyddau amldro; a darparu digwyddiadau a gweithgareddau i gefnogi lles a lleihau ynysigrwydd.
- **Pobl agored i niwed** e.e. defnyddio cyllid Tlodi ac Atal mewnol i ddarparu digwyddiadau am ddim wedi'u targedu at deuluoedd, a gweithgareddau y tu allan i oriau ysgol; a chefnogi gwaith timau chwarae a Dechrau'n Deg i helpu plant a theuluoedd.
- **Economi, gwasanaethau a diwydiannau cynaliadwy at y dyfodol** e.e. cynnig gofodau ar gyfer sefydliadau ym maes cyflogadwyedd fel Gyrfa Cymru; a gweithio gyda Swyddog Celfyddydau Cymunedol y Rhaglen Cyfuno i hwyluso'r gwaith o greu sgiliau diwylliannol ymysg grwpiau sydd wedi'u tangynrychioli.
- **Argyfwng yr hinsawdd a natur** e.e. ymestyn y defnydd o gardiau llyfrgell cardfwrdd eildro, gan leihau'r defnydd o blastig wrth brosesu llyfrau, gweithredu teclynnau monitro ynni a dileu plastigau untro wrth gynnal digwyddiadau.
- **Addysg a lleihau anghydraddoldebau** e.e. cynyddu cydweithio ag ysgolion mewn perthynas â Cynefin (y cwricwlwm ysgol newydd); cefnogi llythrennedd plant trwy ymweliadau dosbarthiadau a Her Ddarllen yr Haf; a chyfranogi yn fforymau Atal Tlodi'r cyngor a gweithio gyda chydweithwyr mewn gwasanaethau eraill sy'n darparu cymorth uniongyrchol, gan gynnwys y trydydd sector.
- **Amrywiaeth a symud i leihau anghydraddoldeb** e.e. monitro amrywiaeth wrth ddethol stoc; ymgysylltu ag ymgyrchoedd cenedlaethol fel Wythnos Ffoaduriaid, Mis Hanes Pobl Ddu a Mis Balchder Pride; hyfforddiant diogelu a VAWDASV (Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol) i staff; ennill statws Llyfrgell Noddfa i Lyfrgelloedd Abertawe a llyfrgell y carchar a reolir gan y gwasanaeth; buddsoddi mewn adnoddau amlieithog; a lansio sesiynau stori a chrefft Pwylaidd yn y Llyfrgell Ganolog.
- **Y Gymraeg a siaradwyr Cymraeg** e.e. cynyddu gwariant ar adnoddau yn y Gymraeg i oedolion a phlant; archwilio cyfleoedd i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg ymysg pobl nad ydynt yn siaradwyr Cymraeg yn y gweithle; a recriwtio mwy o siaradwyr Cymraeg i dimau llyfrgell.
- **Trawsnewid Trefi** Mae Y Storfa, sef prosiect hwb canol y ddinas a gefnogir gan Raglen Trawsnewid Trefi a Grantiau Cyfalaf Trawsnewid, yn flaenoriaeth o hyd, ac mae ymdrech i ddenu buddsoddiad cyfalaf pellach i wella adeiladau llyfrgell ac ymestyn gwasanaethau ar draws cymunedau Abertawe.

## Cyfeiriad at y dyfodol

Gan adrodd ar gyfeiriad yr awdurdod at y dyfodol, a'i gynlluniau ar gyfer y gwasanaeth llyfrgell dros y flwyddyn sydd i ddod, mae Abertawe yn canolbwyntio ar ddatblygu ei rôl mewn hybiau cymunedol. Comisiynwyd ymgynghoriaeth i archwilio sut gall llyfrgelloedd ar draws Abertawe gymhathu â'r weledigaeth ar gyfer Hwb

Canol y Ddinas Y Storfa, ac ymestyn y weledigaeth honno. Mae ymdrechion cynllunio bellach yn mynd tuag at ddarparu elfen lyfrgellol Y Storfa, gyda chymorth cyllid Grant Trawsnewid Llywodraeth Cymru, i gynnwys elfennau trawsnewidiol pan fydd y llyfrgell yn adleoli'n ddiweddarach eleni.

Mae'r gwasanaeth hefyd yn blaenoriaethu datblygu'r gweithlu, gan adeiladu ar leoliadau LAIS llwyddiannus yn ddiweddar a chyfleoedd DPP Siarteriaeth CILIP. Ymhlith y cynlluniau mae chwilio am lwybrau cymhwyso ychwanegol er mwyn i staff presennol gryfhau eu harbenigedd proffesiynol ar draws y tîm. Mae gwaith ar droed i ad-drefnu'r gweithlu, gan archwilio i ffyrdd newydd o weithio i dimau llyfrgell. Mae Abertawe wedi denu grant gan Raglen Cyfuno Lywodraeth Cymru ar gyfer 2025-26 i gyflogi Cydlynydd Diwylliannol Cymunedol. Bydd y sawl yn y rôl hon yn gweithio gyda llyfrgelloedd i ddenu mwy o drigolion i ymgysylltu â gweithgareddau diwylliannol a dod â chelf a diwylliant i gymunedau y tu hwnt i ganol y ddinas. Mae Abertawe yn adrodd bod y cyngor yn ymafael yn AI (deallusrwydd artiffisial) ac yn annog staff i fabwysiadu sgìl digidol newydd eleni i gefnogi arloesi digidol. Yn ogystal, mae'r gwasanaeth yn bwriadu parhau i gyfrannu at leihau carbon trwy leiafu'r defnydd o blastig a gwella effeithlonrwydd ynni ar safleoedd llyfrgell.

## Casgliad

Mae Abertawe yn parhau i berfformio'n dda mewn nifer o feysydd, gan gynnwys y nifer sy'n mynychu digwyddiadau, cymorth anffurfiol, ymweliadau rhithwir ac e-fenthyciadau. Mae'r gwasanaeth hefyd yn parhau i weithio gyda phlant a phobl ifanc i sicrhau bod y llyfrgell yn bodloni eu hanghenion. Amlygwyd y diffyg staff cymwysedig fel pryder yn ffurflen y llynedd. Er ei bod yn siomedig, wrth gwrs, nad oedd modd i'r gwasanaeth llyfrgell recriwtio staff cymwysedig, canlyniad cadarnhaol yw ei fod yn cefnogi staff presennol i gyflawni statws cymwysedig yn y dyfodol. Nid yw Abertawe wedi bodloni'r targed o ran oriau agor am bob pen o'r boblogaeth eleni. Er y cydnabyddir bod hyn oherwydd newidiadau cyflym i'r boblogaeth yn hytrach na gostyngiad i oriau agor, awgrymir y dylai Abertawe adolygu darpariaeth oriau agor ar draws yr awdurdod er mwyn penderfynu a oes modd addasu oriau agor yng ngoleuni newidiadau yn y boblogaeth, a'r galw cynyddol am wasanaethau llyfrgell a allai ymddangos o ganlyniad.

# Adroddiad Asesu Blynyddol 2024-25 Torfaen

Mae'r adroddiad hwn wedi'i baratoi ar sail gwybodaeth a ddarparwyd gan ffurflen flynyddol Torfaen, datganiadau effaith ac adroddiad naratif a gyflwynwyd i Is-adran Diwylliant Llywodraeth Cymru.

## Crynodeb gweithredol

Adroddodd Torfaen ei fod wedi bodloni pob un o'r 13 Hawl Graidd yn llawn trwy hunanasesu. Fodd bynnag, mae'r asesydd annibynnol o'r farn bod y gwasanaeth wedi bodloni 12 o'r 13 Hawl Graidd yn llawn ac 1 yn rhannol. O'r 5 dangosydd ansawdd lle mae targedau, mae Torfaen yn cyflawni 3 yn llawn ac 1 yn rhannol. Mae un DA sydd heb ei fodloni.

Mae ffocws cryf yn narpariaeth llyfrgell Torfaen ar gymorth ar gyfer iechyd a lles, ac mae'r gwasanaeth yn perfformio'n dda yn y maes hwn, gyda nifer o fentrau arloesol. Mae'r ffaith bod Torfaen yn bodloni'r targed am ganran DPP staff yn nodwedd gadarnhaol arall o'r ffurflen eleni. Fodd bynnag, mae'r gostyngiad ym maes hyfforddiant ffurfiol i ddefnyddwyr eleni'n bryder ac yn rhywbeth y dylai'r gwasanaeth ymchwilio iddo ymhellach er mwyn ei ddeall yn well a'i gywiro, gobeithio, yn y blynyddoedd sydd i ddod. Bydd y ffaith bod lefelau staffio mor isel yn Nhorfaen o gymharu ag awdurdodau llyfrgell eraill Cymru yn cael effaith anochel ar allu'r gwasanaeth i gynnig cymorth i ddefnyddwyr, digwyddiadau a hyfforddiant. Mae lefel yr oriau agor am bob pen o'r boblogaeth yn Nhorfaen yr un mor bryderus, ond eto, mae'n anodd gweld sut y gellir gwella hyn yn sylweddol hyd nes yr eir i'r afael â'r lefelau staffio presennol.

At ei gilydd, mae ymatebion plant i arolygon defnyddwyr yn llai cadarnhaol na'r rhai a gafwyd gan gwsmeriaid sy'n oedolion. Er nad ydynt ar lefel sy'n sbarduno pryder, mae adborth gan blant a phobl ifanc yn rhywbeth y cynghorir y dylai'r gwasanaeth dalu sylw arbennig iddo yn yr arolwg y bwriedir ei gynnal yn 2025-26.

- Mae'r nifer sy'n mynychu digwyddiadau wedi cynyddu 17% o gymharu â 2023-24 a 59% o gymharu â 2022-23 (DA6).
- Mae e-fenthyciadau wedi cynyddu 46% o gymharu â 2023-24, ac wedi mwy na dyblu ers 2022-23 (DA8).
- Mae cymorth ar gyfer iechyd a lles yn gryfder yn y gwasanaeth, dan arweiniad y Swyddog Proffesiynol Llyfrgelloedd sy'n gofalu am Iechyd a Lles (DA4).

## Nodyn i adroddiad 2024-25

Yn ystod 2024-25, symudodd awdurdodau lleol yng Nghymru i Blatfform Llyfrgell Ddigidol newydd ar gyfer Cymru gyfan. Perwyd rhywfaint o darfu i weithrediad gwasanaethau llyfrgell yn ystod y broses symud, gan gynnwys mewn perthynas â chaffael stoc newydd, sef gwaith y bu'n rhaid ei atal am gyfnod wrth i wasanaethau unigol symud i'r system newydd. Mae rhywfaint o fân wahaniaethau hefyd yn ffurfwedd y platfform newydd, sy'n golygu nad yw data defnyddwyr yn ystod 2024-25 yn gwbl gyson. Felly, nid yw'r adroddiadau ar gyfer 2024-25 yn cynnwys y data a nodir isod ar gyfer Dangosyddion Ansawdd 4, 8, 9 a 10.

DA 4 Cymorth ar gyfer iechyd a lles
c) nifer y benthyciadau o gyfres Darllen yn Well Cymru

DA 8 Defnydd o'r llyfrgell
c) cyfanswm y benthycwyr gweithredol wedi'i rannu â maint y boblogaeth drigolion, a'i luosi â 1,000
d) cyfanswm aelodau'r llyfrgell
e) cyfanswm y llyfrau a fenthycwyd (oedolion a phlant ar wahân)
f) cyfanswm yr eitemau clyweledol a fenthycwyd

DA 9 Deunydd darllen cyfoes a phriodol
a) cyfradd gaffael isaf
b) % a wariwyd ar adnoddau i blant

DA 10 Adnoddau yn y Gymraeg
a) isafswm gwariant o 4%
b) benthyciadau yn y Gymraeg am bob pen o'r boblogaeth

Caiff yr holl ddata ei adrodd a'i asesu ar gyfer 2025-26 (sef blwyddyn gyntaf Fframwaith 7), a chaiff y data hwn ei ddefnyddio i osod y meincnod ar gyfer y blynyddoedd sy'n weddill yn y fframwaith.

## Perfformiad yn erbyn y safonau

Mae'r fframwaith safonau'n cynnwys Hawliau Craidd, dangosyddion ansawdd gyda thargedau, dangosyddion ansawdd gyda meincnodau a mesurau effaith.

### Hawliau Craidd

Adroddodd Torfaen ei fod wedi bodloni pob un o'r 13 Hawl Graidd yn llawn trwy hunanasesu. Ar sail y sylwebaeth fanwl a chynorthwyol a ddarparwyd, mae'r asesydd annibynnol o'r farn bod y gwasanaeth wedi bodloni 12 Hawl Graidd yn llawn ac 1 yn rhannol. Mae HG12 wedi'i bodloni'n rhannol oherwydd nad oes gan y gwasanaeth strategaeth a mesurau llwyddiant cysylltiedig ar gyfer cyfnod 2024-25.

40. **Mae llyfrgelloedd yng Nghymru yn rhad ac am ddim i ymuno â nhw, ac yn agored i bawb.**
Hunanasesiad: Bodlonwyd yn llawn
Asesydd Annibynnol: **Bodlonwyd yn llawn ▲**

41. **Mae llyfrgelloedd yng Nghymru yn sicrhau bod staff cyfeillgar, gwybodus a chymwysedig wrth law i helpu.**
Hunanasesiad: Bodlonwyd yn llawn
Asesydd Annibynnol: **Bodlonwyd yn llawn ▲**

42. **Mae llyfrgelloedd yng Nghymru yn darparu mynediad at ystod o wasanaethau, gweithgareddau ac adnoddau o safon uchel mewn sawl fformat i gefnogi dysgu gydol oes, iechyd a lles personol, cyfranogiad cymunedol, profiadau diwylliannol, hamdden, a darllen er pleser.**
Hunanasesiad: Bodlonwyd yn llawn
Asesydd Annibynnol: **Bodlonwyd yn llawn ▲**

43. **Mae llyfrgelloedd yng Nghymru yn darparu gwasanaethau, cyfleusterau ac adnoddau gwybodaeth priodol i unigolion a grwpiau sydd ag anghenion arbennig.**
Hunanasesiad: Bodlonwyd yn llawn
Asesydd Annibynnol: **Bodlonwyd yn llawn ▲**

44. **Mae llyfrgelloedd yn darparu gofod ffisegol diogel, deniadol a hygyrch sydd ag oriau agor addas dan ofal staff.**
Hunanasesiad: Bodlonwyd yn llawn
Asesydd Annibynnol: **Bodlonwyd yn llawn ▲**

45. **Mae llyfrgelloedd yng Nghymru yn benthyca llyfrau am ddim ac yn cynnig mynediad am ddim i wybodaeth, gan gynnwys adnoddau gwybodaeth ar-lein ar gael 24 awr y dydd.**
Hunanasesiad: Bodlonwyd yn llawn
Asesydd Annibynnol: **Bodlonwyd yn llawn ▲**

46. **Mae llyfrgelloedd yng Nghymru yn darparu'r Rhyngrwyd, gan gynnwys Wi-Fi, a mynediad at gyfarpar digidol yn rhad ac am ddim ym mhob man gwasanaeth.**
Hunanasesiad: Bodlonwyd yn llawn
Asesydd Annibynnol: **Bodlonwyd yn llawn ▲**

47. **Mae llyfrgelloedd yng Nghymru yn darparu mynediad at wasanaethau, gweithgareddau diwylliannol ac adnoddau o ansawdd uchel yn y Gymraeg.**
Hunanasesiad: Bodlonwyd yn llawn

Asesydd Annibynnol: **Bodlonwyd yn llawn ▲**

**48. Mae llyfrgelloedd yng Nghymru yn gweithio mewn partneriaeth i rannu catalogau a hwyluso mynediad i adnoddau holl lyfrgelloedd Cymru.**
Hunanasesiad: Bodlonwyd yn llawn
Asesydd Annibynnol: **Bodlonwyd yn llawn ▲**

**49. Mae llyfrgelloedd yng Nghymru yn cydweithio ag amrywiaeth o bartneriaid i hyrwyddo a darparu gwasanaethau i gynulleidfaoedd newydd ac amrywiol, gan alluogi rhagor o bobl i elwa o'r gwasanaethau hynny.**
Hunanasesiad: Bodlonwyd yn llawn
Asesydd Annibynnol: **Bodlonwyd yn llawn ▲**

**50. Mae llyfrgelloedd yng Nghymru yn ymgynghori â defnyddwyr yn rheolaidd i gasglu eu barn ar y gwasanaeth a chasglu gwybodaeth am eu hanghenion newidiol.**
Hunanasesiad: Bodlonwyd yn llawn
Asesydd Annibynnol: **Bodlonwyd yn llawn ▲**

**51. Mae llyfrgelloedd yng Nghymru yn trefnu bod eu strategaeth, eu polisïau, eu hamcanion a'u gweledigaeth ar gyfer y gwasanaeth llyfrgelloedd ar gael i'w gweld, mewn print ac ar-lein, mewn amrywiaeth o ieithoedd fel y bo'n briodol i'r gymuned.**
Hunanasesiad: Bodlonwyd yn llawn
Asesydd Annibynnol: **Bodlonwyd yn rhannol ■**
Mae hyn oherwydd y ffaith bod y strategaeth bresennol ond yn rhychwantu'r cyfnod 2018-2023. Nodir bod y gwasanaeth yn adrodd y caiff y strategaeth ei diweddaru eleni unwaith i brosiect adnewyddu Llyfrgell Cwmbrân gael ei gyflawni. Mae'r targed wedi'i fodloni'n rhannol am fod y gwasanaeth yn cyflwyno cynnig gwasanaeth a pholisïau cysylltiedig (Safonau Gwasanaeth Llyfrgell a Gwybodaeth Torfaen), sydd wedi'u diweddaru yn ystod cyfnod Estyniad Fframwaith 6.

**52. Mae llyfrgelloedd yng Nghymru yn darparu cymorth er mwyn helpu pobl i wella'u sgiliau digidol a'u hyder, gan gynnwys defnyddio gwasanaethau e-lywodraeth**
Hunanasesiad: Bodlonwyd yn llawn
Asesydd Annibynnol: **Bodlonwyd yn llawn ▲**

## Dangosyddion ansawdd gyda thargedau

Mae 12 dangosydd ansawdd (DA), y mae gan 5 ohonynt dargedau cyfansoddol. O'r rhain, mae Torfaen yn cyflawni 3 yn llawn ac 1 yn rhannol. Mae un DA sydd heb ei fodloni.

DA 4 (a) Cymorth ar gyfer iechyd a lles, **bodlonwyd yn llawn ▲**
i) Cynllun Darllen yn Well, **bodlonwyd**
ii) Casgliad dynodedig iechyd a lles, **bodlonwyd**
iii) Gwybodaeth am ffyrdd iachach o fyw ac ymddygiad iach, **bodlonwyd**
iv) Cyfeirio at wasanaethau iechyd a lles, **bodlonwyd**

DA 6 Mae'r holl fannau gwasanaeth sefydlog yn cynnig digwyddiadau/gweithgareddau i ddefnyddwyr â gofynion arbennig, **bodlonwyd yn llawn ▲**

DA 7 Lleoliad mannau gwasanaeth, **bodlonwyd yn llawn ▲**

DA 13 Lefelau staffio a chymwysterau, **bodlonwyd yn rhannol ■**
i) Staff am bob pen o'r boblogaeth, **ni fodlonwyd**
ii) Staff cymwysedig am bob pen o'r boblogaeth, **ni fodlonwyd**
iii) Cymwysterau/hyfforddiant pennaeth y gwasanaeth, **bodlonwyd**
iv) Canran DPP, **bodlonwyd**

DA 16 Oriau agor am bob pen o’r boblogaeth, **ni fodlonwyd ●**

## Mesurau effaith

Mae'r fframwaith yn cynnwys tri dangosydd gyda'r nod o asesu effaith defnyddio llyfrgelloedd ar fywydau pobl. Nid oes targedau i'r dangosyddion hyn, ac mae disgwyl i awdurdodau gynnal arolygon defnyddwyr ar gyfer DA1 ar un achlysur yn ystod y cyfnod o 2022-23 i 2024-25. Cynhaliodd Torfaen arolwg oedolion ac arolwg plant yn ystod 2023. Mae'r ffigyrau crynodol (isaf, canolrifol ac uchaf) wedi'u seilio ar ddata gan bob awdurdod a ddarparodd ddata yn ffurflenni 2022-23, 2023-24 a 2024-25. Mae'r safleoedd yn adlewyrchu nifer yr ymatebwyr, lle mai 1 yw'r awdurdod sy'n sgorio uchaf.

| Dangosydd perfformiad | | Safle | Isaf | Canolrifol | Uchaf |
|---|---|---|---|---|---|
| DA 1 Gwneud gwahaniaeth | | | | | |
| b) % y bobl ifanc sydd o'r farn bod y llyfrgell yn eu helpu i ddysgu a chael gwybod pethau: | 82% | 18/19 | 68% | 94% | 99% |
| e) % yr oedolion sydd o'r farn bod y llyfrgell wedi gwneud gwahaniaeth i'w bywydau: | 86% | =11/20 | 31% | 86.5% | 96% |
| DA 5 b) % y mynychwyr sesiynau hyfforddiant a ddywedodd fod yr hyfforddiant wedi'u helpu i gyflawni eu diben trwy fynychu: | 98% | =10/18 | 75% | 98.5% | 100% |

Gofynnir hefyd i awdurdodau ddarparu datganiad effaith yn disgrifio'r effaith mae'r gwasanaeth llyfrgell wedi'i chael ar unigolyn neu ar grŵp o unigolion yn ystod y flwyddyn. Darparodd Torfaen ddatganiad effaith a oedd yn canolbwyntio ar bartneriaeth lwyddiannus ac arloesol gyda thîm Datblygu Chwaraeon Cyngor

Torfaen, gan ddarparu sesiynau ar gyfer y rhaglen I Dadau, Gan Dadau - cwrs cymorth deg wythnos sydd â'r nod o gefnogi tadau newydd a darpar dadau. Mae eu sesiynau'n darparu gofod diogel i dadau rannu profiadau dysgu cynnar ac archwilio'u rôl bwysig wrth sefydlu arferion darllen gydol oes gyda'u plant. Mae staff llyfrgell yn arwain trafodaethau ar bwysigrwydd ymgysylltiad rhwng y tad a'r plentyn ar bob cam datblygu ac yn cyflwyno ffyrdd i dadau allu rhannu llyfrau a storïau. Mae cymorth y llyfrgell yn cynnwys darparu stoc lyfrau, gweithgareddau a gofodau croesawgar sy'n gwneud darllen ynghyd yn bleserus ac yn hygyrch. Caiff effaith y rhaglen ei dangos gan adborth a gafwyd, gan gynnwys, *"Rwy' wedi bod yn gweithio un i un gyda thad sy'n gysylltiedig â gwasanaethau cymdeithasol... erbyn hyn mae e'n darllen storïau bob nos i'w fechgyn sy'n efeilliaid ac mae'n llai hunanymwybodol wrth ymgysylltu â nhw."*

Gan adeiladu ar y llwyddiant hwn, sefydlodd Llyfrgelloedd Torfaen amser Stori a Rhigwm i Dadau, sef digwyddiad dydd Sadwrn yn cynnig mwy o gyfleoedd i dadau sy'n brin o amser i sefydlu bond gyda'u babanod a'u plant bach trwy storïau a rhigymau, tra'n creu rhwydwaith cefnogol. Caiff deunyddiau Dechrau Da Cymru eu dosbarthu hefyd yn ystod sesiynau, gan godi ymwybyddiaeth o adnoddau i annog llythrennedd cynnar.

Mae'r fenter hon yn dangos sut gall llyfrgelloedd ysbrydoli dysgu gydol oes, atgyfnerthu bondiau teuluol a chreu cymunedau cynhwysol a chefnogol.

## Dangosyddion ansawdd a meincnodau

Nid oes targedau i'r dangosyddion sy'n weddill, ond maent yn caniatáu i wasanaethau fonitro eu perfformiad dros amser. Mae'r tabl canlynol yn crynhoi safle Torfaen ar gyfer 2024-25. Mae'r safleoedd yn adlewyrchu nifer yr ymatebwyr, lle mai 1 yw'r awdurdod sy'n sgorio uchaf. Caiff dangosyddion 'am bob pen o’r boblogaeth' eu cyfrifo fesul 1,000 o'r boblogaeth oni nodir fel arall.

| Dangosydd perfformiad | | Safle | Isaf | Canolrifol | Uchaf |
|---|---|---|---|---|---|
| DA 1 Gwneud gwahaniaeth | | | | | |
| a) % yr oedolion sydd o'r farn bod defnyddio'r llyfrgell wedi'u helpu i ddatblygu sgiliau newydd | 69% | =12/20 | 17% | 70% | 90% |
| c) iechyd a lles | 69% | 8/20 | 1% | 63% | 90% |
| d) pleserus, diogel a chynhwysol | 97% | =9/20 | 93% | 97% | 100% |
| DA 2 Bodlonrwydd cwsmeriaid | | | | | |
| a) dewis 'da iawn' neu 'dda' o lyfrau | 89% | =13/20 | 84% | 90.5% | 97% |
| b) gofal cwsmeriaid 'da iawn' neu 'dda' | 97% | =14/20 | 92% | 98% | 100% |
| c) cyfleusterau TG 'da iawn' neu 'dda' | 82% | =13/20 | 60% | 85% | 99% |
| d) 'da iawn' neu 'dda' yn gyffredinol | 98% | =7/20 | 85% | 98% | 100% |
| e) sgôr allan o ddeg ymysg defnyddwyr 16 oed ac iau | 8.9 | 16/18 | 8.0 | 9.4 | 9.7 |
| DA 5 Cymorth i ddefnyddwyr | | | | | |
| a) nifer yn mynychu am bob pen o'r boblogaeth | 28 | 11/21 | 1 | 28 | 214 |
| c) cymorth anffurfiol am bob pen o'r boblogaeth | 166 | 8/20 | 15 | 150 | 608 |
| DA 6 Nifer yn mynychu digwyddiadau am bob pen o'r boblogaeth | 171 | 18/22 | 14 | 224.5 | 764 |
| DA 8 Defnydd o'r llyfrgell | | | | | |
| b) ymweliadau rhithwir am bob pen o'r boblogaeth | 415 | 17/21 | 5 | 766 | 6,035 |
| DA 13 Lefelau staffio a chymwysterau[25] | | | | | |
| (v) a) cyfanswm y gwirfoddolwyr | 0 | Dd/B | 0 | 23 | 442 |
| b) oriau gwirfoddolwyr | 0 | Dd/B | 0 | 883 | 22,706 |
| DA 14 Gwariant gweithredol | | | | | |
| a) cyfanswm gwariant am bob pen o'r boblogaeth | £9,538 | 19/21 | £5,978 | £12,646 | £26,209 |
| b) % ar staff | 68% | 10/21 | 48% | 67% | 80% |
| % ar adnoddau gwybodaeth | 11% | =5/21 | 4% | 9% | 19% |
| % ar gyfarpar ac adeiladau | 1% | =19/21 | 0% | 2% | 29% |
| % ar gostau gweithredol eraill | 20% | 8/21 | 1% | 15% | 38% |

# Dadansoddiad o berfformiad

Mae modd rhannu'r Hawliau Craidd a'r dangosyddion ansawdd yn dri phrif faes. Mae'r adran hon o'r adroddiad yn amlinellu perfformiad o dan y meysydd hyn.

## Bodloni anghenion cwsmeriaid (DA 1-2, 4-5)

Nawr bod data cymharol ar gael o bob rhan o gyfnod Estyniad Fframwaith 6, maent yn dangos bod Torfaen yn perfformio'n agos i'r canolrif cenedlaethol ar gyfer mesurau Gwneud gwahaniaeth (DA1) a Bodlonrwydd cwsmeriaid (DA2) ar gyfer cwsmeriaid sy'n oedolion. Fodd bynnag, mae yn chwartel isaf awdurdodau llyfrgell Cymru mewn perthynas ag ymatebion gan blant.

Mae'r gwasanaeth yn bodloni'r targed ym maes Cymorth ar gyfer iechyd a lles (DA4) yn llawn. Eleni gwelwyd lansio Hyb Dementia newydd yn Llyfrgell Cwmbrân yn rhan

[25] *Nid oes safleoedd wedi'u cynnwys ar gyfer gwirfoddolwyr am fod goblygiadau niferoedd gwirfoddolwyr yn aneglur.*

o wasanaeth Dementia Gwent ehangach. Mae Swyddog Proffesiynol Llyfrgelloedd sy'n gofalu am Iechyd a Lles yn cynnal sesiynau iechyd a lles un i un gan ddarparu cyngor a chyfeirio, yn ogystal â gweithio gyda phartneriaid i ddarparu gweithgareddau a digwyddiadau ar y safle ac yn y gymuned, gan gynnwys digwyddiadau gwybodaeth iechyd, codi ymwybyddiaeth o dechnoleg gynorthwyol a diwrnodau cefnogi gofalwyr.

Mae Torfaen yn perfformio ar y canolrif ar gyfer y nifer sy'n mynychu hyfforddiant ffurfiol (DA5). Fodd bynnag, mae'r nifer sy'n mynychu wedi gostwng 34% o gymharu â 2023-24. Mae'r gwasanaeth yn adrodd bod niferoedd wedi'u heffeithio gan ostyngiad mewn sesiynau sgiliau llyfrgell a ddarperir i blant am fod ffocws y staff wedi symud i fentrau eraill. Mae Torfaen yn dal i fod yn uwch na'r canolrif ar gyfer cymorth anffurfiol, er y bu gostyngiad bach (2%) o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Mewn perthynas â chymorth TG anffurfiol, mae staff wedi nodi gostyngiad pellach yn nifer y cwsmeriaid sy'n ceisio cymorth TG sylfaenol, a galw uwch am gymorth sy'n mynnu lefel uwch o wybodaeth.

## Mynediad a defnydd (DA 6-8)

Mae'r nifer sy'n mynychu digwyddiadau yn parhau i fod yn is na chanolrif awdurdodau llyfrgell Cymru, er bod y nifer sy'n mynychu wedi cynyddu 16% o gymharu â 2023-24, a 59% o gymharu â 2022-23 (DA6). Yn ystod y cyfnod o bum wythnos pan oedd Llyfrgell Cwmbrân ar gau, bu'r tîm mewn cysylltiad â staff rheoli canol y dref i sicrhau y gallai gweithgareddau barhau mewn lleoliadau amgen, gan gynnwys swyddfa nad oedd yn cael ei defnyddio a bar caffi yng nghanol y dref.

Mae Torfaen yn is na'r canolrif am ymweliadau rhithwir am bob pen o'r boblogaeth, er bod nifer yr ymweliadau â'r wefan wedi cynyddu 6% o gymharu â 2023-24 (DA8). Mae'r gwasanaeth yn priodoli'r cynnydd hwn, yn rhannol, i'r ffaith bod cwsmeriaid yn defnyddio'r wefan yn ystod y cyfnod o bum wythnos pan oedd Llyfrgell Cwmbrân ar gau. Er bod e-fenthyciadau'n parhau i fod yn is na'r canolrif cenedlaethol, maent wedi cynyddu 46% o gymharu â 2023-24, ac wedi mwy na dyblu ers 2022-23.

## Arbenigedd a chapasiti (DA 13-14 ac 16)

Nid yw Torfaen yn bodloni'r targed ar gyfer cyfanswm staff na staff cymwysedig am bob pen o'r boblogaeth, ac mae staffio yr un peth ac yr oedd yn 2023-24 (DA13). Er bod y gwasanaeth yn uwch na'r canolrif ar gyfer staff cymwysedig am bob pen o'r boblogaeth, mae cyfanswm staff am bob pen o'r boblogaeth yn chwartel isaf awdurdodau llyfrgell Cymru ac yn llai na hanner y ffigur targed. Gwelodd y gwasanaeth ddau gyfnod hir o absenoldeb staff nad oeddent wedi'u cynllunio yn ystod 2024, a gafodd effaith ar y gallu i ddarparu gwasanaethau, er bod Torfaen wedi gallu cynnig taliad honorariwm i'r Uwch Gynorthwyydd Llyfrgell a phenodi Gofalwr dros dro i helpu i liniaru effaith yr absenoldebau hyn. Penodwyd Rheolwr Llyfrgell newydd ym mis Rhagfyr 2024, a chaiff Gofalwr Llyfrgell newydd ei recriwtio yn 2025. Recriwtiodd y gwasanaeth bum aelod newydd o staff dros dro hefyd yn ystod y

flwyddyn. Mae'r oriau a neilltuwyd i hyfforddiant staff wedi cynyddu eleni, ac mae Torfaen bellach yn bodloni'r targed hwn.

Mae gwariant gweithredol am bob pen o'r boblogaeth yn chwartel isaf awdurdodau llyfrgell Cymru, ac mae wedi gostwng ychydig (1%) o gymharu â 2023-24 (DA14). Gostyngodd gwariant ar ddeunyddiau 9% yn 2024-25 (er bod y gyllideb a ddyrannwyd heb newid ers 2023-24), ac mae Torfaen yn is na'r canolrif cenedlaethol am wariant ar ddeunyddiau am bob pen o'r boblogaeth. Mae Torfaen yn parhau i fethu â bodloni'r targed ar gyfer oriau agor am bob pen o'r boblogaeth a'r gwasanaeth sydd yn y safle isaf yn genedlaethol am y mesur hwn, gydag oriau agor yn gyfwerth â 52% yn unig o'r targed am bob pen o'r boblogaeth (DA16).

## Y cyd-destun strategol

Yn rhan o'r ffurflen, mae gofyn i awdurdodau adrodd ar y ffordd mae'r gwasanaeth llyfrgelloedd yn cyfrannu at flaenoriaethau a nodau strategol ehangach Llywodraeth Cymru. Amlygodd Torfaen ystod o weithgareddau sy'n cefnogi amrywiol flaenoriaethau ac yn alinio gydag egwyddorion Marmot.[26] Mae hyn yn cynnwys y canlynol:

- **Cymru lewyrchus** e.e. meithrin sgiliau dysgu gydol oes a digidol trwy gyfleusterau modern gan gynnwys gofodau astudio gyda phŵer, bariau cyfrifiaduron llechen a phensetiau realiti rhithwir yn dilyn adnewyddu Llyfrgell Cwmbrân a gyllidwyd gan Lywodraeth Cymru; cynnig sesiynau TG a chymorth sgiliau digidol rheolaidd mewn partneriaeth â Chymunedau am Waith a *Let's Get Digital*; parhau i fenthyca dyfeisiau iPad a chyflwyno gwasanaeth benthyca cyfrifiaduron llechen Hublet yn Llyfrgell Cwmbrân; a darparu mynediad at adnoddau electronig fel *Access to Research*, Cyfrifiad 1921 a BorrowBox, sydd oll yn cefnogi gweledigaeth Llywodraeth Cymru o boblogaeth sy'n fedrus yn ddigidol ac yn weithgar yn economaidd.
- **Cymru iachach** e.e. Swyddog Proffesiynol dynodedig yn arwain rhaglen eang ym maes Iechyd a Lles; darparu amrywiaeth o weithgareddau lles gan gynnwys cyngor iechyd un i un; grwpiau cymorth dementia; grwpiau crefftau i bobl sy'n wynebu profedigaeth; diwrnodau gwybodaeth i ofalwyr; sesiynau ymwybyddiaeth iechyd meddwl; sesiynau cyfarfod te a thechnoleg; a chydweithrediadau gyda phartneriaid ar fentrau i gefnogi teuluoedd sydd wedi'u heffeithio gan hunanladdiad, digartrefedd, profedigaeth a thrawma. Mae'r gwasanaeth Llyfrgell yn y Cartref yn sicrhau bod trigolion sy'n gaeth i'w cartrefi yn gallu parhau i fod yn gysylltiedig.
- **Cymru o gymunedau cydlynus** e.e. gwasanaethu fel hybiau cynhwysol y gellir ymddiried ynddynt gyda gwasanaethau integredig fel Cyngor ar Bopeth Torfaen, Undeb Credyd Torfaen a Gwasanaethau i Gwsmeriaid y Cyngor yn Llyfrgell Cwmbrân; gweithredu fel pwynt cyswllt cyntaf i gyfeirio trigolion at ddarpariaeth yn y gymuned; cynnal rhaglen fywiog o ddigwyddiadau gan

[26] https://www.local.gov.uk/marmot-review-report-fair-society-healthy-lives

gynnwys crefftau rhwng y cenedlaethau, grwpiau darllen, clybiau Lego a chodio, a digwyddiadau awduron; ymgysylltu â bron 1,000 o blant yn Her Ddarllen yr Haf; a darparu allgyrraedd wedi'i dargedu i grwpiau fel trwy *Dads for Lads* a'r Hyb Menywod gyda'r Tîm Cymorth Lleiafrifoedd Ethnig ac Ieuenctid.
- **Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu** e.e. hyrwyddo'r Gymraeg a diwylliant Cymru trwy sesiynau Amser Rhigwm; ymweliadau ysgolion; cynnwys llyfrau Cymraeg mewn arddangosiadau ac ymgyrchoedd hybu iechyd; a darparu digwyddiadau fel Amser Rhigwm Mawr Cymru, sesiynau Clwb Cwtsh i rieni a sesiynau awduron Sêr y Silffoedd, sydd oll yn cyfrannu at Gymraeg 2050.

## Cyfeiriad at y dyfodol

Gan adrodd ar gyfeiriad yr awdurdod at y dyfodol, a'i gynlluniau ar gyfer y gwasanaeth llyfrgell dros y flwyddyn sydd i ddod, mae Torfaen yn cyfeirio at gofleidio egwyddorion Marmot fel sylfaen eu cyfeiriad strategol, gan ganolbwyntio ar leihau anghydraddoldebau iechyd, hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol a gwella lles cymunedol. Mae pedwar maes i gyfeiriadau strategol y dyfodol: datblygu llyfrgelloedd fel hybiau lles cymunedol; cynhwysiant digidol a dysgu gydol oes; ymyrraeth gynnar a chamau atal; a datblygiad diwylliannol ac addysgol. Wrth edrych ymlaen, nod Torfaen yw esblygu ei lyfrgelloedd fel gofodau hyblyg, aml-bwrpas sy'n gynhwysol, yn ymatebol i anghenion y gymuned ac yn gallu cael eu newid i gyd-fynd â hynny. Bwriedir i'r gwasanaethau a ddarperir gyfrannu at gynyddu gwytnwch ymysg trigolion lleol ac osgoi dibyniaeth ar wasanaethau ffurfiol. Mae Torfaen yn adrodd y bydd y gwasanaethau hyn yn eistedd ochr yn ochr â darparu gwasanaethau llyfrgell craidd.

## Casgliad

Mae ffocws cryf yn narpariaeth llyfrgell Torfaen ar gymorth ar gyfer iechyd a lles, ac mae'r gwasanaeth yn perfformio'n dda yn y maes hwn, gyda nifer o fentrau arloesol. Mae'r ffaith bod Torfaen yn bodloni'r targed am ganran DPP staff yn nodwedd gadarnhaol arall o'r ffurflen eleni. Fodd bynnag, mae'r gostyngiad ym maes hyfforddiant ffurfiol i ddefnyddwyr eleni'n bryder, ac yn rhywbeth y dylai'r gwasanaeth ymchwilio iddo ymhellach er mwyn ei ddeall yn well a'i gywiro, gobeithio, yn y blynyddoedd sydd i ddod. Bydd y ffaith bod lefelau staffio mor isel yn Nhorfaen o gymharu ag awdurdodau llyfrgell eraill Cymru yn cael effaith anochel ar allu'r gwasanaeth i gynnig cymorth i ddefnyddwyr, digwyddiadau a hyfforddiant. Mae lefel yr oriau agor am bob pen o'r boblogaeth yn Nhorfaen yr un mor bryderus, ond eto, mae'n anodd gweld sut y gellir gwella'r rhain yn sylweddol hyd nes yr eir i'r afael â'r lefelau staffio presennol.

At ei gilydd, mae ymatebion plant i arolygon defnyddwyr yn llai cadarnhaol na'r rhai a gafwyd gan gwsmeriaid sy'n oedolion. Er nad ydynt ar lefel sy'n sbarduno pryder, mae adborth gan blant a phobl ifanc yn rhywbeth y cynghorir y dylai'r gwasanaeth dalu sylw arbennig iddo yn yr arolwg y bwriedir ei gynnal yn 2025-26.

# Adroddiad Asesu Blynyddol 2024-25 Bro Morgannwg

Mae'r adroddiad hwn wedi'i baratoi ar sail gwybodaeth a ddarparwyd gan ffurflen flynyddol Bro Morgannwg, datganiadau effaith ac adroddiad naratif a gyflwynwyd i Is-adran Diwylliant Llywodraeth Cymru.

## Crynodeb gweithredol

Mae Bro Morgannwg yn bodloni pob un o'r 13 Hawl Graidd yn llawn. O'r 5 dangosydd ansawdd lle mae targedau, mae Bro Morgannwg yn cyflawni 3 yn llawn ac 1 yn rhannol. Mae un DA sydd heb ei fodloni.

Mae Bro Morgannwg yn perfformio'n dda mewn llawer o feysydd: gwelwyd cynnydd nodedig yn y nifer sy'n mynychu digwyddiadau, y nifer sy'n mynychu hyfforddiant ffurfiol, e-fenthyciadau ac ymweliadau rhithwir eleni. Mae'r cynnydd yn y gyllideb lyfrau, wrth gwrs, i'w groesawu, am y bydd hyn yn helpu'r gwasanaeth i sicrhau bod ganddo adnoddau cyfoes ac apelgar er mwyn parhau i ddenu cwsmeriaid. Mae hefyd yn gadarnhaol bod oriau agor wedi cynyddu eto eleni, er nad yw'r gwasanaeth yn bodloni'r targed hwn eto. Mae'n braf gweld bod Bro Morgannwg wedi cymryd camau i fynd i'r afael â materion a amlygwyd yn adroddiad blynyddol 2023-24. Mae bellach yn bodloni'r targed ar gyfer staff cymwysedig am bob pen o'r boblogaeth, ac, yn wir, hwn yw'r awdurdodau llyfrgell yn y safle uchaf yn genedlaethol am y mesur hwn. Mae wedi cynnal arolygon defnyddwyr eleni, ac mae'n adrodd ei fod yn ymrwymedig i'w gwneud yn weithgaredd blynyddol er mwyn asesu effaith yn barhaus a sicrhau bod gwasanaethau'n esblygu yn unol ag anghenion defnyddwyr. Mewn ymgynghoriadau â chwsmeriaid yn y dyfodol, gallai Bro Morgannwg ddymuno archwilio rhesymau posibl dros y lefelau bodlonrwydd is mewn darpariaeth TG, yn arbennig o ystyried bod hwn yn ffocws i'r gwasanaeth, yn ogystal ag esboniadau posibl dros y ffaith bod mesurau Gwneud gwahaniaeth (DA1) yn is nag mewn llawer o wasanaethau eraill, sy'n syndod o ystyried perfformiad cadarnhaol llyfrgelloedd Bro Morgannwg mewn llawer o feysydd eraill o SLICC. Mae'r gostyngiad nodedig yn y ddarpariaeth cymorth anffurfiol eleni yn faes arall sy'n haeddu ymchwilio pellach gan y gwasanaeth.

- Mae'r nifer sy'n mynychu hyfforddiant ffurfiol wedi parhau i gynyddu, gyda'r nifer yn codi 89% o gymharu â 2022-23 a mwy na phedair gwaith drosodd ers 2022-23 (DA5).
- Mae'r nifer sy'n mynychu digwyddiadau yn gryfder i gynnig Bro Morgannwg, ac mae'r gwasanaeth yn parhau i fod yn chwartel uchaf gwasanaethau llyfrgell am y mesur hwn (DA6).

- Mae Bro Morgannwg yn chwartel uchaf yr awdurdodau llyfrgell am ymweliadau rhithwir am bob pen o'r boblogaeth, ac mae nifer yr ymweliadau wedi codi traean o gymharu â 2023-24 (DA8).

## Nodyn i adroddiad 2024-25

Yn ystod 2024-25, symudodd awdurdodau lleol yng Nghymru i Blatfform Llyfrgell Ddigidol newydd ar gyfer Cymru gyfan. Perwyd rhywfaint o darfu i weithrediad gwasanaethau llyfrgell yn ystod y broses symud, gan gynnwys mewn perthynas â chaffael stoc newydd, sef gwaith y bu'n rhaid ei atal am gyfnod wrth i wasanaethau unigol symud i'r system newydd. Mae rhywfaint o fân wahaniaethau hefyd yn ffurfwedd y platfform newydd sy'n golygu nad yw data defnyddwyr yn ystod 2024-25 yn gwbl gyson. Felly, nid yw'r adroddiadau ar gyfer 2024-25 yn cynnwys y data a nodir isod ar gyfer Dangosyddion Ansawdd 4, 8, 9 a 10.

DA 4 Cymorth ar gyfer iechyd a lles
- c) nifer y benthyciadau o gyfres Darllen yn Well Cymru

DA 8 Defnydd o'r llyfrgell
- c) cyfanswm y benthycwyr gweithredol wedi'i rannu â maint y boblogaeth drigolion, a'i luosi â 1,000
- d) cyfanswm aelodau'r llyfrgell
- e) cyfanswm y llyfrau a fenthycwyd (oedolion a phlant ar wahân)
- f) cyfanswm yr eitemau clyweledol a fenthycwyd

DA 9 Deunydd darllen cyfoes a phriodol
- a) cyfradd gaffael isaf
- b) % a wariwyd ar adnoddau i blant

DA 10 Adnoddau yn y Gymraeg
- a) isafswm gwariant o 4%
- b) benthyciadau yn y Gymraeg am bob pen o'r boblogaeth

Caiff yr holl ddata ei adrodd a'i asesu ar gyfer 2025-26 (sef blwyddyn gyntaf Fframwaith 7), a chaiff y data hwn ei ddefnyddio i osod y meincnod ar gyfer y blynyddoedd sy'n weddill yn y fframwaith.

## Perfformiad yn erbyn y safonau

Mae'r fframwaith safonau'n cynnwys Hawliau Craidd, dangosyddion ansawdd gyda thargedau, dangosyddion ansawdd gyda meincnodau a mesurau effaith.

### Hawliau Craidd

Adroddodd Bro Morgannwg ei bod wedi bodloni pob un o'r 13 Hawl Graidd yn llawn trwy hunanasesu. Ar sail y sylwebaeth fanwl a chynorthwyol a ddarparwyd, mae'r asesydd annibynnol yn cytuno gyda'r hunanasesiad.

## Dangosyddion ansawdd gyda thargedau

Mae 12 dangosydd ansawdd (DA), y mae gan 5 ohonynt dargedau cyfansoddol. O'r rhain, mae Bro Morgannwg yn cyflawni 3 yn llawn ac 1 yn rhannol. Mae un DA sydd heb ei fodloni.

DA 4 (a) Cymorth ar gyfer iechyd a lles, **bodlonwyd yn llawn ▲**
i) Cynllun Darllen yn Well, **bodlonwyd**
ii) Casgliad dynodedig iechyd a lles, **bodlonwyd**
iii) Gwybodaeth am ffyrdd iachach o fyw ac ymddygiad iach, **bodlonwyd**
iv) Cyfeirio at wasanaethau iechyd a lles, **bodlonwyd**

DA 6 Mae'r holl fannau gwasanaeth sefydlog yn cynnig digwyddiadau/gweithgareddau i ddefnyddwyr â gofynion arbennig, **bodlonwyd yn llawn ▲**

DA 7 Lleoliad mannau gwasanaeth, **bodlonwyd yn llawn ▲**

DA 13 Lefelau staffio a chymwysterau, **bodlonwyd yn rhannol ■**
i) Staff am bob pen o'r boblogaeth, **ni fodlonwyd**
ii) Staff cymwysedig am bob pen o'r boblogaeth, **bodlonwyd**
iii) Cymwysterau/hyfforddiant pennaeth y gwasanaeth, **ni fodlonwyd**
iv) Canran DPP, **bodlonwyd**

DA 16 Oriau agor am bob pen o’r boblogaeth, **ni fodlonwyd ●**

## Mesurau effaith

Mae'r fframwaith yn cynnwys tri dangosydd gyda'r nod o asesu effaith defnyddio llyfrgelloedd ar fywydau pobl. Nid oes targedau i'r dangosyddion hyn, ac mae disgwyl i awdurdodau gynnal arolygon defnyddwyr ar gyfer DA1 ar un achlysur yn ystod y cyfnod o 2022-23 i 2024-25. Cynhaliodd Bro Morgannwg arolwg oedolion ac arolwg plant ym mis Hydref 2024. Mae'r ffigyrau crynodol (isaf, canolrifol ac uchaf) wedi'u seilio ar ddata gan bob awdurdod a ddarparodd ddata yn ffurflenni 2022-23, 2023-24 a 2024-25. Mae'r safleoedd yn adlewyrchu nifer yr ymatebwyr, lle mai 1 yw'r awdurdod sy'n sgorio uchaf.

| Dangosydd perfformiad | | Safle | Isaf | Canolrifol | Uchaf |
|---|---|---|---|---|---|
| DA 1 Gwneud gwahaniaeth | | | | | |
| b) % y bobl ifanc sydd o'r farn bod y llyfrgell yn eu helpu i ddysgu a chael gwybod pethau: | 83% | 17/19 | 68% | 94% | 99% |
| e) % yr oedolion sydd o'r farn bod y llyfrgell wedi gwneud gwahaniaeth i'w bywydau: | 79% | =18/20 | 31% | 86.5% | 96% |
| DA 5 b) % y mynychwyr sesiynau hyfforddiant a ddywedodd fod yr hyfforddiant wedi'u helpu i gyflawni eu diben trwy fynychu: | 99% | =6/18 | 75% | 98.5% | 100% |

Gofynnir hefyd i awdurdodau ddarparu datganiad effaith yn disgrifio'r effaith mae'r gwasanaeth llyfrgell wedi'i chael ar unigolyn neu ar grŵp o unigolion yn ystod y flwyddyn. Darparodd Bro Morgannwg ddatganiad effaith a oedd yn eang ei natur, yn hytrach na rhoi enghraifft benodol o effaith. Roedd y datganiad yn canolbwyntio ar gynhwysiant digidol, cynaliadwyedd a datblygu sgiliau. Mae'r gwasanaeth llyfrgell wedi sefydlu ei hun fel arweinydd wrth fynd i'r afael ag allgáu digidol a hyrwyddo gwytnwch cymunedol trwy ei raglenni arloesol yn Llyfrgelloedd y Barri a Phenarth. Mae Lleoedd Creu yn y ddwy lyfrgell wedi dod yn lleoliadau dysgu bywiog ac ymarferol, lle mae partneriaethau gyda choleg lleol yn darparu sesiynau wedi'u teilwra i ddysgwyr sy'n wynebu rhwystrau i addysg a chyflogaeth. Mae'r gweithdai creadigol hyn yn meithrin hyder, ymwybyddiaeth ddigidol a sgiliau cyflogadwyedd trwy gyflwyno cyfranogwyr i declynnau fel argraffwyr 3D a pheiriannau Cricut mewn lleoliad anffurfiol a chefnogol. Mae adborth wedi bod yn gadarnhaol, gyda dysgwyr yn adrodd gwell cymhelliant a hyder. Gan ategu'r gwaith hwn, mae'r Cynllun Benthyca Cyfrifiaduron Llechen yn darparu dyfeisiau, cysylltedd a chymorth un i un gan staff llyfrgell hyfforddedig a phartneriaid fel Cymunedau Digidol Cymru. Mae'r dull cydlynol hwn yn sicrhau bod trigolion yn datblygu'r sgiliau digidol hanfodol sydd eu hangen i fyw bywyd bob dydd a chael mynediad at wasanaethau. Gan gefnogi cynaliadwyedd, mae partneriaeth Llyfrgell y Barri â Chaffi Trwsio'r Barri yn grymuso trigolion i drwsio eitemau'r cartref, gan hyrwyddo cyfrifoldeb amgylcheddol a gwytnwch cymunedol.

Cafodd arweinyddiaeth y llyfrgell ym maes cynhwysiant digidol ei chydnabod yn ystod ymweliad diweddar gan Brif Weinidog Cymru, a ganmolodd y gwasanaeth am ei rôl o ran darparu i gymunedau y sgiliau a'r teclynnau sydd eu hangen i ffynnu yn y byd digidol. Mae'r mentrau hyn yn amlygu sut mae Llyfrgelloedd Bro Morgannwg yn cyfuno creadigrwydd, technoleg ac ymgysylltiad cymunedol i gael effaith barhaus ar unigolion a'r gymuned ehangach.

## Dangosyddion ansawdd a meincnodau

Nid oes targedau i'r dangosyddion sy'n weddill, ond maent yn caniatáu i wasanaethau fonitro eu perfformiad dros amser. Mae'r tabl canlynol yn crynhoi safle Bro Morgannwg ar gyfer 2024-25. Mae'r safleoedd yn adlewyrchu nifer yr

ymatebwyr, lle mai 1 yw'r awdurdod sy'n sgorio uchaf. Caiff dangosyddion 'am bob pen o'r boblogaeth' eu cyfrifo fesul 1,000 o'r boblogaeth oni nodir fel arall.

| Dangosydd perfformiad | | Safle | Isaf | Canolrifol | Uchaf |
|---|---|---|---|---|---|
| DA 1 Gwneud gwahaniaeth | | | | | |
| a) % yr oedolion sydd o'r farn bod defnyddio'r llyfrgell wedi'u helpu i ddatblygu sgiliau newydd | 58% | 18/20 | 17% | 70% | 90% |
| c) iechyd a lles | 45% | 18/20 | 1% | 63% | 90% |
| d) pleserus, diogel a chynhwysol | 93% | =18/20 | 93% | 97% | 100% |
| DA 2 Bodlonrwydd cwsmeriaid | | | | | |
| a) dewis 'da iawn' neu 'dda' o lyfrau | 90% | =11/20 | 84% | 90.5% | 97% |
| b) gofal cwsmeriaid 'da iawn' neu 'dda' | 97% | =14/20 | 92% | 98% | 100% |
| c) cyfleusterau TG 'da iawn' neu 'dda' | 60% | 20/20 | 60% | 85% | 99% |
| d) 'da iawn' neu 'dda' yn gyffredinol | 99% | =2/20 | 85% | 98% | 100% |
| e) sgôr allan o ddeg ymysg defnyddwyr 16 oed ac iau | 8.7 | 17/18 | 8.0 | 9.4 | 9.7 |
| DA 5 Cymorth i ddefnyddwyr | | | | | |
| a) nifer yn mynychu am bob pen o'r boblogaeth | 34 | =6/21 | 1 | 28 | 214 |
| c) cymorth anffurfiol am bob pen o'r boblogaeth | 34 | 19/20 | 15 | 150 | 608 |
| DA 6 Nifer yn mynychu digwyddiadau am bob pen o'r boblogaeth | 543 | 2/22 | 14 | 224.5 | 764 |
| DA 8 Defnydd o'r llyfrgell | | | | | |
| b) ymweliadau rhithwir am bob pen o'r boblogaeth | 1,152 | 5/21 | 5 | 766 | 6,035 |
| DA 13 Lefelau staffio a chymwysterau[27] | | | | | |
| (v) a) cyfanswm y gwirfoddolwyr | 169 | Dd/B | 0 | 23 | 442 |
| b) oriau gwirfoddolwyr | 22,706 | Dd/B | 0 | 883 | 22,706 |
| DA 14 Gwariant gweithredol | | | | | |
| a) cyfanswm gwariant am bob pen o'r boblogaeth | £13,111 | 9/21 | £5,978 | £12,646 | £26,209 |
| b) % ar staff | 76% | =5/21 | 48% | 67% | 80% |
| % ar adnoddau gwybodaeth | 13% | 4/21 | 4% | 9% | 19% |
| % ar gyfarpar ac adeiladau | 4% | =6/21 | 0% | 2% | 29% |
| % ar gostau gweithredol eraill | 7% | =16/21 | 1% | 15% | 38% |

# Dadansoddiad o berfformiad

Mae modd rhannu'r Hawliau Craidd a'r dangosyddion ansawdd yn dri phrif faes. Mae'r adran hon o'r adroddiad yn amlinellu perfformiad o dan y meysydd hyn.

## Bodloni anghenion cwsmeriaid (DA 1-2, 4-5)

Mae canlyniadau arolygon cwsmeriaid eleni'n dangos bod y gwasanaeth yn is na'r canolrif cenedlaethol ar hyn o bryd am bob elfen o'r maes Gwneud gwahaniaeth (DA1). Fodd bynnag, mae'n perfformio'n dda mewn rhai agweddau ar y maes

[27] *Nid oes safleoedd wedi'u cynnwys ar gyfer gwirfoddolwyr am fod goblygiadau niferoedd gwirfoddolwyr yn aneglur.*

Bodlonrwydd cwsmeriaid (DA2), yn arbennig gofal cwsmeriaid a'r sgôr gyffredinol, y barnwyd bod y ddau hyn yn dda neu'n dda iawn gan fwy na 95% o'r rhai a atebodd yr arolwg. Fodd bynnag, mae'r sgôr ar gyfer cyfleusterau TG yn bryder, am mai dyma'r sgôr isaf a adroddwyd yn genedlaethol. Mae'r gwasanaeth yn cydnabod bod hyn wedi amlygu'r angen am fuddsoddiad mewn seilwaith digidol a gwell cymorth i ddefnyddwyr, ac mae'n fwriad ganddo fynd i'r afael â hyn yn rhan o'r strategaeth datblygu digidol ehangach.

Mae'r nifer sy'n mynychu hyfforddiant ffurfiol wedi parhau i gynyddu, gyda'r nifer yn codi 89% o gymharu â 2022-23 a mwy na phedair gwaith drosodd ers 2022-23 (DA5). Mae'r gwasanaeth bellach yn uwch na'r canolrif ar gyfer y mesur hwn. Fodd bynnag, mae niferoedd sydd wedi'u helpu trwy gymorth anffurfiol wedi gostwng 58% o gymharu â 2023-24, ac mae Bro Morgannwg bellach yn chwartel isaf awdurdodau llyfrgell Cymru am y mesur hwn. Ni ddarparwyd sylwebaeth yn y ffurflen i awgrymu rhesymau posibl dros y gostyngiad hwn.

## Mynediad a defnydd (DA 6-8)

Mae'r nifer sy'n mynychu digwyddiadau yn gryfder i gynnig Bro Morgannwg; mae niferoedd mynychu wedi cynyddu ychydig o gymharu â'r flwyddyn flaenorol (2%), ac mae'r gwasanaeth yn parhau i fod yn chwartel uchaf yr awdurdodau llyfrgell am y mesur hwn (DA6). Ymhlith y digwyddiadau mae boreau coffi dementia-gyfeillgar, amser stori synhwyraidd i blant ag anghenion ychwanegol, sesiynau galw heibio i ofalwyr, a chymorth digidol wedi'i deilwra ar gyfer oedolion hŷn a phobl â gofynion hygyrchedd.

Mae Bro Morgannwg yn chwartel uchaf awdurdodau llyfrgell Cymru am ymweliadau rhithwir am bob pen o'r boblogaeth, ac mae nifer yr ymweliadau wedi codi traean o gymharu â 2023-24 (DA8). Er bod y gwasanaeth yn parhau i fod yn y chwartel isaf yn genedlaethol am e-fenthyciadau, gwelwyd cynnydd aruthrol o 87% o gymharu â 2023-24, ac mae e-fenthyciadau wedi mwy na dyblu o gymharu â 2022-23.

## Arbenigedd a chapasiti (DA 13-14 ac 16)

Mae darlun mwy cadarnhaol mewn perthynas â staffio eleni. Mae Bro Morgannwg bellach yn bodloni'r targed ar gyfer staff cymwysedig am bob pen o'r boblogaeth, a hwn yw'r awdurdod llyfrgell yn y safle uchaf yng Nghymru ar gyfer y mesur hwn (DA13). Er nad yw'r rheolwr gweithredol dynodedig yn meddu ar gymhwyster perthnasol ar hyn o bryd, mae camau i fynd i'r afael â hyn am eu bod yn cyflawni Siarteriaeth CILIP ar hyn o bryd, ynghyd â 2 aelod arall o staff. Mae cyfanswm y staff am bob pen o'r boblogaeth wedi cynyddu hefyd, ac mae 3.5 CALI yn uwch nag yr oedd yn 2023-24. Er nad yw'r gwasanaeth yn bodloni'r targed ar gyfer y mesur hwn, mae'n uwch na chanolrif awdurdodau llyfrgell Cymru. Mae'r 5 llyfrgell a reolir gan y gymuned, sy'n gwasanaethu ychydig o dan 23% o boblogaeth Bro Morgannwg (oddeutu 38,000 o bobl), yn gweithredu'n annibynnol gyda chymorth gwirfoddolwyr. Mae nifer y gwirfoddolwyr a adroddwyd wedi gostwng o gymharu â 2023-24. Fodd

bynnag, mae cyfanswm yr oriau gwirfoddolwyr a weithiwyd wedi cynyddu, ac maent yn gyfwerth â dros 13 o staff CALI. O ystyried lefel cyfranogiad gwirfoddolwyr ym Mro Morgannwg, mae'n arbennig o bwysig sicrhau bod gwirfoddolwyr yn cael eu defnyddio'n unol ag arweiniad CILIP.

Mae gwariant gweithredol yn uwch na chanolrif gwasanaethau llyfrgell Cymru, ond mae'r ffigur wedi gostwng 15% o gymharu â 2023-24 (DA14). Dyma'r gostyngiad canrannol mwyaf mewn gwariant refeniw yn genedlaethol, ac mae'n gyfwerth â £2.38 yn llai am bob pen o'r boblogaeth. Fodd bynnag, er gwaethaf y gostyngiad cyffredinol mewn gwariant, mae'r gyllideb lyfrau wedi cynyddu 26%. Yn ogystal, mae cyfran y gyllideb a ddyrannwyd i staffio wedi cynyddu, o 59% i 76%, am fod y gwasanaeth wedi ailalinio'r gyllideb i ganolbwyntio'n helaethach ar staffio a deunyddiau.

Er bod yr oriau agor a adroddwyd wedi cynyddu 13% o gymharu â 2023-24, nid yw Bro Morgannwg yn bodloni'r targed o hyd am oriau agor (DA16). Mae'r gwasanaeth yn cydnabod bod ymestyn oriau agor yn flaenoriaeth i'r gwasanaeth am nad yw'r un o'r llyfrgelloedd a reolir gan y gymuned ar agor amser llawn. Fodd bynnag, mae dwy lyfrgell gymunedol wedi cynyddu eu horiau agor o fis Ebrill 2025.

## Y cyd-destun strategol

Yn rhan o'r ffurflen, mae gofyn i awdurdodau adrodd ar y ffordd mae'r gwasanaeth llyfrgell yn cyfrannu at flaenoriaethau a nodau strategol ehangach Llywodraeth Cymru. Amlinellodd Bro Morgannwg ystod eang o weithgareddau sy'n cefnogi Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ac ystod o strategaethau Llywodraeth Cymru. Ymhlith yr enghreifftiau mae'r canlynol:

- **Darparu hybiau ar gyfer dysgu cymunedol ac ymgysylltiad diwylliannol** e.e. rhaglen o sgyrsiau awduron, perfformiadau byw, arddangosfeydd, grwpiau darllen a gweithdai creadigol, sy'n cael eu darparu yn aml mewn partneriaeth â'r Swyddog Datblygu'r Celfyddydau a sefydliadau lleol; a sesiynau Amser Rhigwm i Fabanod rheolaidd a gweithgareddau crefftau tymhorol i annog llythrennedd cynnar ac atgyfnerthu cysylltiadau rhwng y cenedlaethau.
- **Hyrwyddo cynhwysiant digidol a dysgu gydol oes** e.e. partneru â Chymunedau Digidol Cymru i fynd i'r afael ag allgáu digidol trwy sesiynau cymorth digidol un i un, allgyrraedd i grwpiau â blaenoriaeth a'r Cynllun Benthyca Cyfrifiaduron Llechen; a datblygu cyfleusterau arloesol fel Lle Creu Llyfrgell y Barri.
- **Cefnogi cyflogadwyedd a thwf cynhwysol** e.e. cefnogi ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ymgysylltu â phob person ifanc mewn addysg trwy ddarparu cyfleoedd gwirfoddoli a lleoliadau gwaith a rhaglen sgiliau digidol; ac ymestyn ymgysylltiad ieuenctid gyda rhaglenni wedi'u seilio ar sgiliau a'u targedu, a gweithdai creadigol, wedi'u halinio â'r Warant i Bobl Ifanc.

- **Hyrwyddo'r Gymraeg a diwylliant Cymru** e.e. amser stori Cymraeg, digwyddiadau awduron a sesiynau crefft; hyrwyddo adnoddau ac e-adnoddau dwyieithog; normaleiddio'r defnydd o'r Gymraeg trwy arwyddion dwyieithog; darparu hyfforddiant Cymraeg i staff; a gweithio gydag ysgolion cyfrwng Cymraeg i gefnogi datblygiad iaith cynnar, gan gyfrannu at nodau Cymraeg 2050.

## Cyfeiriad at y dyfodol

Gan adrodd ar gyfeiriad yr awdurdod at y dyfodol, a'i gynlluniau ar gyfer y gwasanaeth llyfrgell dros y flwyddyn sydd i ddod, mae Bro Morgannwg yn adrodd am ei hymrwymiad i greu gwasanaeth gwydn a chynhwysol sy'n barod at y dyfodol, sy'n ateb anghenion esblygol cymunedau lleol. Mae blaenoriaethau strategol yn canolbwyntio ar dri phrif faes: cynyddu mynediad a chynhwysiant; atgyfnerthu darpariaeth ddiwylliannol a digidol; a chefnogi lles cymunedol. Ymhlith cynlluniau Bro Morgannwg mae parhau i fuddsoddi mewn cynhwysiant digidol trwy ymestyn y Cynllun Benthyca Cyfrifiaduron Llechen llwyddiannus, cynyddu cyfleoedd am hyfforddiant sgiliau digidol, a datblygu Lleoedd Creu ar draws llyfrgelloedd. Bydd rhaglennu diwylliannol y llyfrgell yn tyfu trwy bartneriaethau gyda thîm Datblygu'r Celfyddydau'r Cyngor a rhanddeiliaid eraill, gan sefydlu llyfrgelloedd fel hybiau cymunedol creadigol sy'n hyrwyddo iechyd meddwl, dysgu a mynegiant creadigol. Bydd ffocws mawr ar gryfhau rôl y llyfrgell wrth wella llythrennedd, gydag ymgysylltiad dyfnach ag ysgolion trwy ymweliadau dosbarthiadau, heriau darllen ac allgyrraedd wedi'i dargedu, yn ogystal â chymorth ar gyfer llythrennedd y blynyddoedd cynnar, darllenwyr anfoddog ac arferion darllen gydol oes. Bydd ymdrechion allgyrraedd, gofodau llyfrgell wedi'u hailwampio a phresenoldeb digidol dwyieithog cadarn yn moderneiddio gwasanaethau ac yn ymestyn mynediad ymhellach.

Yn 2025-26, nod y gwasanaeth yw datblygu Strategaeth Llyfrgelloedd newydd wedi'i halinio â gweledigaeth Bro 2030 y Cyngor a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, wedi'i chyd-greu gyda chymunedau er mwyn sicrhau gwasanaethau sy'n berthnasol, yn gyfartal ac yn gynaliadwy.

## Casgliad

Mae Bro Morgannwg yn perfformio'n dda mewn llawer o feysydd: gwelwyd cynnydd nodedig yn y nifer sy'n mynychu digwyddiadau, y nifer sy'n mynychu hyfforddiant ffurfiol, e-fenthyciadau ac ymweliadau rhithwir eleni. Mae'r cynnydd yn y gyllideb lyfrau, wrth gwrs, i'w groesawu, am y bydd hyn yn helpu'r gwasanaeth i sicrhau bod ganddo adnoddau cyfoes ac apelgar er mwyn parhau i ddenu cwsmeriaid. Mae hefyd yn gadarnhaol bod oriau agor wedi cynyddu eto eleni, er nad yw'r gwasanaeth yn bodloni'r targed hwn eto. Mae'n braf gweld bod Bro Morgannwg wedi cymryd camau i fynd i'r afael â materion a amlygwyd yn adroddiad blynyddol 2023-24. Mae

bellach yn bodloni'r targed ar gyfer staff cymwysedig am bob pen o'r boblogaeth, ac, yn wir, hwn yw'r awdurdodau llyfrgell yn y safle uchaf yn genedlaethol am y mesur hwn. Mae wedi cynnal arolygon defnyddwyr eleni, ac mae'n adrodd ei fod yn ymrwymedig i'w gwneud yn weithgaredd blynyddol er mwyn asesu effaith yn barhaus a sicrhau bod gwasanaethau'n esblygu yn unol ag anghenion defnyddwyr. Mewn ymgynghoriadau â chwsmeriaid yn y dyfodol, gallai Bro Morgannwg ddymuno archwilio rhesymau posibl dros y lefelau bodlonrwydd is mewn darpariaeth TG, yn arbennig o ystyried bod hwn yn ffocws i'r gwasanaeth, yn ogystal ag esboniadau posibl dros y ffaith bod mesurau Gwneud gwahaniaeth (DA1) yn is nag mewn llawer o wasanaethau eraill, sy'n syndod o ystyried perfformiad cadarnhaol llyfrgelloedd Bro Morgannwg mewn llawer o feysydd eraill o SLICC. Mae'r gostyngiad nodedig yn y ddarpariaeth cymorth anffurfiol eleni yn faes arall sy'n haeddu ymchwilio pellach gan y gwasanaeth.

# Adroddiad Asesu Blynyddol 2024-25 Wrecsam

Mae'r adroddiad hwn wedi'i baratoi ar sail gwybodaeth a ddarparwyd gan ffurflen flynyddol Wrecsam, datganiadau effaith ac adroddiad naratif a gyflwynwyd i Is-adran Diwylliant Llywodraeth Cymru.

## Crynodeb gweithredol

Adroddodd Wrecsam ei fod wedi bodloni 8 o'r 13 Hawl Graidd yn llawn ac 5 yn rhannol trwy hunanasesu. Fodd bynnag, mae'r asesydd annibynnol o'r farn bod y gwasanaeth wedi bodloni 9 Hawl Graidd yn llawn a 4 yn rhannol. O'r 5 dangosydd ansawdd lle mae targedau, mae Wrecsam yn cyflawni 3 yn llawn ac 1 yn rhannol. Mae un DA sydd heb ei fodloni.

Er bod rhai elfennau cadarnhaol yn adroddiad eleni, gan gynnwys cynyddu'r nifer sy'n mynychu digwyddiadau a chyllideb lyfrau fwy, a ddylai helpu i sicrhau bod cwsmeriaid yn cael mynediad at adnoddau cyfoes a deniadol, mae'r sefyllfa yn llyfrgelloedd Wrecsam yn peri pryder mawr. Yn arbennig, mae'r ffaith bod Wrecsam yn bodloni 9 yn unig o'r 13 Hawl Graidd yn llawn yn fater y mae angen i'r awdurdod fynd i'r afael ag ef ar fyrder. Mewn perthynas â pherfformiad yn erbyn y dangosyddion ansawdd, mae'n siomedig bod oriau agor wedi gostwng ymhellach eleni. Mae'n amlwg bod staff llyfrgell Wrecsam yn gwneud ymdrechion i wella'r gwasanaeth i gwsmeriaid, ac mae hyn i'w weld yn y 97% o gwsmeriaid a atebodd yr arolwg a farnodd fod gofal cwsmeriaid yn dda neu'n dda iawn. Fodd bynnag, ymhlith y materion sy'n peri pryderon difrifol yn ffurflen eleni mae'r canlynol: y diffyg ymgynghori â phlant a phobl ifanc i sicrhau bod y gwasanaeth llyfrgell yn ateb eu hanghenion (DA1a2 a HG11); bylchau parhaus yn y data a ddarperir, yn arbennig mewn perthynas â chymorth anffurfiol a ddylai fod yn rhan annatod o gynnig y llyfrgell i gwsmeriaid (DA5); a phryderon am lefel y ddarpariaeth TG (DA2 a HG7).

- Mae dros 95% o gwsmeriaid yn barnu bod gofal cwsmeriaid, a'r llyfrgell yn gyffredinol, yn dda neu'n dda iawn (DA2).
- Mae Wrecsam yn parhau i fod yn uwch na'r canolrif cenedlaethol am y nifer sy'n mynychu digwyddiadau am bob pen o'r boblogaeth (DA6).
- Mae ymweliadau rhithwir wedi mwy na dyblu o gymharu â 2023-24, ac wedi cynyddu 258% o gymharu â 2022-23 (DA8).

## Nodyn i adroddiad 2024-25

Yn ystod 2024-25, symudodd awdurdodau lleol yng Nghymru i Blatfform Llyfrgell Ddigidol newydd ar gyfer Cymru gyfan. Perwyd rhywfaint o darfu i weithrediad gwasanaethau llyfrgell yn ystod y broses symud, gan gynnwys mewn perthynas â chaffael stoc newydd, sef gwaith y bu'n rhaid ei atal am gyfnod wrth i wasanaethau unigol symud i'r system newydd. Mae rhywfaint o fân wahaniaethau hefyd yn ffurfwedd y platfform newydd, sy'n golygu nad yw data defnyddwyr yn ystod 2024-25 yn gwbl gyson. Felly, nid yw'r adroddiadau ar gyfer 2024-25 yn cynnwys y data a nodir isod ar gyfer Dangosyddion Ansawdd 4, 8, 9 a 10.

DA 4 Cymorth ar gyfer iechyd a lles
- c) nifer y benthyciadau o gyfres Darllen yn Well Cymru

DA 8 Defnydd o'r llyfrgell
- c) cyfanswm y benthycwyr gweithredol wedi'i rannu â maint y boblogaeth drigolion, a'i luosi â 1,000
- d) cyfanswm aelodau'r llyfrgell
- e) cyfanswm y llyfrau a fenthycwyd (oedolion a phlant ar wahân)
- f) cyfanswm yr eitemau clyweledol a fenthycwyd

DA 9 Deunydd darllen cyfoes a phriodol
- a) cyfradd gaffael isaf
- b) % a wariwyd ar adnoddau i blant

DA 10 Adnoddau yn y Gymraeg
- a) isafswm gwariant o 4%
- b) benthyciadau yn y Gymraeg am bob pen o'r boblogaeth

Caiff yr holl ddata ei adrodd a'i asesu ar gyfer 2025-26 (sef blwyddyn gyntaf Fframwaith 7), a chaiff y data hwn ei ddefnyddio i osod y meincnod ar gyfer y blynyddoedd sy'n weddill yn y fframwaith.

## Perfformiad yn erbyn y safonau

Mae'r fframwaith safonau'n cynnwys Hawliau Craidd, dangosyddion ansawdd gyda thargedau, dangosyddion ansawdd gyda meincnodau a mesurau effaith.

### Hawliau Craidd

Adroddodd Wrecsam ei fod wedi bodloni 8 o'r 13 Hawl Graidd yn llawn ac 5 yn rhannol trwy hunanasesu. Ar sail y sylwebaeth fanwl a chynorthwyol a ddarparwyd, mae'r asesydd annibynnol o'r farn bod y gwasanaeth wedi bodloni 9 Hawl Graidd yn llawn a 4 yn rhannol.

**53. Mae llyfrgelloedd yng Nghymru yn rhad ac am ddim i ymuno â nhw, ac yn agored i bawb.**

Hunanasesiad: Bodlonwyd yn llawn
Asesydd Annibynnol: **Bodlonwyd yn llawn ▲**

54. **Mae llyfrgelloedd yng Nghymru yn sicrhau bod staff cyfeillgar, gwybodus a chymwysedig wrth law i helpu.**
Hunanasesiad: Bodlonwyd yn llawn
Asesydd Annibynnol: **Bodlonwyd yn llawn ▲**

55. **Mae llyfrgelloedd yng Nghymru yn darparu mynediad at ystod o wasanaethau, gweithgareddau ac adnoddau o safon uchel mewn sawl fformat i gefnogi dysgu gydol oes, iechyd a lles personol, cyfranogiad cymunedol, profiadau diwylliannol, hamdden, a darllen er pleser.**
Hunanasesiad: Bodlonwyd yn llawn
Asesydd Annibynnol: **Bodlonwyd yn llawn ▲**

56. **Mae llyfrgelloedd yng Nghymru yn darparu gwasanaethau, cyfleusterau ac adnoddau gwybodaeth priodol i unigolion a grwpiau sydd ag anghenion arbennig.**
Hunanasesiad: Bodlonwyd yn llawn
Asesydd Annibynnol: **Bodlonwyd yn llawn ▲**

57. **Mae llyfrgelloedd yn darparu gofod ffisegol diogel, deniadol a hygyrch sydd ag oriau agor addas dan ofal staff.**
Hunanasesiad: Bodlonwyd yn rhannol
Asesydd Annibynnol: **Bodlonwyd yn rhannol ■**
Mae hyn oherwydd diffyg rhaglen foderneiddio neu adnewyddu ar gyfer yr ystâd ffisegol.

58. **Mae llyfrgelloedd yng Nghymru yn benthyca llyfrau am ddim ac yn cynnig mynediad am ddim i wybodaeth, gan gynnwys adnoddau gwybodaeth ar-lein ar gael 24 awr y dydd.**
Hunanasesiad: Bodlonwyd yn llawn
Asesydd Annibynnol: **Bodlonwyd yn llawn ▲**

59. **Mae llyfrgelloedd yng Nghymru yn darparu'r Rhyngrwyd, gan gynnwys Wi-Fi, a mynediad at gyfarpar digidol yn rhad ac am ddim ym mhob man gwasanaeth.**
Hunanasesiad: Bodlonwyd yn rhannol
Asesydd Annibynnol: **Bodlonwyd yn rhannol ■**
Mae hyn oherwydd diffyg darpariaeth Wi-Fi ym mhob cangen.

60. **Mae llyfrgelloedd yng Nghymru yn darparu mynediad at wasanaethau, gweithgareddau diwylliannol ac adnoddau o ansawdd uchel yn y Gymraeg.**

Hunanasesiad: Bodlonwyd yn llawn
Asesydd Annibynnol: **Bodlonwyd yn llawn ▲**

61. **Mae llyfrgelloedd yng Nghymru yn gweithio mewn partneriaeth i rannu catalogau a hwyluso mynediad i adnoddau holl lyfrgelloedd Cymru.**
Hunanasesiad: Bodlonwyd yn rhannol
Asesydd Annibynnol: **Bodlonwyd yn rhannol ■**
Mae hyn oherwydd y diffyg darpariaeth benthyca rhwng llyfrgelloedd y tu hwnt i chwe sir gogledd Cymru.

62. **Mae llyfrgelloedd yng Nghymru yn cydweithio ag amrywiaeth o bartneriaid i hyrwyddo a darparu gwasanaethau i gynulleidfaoedd newydd ac amrywiol, gan alluogi rhagor o bobl i elwa o'r gwasanaethau hynny.**
Hunanasesiad: Bodlonwyd yn rhannol
Asesydd Annibynnol: **Bodlonwyd yn llawn ▲**
Asesir bod hwn wedi'i fodloni'n llawn oherwydd, er nad oes cyllideb farchnata ar wahân, mae'r gwasanaeth yn amlwg yn buddsoddi mewn marchnata.

63. **Mae llyfrgelloedd yng Nghymru yn ymgynghori â defnyddwyr yn rheolaidd i gasglu eu barn ar y gwasanaeth a chasglu gwybodaeth am eu hanghenion newidiol.**
Hunanasesiad: Bodlonwyd yn rhannol
Asesydd Annibynnol: **Bodlonwyd yn rhannol ■**
Er y cynhaliwyd arolwg cwsmeriaid sy'n oedolion, ni adroddir am arolwg i blant yn ystod cyfnod Estyniad Fframwaith 6.

64. **Mae llyfrgelloedd yng Nghymru yn trefnu bod eu strategaeth, eu polisïau, eu hamcanion a'u gweledigaeth ar gyfer y gwasanaeth llyfrgelloedd ar gael i'w gweld, mewn print ac ar-lein, mewn amrywiaeth o ieithoedd fel y bo'n briodol i'r gymuned.**
Hunanasesiad: Bodlonwyd yn llawn
Asesydd Annibynnol: **Bodlonwyd yn llawn ▲**

65. **Mae llyfrgelloedd yng Nghymru yn darparu cymorth er mwyn helpu pobl i wella'u sgiliau digidol a'u hyder, gan gynnwys defnyddio gwasanaethau e-lywodraeth**
Hunanasesiad: Bodlonwyd yn llawn
Asesydd Annibynnol: **Bodlonwyd yn llawn ▲**

## Dangosyddion ansawdd gyda thargedau

Mae 12 dangosydd ansawdd (DA), y mae gan 5 ohonynt dargedau cyfansoddol. O'r rhain, mae Wrecsam yn cyflawni 3 yn llawn ac 1 yn rhannol. Mae un DA sydd heb ei fodloni.

DA 4 (a) Cymorth ar gyfer iechyd a lles, **bodlonwyd yn llawn ▲**
i) Cynllun Darllen yn Well, **bodlonwyd**
ii) Casgliad dynodedig iechyd a lles, **bodlonwyd**
iii) Gwybodaeth am ffyrdd iachach o fyw ac ymddygiad iach, **bodlonwyd**
iv) Cyfeirio at wasanaethau iechyd a lles, **bodlonwyd**

DA 6 Mae'r holl fannau gwasanaeth sefydlog yn cynnig digwyddiadau/gweithgareddau i ddefnyddwyr â gofynion arbennig, **bodlonwyd yn llawn ▲**

DA 7 Lleoliad mannau gwasanaeth, **bodlonwyd yn llawn ▲**

DA 13 Lefelau staffio a chymwysterau, **bodlonwyd yn rhannol ■**
i) Staff am bob pen o'r boblogaeth, **ni fodlonwyd**
ii) Staff cymwysedig am bob pen o'r boblogaeth, **ni fodlonwyd**
iii) Cymwysterau/hyfforddiant pennaeth y gwasanaeth, **bodlonwyd**
iv) Canran DPP, **bodlonwyd**

DA 16 Oriau agor am bob pen o’r boblogaeth, **ni fodlonwyd ●**

## Mesurau effaith

Mae'r fframwaith yn cynnwys tri dangosydd gyda'r nod o asesu effaith defnyddio llyfrgelloedd ar fywydau pobl. Nid oes targedau i'r dangosyddion hyn, ac mae disgwyl i awdurdodau gynnal arolygon defnyddwyr ar gyfer DA1 ar un achlysur yn ystod y cyfnod o 2022-23 i 2024-25. Cynhaliodd Wrecsam arolwg oedolion ym mis Mai/Mehefin 2024. Ni chynhaliwyd arolwg plant yn ystod cyfnod Estyniad Fframwaith 6. Mae'r ffigyrau crynodol (isaf, canolrifol ac uchaf) wedi'u seilio ar bob awdurdod a ddarparodd ddata yn ffurflenni 2022-23, 2023-24 a 2024-25. Mae'r safleoedd yn adlewyrchu nifer yr ymatebwyr, lle mai 1 yw'r awdurdod sy'n sgorio uchaf.

| Dangosydd perfformiad | | Safle | Isaf | Canolrifol | Uchaf |
|---|---|---|---|---|---|
| DA 1 Gwneud gwahaniaeth | | | | | |
| b) % y bobl ifanc sydd o'r farn bod y llyfrgell yn eu helpu i ddysgu a chael gwybod pethau: | Dd/B | Dd/B | 68% | 94% | 99% |
| e) % yr oedolion sydd o'r farn bod y llyfrgell wedi gwneud gwahaniaeth i'w bywydau: | 83% | =14/20 | 31% | 86.5% | 96% |
| DA 5 b) % y mynychwyr sesiynau hyfforddiant a ddywedodd fod yr hyfforddiant wedi'u helpu i gyflawni eu diben trwy fynychu: | Dd/B | Dd/B | 75% | 98.5% | 100% |

Gofynnir hefyd i awdurdodau ddarparu datganiad effaith yn disgrifio'r effaith mae'r gwasanaeth llyfrgell wedi'i chael ar unigolyn neu ar grŵp o unigolion yn ystod y flwyddyn. Darparodd Wrecsam ddatganiad yn cyfeirio at archif hanes lleol sydd

wedi'i sefydlu yn Llyfrgell Brynteg mewn partneriaeth â Grŵp Hanes Ardal Brychdin (BDHG). Mae'r archif yn gartref i amrywiaeth o adnoddau, gan gynnwys mapiau, cofnodion genedigaethau, priodasau a marwolaethau, dyddiaduron, ffotograffau a chynnwys aml-gyfrwng yn gysylltiedig â Brychdin a'r cyffiniau. Dywedodd un sy'n defnyddio'r archifau, *"Mae argaeledd adnoddau fel hyn, wedi'u lleoli yn y gymuned y maent yn ei chynrychioli, yn darparu cyfle gwerthfawr i ymchwil academaidd a theuluol a dylid coleddu hyn a'i hyrwyddo fel y gall cenedlaethau'r dyfodol barhau i werthfawrogi hanes hir cymuned Brychdin a'r sawl a'i hadeiladodd."*

## Dangosyddion ansawdd a meincnodau

Nid oes targedau i'r dangosyddion sy'n weddill, ond maent yn caniatáu i wasanaethau fonitro eu perfformiad dros amser. Mae'r tabl canlynol yn crynhoi safle Wrecsam ar gyfer 2024-25. Mae'r safleoedd yn adlewyrchu nifer yr ymatebwyr, lle mai 1 yw'r awdurdod sy'n sgorio uchaf. Caiff dangosyddion 'am bob pen o'r boblogaeth' eu cyfrifo fesul 1,000 o'r boblogaeth oni nodir fel arall.

| **Dangosydd perfformiad** | | **Safle** | **Isaf** | **Canolrifol** | **Uchaf** |
|---|---|---|---|---|---|
| DA 1 Gwneud gwahaniaeth | | | | | |
| a) % yr oedolion sydd o'r farn bod defnyddio'r llyfrgell wedi'u helpu i ddatblygu sgiliau newydd | 63% | 17/20 | 17% | 70% | 90% |
| c) iechyd a lles | 56% | =13/20 | 1% | 63% | 90% |
| d) pleserus, diogel a chynhwysol | 94% | 17/20 | 93% | 97% | 100% |
| DA 2 Bodlonrwydd cwsmeriaid | | | | | |
| a) dewis 'da iawn' neu 'dda' o lyfrau | 86% | =18/20 | 84% | 90.5% | 97% |
| b) gofal cwsmeriaid 'da iawn' neu 'dda' | 97% | =14/20 | 92% | 98% | 100% |
| c) cyfleusterau TG 'da iawn' neu 'dda' | 67% | 18/20 | 60% | 85% | 99% |
| d) 'da iawn' neu 'dda' yn gyffredinol | 96% | =15/20 | 85% | 98% | 100% |
| e) sgôr allan o ddeg ymysg defnyddwyr 16 oed ac iau | Dd/B | Dd/B | 8.0 | 9.4 | 9.7 |

| **Dangosydd perfformiad** | | **Safle** | **Isaf** | **Canolrifol** | **Uchaf** |
|---|---|---|---|---|---|
| DA 5 Cymorth i ddefnyddwyr | | | | | |
| a) nifer yn mynychu am bob pen o'r boblogaeth | 3 | =18/21 | 1 | 28 | 214 |
| c) cymorth anffurfiol am bob pen o'r boblogaeth | Dd/B | Dd/B | 15 | 150 | 608 |
| DA 6 Nifer yn mynychu digwyddiadau am bob pen o'r boblogaeth | 263 | =9/22 | 14 | 224.5 | 764 |
| DA 8 Defnydd o'r llyfrgell | | | | | |
| b) ymweliadau rhithwir am bob pen o'r boblogaeth | 439 | 16/21 | 5 | 766 | 6,035 |
| DA 13 Lefelau staffio a chymwysterau[28] | | | | | |

[28] *Nid oes safleoedd wedi'u cynnwys ar gyfer gwirfoddolwyr am fod goblygiadau niferoedd gwirfoddolwyr yn aneglur.*

| Dangosydd perfformiad | | Safle | Isaf | Canolrifol | Uchaf |
|---|---|---|---|---|---|
| (v) a) cyfanswm y gwirfoddolwyr | 1 | Dd/B | 0 | 23 | 442 |
| b) oriau gwirfoddolwyr | 54 | Dd/B | 0 | 883 | 22,706 |
| DA 14 Gwariant gweithredol | | | | | |
| a) cyfanswm gwariant am bob pen o’r boblogaeth | £11,240 | 15/21 | £5,978 | £12,646 | £26,209 |
| b) % ar staff | 67% | 11/21 | 48% | 67% | 80% |
| % ar adnoddau gwybodaeth | 8% | =13/21 | 4% | 9% | 19% |
| % ar gyfarpar ac adeiladau | 1% | =19/21 | 0% | 2% | 29% |
| % ar gostau gweithredol eraill | 25% | =5/21 | 1% | 15% | 38% |

# Dadansoddiad o berfformiad

Mae modd rhannu'r Hawliau Craidd a'r dangosyddion ansawdd yn dri phrif faes. Mae'r adran hon o'r adroddiad yn amlinellu perfformiad o dan y meysydd hyn.

## Bodloni anghenion cwsmeriaid (DA 1-2, 4-5)

Mae Wrecsam wedi cynnal arolwg cwsmeriaid sy'n oedolion eleni (DA1 a DA2). Er bod ymatebion yn is na'r canolrif cenedlaethol, mae'n perfformio'n dda o hyd mewn sawl maes, yn arbennig, gofal cwsmeriaid a'r sgôr gyffredinol, sy'n cael eu barnu'n dda neu'n dda iawn gan dros 95% o gwsmeriaid. Fodd bynnag, mae sgôr cyfleusterau TG yn bryder, am mai dim ond dwy ran o dair o'r cwsmeriaid a atebodd yr arolwg a farnodd fod y rhain yn dda neu'n dda iawn (DA2). Ni chynhaliwyd unrhyw arolwg plant yn ystod cyfnod Estyniad Fframwaith 6, felly nid yw'n bosibl cynnig sylw am brofiadau pobl ifanc o'r gwasanaeth llyfrgell.

Mae'r gwasanaeth yn bodloni'r targed ym maes Iechyd a lles (DA4) yn llawn. Ymhlith y gweithgareddau sy'n gysylltiedig ag iechyd a lles mae grwpiau hel atgofion, grwpiau crefft, grwpiau cyfeillgarwch, a grwpiau gweu a sgwrs. Mae'r gwasanaeth bellach wedi sicrhau partner i ddarparu sesiynau hyfforddiant TG. Fodd bynnag, mae'r partner yn cynnal ei werthusiad ei hun, felly nid oes unrhyw ddata ar gael ynghylch a gyflawnodd mynychwyr eu diben trwy fynychu. Mae Wrecsam yn chwartel isaf awdurdodau llyfrgell Cymru am nifer y sesiynau hyfforddiant ffurfiol am bob pen o'r boblogaeth. Nid oes cofnodion yn cael eu cadw am nifer y cwsmeriaid a gafodd eu helpu'n anffurfiol yn ystod y flwyddyn (DA5).

## Mynediad a defnydd (DA 6-8)

Mae Wrecsam yn parhau i fod yn uwch na'r canolrif ar gyfer y nifer sy'n mynychu digwyddiadau am bob pen o'r boblogaeth, er bod niferoedd mynychu ychydig yn is nag yr oeddent yn 2023-24 (3% yn is) (DA6). Er mwyn ymestyn ei gymorth i gwsmeriaid â gofynion arbennig, cynhyrchodd y gwasanaeth daflen o'r teitl, "Dwi'n mynd i'r Llyfrgell" ar gyfer pobl niwrowahanol er mwyn eu helpu i baratoi i ymweld â'r llyfrgell.

Mae Wrecsam yn bodloni'r maes Lleoliad mannau gwasanaeth (DA7) yn llawn. Er bod ymweliadau rhithwir yn parhau i fod yn is na'r canolrif, maent wedi mwy na dyblu o gymharu â 2023-24 ac wedi cynyddu 258% o gymharu â 2022-23 (DA8). Mae e-fenthyciadau'n is na chanolrif awdurdodau llyfrgell Cymru, ac mae'r ffigur wedi cynyddu 1% yn unig o 2023-24.

### Arbenigedd a chapasiti (DA 13-14 ac 16)

Fel oedd yn wir yn 2023-24, nid yw Wrecsam yn bodloni'r targedau am gyfanswm staff na staff cymwysedig am bob pen o'r boblogaeth, ac mae'n parhau i fod yn is na chanolrif awdurdodau llyfrgell Cymru am y ddau fesur (DA13). Nid yw niferoedd staff wedi newid ers 2023-24. Fodd bynnag, mae'r gwasanaeth yn parhau i fod yn ymrwymedig i ddatblygiad staff, ac mae'n rhagori ar y targed ar gyfer y mesur hwn.

Mae gwariant refeniw am bob pen o'r boblogaeth wedi cynyddu 10% o gymharu â 2023-24, er bod Wrecsam yn is na'r canolrif ar gyfer gwariant gweithredol (DA14). At hynny, er bod y gyllideb lyfrau'n parhau i fod yn is na'r canolrif, mae wedi cynyddu 52% o gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

Nid yw Wrecsam yn bodloni'r targed am oriau agor, ac mae'n parhau i fod yn chwartel isaf awdurdodau llyfrgell Cymru ar gyfer y mesur hwn (DA16). Mae oriau agor a adroddwyd wedi gostwng 4% o gymharu â 2023-24. Fodd bynnag, nid yw'r ffigur oriau agor yn cynnwys y Gwasanaeth Llyfrgell Pop Yp/Cludo i'r Drws, sy'n amrywio gan ddibynnu ar argaeledd lleoliadau cymunedol.

## Y cyd-destun strategol

Yn rhan o'r ffurflen, mae gofyn i awdurdodau adrodd ar y ffordd mae'r gwasanaeth llyfrgelloedd yn cyfrannu at flaenoriaethau a nodau strategol ehangach Llywodraeth Cymru. Amlygodd Wrecsam amrywiaeth o ffyrdd mae'n cefnogi blaenoriaethau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol, gan gynnwys Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Chynllun 2020-28 y Cyngor. Ymhlith yr enghreifftiau mae:

- **Dileu anghydraddoldebau.** e.e. dynodi llyfrgelloedd yn 'Hybiau Cynnes' yn ystod misoedd y gaeaf i gefnogi trigolion a staff sy'n cael eu heffeithio gan yr argyfyngau costau byw ac ynni; darparu gofodau cynhwysol a chroesawgar lle gall unigolion ddarllen, gwefru dyfeisiau, defnyddio Wi-Fi a chymryd rhan mewn ystod eang o weithgareddau am ddim gan gynnwys sesiynau blasu, dysgu amser cinio, clybiau Lego a grwpiau darllen. Mae darparu gwasanaeth argraffu Wi-Fi yn caniatáu i ddefnyddwyr argraffu o'u cartref neu eu car ac yna casglu’r hyn a argraffwyd o gangen eu llyfrgell leol pan fydd hi'n gyfleus iddynt, gan gefnogi mynediad digidol a chynhwysiant i bobl a allai wynebu rhwystrau technolegol neu ariannol.
- **Hyrwyddo'r Gymraeg a diwylliant Cymru** e.e. darparu gwasanaeth dwyieithog ar draws pob safle; hyrwyddo adnoddau Cymraeg ym mhob dull cyfathrebu; cynnal sesiynau stori a rhigwm yn Gymraeg; hwyluso ymweliadau ysgolion Cymraeg â llyfrgelloedd; cefnogi grwpiau darllen Cymraeg; cynnal

digwyddiadau awduron; darparu sesiynau Magi Ann/Seren a Sbarc; cynnal sianeli cyfryngau cymdeithasol Cymraeg dynodedig; a dosbarthu cylchlythyr dwyieithog i danysgrifwyr. Mae grŵp mewnol dynodedig (y Tîm Cymraeg) yn cydlynu marchnata a gweithgareddau'n gysylltiedig â'r Gymraeg, a chaiff Brawddeg yr Wythnos ei chylchredeg bob wythnos i holl staff y llyfrgelloedd.

## Cyfeiriad at y dyfodol

Gan adrodd ar gyfeiriad yr awdurdod at y dyfodol, a'i gynlluniau ar gyfer y gwasanaeth llyfrgell dros y flwyddyn sydd i ddod, mae Wrecsam yn adrodd ei fod yn parhau i weithredu o dan bwysau ariannol sylweddol, gyda gostyngiadau ariannol blynyddol a lefelau staffio cyfyngedig. Yn unol â phwysau cyllidebol ar Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, mae Gwasanaeth Llyfrgelloedd a Gwybodaeth Wrecsam yn destun adolygiad gyda'r dasg o dorri £185,000 oddi ar y gyllideb tra'n ymdrechu i ddarparu gwasanaeth llyfrgell cynhwysfawr gydag effaith finimol ar randdeiliaid. Er gwaethaf y pwysau hwn, mae Wrecsam yn adrodd bod y Cyngor yn parhau'n ymrwymedig i gynnal gwasanaeth llyfrgell cyhoeddus modern, gwydn a pherthnasol i drigolion, ymwelwyr a chymunedau. Mae adleoli ystafell chwilio gyhoeddus Archifau Wrecsam i Lyfrgell Dinas Wrecsam yn 2024 wedi cryfhau cynnig llyfrgellol canol y ddinas ymhellach. Wrth edrych ymlaen, mae'r gwasanaeth yn ymrwymedig i archwilio cyfleoedd i gydleoli gwasanaethau, sefydliadau neu fusnesau eraill mewn adeiladau llyfrgell i gyfoethogi'r profiad i gwsmeriaid a chreu modelau cydweithredu mwy cynaliadwy o ddarparu gwasanaethau.

## Casgliad

Er bod rhai elfennau cadarnhaol yn adroddiad eleni, gan gynnwys cynyddu'r nifer sy'n mynychu digwyddiadau a chyllideb lyfrau fwy, a ddylai helpu i sicrhau bod cwsmeriaid yn cael mynediad at adnoddau cyfoes a deniadol, mae'r sefyllfa yn llyfrgelloedd Wrecsam yn peri pryder mawr. Yn arbennig, mae'r ffaith bod Wrecsam yn bodloni 9 yn unig o'r 13 Hawl Graidd yn llawn yn fater y mae angen i'r awdurdod fynd i'r afael ag ef ar fyrder. Mewn perthynas â pherfformiad yn erbyn y dangosyddion ansawdd, mae'n siomedig bod oriau agor wedi gostwng ymhellach eleni. Mae'n amlwg bod staff llyfrgell Wrecsam yn gwneud ymdrechion i wella'r gwasanaeth i gwsmeriaid, ac mae hyn i'w weld yn y 97% o gwsmeriaid a atebodd yr arolwg a farnodd fod gofal cwsmeriaid yn dda neu'n dda iawn. Fodd bynnag, ymhlith y materion sy'n peri pryderon difrifol yn ffurflen eleni mae'r canlynol: y diffyg ymgynghori â phlant a phobl ifanc i sicrhau bod y gwasanaeth llyfrgell yn ateb eu hanghenion (DA1a2 a HG11); bylchau parhaus yn y data a ddarperir, yn arbennig mewn perthynas â chymorth anffurfiol a ddylai fod yn rhan annatod o gynnig y llyfrgell i gwsmeriaid (DA5); a phryderon am lefel y ddarpariaeth TG (DA2 a HG7).